



Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.30 y.h., DYDD IAU, 14EG MAI, 2026

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Annes Sion

01286 679490

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD 8 Mai 2026)

Ian Jones

Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

www.gwynedd.llyw.cymru

DYDD MERCHER, 6 MAI 2026

Annwyl Gynghorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 14 MAI 2026

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 14EG MAI, 2026 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig

Annibynnol – Siambr Hywel Dda

Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

RHAGLEN

1. CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd ar gyfer 2026/27.

2. IS-GADEIRYDD

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2026/27.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. COFNODION

7 - 18

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 5ed Mawrth, 2025 fel rhai cywir.

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

7. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

8. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau etholedig, y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

9. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-28 - ADOLYGIAD 2026/27

19 - 55

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor.

10. MABWYSIADU STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD NEWYDD I WYNEDD

56 - 131

Cyflwyno adroddiad Yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned.

11. ARDOLL YMWELWYR

132 - 289

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned.

12. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR 290 - 294

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth.

13. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2026/27

Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2026/27.

[Yn unol â gofynion Adran 14 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y Cyngor llawn sydd i benodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.]

14. PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU - ARGYMHELLION PANEL CYFWELD - 295 - 296

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

15. RHYBUDDION O GYNNIG

A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD EINIR WILLIAMS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Einir Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

Amddiffyn Enwau Lleodedd Cymraeg ar Fapiau'r Arolwg Ordnans

Dwi eisiau mynegi pryder dwfn ac angerddol ynghylch polisi presennol yr Arolwg Ordnans (AO) sy'n arwain at ddileu, tanseilio ac anwybyddu enwau lleodedd Cymraeg sydd wedi bod yn rhan o'n tirwedd ers canrifoedd.

Ar hyn o bryd, mae mapiau Arolwg Ordnans yn:

- Disodli enwau Cymraeg hanesyddol â ffurfiau Saesneg nad oes ganddynt sail na thraddodiad, e.e. *The Mushroom Garden* am Goed Cerrig y Frân, *Heather Terrace Path* am Lwybr Gwregys.
- Rhoi enwau Saesneg ochr yn ochr ag enwau Cymraeg, gan greu'r argraff bod yr enwau Cymraeg yn ddewisol neu'n eilradd, e.e. *Cwm Cneifion / Nameless Cwm*, *Bala Lake / Llyn Tegid*. 'Snowdon/Yr Wyddfa (er gwaethaf y ffaith nad yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn defnyddio'r enw *Snowdon* bellach.)'

Mae'r Cyngor hwn yn beirniadu'r arferion hyn, gan eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at golli enwau Cymraeg, ac felly'n tanseilio ein hiaith, ein hanes a'n hunaniaeth genedlaethol. Pan fo'r Arolwg Ordnans yn mabwysiadu enw Saesneg, mae'n ymddangos ar wefannau, arwyddion, cyhoeddiadau, a'r cyfryngau ac o ganlyniad, mae'r enw Cymraeg yn cael ei wthio i'r cysgod.

Mae hyn yn digwydd hyd yn oed ymhlith siaradwyr Cymraeg ifanc, sydd yn aml yn cael eu harwain i gredu mai'r enw Saesneg yw'r "safonol". Dyma sut mae iaith yn cael ei gwanhau, nid mewn un

ergyd, ond mewn mil o gamau bach.

Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan o'n DNA diwylliannol. Maent yn adrodd hanes y tir, y bobl, y chwedlau, y gwaith, y bywyd. Nid oes gan neb hawl i'w dileu na'u disodli.

Felly, dwi eisiau rhoi cynnig i'r cyngor hwn heddiw ein bod ni yn :

1. Ysgrifennu at yr Arolwg Ordans i alw arnynt i roi diwedd ar y polisi niweidiol presennol, ac i fabwysiadu egwyddor glir a syml a defnyddio enwau lleoedd tirweddol Cymraeg yn unig ar fapiau yng Nghymru.
2. Galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd yn ffurfiol ac i sicrhau bod yr Arolwg Ordans yn parchu ac yn diogelu enwau Cymraeg hanesyddol.

Nid yw hyn yn fater o fapiau yn unig. Mae'n fater o hunaniaeth, parch a chyfiawnder diwylliannol.

B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD NIA JEFFREYS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Nia Jeffreys yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae'r Cyngor yn nodi llofruddiaeth yr Aelod Seneddol, Jo Cox ar 16/06/2016, ddeng mlynedd yn ôl eleni. (Bu i'r AS David Amess hefyd gael ei lofruddio ar 15/10/2021).

Mewn byd sy'n gynyddol dreisgar ac ymosodol, trist yw'r ffaith bod aelodau etholedig, o bob plaid ac ar bob lefel o lywodraeth, yn gynyddol agored i sarhad a chamdriniaeth. Dengys ymchwil diweddar fod 72% o Gynghorwyr wedi dioddef ryw fath o fygythiad - boed yn eiriol neu'n waeth - yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r Cyngor hwn yn credu nad oes lle i ymddygiad bygythiol na threisgar mewn gwleidyddiaeth. Mae Cynghorwyr Cyngor Gwynedd yn ymrwmo i fodelu'r safonau uchaf o barch a chwarteisi wrth ymwneud â'n gilydd ac â'r cyhoedd, ac rydym yn dymuno i'r un parch gael ei ddangos tuag atom.

Galwn ar aelodau'r Cyngor hwn ac aelodau Cynghorau Cymuned a Thref drwy Wynedd i gefnogi ymgyrch Un Llais Cymru, NALC a SLCC "Adduned Parch a Chwarteisi".

[Un Llais Cymru](#)

16. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG 297 BLAENOROL

Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Gruffydd Williams i gyfarfod 5 Mawrth, 2026 o'r Cyngor ynglŷn a System Adnabod Digidol.

Y CYNGOR 05/03/2026

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Ioan Thomas (Cadeirydd)
Elin Walker Jones (Is-gadeirydd)

Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Robert Glyn Daniels, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Gwion Emyr, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, John Brynmor Hughes, R. Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Geraint Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Beca Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

Swyddogion:

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddiadau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Anwen Davies, Annwen Hughes, Louise Hughes, Arwyn Herald Roberts ac Elfed Roberts.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir, ynghyd a chofnodion y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar y 5 Chwefror 2026.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Bu i'r Swyddog Monitro, ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol, ddatgan buddiant ar eitem 9 gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau. Eglurwyd y bydd y Prif Weithredwr yn parhau yn y cyfarfodn ond petai trafodaeth ar ei gyflog yna byddai'r Prif Weithredwr yn ymneilltuo. Roedd o'r farn bod gan y swyddogion fuddiant o sylwedd fe adawodd y Swyddog Monitro, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Dymunwyd yn dda i'r Cyngorydd Louise Hughes a'i merch sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar, a'r Cyngorydd John Brynmor Hughes yn dilyn cyfnod mewn ysbyty. Mynegwyd fod nifer o aelodau'r Cyngor hwn wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar a dymunwyd iddynt i gyd adferiad llwyr a buan.

Nos Sadwrn bu i gystadleuaeth Cân i Gymru gael ei gynnal, llongyfarchwyd cyfansoddwyr a'r unawdydd a enillodd sef Emlyn Gomer o Gaernarfon, Gath Thomas o Ddinas Dinlle a Henry Priestman o Ynys Môn a'r gantores Sara Owen o Ddyffryn Nantlle.

Nodwyd llongyfarchiadau i Celyn a Caio o Rostryfan sy'n gyfrifol am gynhyrchu a dosbarthu Papur y Bobl - papur bro newydd i'r ardal. Yno gystal Jac Dei o Ysgol y Moelwyn sy'n prysur wneud enw iddo 'i hun yn y byd dartiau. Ynghyd a Rio Chung 12 oed o Fangor yn cynrychioli Cymru yn y Bencampwriaeth Ewropeaidd Biliards a Snwcer yn Gandia yn ystod y mis yma.

5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

6. CWESTIYNAU

(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)

1. Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen

Os nad ydych eisoes yn gwybod mae ymgyrch wedi ei ddechrau yn Harlech gan ddynes o'r enw Andrea Bowen I gael cofeb I Catrin merch Glyndŵr Mae hanes Catrin yn hynod o drist ac yn amlwg roedd yn ferch ddewr iawn.

Gai ofyn felly os buasai'r Cyngor yn gallu cefnogi mewn egwyddor yr ymgyrch gymunedol i godi cerflun o Catrin ferch Owain Glyndŵr yn Harlech, gan ystyried ei chysylltiad hanesyddol uniongyrchol â'r dref drwy Gastell Harlech, a'r ffaith nad oes ar hyn o bryd gofeb gyhoeddus yn cydnabod ei haberth a'i rôl yn hanes Cymru?

Ateb Yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd Medwyn Hughes

Diolch i'r Cynghorydd am ei gwestiwn. Mae gan Harlech ran amlwg yn hanes Cymru, ac mae hanes Catrin, merch Owain Glyndŵr, yn arwyddocaol yn yr hanes yma. Dwi'n siŵr byddai Cyngor Gwynedd yn cefnogi mewn egwyddor ymgyrch lleol i ddehongli'r hanes trwy greu cerflun o Catrin yn Harlech. Byddai'n gyfle gwyh i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r hanes i blant a phobl ifanc Gwynedd ac i ymwelwyr i'r dref a'r Castell, sydd wrth gwrs yn rhan o Safle Treftadaeth Byd. Gwn fod swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned yn barod iawn i gefnogi'r grŵp lleol, a dwi'n siŵr bydd gwasanaethau eraill o'r Cyngor hefyd yn cefnogi'r ymgyrch i adnabod safle addas ar gyfer y gofeb.

Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Gwynfor Owen

Diolchwyd am yr ymateb a'i fod yn edrych ymlaen at drafod y mater gyda'r swyddogion. Mynegwyd ei fod yn credu fod yr Adran yn siŵr o gytuno ei fod yn syniad da i gael cerflun o ferch yng ngogledd Cymru gan mai dim ond cofeb o ferch sydd i'w gweld ar draws Cymru gyfan.

Ateb yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd Medwyn Hughes

Cytunodd yr Aelod Cabinet i'r carn.

2. Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Brown

Cyhoeddwyd adroddiad gan Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2021 yn asesu pa mor llwyddiannus neu beidio oedd Ffordd Gwynedd. Mae darn o'r adroddiad sy'n dwyn y teitl 'Diwylliant - Grymuso, Ymddiriedaeth ac Arweinyddiaeth' yn rhybuddio am ddwy broblem, sef bod her adeiladol yn cael ei hatal a bod rhywfaint o her ddinistriol yn bodoli, yn aml gan rai mewn awdurdod - rhywbeth sy'n tanseilio ymddiriedaeth ac yn atal grymuso.

Mae'r ddau fater yn cyfrannu at yr un risg systemig: diwylliant ble nad yw pryderon yn cael eu codi'n effeithiol, ble nad yw syniadau'n cael eu rhannu'n ddiogel, a ble gall arferion anniogel fynd heb eu herio. Amlygwyd rhai o ganlyniadau diwylliant o'r fath yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

O ystyried bod y pryderon hyn wedi eu codi yn 2021 - ddwy flynedd cyn arestio Neil Foden - beth wnaethpwyd ar y pryd i wella ymddiriedaeth a cheisio datblygu diwylliant gwaith sydd yn grymuso herio iach ac adeiladol?

Ateb Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, y Cynghorydd Llio Elenid Owen

Ffordd Gwynedd yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ein ffordd ni o weithio yma yng Ngwynedd. Mae'n ffurfio 9 ffrwd gwaith sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Sefydliad. Mae pwyslais ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud ac edrych ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu trwy lygaid y dinesydd.

Cynlluniwyd darn o waith ar y cyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru i edrych ar sut oedd y diwylliant wedi gwreiddio erbyn 2020. Allbwn y gwaith hwnnw oedd llythyr yn crynhoi'r sefyllfa.

Prif gasgliad Archwilio Cymru yn y llythyr oedd bod:

"Ffordd Gwynedd yn ymwreiddio'n dda ac yn sbarduno newid diwylliannol, fodd bynnag, mae yna rai rhwystrau a chamsyniadau cyffredin yn bodoli sy'n arafu cynnydd Ffordd Gwynedd".

Roedd y gwaith a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei seilio ar gyfweiliadau gyda phob Pennaeth Adran a Chyfarwyddwr ar y pryd. Ymysg nifer o gasgliadau ac argymhellion adeiladol, adnabuwyd herio dinistriol fel un rhwystr:

"...er mwyn teimlo eich bod wedi eich grymuso, mae angen gallu ymddiried yn y rhai o'ch cwrmpas. Mae angen iddynt fod yn gefnogol ac yn gadarnhaol, hyd yn oed wrth herio. Mae amgylchedd diogel yn allweddol, sef man diogel i arbrofi ac i edrych i mewn i syniadau. Man lle mae'n ddiogel i fethu a dysgu, gan geisio cefnogaeth a mewnbwn gan gydweithwyr. Yn amlwg, ar lefel uwch yn unrhyw sefydliad mae angen cynhenid i dderbyn ac ymateb i her, mae'n rhan o'r swydd. Ond rhaid ei wneud mewn ffordd adeiladol, gefnogol neu, fel arall, gall fod yn wrthgynhyrchiol. Ar hyn o bryd, yn y Cyngor, mae yna enghreifftiau lle nad yw'r berthynas hon o ymddiriedaeth a her adeiladol yn bodoli; caiff her ei disgrifio'n aml yng ngeiriau rhai pobl a caiff ei gweld gan eraill fel rhywbeth dinistriol."

Mewn ymateb i lythyr y Swyddfa Archwilio, o ganlyniad uniongyrchol i'r sylwadau hyn, cymerwyd camau penodol gan swyddogion y Cyngor yn ystod 2021 i gryfhau ymddiriedaeth, ac i ddatblygu diwylliant yn bellach.

Yn dilyn apwyntio Prif Weithredwr newydd yn Mai 2021, un o'r camau cyntaf a gymerwyd ganddo oedd i geisio sicrhau fod pob her yn adeiladol ei natur. Newidiwyd ethos y cyfarfodydd Herio Perfformiad Adrannol i un lle'r oedd diwylliant a phwyslais o "Herio a Chefnogi". Roedd y newid hwn yn cefnogi dwy egwyddor sylfaenol:

1. **Herio iach ac adeiladol**, wedi ei seilio ar dystiolaeth ac arweinyddiaeth glir; a
2. **Cefnogi perfformiad** drwy gryfhau sgiliau rheoli, sicrhau cysondeb, a meithrin agwedd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu yn hytrach na beirniadu.

Ers hynny, mae'r trefniadau newydd wedi dod yn rhan o drefn lywodraethu'r Cyngor.

Yn ychwanegol i hyn:

1. Adolygwyd y pecyn hyfforddi i Reolwyr gan sicrhau ei fod yn cynnwys hyrwyddo'r diwylliant o herio adeiladol. (Rhoddwyd hyfforddiant tebyg i Aelodau Etholedig yn dilyn etholiad Mai 2022.)
2. Cyflwynwyd llythyr y Swyddfa Archwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng Ngorffennaf 2021 a Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen o Aelodau'r Pwyllgor i gydweithio â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i wneud Adolygiad manwl o sut oedd y ffordd o weithio yn datblygu drwyddi draw.
3. Bu i'r Adolygiad gynnwys asesiad gan bob Tîm Rheoli Adrannol o sut oedd eu hadran yn gweithredu'r ffordd o weithio.
4. Adroddwyd ar gasgliadau'r Adolygiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Hydref 2022 gyda nifer o argymhellion am sut i barhau i ddatblygu'r ffordd o weithio.

Trafodwyd casgliadau'r Adolygiad yma yng nghyfarfod Ionawr 2023 o Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ac eto wrth fabwysiadu fersiwn newydd o Gynllun Ffordd Gwynedd 2023-28 yng nghyfarfod y Cabinet ym Mawrth 2023.

Mynegwyd amryw o sylwadau gan yr aelodau cabinet ar y pryd am wahanol elfennau o Ffordd Gwynedd gan gynnwys cydraddoldeb, gweithio gyda phartneriaid allanol a phwysigrwyd edrych ar wasanaethau'r Cyngor drwy lygaid y defnyddwyr.

Mae hi bellach hanner ffordd drwy'r cynllun a fabwysiadwyd yn 2023 ac mae'n fwriad gan y Prif Weithredwr i gynnal adolygiad pellach o'r cynnydd dros y misoedd nesa. Mae adolygu a gwirio diwylliant sefydliadol yn rhywbeth ddylai ddigwydd yn barhaus ac yn bendant yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Mae adroddiad Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder wedi ysgwyd y Cyngor cyfan ac yn berthnasol iawn wrth fynd ati i adolygu Ffordd Gwynedd. Bydd yn hanfodol sicrhau mewnbwn Aelodau i'r Adolygiad hwn a byddwn yn gofyn am fewnbwn Swyddfa Archwilio Cymru y tro hwn hefyd.

Fel bob amser, wrth drafod y pwnc pwysig yma, y dioddefwyr sydd ar flaen ein meddyliau. Dwi'n ategu ymddiheuriadau'r Cyngor hwn i'r dioddefwyr a phawb gafodd eu heffeithio gan y troseddau. Trwy'r Cynllun a'r Bwrdd Ymateb mae gweithredu yn digwydd er mwyn gwneud yn siŵr fod newid, gan gynnwys newid i ddiwylliant y Cyngor ar waith; hyn ydi'r deyrnged fwyaf y gallwn ei dalu i ddewrder y dioddefwyr.

Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Beca Brown

Ag ystyried fod llythyr Archwilio Cymru 2021 yn codi pryderon am ddiwylliant sefydliadol sydd yn berthnasol i'r materion a archwiliwyd yn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, ac nad yw'n ymddangos fod y ddogfen hon wedi cael ei rhannu ag yr adolygiad ymarfer plant, allwch chi egluro pa dystiolaeth sydd yna fod y camau a nodwch megis hyfforddiant a newidiadau i gyfarfodydd herio perfformiad wedi gwella ymddiriedaeth a gallu pobl i godi pryderon yn ddiogel.

Ateb yr Aelod Cabinet Wasanaethau Corfforaethol, y Cynghorydd Llio Elenid Owen

Bu i Gyngor Gwynedd gydymffurfio a chydweithio yn llawn gyda'r adolygiad ymarfer plant, cafodd cronolegau manwl a thrylwyr ei pharatoi a rhannwyd cannoedd o ddogfennau gydant hwy. Bu i wybodaeth gefndirol hefyd gael ei rannu mewn ymateb i geisiadau pellach wrth i'r adolygiad fynd yn ei blaen. Rydym yn derbyn pob argymhelliad a gyflwynwyd gan Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder ac yn benderfynol ar weithredu ar bob un o'r rhain drwy'r Cynllun Ymateb. Mae ymddiriedaeth yn rhywbeth hynod o anodd ei fesur fel sydd wedi ei grybwyll yn yr ateb. Mae adolygiad o ffordd Gwynedd ar y ffordd yn dilyn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a bydd cyfle i aelodau fod yn rhan o'r adolygiad hwnnw.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod nifer o gwestiynau yn codi am sut mae'r dreth cyngor yn cael ei wario. Cyflwynwyd gwybodaeth a oedd yn amlygu'r prif feysydd megis bod 80% o'r arian yn mynd tuag at Addysg a'r maes Gofal. Amlygwyd fod 8,000 o oriau'r wythnos yn cael ei roi i ofal cartref bob wythnos, gyda 1500 o unigolion yn cael gwasanaeth Teleofal. Nodwyd fod 12,000 o bobl wedi cael cymorth drwy'r cynllun Gweithredu Tai ers 2020. Tynnwyd sylw at y ffigwr fod 93% o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd drwy ymyrraeth trobwynt, a bod 2 Gartref Bychan yn weithredol gyda 2 gartref arall ar y ffordd. Mynegwyd fod gwaith da yn cael ei wneud a bod angen amlygu'r llwyddiannau sydd yn cael ei gwneud gan staff y Cyngor.

Cyflwynwyd y gyllideb gan nodi fod angen cychwyn gyda'r rhagolygon ariannol o'r flwyddyn ariannol bresennol er mwyn deall sefyllfa yn llawn. Amlygwyd fod £5.3m o orwariant, ble nad oedd cyllidebau'r adrannau ddim yn ddigon i ddiwallu'r galw am wasanaeth. Esboniwyd mai yn y maes gofal oedd y prif alw gyda diffyg o £3m yn yr adran Oedolion a £1.8m yn Adran Blant. Ategwyd fod y gorwariant wedi'i gyllido drwy ddefnydd o gronfeydd. Mynegwyd oherwydd y fargen a wnaethpwyd yng Nghaerdydd ddiwedd flwyddyn ddiwethaf, roedd y setliad yn llawer gwell na pheth oedd wedi ei ragweld sef 4.1% - sef £10.4m yn ychwanegol.

Eglurwyd fel rhan o'r broses o osod cyllideb fod yr adran wedi gwneud nifer o ragdybiaethau megis codiad cyflog o 4% i athrawon a 3.4% i weddill gweithlu'r Cyngor. Nodwyd ynghyd a chwyddiant naturiol fod angen buddsoddi mewn gwasanaethau, a mynegwyd fod cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn i ddod megis buddsoddiad yn y gwasanaethau gofal ac addysg.

Amcangyfrifir y bydd angen gwario oddeutu £23.3m ychwanegol y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn cynnal ein gwasanaethau gyda'r pwysau mwyaf yn dod o chwyddiant cyflogau, chwyddiant cyffredinol a'r cynnydd mewn galw am wasanaethau. Nodwyd fod hyn yn creu gofyniad gwario ar gyfer 2026/27 yn £380m. Esboniwyd fod setliad gan Lywodraeth Cymru yn £264m sydd yn gadael bwlch o £116m. O ran arbedion, amlygwyd fod gwerth £664,000 wedi eu cymeradwyo yn barod, gyda chwarter miliwn ar gael i gael ei gyfrifo'r bwlch ariannu. O ganlyniad, er mwyn gosod cyllideb gytbwys bydd hyn yn golygu codi'r Dreth Cyngor i 5.17%.

Eglurwyd bod y sylfaen drethiannol yn cynyddu i ychydig o dan 58k o anheddau oherwydd cynnydd yn nifer yr eiddo, y nifer sy'n destun y Premiwm Treth Cyngor ar benderfyniad i gynyddu premiwm ar eiddo gwag hir dymor. Mynegwyd ei bod yn siomedig iawn bod y cynnydd yn y dreth yn uwch na chwyddiant unwaith eto, ond fod y sefyllfa llawr iawn gwell na beth oeddent yn ei ofni yn ôl ym mis Rhagfyr.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid Statudol sylw at Ddatganiad Adran 25 yn yr atodiadau, sydd yn ddatganiad personol ganddo yn amlygu cadernid amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru. Pwysleisiodd fod adroddiad tymor canolig wedi ei dderbyn gan y Cabinet yn ôl ym mis Medi, a bod y rhagolygon yn cael ei diweddarau'n gyson ac ar sail y wybodaeth ddiweddaraf. Mynegodd fod derbyn setliad blynyddol yn heriol, ac y bydd canlyniad etholiad y Senedd ym mis Medi gydag oblygiadau i'r Cyngor.

Amlygwyd cyd-destun y gyllideb drwy edrych ar ddiffyg cyllidebol eleni sydd yn amlygu'r pwysau ariannol ychwanegol sydd ar wasanaethau yn benodol gofal cymdeithasol. Eglurwyd fod argymhelliad i ariannu £9.9m o fidiau er mwyn mynd i'r afael a hyn. Er gwaethaf hyn, nododd fod gan y Cyngor hanes llwyddiannus o gydymffurfio a safonau ariannol, codau ymarfer a threfniadaeth llywodraethu gadarn sydd yn cael ei gadarnhau yn flynyddol gan arianwyr allanol. Eglurwyd fod graddau chwyddiant wedi lleihau i 2%, ond fod digwyddiadau gwleidyddol dros yr wythnos diwethaf yn gallu eu heffeithio. Er hynny, nododd ei fod yn n parhau yn hyderus bod y rhagolygon y gadarn.

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, amlygwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i wneud arbedion dros y blynyddoedd ond fod pwysau yn parhau i wireddu, ond fod camau lliniaru yn

ei lle er mwyn ymdopi. Adroddwyd fod £110m yn y cronfeydd wrth gefn, gyda £7.9m yn y balansau cyffredinol yn ogystal. Eglurwyd fod y balansau cyffredinol ar lefel rhesymol ond fod angen ei adolygu. Cyfeiriwyd fod Archwilio Cymru wedi adolygu sut mae'r Cyngor yn rheoli balansau ac wedi nodi ar y cyfan fod y Cyngor yn adeiladol ac yn rhoi sicrwydd fod trefniadau i ddelio a chronfeydd.

Nodwyd drwy'r gwaith gofynnol a wnaed i adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon sydd yn sail i'r gyllideb, ac wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn fod Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn gadarn, yn ddigonol a chyraeddadwy.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd pwysigrwydd y penderfyniad i osod cyllideb mewn cyfnod o bwysau ariannol, a diolchwyd i Blaid Cymru am ddod i gytundeb a Llywodraeth Lafur. Pwysleisiwyd nad oes neb yn awyddus i godi'r dreth yn wyneb pwysau ariannol ar drigolion. Amlygwyd fod gwaith arbennig yn cael ei wneud ar gyllideb sydd ar gael a hynny heb wneud toriadau i wasanaeth rheng flaen. O ran yr adran blant nodwyd fod cynnydd sylweddol wedi bod gydag unigolion gydag anghenion cymhleth dwys sydd angen ymyrraeth arbenigol. Nodwyd nad yw'n gyllideb hawdd ond ei bod yn gyfrifol ac yn blaenoriaethu plant a phobl fregus.

Diolchwyd am yr adroddiad a gofynnwyd o ran yr asesiad ariannol pa mor gyfamserol yw'r asesiad oherwydd digwyddiadau'r wythnos diwethaf, a bod costau olew wedi codi yn aruthrol. Mynegwyd fod yr adroddiad wedi ei chyhoeddi dros wythnos yn ôl, ac felly doedd dim modd bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau'r wythnos diwethaf. Er hynny, mae'r asesiad wedi ei greu gyda'r sefyllfa fel yr oedd hi dros wythnos yn ôl, ac felly gall roi sicrwydd ei fod yn gywir pan gafodd ei anfon. Mynegwyd fod arian wrth gefn ar gyfer unrhyw gostau a all godi megis costau ynni, ac felly y byddai'r Cyngor yn gallu ymdopi a chynnydd mewn costau.

Bu i'r Aelod Cabinet dros Oedolion nodi ei fod yn croesawu'r ymdrech i osod cyllideb gytbwys. Nododd ei fod yn ddyddiol yn gweld cynnydd yn y maes, a bod y penderfyniad i ddiogelu £9.9m ar gyfer y pwysau ychwanegol yn arwyddocaol i sicrhau gwasanaethau. Amlygodd fod gosod y gyllideb yn dangos cefnogaeth i staff rheng flaen ac yn adlewyrchu gwir gost gofal er mwyn cynnal ansawdd, cadw staff ac osgoi methiannau. Cydnabwyd fod gosod cyllideb gynaliadwy yn sail i wasanaeth cynaliadwy er yn heriol i ddod o hyd i'r balans o godi treth a chynnal gwasanaethau. Pwysleisiwyd fod y gyllideb yn ddatganiad clir o werthoedd yr aelodau, y sir a'u hymrwymiad i ofalu am drigolion bregus.

Derbyniwyd sylwadau gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a nododd fod cost dysgu'r genhedlaeth nesaf yn uchel. Tynnwyd sylw penodol at Anghenion Dysgu Ychwanegol gan amlygu fod arian ychwanegol wedi ei nodi yn y gyllideb. Mynegwyd ei fod yn arian newydd sydd ddim yn tynnu oddi wrth unrhyw wasanaethau eraill. Er arian newydd yn cael ei groesawu nodwyd nad yw'r arian ddim yn ddigon a bod angen chwildro cenedlaethol. Amlygwyd fod arian ychwanegol wedi ei gynnig yn Lloegr ond nad oes arian cyfatebol am ei roi yng Nghymru. Er hynny nodwyd fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd arian sylweddol yn dod i Lywodraeth Cymru ar gyfer ADY. Addawodd pa bynnag blaid fydd yn arwain y Senedd ym mis Mai y bydd yn ceisio ei orai i ddylanwadau ac i dderbyn cyfran deg o'r arian.

Cytunwyd a sylwadau'r Aelod Cabinet dros Addysg gan bwysleisio'r angen i lobio'r arian a bod gwir angen chwildro cenedlaethol.

Mynegwyd er bod £7.9 ar gael ym malansau cyffredinol wrth gefn y Cyngor, amlygwyd fod hyn oddeutu 1.3% o'r gyllideb. Nodwyd yr angen i'w gryfhau a bod angen rhwng 3-5%.

Nodwyd fod Llywodraeth Ganolog dros y blynyddoedd wedi rhoi mwy a mwy o bwysau ar Lywodraeth Leol i gynnal gwasanaethau ar lefel is o gyllidebau. Pwysleisiwyd yr angen i gael yr arian i gyflawni gwasanaethau

Holwyd os oes gan y Cyngor fas data sydd yn monitro faint o bobl a oedd yn talu treth cyngor sydd bellach wedi gorfod mynd i gael budd-daliadau, er mwyn gweld beth yw'r patrwm dros amser. Nodwyd fod y wybodaeth gan yr adran am geisiadau am ostyngiadau i Wynedd, ond nid ar lefel genedlaethol. Cynigwyd sgwrs bellach gyda'r aelod er mwyn deall pa fath o wybodaeth maent ei angen.

PENDERFYNWYD

1. Sefydlu cyllideb o £379,701,110 ar gyfer 2026/27 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £264,009,390 a £115,691,720 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynydd o 4.75% sylfaenol ynghyd a 0.42% pellach i gyfarch ardoll gan yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac felly'n rhoi cyfanswm o 5.17%)
2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £40,179,430 yn 2026/27 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

8. STRATEGAETH GYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)

Cyflwynwyd yr eitem gan nodi fod yr adroddiad yn cyfarch y gofyn statudol ac i roi cyd-destun hir dymor i benderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddiadau gan ystyried y risg. Nodwyd fod y strategaeth yn priodi adroddiad y Gyllideb gyda'r Cynllun benthyg a buddsoddi drwy gyfuno'r rhaglen gyfalaf gyda'r ochor rheolaeth trysorlys.

Mynegwyd fod yr adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth. Eglurwyd gan ei fod yn faes technegol, fod cyflwyniad wedi ei roi ar agweddau Rheolaeth Trysorlys gan swyddogion o gwmni Arlingclose i geisio lledaenu dealltwriaeth o'r maes.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Holwyd pe byddent yn ystyried cael arian cyfalaf o'r cronfeydd wrth gefn, gan fod benthyg yn gallu golygu costau. Ymatebwyd drwy nodi fod hyn yn digwydd yn barod, ac nad yw'r Cyngor wedi benthyg yn allanol ers blynnyddoedd.

Mynegwyd gyda newid yn ffiniau ardal etholiadol newydd, efallai y bydd aelodau mewn lle anodd o ran lobio am awdurdod unigol ac yna bydd pwysau cynyddol ar y Cyngor i lobio llawer mwy. Ymatebwyd drwy nodi amser a ddengys ond fod posibilrwydd y bydd llais y Cyngor yn cryfhau.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2026/27.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL – POLISI TÂL Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol gan y Cyngor Llawn. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor Llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gynnal adolygiad blynyddol o gynladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn. Bu i'r Pwyllgor Penodi ystyried cynnwys y drafft o bolisi tal yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

Amlygwyd fod dau ran i'w ystyried. Eglurwyd fod codiadau cyflog blynyddol ar gyfer prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Eglurwyd fod y cyflogwyr ac undebau wedi dod i gytundeb yn ôl ym mis Gorffennaf ar gyfer 2025/26, sef cynnydd o 3.2% ar gyflog blynyddol prif swyddogion. Mynegwyd fod y broses ar fin dechrau ar gyfer 2026/27.

Yr ail elfen yw cyflogau staff o dan lefel prif swyddogion, ac eglurwyd fod y Cydgyngor yn pennu'r rhain yn ogystal. Amlygwyd fod yr undebau ar gyflogwr wedi dod i gytundeb ar gynnydd o 3.2% i'r holl staff ynghyd a dileu lefel 2 ar y strwythur tal. Nodwyd ei bod hi'n ddyddiau cynnar ar y trafodaethau ar gyfer 2026/27.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Amlygwyd y blynyddoedd diwethaf fod yr adroddiadau yn cael eu cymeradwyo gan y Swyddog Monitro a Chyllid ond ei fod eleni yn cael ei gymeradwyo gan eu dirprwyon. Ategwyd fod hyn yn amlwg yn fwy synhwyrol gan eu bod yn trafod cyflogau ond gofynnwyd pam y newid mewn trefn. Ymatebwyd drwy nodi nad oes newid bwriadol wedi ei wneud a'i fod yn arferiad i ddirprwyon fod yn cymeradwyo'r adroddiad ond bydd y Prif Weithredwr yn edrych i mewn i hyn.

PENDERFYNWYD

Mabwysiadwyd y Datganiad o Bolisi Tâl drafft ar gyfer 2026/27.

10. PARTNERIAETH PENSIWN Cymru (PPC) – DIWEDDARU'R CYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD (IAA)

Bu i'r Swyddog Monitro amlygu'r rhesymau dros gyflwyno'r adroddiad hwn gan nodi fod y Cyngor yn ôl ym mis Gorffennaf wedi cytuno, gyda'r wyth awdurdod sy'n rhan o'r pwl buddsoddi i sefydlu cwmni. O ganlyniad i hyn, eglurwyd fod y Cydbwyllgor yn parhau ond o fewn cyfundrefn newydd. Amlygwyd mai dim ond y Cyngor Llawn sydd a'r hawl i newid y cylch gorchwyl, a bod angen addasu rôl y cydbwyllgor a chymeradwyo'r addasiadau cyn i'r cwmni fod yn weithredol ac i sicrhau craffu llawn o'i gwaith.

Bu i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau nodi fod y Pwyllgor Pensiynau yn un trawsbleidiol a'u bod yn unfrydol gyda'r argymhelliad sydd wedi'i i gyflwyno. Eglurwyd fod gwaith enfawr wedi ei wneud i baratoi tuag at y newid i fod yn gwmni. Mynegwyd fod y mater yn un cymhleth ond fod y Pwyllgor wedi cymryd pob cam posib i sicrhau fod y penderfyniad hwn yn gywir ac wedi ei graffu yn llawn.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn chwilio am gymeradwyaeth i ddiweddaru'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod rhwng yr wyth Cyngor yng Nghymru sy'n gweinyddu cronfeydd Pensiwn. Cymeradwywyd y cytundeb yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn ar 2il Mawrth 2017, er mwyn sefydlu pwl buddsoddi ar gyfer cronfeydd pensiwn Cymru. Eglurwyd fod addasiadau wedi ei gymeradwyo yn ôl yn Hydref 2021. Pwysleisiwyd fod y drefn a sefydlwyd dan y gyfundrefn wedi gweithio yn dda gyda chydweithio effeithiol gyda'r bwriad o arbed ffioedd rheolwyr buddsoddi drwy fuddsoddi ar raddfa fwy.

Serch hynny, mae rhaglen "Addas ar gyfer y Dyfodol" Llywodraeth San Steffan dros y ddeunaw mis diwethaf wedi golygu ein bod yn cael ei gorfodi i newid. Bu i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf gymeradwyo ffurfio endid corfforaethol sy'n berchnogaeth llwyr Awdurdodau Gweinyddu Partneriaeth Pensiwn Cymru, sef Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC, ac i gymeradwyo'r holl gamau eraill sy'n angenrheidiol i gyflwyno cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer awdurdodi'r cwmni.

Eglurwyd fod y newidiadau sydd wedi ei gorfodi wedi golygu gwaith sylweddol ynghyd ag amser ac adnoddau. Bydd y cwmni newydd i fod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2026. Er hyn mae un cytundeb arall na all y Cyngor ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Pensiynau sef y Cytundeb Rhyng-Awdurdod. Amlinellwyd yr addasiadau sydd wedi ei wneud i'r cytundeb, gan egluro eu bod wedi bod yn destun gwaith gan ymgynghorwyr cyfreithiol. Mynegwyd fod nifer o drafodaeth wedi bod i gadw golwg o'r datblygiadau ac felly eu bod yn hyderus ei fod wedi ei graffu yn briodol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd cefnogaeth i'r penderfyniad gan bwysleisio nad oes llawer o ddewis, ond fod y Pwl yn gobeithio y byddant yn parhau i weithio yn dda gyda'i gilydd.

Mynegwyd gyda'r perfformiad da sydd wedi bod i'r pwl fod risgiau amlwg o beidio arwyddo hwn. Eglurwyd fod gwaith wneud ei wneud i sicrhau fod modd parhau i weithio fel partneriaeth ond y prif bryder yw ei fod wedi ei orfodi arnom.

Holwyd os oes buddiant os aelod yn rhan o'r cynllun pensiwn, nodwyd nad oes.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd y diwygiadau i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Awdurdodwyd y Pennaeth Cyfreithiol mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid i gymryd y camau angenrheidiol i gwblhau'r cytundeb.

11. DIWYGIADAU I GÔD YMDDYGIAD YR AELODAU A PHOLISI CHWYTHU'R CHWIBAN Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro gan nodi fod yr adroddiad yn amlygu newidiadau i'r cyfansoddiad. Nodwyd fod dau agwedd, y cyntaf yw diwygio'r cod ymddygiad yn unol ar Reoliadau Llywodraeth Leol a ddaeth i rym ym mis Ionawr. Mynegwyd ei fod yn fan newid, yn syml o ran geiriad yn y Cod Ymddygiad ac Egwyddorion Ymddygiad wrth drafod cydraddoldeb yn flaenorol roedd rhyw, hil, anabledd a chrefydd er enghraifft wedi ei rhestru yn unigol, ond fod y diwygiad yn ei addasu i fod yn "nodweddion gwarchodedig" fel term i'w cynnwys i gyd. Yn ychwanegol yn unol â'r Rheoliadau mae "amgylchiadau economaidd-gymdeithasol" yn cael ei gynnwys yn ogystal.

Amlygwyd fod y Cod wedi ei newid yn statudol yn barod, ond fod angen i'r Cyngor ei fabwysiadu yn ffurfiol ac i awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Drefn Datrys Mewnol yn ogystal i gyd-fynd a'r Cod Ymddygiad.

Eglurwyd o ran yr ail agwedd fod y Cabinet wedi adolygu polisi Canu'r Gloch yn ôl ym mis Ionawr a bod diwygiadau wedi eu gwneud. Mynegwyd gan ei fod yn ddogfen sydd yn rhan o'r Cyfansoddiad fod angen ei chyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth fel bod cofnod fod newid wedi ei wneud i'r Cyfansoddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd fod yr eitemau wedi eu trafod yn y Pwyllgor Safonau, a'u bod yn hapus gyda'r addasiadau.

PENDERFYNIAD

1. Mabwysiadwyd y diwygiadau i'r Egwyddorion Ymddygiad a'r Cod Ymddygiad Aelodau yn unol â'r gofyniad statudol. Gofynnir i'r Cyngor hefyd awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Weithdrefn Datrys Leol i gyd fynd â'r Cod Ymddygiad lle cyfeirir at y darpariaethau hyn.

2. Nodwyd cynnwys y Polisi Canu'r Gloch ddiwygiedig yn y Cyfansoddiad.

12. CALENDR PWYLLGORAU 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth gan amlygu fod Etholiad mis Mai ac Etholiad 2027 yn cael cryn effaith ar y dyddiadau. Tynnwyd sylw at y Pwyllgorau Craffu ychwanegol sydd wedi eu cynnwys ym mis Gorffennaf o ganlyniad i bwysau gwaith y pwyllgorau a'r cyfnod cyn-etholiadol. O ganlyniad i hyn, amlygwyd fod un addasiad i ddyddiad y Pwyllgor Ymgynghorol Lleol oherwydd yr angen am ddyddiadau i'r pwyllgorau Craffu ychwanegol. Bydd y pwyllgor yn cael ei gynnal ar y 22 Medi, a bydd yr addasiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn dilyn penderfyniad.

Nodwyd fod ymgynghoriadau eang wedi ei wneud a bod addasiadau wedi eu gwneud yn dilyn trafodaethau gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ac yr Awdurdod Tân. Mynegwyd ein bod wedi ceisio bod mor hyblyg â phosib ond yn methu cyfarch pob dim.

Diolchwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu mewnbwn i'r Calendr eu cyfarfod ym mis Chwefror.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd am y trafodaethau gyda'r Awdurdod Tân, ond holwyd os oes trafodaethau pan fo cyfarfodydd brys neu ychwanegol yn cael eu cynnal. Ymatebwyd drwy nodi ei fod yn rhywbeth i'w gadw yn y cof o ran ymgynghori, a bod angen parhau a'r drafodaeth a'r Awdurdod Tân ond mai eithriadau yw'r rhain.

PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd Y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27

13. (A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cyngorydd Gruffydd Williams o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd.

Mynegwyd cefnogaeth i'r rhybudd gan nodi:-

- Fod rhyddid personol yn holl bwysig ac yn rhywbeth gall ei golli.
- Amlygwyd yn aml fod gamau fel hyn digwydd - dechrau yn fach ac yn tyfu dros amser a bod risg i ddata unigolion.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-

Ym mis Ionawr 2026, cafwyd tro u bedol gan Lywodraeth San Steffan parthed eu cynlluniau i wneud cardiau adnabod digidol yn orfodol ar gyfer profi'r hawl i weithio, a hynny yn dilyn ymateb sylweddol gan Aelodau o'r cyhoedd gyda deiseb hefo dros 3 miliwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Llywodraeth yn datgan eu gwrthwynebiad i DI . Er bod y gofyniad gorfodol am gyflogaeth wedi'i ollwng, mae'r llywodraeth yn bwriadu symud prosesau dilysu ar-lein erbyn 2029, gan arwain at bryderon y bydd system adnabod ddigidol yn dal i gael ei chyflwyno'n raddol drwy'r drws cefn fel petai.

Bod y Cyngor yma yn llwyr wrthwynebu cyfundrefn Digital Identification a bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthwynebu DI yn unol ar Lywodraeth yn yr Alban a hefyd yn unol â sawl awdurdod lleol ledled Gwledydd Prydain . Ni ddylai cyfleustra byth ddod ar draul rhyddid personol.

11(b) RHYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD ELIN HYWEL

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cyngorydd Elin Hywel o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd. Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Nad oes modd i ddemocratiaeth weithredu heb ymddiriedaeth, a'i fod yn cael ei ennill neu ei golli drwy'r ffordd mae pobl yn siarad, yn ymddwyn neu'r penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud. Pwysleisiwyd fod ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth ar hyn o bryd yn hynod isel.
- Cyfnod heriol dros ben i drigolion Gwynedd ar hyn o bryd gyda digwyddiadau cenedlaethol a lleol wedi effeithio ymddiriedaeth mewn gwleidyddion.
- Nodwyd fod y cyfrifoldeb yn gorwedd gyda Chynghorwyr gan ofyn y cwestiwn beth yw eu rhan. Fel cynghorwyr fod ganddynt gyfrifoldeb i ddatgan a dangos parodrwydd i arfer a chynnal ymddiriedaeth. Eglurwyd mai'r cam cyntaf yn unig yw i ddatgan.
- Mynegwyd mai dim ond 38-39% o drigolion Gwynedd a bleidleisiodd yn yr Etholiad Llywodraeth Leol yn ôl yn 2022, gyda 28 sedd wedi ei hethol heb wrthwynebiad. O ganlyniad doedd dim trefn ddemocrataidd yn yr ardaloedd hynny oherwydd heb ddewis doedd dim etholiad.
- Croesawyd camau'r Senedd drwy Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i gryfhau uniondeb bywyd cyhoeddus a gosod gonestrwydd yn ganolog.
- Mynegwyd fod y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr yma am y rheswm gorau sef i wella bywydau pobl ac i greu cymunedau gorau. Amlygwyd fod trafodaethau yn gallu bod tanbaid ond fod gwasanaethu trigolion Gwynedd yn ganolog i bawb.
- Nodwyd fod angen i beth sydd yn digwydd yn y Siambr fod yn cryfhau democratiaeth ac i feithrin parch a hyder mewn sefydliadau.
- Eglurwyd os drwy eiriau mae modd arwain fod yn rhaid bod yn onest a'i fod meddwl rhywbeth go iawn, oherwydd drwy golli ymddiriedaeth mewn geiriau bydd colli ymddiriedaeth mewn democratiaeth.
- Pwysleisiwyd mai dim cyhuddiad pleidiol na phwyntio bysedd yw bwriad y cynnig ond cyd-sefyll ar un egwyddor ac i ddilyn camau'r Senedd i gryfhau uniondeb. Nodwyd ei fod yn ddyletswydd ar Gynghorwyr i gynnal ac adfer ymddiriedaeth y cyhoeddus.

Mynegwyd sylwadau i'r rhybudd gan Aelodau gan nodi:-

- Mai sylfaen democratiaeth ydi ymddiriedaeth, oherwydd os cyhoedd ddim yn cymryd rhan yna mae'r cysylltiad rhwng aelodau a chyhoedd am ddiflannu. Rhaid ennill yr ymddiriedaeth, ac mae'n rhaid bod yn dryloyw a parchus yn ein gwaith a thrafodaethau.
- Cydnabuwyd fod heriau ond nad yw'r rhain yn heriau unigryw. Mynegwyd fod y cynnig yn alwad cadarnhaol i arwain drwy esiampl ac i ddatgan yn glir fod y Cynghorwyr yn cymryd cyfrifoldeb o ddifri.
- Anghytunwyd gyda'r paragraff am y Cynghorwyr a etholwyd yn ddiwrthwynebiad yn golygu nad oes trefn democrataidd, gan fod gan unigolion y dewis, y dewis i roi eu henwau ymlaen ac felly mae trefn ddemocrataidd. Mynegwyd nad yw'n adlewyrchiad o ymddiriedaeth ond yr angen i annog mwy o bobl i fod yn rhan ac i sefyll dros eu hardal, ac yr angen i gynnwys hyn yn rhan o'r cynnig.
- Amlygwyd fod rhai seddi yn cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad efallai gan fod y cyhoedd yn fodlon gyda'r Cynghorydd sydd wedi bod yn eu gwasanaethu.
- Trafodwyd rhesymau cyhoedd dros beidio â sefyll gan amlygu fod ymrwymiad amser a gwaith yn gallu bod yn rhesymau.
- Cefnogwyd y cynnig gan nodi fod ffigyrau 2022 yn peri pryder o ran graddfeydd pleidleisio a nifer uchel yn cael eu hethol heb wrthwynebiad. Cyfeiriwyd at yr angen i edrych ar ddiwylliant, gan fod ymddiriedaeth yn ddibynnol ar sut mae unigolion a sefydliadau yn ymddwyn, a bod y lle ac amgylchedd ble unigolion yn teimlo yn gyfforddus a saff i leisio ei barn.
- Nodwyd fod y cynnig yn amserol a bod angen edrych be allwn ni neud yn lleol. Mynegwyd yr angen i edrych beth sydd yn afantol gan fod ymchwil yn dangos os pobl yn colli ymddiriedaeth yn sefydliadol eu bod am symud at arweinwyr asgell dde an-sefydliadol.
- Gofynnwyd i'r Blaid ymddiried yn y Grŵp Annibynnol wrth ystyried cadeiryddion gan eu bod yn teimlo llais ddim yn cael eu clywed.

- Mynegwyd nad yw mynegi nad oes dewis democrataidd os Cynghorydd yn cael ei ethol yn ddiwrthwynebiad yn sarhad ar y Cyngorwyr penodol hynny, ond yn hytrach yn adlewyrchiad o'r diffygion yn y system.
- Holwyd sut mae'r ddeddfwriaeth Senedd yn berthnasol i'r rhybudd. Mynegwyd fod gwelliant wedi bod i'r ddeddfwriaeth i sicrhau fod dweud celwyddau yn ystod ymgyrchu yn anghyfreithlon. Drwy wneud hyn fod y Senedd wedi blaenoriaethu gonestrwydd a chydabod pwysigrwydd hynny. Nodwyd mewn cyfnod ble nad yw pobl ymddiried mewn gwleidyddion fod angen amlygu fod tryloywder a gonestrwydd yng nghalon gwleidyddiaeth Gwynedd.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elin Hywel yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod mai ymddiriedaeth yw sylfaen democratiaeth. Gwyddom fod digwyddiadau diweddar yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol wedi tanseilio'r berthynas honno â phobl Gwynedd. Ni all democratiaeth weithredu'n iach heb ymddiriedaeth y cyhoedd yn y rhai sy'n eu cynrychioli; yr ymddiriedaeth honno sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol ac, yn eithro, yn sicrhau eu llais wrth lunio eu dyfodol.

Noda dystiolaeth gan yr Office for National Statistics fod ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth a gwleidyddion ar lefel isel iawn, gyda dim ond un o bob pump yn ymddiried mewn pleidiau gwleidyddol, a bod cysylltiad uniongyrchol rhwng diffyg ymddiriedaeth a diffyg cyfranogiad.

Yn wyneb hynny, mae'r Cyngor hwn yn nodi'r cyfranogiad isel yn etholiad Cyngor Gwynedd 2022, yn unol â thueddiadau ehangach ledled Cymru, gyda thua 38-39% yn pleidleisio, a bod 28 o'r 69 sedd wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad, gan olygu nad oedd gan nifer fawr o etholwyr Gwynedd ddewis democrataidd.

Cydnabu'r y Cyngor bod y ffigyrau hyn yn amlygu her ddifrifol i iechyd democratiaeth leol ac i'r berthynas rhwng etholwyr a'u cynrychiolwyr.

Cydnabu'r mai ein hymddygiad ni fel arweinwyr cyhoeddus sy'n gosod safon y drafodaeth ddemocrataidd. Na ellir adeiladu ymddiriedaeth, na chynyddu cyfranogiad, oni bai ein bod ni'n modelu'r gwerthoedd hynny ein hunain.

Mae'r Cyngor hwn yn croesawu camau Y Senedd drwy Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i gryfhau uniondeb bywyd cyhoeddus a gosod gonestrwydd a gwirionedd wrth wraidd ein diwylliant democrataidd

Yn unol â hyn, mae'r Cyngor hwn yn datgan yn glir mai arnom ni, yn bersonol ac ar y cyd, y mae'r ddyletswydd i gynnal ac adfer ymddiriedaeth y cyhoedd.

Ymrwymwn i'r gwir, i dryloywder, i degwch ac i barch – congffeini ein hawl i gynrychioli pobl Gwynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 4.45yp.

Eitem 9

CYFARFOD	Cyngor Llawn
DYDDIAD	14eg Mai 2026
TEITL	Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2026/27
PWRPAS	Cymeradwyo Adolygiad Cynllun y Cyngor 2026/27
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Nia Jeffreys
SWYDDOG CYSWLLT	Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor, Adran Gwasanaethau Corfforaethol

1. Y Penderfyniad a Geisir

- 1.1. Ar argymhelliad y Cabinet bod y Cyngor yn mabwysiadu **Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2026/27**.

2. Cyflwyniad

- 2.1. Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yw ein datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Mae'n cyfleu ein blaenoriaethau a'n huchelgais ar gyfer cyfnod o 5 mlynedd ynghyd â'r prosiectau y byddwn yn eu cyflawni. Mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 2ail o Fawrth 2023.
- 2.2. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd 2023-2028 o dan saith maes blaenoriaeth: Gwynedd Yfory, Gwynedd Lewyrchus, Gwynedd Glyd, Gwynedd Ofalgar, Gwynedd Gymraeg, Gwynedd Werdd a Gwynedd Effeithlon. Y meysydd blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ceir copi o'r fersiwn cyfredol yma - [Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28](#)
- 2.3. Pwrpas adolygu'r Cynllun yw edrych ar lle rydym wedi cyrraedd a ninnau dros hanner ffordd trwy oes y Cynllun. Wrth edrych ar y meysydd blaenoriaeth, ein uchelgeisiau a'n prosiectau bu inni ystyried beth sydd wedi newid, wedi ei gyflawni a beth yn fwy sydd angen i ni ei wneud.
- 2.4. Nodir hefyd bod disgwyliad arnom i fod yn adolygu ein Hamcanion Llesiant (Meysydd Blaenoriaeth) yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol.
- 2.5. Yn ystod mis Ionawr cynhaliwyd 2 sesiwn gweithdy (1 ar gyfer yr Aelodau Cabinet a'r llall ar gyfer y Tîm Rheoli) i edrych ar lle'r ydym wedi ei gyrraedd ac i adolygu cynnwys y Cynllun presennol. Cynhaliwyd sesiwn pellach i'r Aelodau Cabinet ar y 12fed o Chwefror er mwyn ystyried y materion a godwyd yn y 2 sesiwn gyntaf a chytuno ar addasiadau i fersiwn 2026/27 o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.
- 2.6. Mynychodd dros 20 o Gynghorwyr sesiwn gweithdy ar 24 Chwefror, lle'r oedd cyfle iddynt roi sylwadau ar y newidiadau a gynigir i'r Cynllun fel rhan o'r adolygiad. Derbyniwyd adborth gwerthfawr ganddynt a diolch i'r aelodau a fynychodd am eu sylwadau a'u hawgrymiadau. Ceir crynodeb o'r prif faterion a nodwyd ganddynt isod. Yn gryno, mae'r rhain yn feysydd sy'n bosibl eu hymgorffori o fewn prosiectau presennol y Cynllun drwy ychwanegu camau gweithredu neu gerrig milltir.
 - **Mwy o bwyslais ar greu swyddi a gwaith o safon ledled y Sir.** – hyn eisoes yn derbyn sylw gan brosiectau o fewn y Maes Blaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus

- **Hyrwyddo a galluogi pobl anabl i weithio drwy sicrhau'r gefnogaeth a'r amgylchedd cywir.** – hyn yn derbyn sylw o fewn prosiect **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth.**
- **Cefnogaeth i rieni a gofalwyr (di-Gymraeg) plant yn y ddarpariaeth drochi fel eu bod yn gallu eu cefnogi'n hyderus.** – awgrym i gynnwys cerrig milltir o fewn y prosiect **Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi.**
- **Mwy o gyfleoedd cymdeithasol a gweithgareddau i bobl ifanc.** – mae hyn eisoes yn derbyn sylw o fewn y prosiect **Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir.**

2.7. Yn ei gyfarfod ar 10fed o Fawrth 2026 bu i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad ar **Gynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028 – Adolygiad 2026/27** fel cofnod o'r newidiadau technegol hyd yn hyn yn yr adolygiad o Gynllun y Cyngor gan ofyn am waith golygyddol pellach cyn cyflwyno'r adolygiad yn ei ffurf derfynol i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 14eg o Fai 2026.

2.8. Fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn sir sy'n gyfeillgar i blant byddwn yn datblygu fersiwn o'r Cynllun sy'n addas ac yn hawdd i blant ei ddeall.

3. Ystyriaethau Perthnasol / Adolygu prosiectau

3.1 I sicrhau bod y Cynllun a'i brosiectau'n parhau i gyflawni dros bobl Gwynedd ac yn ymateb i newidiadau, bu adolygiad. Dyma'r manylion.

3.1.1 Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder

- I danlinellu ymrwymiad parhaus at weithredu argymhellion adroddiad 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder', mae Cynllun Ymateb: mae Cyfiawnder Trwy ein Dewrder wedi ei gynnwys ar ddechrau Cynllun y Cyngor.

Mae pwysigrwydd Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder yn mynnu hyn.

3.1.2. Maes Blaenoriaeth Newydd - Gwynedd Gyfartal

- Mae Cydraddoldeb a thrin pawb yn gydradd yn egwyddor bywyd holl bwysig. Rydym am sefydlu maes blaenoriaeth newydd o'r enw Gwynedd Gyfartal i bwysleisio fod hyn yn sail gwbl greiddiol i'n gwaith ni.
- Mae datblygu Gwynedd yn sir sy'n gyfeillgar i blant ac yn sir sy'n ystyriol o drawma yn feysydd sydd angen i ni wneud gwaith pellach arnynt er mwyn gosod cyfeiriad a sylfeini cryf er mwyn cyflawni'r nod. Byddwn yn defnyddio yr adnodd un tro i sefydlu sail dystiolaeth, cwblhau gwaith ymchwil, darparu rhaglenni hyfforddiant a rhaglenni gwaith penodol yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r prosiectau canlynol yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith, felly byddai'n synhwyrol eu symud o Gwynedd Effeithlon i Gwynedd Gyfartal:
 - **Sicrhau tegwch i bawb** - prosiect sy'n pwysleisio ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a sicrhau tegwch a chynhwysiant. Dyma 9 nodwedd cydraddoldeb: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.
 - **Merched mewn arweinyddiaeth** - prosiect sy'n cryfhau ymdrechion i chwalu rhwystrau, annog cynrychiolaeth deg a chynhwysol mewn rolau arwain.

3.1.3. Prosiectau newydd

- Awgrymir ychwanegu'r ddau brosiect canlynol :
 - **Nôl i Wynedd (Gwynedd Gymraeg)** – Cadw a denu pobl ifanc a gweithlu medrus sy'n cryfhau cymunedau ac economi Gwynedd tra'n hybu defnydd y Gymraeg yw'r nod.

- **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd (Gwynedd Lewyrchus)** – Yr amcan yw gosod cyfeiriad clir i sicrhau twf economaidd y mae modd ei gynnal, gyda ffocws ar gefnogi busnesau, swyddi a buddsoddiad lleol, a hynny ar y cyd rhwng y Cyngor a'i bartneriaid.

3.1.4. Prosiectau lle mae ymrwymiad i danlinellu eu pwysigrwydd

Gwynedd Yfory

- **Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu i blant a phobl ifanc** – Atgyfnerthu pwysigrwydd darparu cyfleoedd cymdeithasu i blant a phobl ifanc drwy'r sir.

Gwynedd Lewyrchus

- **Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu** – Trafod sut mae modd cyflwyno'r bwriad i sefydlu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Sgiliau a Busnes i rhaglen waith y prosiect
- **Adfywio cymunedau a chanol trefi** – Canolbwyntio ar y meysydd lle mae gennym ddylanwad, ystyried beth yw'r farn yn lleol a mesur effaith adfywio ar y cymunedau.
- **Cadw'r Budd yn Lleol** – Drwy gynyddu gwariant y cyngor mewn cadwyni cyflenwi lleol, mae economïau a chymunedau yn cryfhau. Byddwn ni'n gwneud popeth y gallwn ni i ddwysau effaith hyn.

Gwynedd Glyd

- **Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr** – Sefydlu sut mae'r ymyraethau cyfredol wedi helpu a pha effaith sydd wedi deillio o'r gwaith.

Gwynedd Ofalgar

- **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned** – Cael canlyniadau gwell i unigolion a chymunedau drwy gyd-weithio mwy ac integreiddio gwasanaethau'n well.
- **Cynllun Awtistiaeth** – Rhoi mwy o bwyslais ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth; gwneud yn siŵr fod y gwasanaeth yn haws i gael gafael arno; bod mwy o gydlyniant i'r gefnogaeth a'i fod yn ymateb yn well i anghenion pobl awtistig a'u teuluoedd.
- **Llechen Lân** - Sefydlu Llechen Lân i blant yw'r dymuniad. Mae'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i wneud hyn yn cael eu nodi yn yr addasiadau. Mae'r hyn sydd angen ei wneud i weithredu'r argymhellion ar gyfer oedolion yno hefyd.

Gwynedd Effeithlon

- **Datblygu diwylliant y Cyngor** - Rydym am wella profiad trigolion sy'n ymdrin â'r Cyngor, sefydlu sut mae'r ymyraethau cyfredol wedi helpu a pha effaith sydd wedi deillio o'r gwaith.

3.1.5. Prosiectau sy'n gallu dod yn rhan o waith dyddiol adrannau am fod eu hamcanion gwreiddiol wedi eu cwblhau. (Bydd y prosiectau'n parhau i gael sylw o fewn trefn herio a chefnogi perfformiad yr Adrannau.)

Gwynedd Yfory

- **Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol** – Mae'r cerrig milltir ynghylch awdit, mapio a chanllaw ar gost anfon plant i'r ysgol wedi cael eu cwblhau. Bydd y camau nesaf yn cyfrannu at brosiect Cefnogi Pobl.
- **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir** Ar ôl cymryd camau i adolygu a gwella caeau chwarae, sicrhau cyllid grant, cryfhau trefniadau cynnal a chadw, a pharhau i weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref, mae'r cerrig milltir ar gyfer yr elfen caeau chwarae wedi'u cwblhau.

Gwynedd Glyd

- **Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd** - Tîm Ynni bellach wedi'i sefydlu i ddarparu cyngor ac arweiniad i bobl, ac mae'r Bartneriaeth Tlodi Tanwydd yn dod â gwasanaethau ac asiantaethau perthnasol at ei gilydd.

Gwynedd Gymraeg

- **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant** – Rydym wedi buddsoddi yn y Canolfannau Iaith a mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith i wella cyfathrebu â rhieni am addysg Gymraeg, cryfhau cydweithio â phartneriaid cymunedol, a darparu hyfforddiant ac adnoddau trochi i staff y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn nawr yn rhan o ddarpariaeth tymor hir sicrhau ansawdd gwell i blant a phobl ifanc.

Gwynedd Werdd

- **Cymunedau Glân a Thaclus** – Mae'r tîm tacluso a'r trefniadau cydweithio gyda'r gymuned wedi'u datblygu.
- **Trafnidiaeth Gyhoeddus** - Mae'r prosiect wedi cynnal adolygiad strategol o'r rhwydwaith a chyflwyno cerbydau trydan.

Gwynedd Effeithlon

- **Cynllunio'r Gweithlu** – Trefniadau ymateb wedi eu sefydlu.
- **Adolygiad strategol ar reolaeth lechyd a Diogelwch** - Camau cryfhau trefniadau strategol ar gyfer lechyd, Diogelwch a Llesiant wedi eu rhoi mewn lle o fewn y Cyngor.
- **Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol** – Trefniadau bellach yn eu lle o ran rheolaeth ar y gyllideb a threfniadau arbedion.

- 3.2. Awgrymir bod gweddill y prosiectau o dan y saith maes blaenoriaeth presennol yn parhau o 2025/26.
- 3.3. Mae copi testun yn unig (Word) o'r Cynllun wedi ei addasu wedi ei atodi i'r adroddiad hwn fel **Atodiad 1**. Mae **Atodiad 2** hefyd yn dangos y dudalen flaen ddiwygiedig ar y wefan ar gyfer Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2026/27.
- 3.4. Rydym hefyd wedi ymgynghori gyda'r undebau llafur (fel sy'n ofynnol o dan y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol) er mwyn derbyn eu mewnbwn ar yr argymhellion ond heb dderbyn ymateb.
4. **Adnoddau**
- 4.1. Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a nodir ar gyfer nifer o'r prosiectau o fewn y Cynllun. Heb yr adnodd mae'n bosibl na fydd modd i ni gyflawni'r hyn a nodir.
- 4.2. Mae camau rhagweithiol wedi eu cymryd i adnabod adnoddau ar gyfer y materion sy'n dod i mewn i'r Cynllun o'r newydd neu lle mae sgôp y gwaith wedi newid. Cafodd nifer o'r bidiau hyn eu cymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar y 10fed o Fawrth 2026 a cheir gwybodaeth bellach isod:

Cynllun/Prosiect	Adnodd
Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder	£600,000 o refeniw parhaol wedi ei gynnwys yn y gyllideb refeniw sydd eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r

	Cyngor Llawn. £200,000 o gyllid refeniw un-tro hefyd wedi ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet ar y 10fed o Fawrth.
Gwynedd Gyfartal	£200,000 o gyllid refeniw un-tro wedi ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet ar y 10fed o Fawrth.
Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu. (Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd)	£1M o gyfalaf eisoes wedi ei ymrwymo gan y Cyngor ac Achos Busnes Amlinellol (OBC) am £10M o arian y Cynllun Twf wedi ei gytuno yn amodol gan Is Bwyllgor Economaidd y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar Fawrth 13eg. Bidiau am arian o ffynonellau eraill hefyd mewn llaw.
Nôl i Wynedd	£200,000 o gyllid refeniw un-tro wedi ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet ar y 10fed o Fawrth.
Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd	Yn cael ei gyflawni o fewn adnoddau presennol yr Adran Economi

5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 5.1 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant. Ein saith maes blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae ein Datganiad Llesiant ar gyfer 2023-28 yn parhau i fod yn gyfredol.

6 Ymgynghoriad Cyhoeddus

- 6.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus newydd ar yr adolygiad gan fod gwaith helaeth eisoes wedi'i wneud wrth lunio Cynllun y Cyngor 2023–28, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth o'r cynllun blaenorol, ymgysylltiad '**Ardal Ni**', ac Asesiadau Llesiant Gwynedd a Môn.
- 6.2 Fel y nodir uchod cynhaliwyd sesiwn gweithdy ar gyfer yr Aelodau Etholedig ym mis Chwefror 2026. Yn gyffredinol, roedd cytundeb i'r addasiadau ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r adolygiad o'r Cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn.

7 Deddf Cydraddoldeb 2010

- 7.1 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 3**.
- 7.2 Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Pennaeth Cyllid

Gallaf gadarnhau'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn rhan 4 o'r adroddiad yma. Mae Cynllun y Cyngor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae ei gadw dan adolygiad yn hanfodol. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniadau a geisir.

ii. Y Swyddog Monitro:

Mae Cynllun y Cyngor gan gynnwys unrhyw adolygu rhan o Fframwaith Polisi y Cyngor. Yn unol â'r gofynion statudol cyflwynir y strategaeth ar argymhelliad y Cabinet i'w fabwysiadu gan y Cyngor. Mae'r adroddiad yn amlygu y prosesau a gynhaliwyd ynghyd a'r asesiadau ac ystyriaethau statudol perthnasol mewn modd priodol. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y penderfyniad a geisir.

8 Barn yr Aelod Lleol

Ddim yn fater lleol.

9. Atodiadau

Atodiad 1 : Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2026/27 (fersiwn Word)

Atodiad 2 : Tudalen Flaen Cynllun y Cyngor ar y wefan

Atodiad 3 : Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Adolygiad 2026/27

Cynllun

Cyngor Gwynedd

2023-28

Adolygwyd Mawrth 2026



Rhagair Arweinydd y Cyngor

Map ydi Cynllun y Cyngor sy'n arwain y ffordd at y lle yr ydym yn dymuno ei gyrraedd. Mae'n ein cadw ni ar y trywydd cywir. Rydym ni am weld Gwynedd gyfartal, lewyrchus, glyd, ofalgar, Gymraeg, werdd, effeithlon sy'n edrych i'r dyfodol.

Mae ystyr y blaenoriaethau hyn yn cael eu hesbonio'n fanylach yn ein cynllun. Mae rhestr hefyd o'r holl brosiectau y byddwn ni'n eu gweithredu i wireddu'n hamcanion.

Y flaenoriaeth sy'n arbennig o agos at fy nghalon i yw Maes Blaenoriaeth newydd Gwynedd Gyfartal. Rydym yn ceisio rhoi'r egwyddor o drin pawb yn gydradd wrth wraidd pob peth, dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio i bawb yng Ngwynedd. 'Sicrhau tegwch i bawb' a 'Merched mewn arweinyddiaeth' yw'r prosiectau fydd yn cael eu gweithredu yn enw Gwynedd Gyfartal er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd pobl.

Rydym ni'n adolygu Cynllun y Cyngor bob blwyddyn oherwydd mae'n byd ni'n un sy'n newid mor gyflym. Rydym yn byw drwy gyfnod lle mae costau byw yn cynyddu o hyd ac o hyd ac yn rhoi straen ar deuluoedd a phobl ein sir. Rydym yn gwbl ymwybodol fod rhaid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion pobl Gwynedd.

Rwyf yn ddiolchgar am ymroddiad pob Cynghorydd, pob un o weithlu'r Cyngor, ein partneriaid a'n cymunedau, sy'n gweithio'n galed gyda ni i wneud y gorau bob dydd dros ein sir a'n pobl.

Plant Gwynedd ydi ein dyfodol, ac mae'r maes blaenoriaeth Gwynedd Yfory yn sicrhau ein bod yn rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc. Mae gweld Gwynedd yn sir sy'n gyfeillgar i blant ac yn sir trawma-wybodus yn holl bwysig i mi.

Rwyf yn hynod falch o'r ffaith fod Gwynedd yn sir unigryw sydd â hunaniaeth ddiwylliannol a chymunedol gref. Mae prosiectau'r maes blaenoriaeth Gwynedd Gymraeg yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir gan sicrhau cyfleoedd i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Mae sicrhau bod pobl yn gallu byw a ffynnu yn eu cymunedau nhw eu hunain yn addewid arall, ac mae'r prosiect newydd 'Nol i Wynedd' efo'r nod o gryfhau poblogaeth Gwynedd er mwyn cyfrannu at gymunedau bywiog a thwf economaidd.

Yn ychwanegol, mae Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy Ein Dewder yn cael ei nodi ar ddechrau Cynllun y Cyngor. Mae'n tanlinellu'r ffaith bod y gwaith hwn yn ymrwymiad parhaus gennym ni.

Fel Arweinydd y Cyngor, dwi'n edrych ymlaen at weithio gyda chi, a'r holl bartneriaid drwy Wynedd sydd wirioneddol yn credu mewn *gwneud* beth mae'r cynllun hwn yn siarad am wneud. Gweld Gwynedd yn ffynnu yw'r nod i ni i gyd.

Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys
Arweinydd Cyngor Gwynedd

Cyflwyniad

Cynllun y Cyngor sy'n amlinellu cyfeiriad gwaith yr Awdurdod.

Bob blwyddyn mae'n cael ei adolygu, ac yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o'i gyrhaeddiad a'r sefyllfa ariannol bresennol, dyma'r blaenoriaethau sydd wedi cael eu cytuno.

Cofiwch mai rhannau o waith y Cyngor sy'n ymddangos ynddo; mae'r gwaith dyddiol o ddarparu gwasanaethau drwy'r sir yn parhau hefyd.

Ystyriwch hefyd bod gan Lywodraeth Cymru ddeddf o'r enw 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.' Y Meysydd Blaenoriaeth welwch chi yng Nghynllun y Cyngor yw'r Amcanion Llesiant mae'r Llywodraeth yn gofyn i gynghorau eu creu er mwyn cyfrannu at gyflawni saith nod deddf 2015.

Mae'r ddeddf hefyd yn gofyn i'r Cyngor ystyried gweithio mewn pum ffordd benodol sef; ystyried yr hirdymor, atal, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Bydd Gwynedd yn gwneud hyn ac yn gosod ei thrigolion wrth galon pob penderfyniad.

Mae i'r Cynllun, wyth maes blaenoriaeth. Yr un newydd yw Gwynedd Gyfartal. Ymhob maes, mae nifer o brosiectau. Drwy weithredu'r prosiectau mae'r cyngor yn rhoi ei weledigaeth ar waith.

Mae rhai prosiectau sydd wedi cyflawni eu hamcanion gwreiddiol wedi symud o'r cynllun i fod yn rhan o waith dyddiol adrannau'r cyngor. Mae ambell brosiect newydd ac ymrwymiad i danlinellu rhai o nodweddion prosiectau eraill.

Mae trosolwg o Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder wedi ei ychwanegu hefyd. Mae hyn er mwyn tanlinellu'r ymrwymiad parhaus i'w weithredu.

Dyma'r wyth Maes Blaenoriaeth.

- **GWYNEDD GYFARTAL** - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg
- **GWYNEDD YFORY** - Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- **GWYNEDD LEWYRCHUS** - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- **GWYNEDD GLYD** - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- **GWYNEDD OFALGAR** - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- **GWYNEDD GYMRAEG** - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posibl i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- **GWYNEDD WERDD** - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- **GWYNEDD EFFEITHLON** - Sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Prosiectau	Trosolwg
Cynllun Ymateb	Pwrrpas ein Cynllun Ymateb yw esbonio sut fydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau na fydd troseddu fel hyn yn digwydd eto yng Ngwynedd a bod ein trefniadau Diogelu plant a phobl ifanc o'r safon uchaf posibl. Mae themâu y Cynllun yn cynnwys Llais y Plentyn a chefnogi dioddefwyr, rheoli honiadau a phryderon, hyfforddiant a pholisïau, llywodraethiant, grym rhesymol, ymateb i argyfwng, a chefnogi Ysgol Friars. Mae'r Cynllun yn gynhwysfawr ac yn cynnwys nifer fawr o ffrydiau gwaith a manylir ar y cyfan yn y Cynllun Ymateb.

Maes Blaenoriaeth - GWYNEDD GYFARTAL

Ein huchelgais yw sicrhau ein bod yn rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg.

Prosiectau	Trosolwg
Sicrhau tegwch i bawb	Byddwn yn parhau gyda gwaith sydd eisoes ar y gweill er mwyn sicrhau fod y Cyngor, yn ei holl weithredoedd, yn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb. Byddwn yn adnabod gwaith sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn trin pawb mewn ffordd sy'n deg, beth bynnag eu nodweddion cydraddoldeb, eu cefndir a'u hanghenion.
Merched mewn arweinyddiaeth	Mae nifer y merched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan. Byddwn felly yn parhau gyda rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd fel rhan o'r rhaglen i annog mwy o ferched i ymgeisio am uwch-swyddi o fewn y Cyngor.

Maes Blaenoriaeth - GWYNEDD YFORY

Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

Ein huchelgais yw sicrhau bod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:

- Eu trin yn gyfartal, eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.
- Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academiaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.
- Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.
- Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i wrpas hyd orau ein gallu.
- Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.

- Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol yn ddi-gost i gymaint o ddisgyblion â phosibl.
- Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol.
- Sicrhod bod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.

Prosiectau	Trosolwg
Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau bod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posibl i'w cyfnod mewn addysg.
Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu	Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, mae nifer o adeiladau ysgolion y sir dal i fod yn hen ac angen eu moderneiddio. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir ac yn benodol ardal Bangor a Chricieth, a byddwn yn cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd.
Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir	Bydd asesiad yn cael ei gynnal o sut mae'r ddarpariaeth leuenctid newydd yn gweithio ar draws y sir, gan nodi unrhyw fylchau a gwerthuso'r deilliannau a gyflawnir i bobl ifanc, ynghyd ag ystyried opsiynau i ymestyn y cyfleoedd cymdeithasu sydd ar gael.
Gweithredu ar strategaeth 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd	Yn dilyn cytuno strategaeth newydd, byddwn yn symud ymlaen i weithredu'r Strategaeth Addysg 10 mlynedd ar gyfer Gwynedd. Rydym wedi ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol ar y blaenoriaethau er mwyn sicrhau cyfundrefn addysg wydn, ynghyd â darpariaeth a phrofiadau addysgol o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc y sir.
Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd	Mae angen adolygu a gwella'r ystod darpariaethau cynhwysiad sydd ar gael i ddysgwyr gydag anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol. Mae anghenion y dysgwyr hyn wedi cynyddu, gydag effaith y pandemig i weld yn glir ac yn hirdymor.

Maes Blaenoriaeth - GWYNEDD LEWYRCHUS

Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau bod swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Ein huchelgais yw i sicrhau:

- Swyddi o safon.
- Cefnogaeth i fusnesau ffynnu.
- Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
- Cymunedau cryf a gwydn.
- Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm.

Prosiectau	Trosolwg
Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld cynaliadwy	Byddwn yn cymryd cyfres o gamau er mwyn hyrwyddo ein diwylliant a chreu economi ymweld cynaliadwy: • Bydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a luniwyd ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2023. Bydd prif bartneriaid a rhanddeiliaid yn cydweithio i gyflawni'r hyn fydd yn y Cynllun gan sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. • Byddwn yn sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a sicrhau adnoddau i gyflawni Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd. • Byddwn yn Rheoli Cartrefi Modur sy'n ymweld â Gwynedd drwy beilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos. • Bydd cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2023 yng Ngwynedd yn llwyfan i ddathlu ein diwylliant a'n hiaith, y celfyddydau a chwaraeon a sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol gadarnhaol yng nghymunedau Gwynedd.
Adfywio cymunedau a chanol trefi	Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio drwy ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch ar draws y sir ac yn sicrhau trefniadau traws-adrannol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod rhaglenni gwaith yn cydblethu a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau drwy barhau gyda'r gwaith ymgysylltu. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Canol Tref/ Dinas yn cael eu paratoi ar gyfer trefi unigol.
Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu	Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau bod pobl Gwynedd yn elwa o brosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru.
Cefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial	Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi'r rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol.
Cadw'r Budd yn Lleol	Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nwyddau a gwasanaethau sylweddol gan gwmnïau allanol ac rydym yn awyddus i weld busnesau lleol yn cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau bod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

	Bydd y prosiect yma yn sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i gefnogi busnesau lleol i ymgeisio am gyfleon, o fewn y rheolau perthnasol, ac ar yr un pryd yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y gwerth gorau am yr arian sy'n cael ei wario.
Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd	Bydd y Strategaeth yn anelu i greu economi fwy cynhyrchiol, gynaliadwy a chynhwysol i Wynedd, gan gryfhau'r Gymraeg, cynyddu cyfleoedd lleol a gwella llesiant cymunedau. Y bwriad fydd helpu pobl a busnesau i ffynnu drwy greu swyddi gwell, gwella sgiliau, a sicrhau bod buddion economaidd yn aros yn y sir.

Maes Blaenoriaeth – GWYNEDD GLYD

Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

Ein huchelgais yw i sicrhau bod gan pob person yng Ngwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella ansawdd eu bywydau. Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy osod uchelgais i:

- Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned.
- Sicrhau bod tai newydd yng Ngwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Sicrhau bod tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir.

Prosiectau	Trosolwg
Cynyddu'r cyflenwad o dai addas i bobl leol	Byddwn yn cyflawni'r prosiectau sydd yn rhan o'n Cynllun Gweithredu Tai i gynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd allu sicrhau cartref addas. Ymysg y 33 prosiect unigol sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai, byddwn yn: • Cydweithio gyda'r cymdeithasau tai lleol i adeiladu mwy o dai cymdeithasol trwy gyflymu'r rhaglen adeiladu gan anelu i godi 500 o dai newydd. • Adeiladu ein tai ein hunain mewn safleoedd ar draws y sir. Byddant ar gael i drigolion lleol ar rent canolraddol neu i'w prynu trwy gynlluniau rhannu ecwiti. Anelir i godi 100 o dai o'r math yma. • Prynu tai preifat er mwyn eu gosod ar rent fforddiadwy i bobl leol. Byddwn yn targedu tai gwag yn y lle cyntaf ond byddwn hefyd yn edrych ar dai sydd ar y farchnad agored. Anelir i brynu 100 o dai fforddiadwy dros oes y Cynllun. • Darparu cymorth ar ffurf cynllun rhannu ecwiti fel y gall prynwyr tro cyntaf lleol gystadlu yn y farchnad dai. • Darparu grantiau er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol. Bydd hyn yn dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd ac yn helpu pobl ifanc a phrynwyr tro cyntaf i fyw mewn tŷ. Anelir i ddod â 250 o dai gwag yn ôl i ddefnydd.

	• Byddwn yn prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol.
Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd	Er mwyn sicrhau nad ydi pobl ddigartref yn gorfod treulio amser maith mewn llety dros dro, byddwn yn: • Datblygu ein huned 'tai â chefnogaeth' ein hunain, sef llety lle darperir cefnogaeth i unigolion digartref gan staff arbenigol er mwyn caniatáu iddynt ddysgu a datblygu sgiliau bywyd er mwyn gwella eu gallu i gynnal tenantiaeth yn y dyfodol. • Adnewyddu ac uwchraddio hen adeilad NatWest a GISDA yng Nghaernarfon i ddarparu pump fflat i ieuenctid digartref, ac ymestyn y caffi presennol i greu cyflogaeth i'r digartref, ynghyd â chreu cartref parhaol i GISDA a chreu gofod aml-asiantaethol i gefnogi ieuenctid digartref. • Llunio pecyn cefnogaeth i annog landlordiaid preifat i gynnig llety parhaol i'r digartref, yn hytrach na'u gosod am gyfnodau tymor byr neu fel llety gwyliau. Anelir i gael 100 o unedau llety parhaol dros oes y Cynllun. • Gweithio i atal digartrefedd trwy gynyddu ein capasiti i gynorthwyo a chefnogi unigolion bregus i barhau yn eu cartref. • Ceisio symud pobl digartref i lety sefydlog cyn gynted â phosibl, yn hytrach na'u bod yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir.
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr	Mae'r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sy'n cael eu defnyddio fel ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr yn cael effaith andwyol ar allu pobl y sir i gael mynediad at gartrefi yn eu cymunedau. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno ymchwil manwl i'r Llywodraeth yn amlygu'r angen am weithredu ym meysydd cynllunio, trethiant a thrwyddedu er mwyn cael gwell rheolaeth o'r sefyllfa. Yn dilyn cyhoeddiadau diweddar gan y Llywodraeth, gan gynnwys sefydlu Peilot Dwyfor sy'n ymrwymo i gyflwyno camau i daclo problemau yn y maes, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r newidiadau deddfwriaethol mor fuan â phosibl. Byddwn hefyd yn gosod premiwm treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag bob blwyddyn ar gyfradd briodol i ymateb i'r sefyllfa ar y pryd.

Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

Mae gofalu am unigolion bregus yn un o'n prif gyfrifoldebau a'n huchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau drwy:

- Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy'n agored i niwed.
- Cefnogi trigolion i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda'u cymunedau, ac i leihau tlodi a'i effeithiau.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion Gwynedd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
- Galluogi trigolion Gwynedd i fyw'n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl.
- Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Cefnogi ein cymunedau i sicrhau hygyrchedd ac i ddatblygu'n Wunedd Oed Gyfeillgar.

Prosiectau	Trosolwg
Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol	Byddwn yn moderneiddio ein cartrefi gofal, yn diweddarau ein hadnoddau cymunedol ac yn ehangu'r opsiynau llety sydd ar gael i drigolion Gwynedd. Ymysg ein cynlluniau mae: • Tai Gofal Ychwanegol - Datblygu dros 100 o unedau newydd ym Mhenyberth, Frondeg (Caernarfon), Canolfan Lleu (Penygroes) a Dolgellau. • Cartrefi Preswyl: ○ Ailddatblygu Plas Gwilym, Penygroes. ○ Uwchraddio Hafod Mawddach a Cefn Rodyn. ○ Agor Uned Dementia yng Nghartrefi Bryn Blodau a Plas Hedd. ○ Cynllunio datblygiadau dementia yn Plas Pengwaith ○ Agor cartref nyrsio a dementia newydd yn Penyberth • Tai â Chefnogaeth yn y Gymuned – isafswm o 6 tŷ wedi eu lleoli ar hyd a lled y sir er mwyn cynnig cartrefi gofal addas a diogel. • Gwaith comisiynu ar y cyd gyda'r Adran Tai i ddeall y galw am lety gofal yn y dyfodol.

Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal	Byddwn yn galluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd gorau cyn hired â phosibl o fewn eu cymunedau'n lleol. I gyflawni hyn, mae angen iddynt fod â'r wybodaeth sydd ei angen i allu manteisio ar gyfleon cymunedol fyddai'n hyrwyddo eu llesiant, yn ogystal â dulliau hyblyg o drefnu'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Ymysg ein cynlluniau mae: • Mabwysiadu a hyrwyddo system gwybodaeth gymunedol, Dewis • Integreiddio system therapi galwedigaethol rithiol, AskSarah, i'n gwefan • Datblygu ein defnydd o Ofal Alluogwyd drwy Dechnoleg (TEC) • Hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth Teleofal • Gwneud defnydd o roboteg i alluogi byw'n annibynnol • Datblygu ein system Taliadau Uniongyrchol drwy ddefnyddio waled rithiol
Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned	I sicrhau ein bod yn hyrwyddo llesiant unigolion yn llawn, mae'n hollbwysig ein bod yn medru newid ein diwylliant a sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gofal ac iechyd cynhwysfawr i'r dyfodol. Ymysg ein cynlluniau mae: • Cydleoli timau oedolion gyda nyrsys cymuned a therapyddion iechyd • Datblygu systemau cydweithio fel un tîm o amgylch yr unigolyn drwy system Tîm Adnoddau Cymunedol • Cydweithio i alinio'r Timau Adnoddau Cymunedol i'r Clystyrau Iechyd Cynradd • Datblygu trefniadau cydweithio newydd i'r timau iechyd meddwl cymunedol
Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth	Byddwn yn hyrwyddo cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth. Ymysg cynlluniau eraill, byddwn yn gwella'r ddarpariaeth yn ein Canolfannau Dydd Anableddau Dysgu yn Dolfeurig yn Nolgellau a Frondeg, Caernarfon.
Llechen Lân	Byddwn yn paratoi dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth; ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol er mwyn deall ac amlygu y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.
Datblygu ymhellach y ddarpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan	Rydym am wella profiadau'r plant sydd yn ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael

	gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.
Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd	I sicrhau bod modd i bobl fyw eu bywyd gorau, mae'n rhaid i ni sicrhau bod cefnogaeth prydlon a rhwydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd. Byddwn yn gweithredu cynlluniau er mwyn: • sicrhau ein bod yn cydnabod pa mor werthfawr yw gofalmwyr teuluol a di-dâl drwy wneud yn siŵr ein bod yn gallu eu hadnabod yn rhwydd a chynnig cefnogaeth lawn iddynt wrth ofalu. • lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd, gan sicrhau nad oes unrhyw un yng Ngwynedd yn aros mwy na 28 diwrnod yn dilyn asesiad gofal.
Cefnogi Llesiant Pobl	Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach. Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w hanghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.
Cynllun Awtistiaeth	Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau.

Maes Blaenoriaeth – GWYNEDD GYMRAEG

Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posibl i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Fel arweinydd cenedlaethol byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Ein huchelgais yw:

- Sicrhau bod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir a sicrhau bod cyfleoedd digonol i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.
- Cydweithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r gallu i drigolion Gwynedd gael mynediad at holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.
- Sicrhau mynediad at wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon.

Prosiectau	Trosolwg
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd	Byddwn yn cynnal prosiectau penodol a fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.
Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi	Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod holl bolisiau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg, yn cyfrannu at Cymraeg 2050, ac yn adlewyrchu'r newidiadau mwyaf diweddar yn y maes gan Lywodraeth Cymru.
Nôl i Wynedd	Ein bwriad fydd cryfhau poblogaeth Gwynedd drwy ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg, pobl ifanc a gweithwyr medrus. Trwy wneud hyn, byddwn yn ymateb i heriau demograffig a phrinder sgiliau er mwyn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy, bywiog ac economaidd gystadleuol.

Maes Blaenoriaeth – GWYNEDD WERDD

Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, a'n nod yw i fod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Ein huchelgais yw i sicrhau:

- Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd natur.
- Rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.
- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

Prosiectau	Trosolwg
Gweithredu ar risgiau llifogydd	Mae risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol yn cynyddu gydag effaith newid hinsawdd sy'n golygu bod lefelau môr yn codi a stormydd mwy dwys yn digwydd yn fwy aml. Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sy'n eu gwasanaethu, ar yr arfordir. Byddwn yn cydweithio gydag asiantaethau eraill, er mwyn blaenoriaethu ein harfordir ar sail risg, ac yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau lle bo hynny'n bosibl. Mae hefyd risg o lifogydd mewndirol pan fo dŵr yn cronni ac afonydd yn gorlifo. Byddwn yn llunio cynlluniau dalgylch er mwyn helpu i osgoi/ymateb i fygythiadau presennol a chynyddol i'r dyfodol.
Gwastraff ac ailgylchu	Byddwn yn paratoui strategaeth gwastraff ac ailgylchu newydd er mwyn ceisio cynyddu'r lefel ailgylchu yn y sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025. Bydd yn asesu pa mor effeithiol yw'n

	trefniadau casglu sbwriel presennol o ran hybu ailgylchu (o ddrws i ddrws ac yn ein canolfannau) ac yn cyflwyno trefniadau newydd lle bo angen.
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur	Mae 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' y Cyngor yn gosod uchelgais sy'n nodi y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad eang o brosiectau i leihau allyriadau carbon o'n defnydd o fflyd a theithio, defnydd o adeiladau, caffael, goleuo strydoedd a sawl maes arall. Byddwn yn cychwyn gyda buddsoddiad pellach o £3m mewn cynlluniau ynni adnewyddol a byddwn hefyd yn llunio mesurau penodol i fynd i'r afael â sgil effaith newid hinsawdd ar gymunedau Gwynedd.
Teithio llesol	Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau bod cerdded a beicio yn dod y dewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, er mwyn gwella iechyd personol, ansawdd yr aer ac yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt. Byddwn yn gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicio yn ein cymunedau.
Sefydlu Cynllun Datblygu Lleol newydd	Byddwn yn llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Gwynedd fydd yn cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

Maes Blaenoriaeth - GWYNEDD EFFEITHLON

Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posibl mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod ein trefniadau gweithredu mewnol o'r safon uchaf bob amser. Ein huchelgais yw:

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

Prosiectau	Trosolwg
Datblygu diwylliant y Cyngor	Mae diwylliant y Cyngor yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud ac mae hynny yn golygu cael gwared â rhwystrau sy'n atal staff rhag gallu cyflawni, gyda phenderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na thybiaethau. Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

	Byddwn yn canolbwyntio ar wreiddio diwylliant o rymuso, galluogi a chyflawni ar draws yr holl weithlu sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol yn ogystal ag yn anuniongyrchol i drigolion Gwynedd.
Cynllun Digidol	Mae disgwyliadau a thueddiadau pobl wedi newid yn sylweddol yn sgil y pandemig, ac mae hyn yn gyfle i weld a oes modd i ni wella profiad trigolion Gwynedd o wasanaethau rheng flaen a swyddfa gefn ymhellach drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.
Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol	Byddwn yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo o'r newydd a fydd yn amlinellu cynllun y Cyngor o ran y defnyddio'n hadeiladau i ddarparu gwasanaethau. Mabwysiadwyd y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo diwethaf yn 2016, ac mae newid sylweddol wedi bod mewn trefniadau gweithio a darpariaeth gwasanaeth ers hynny. Mae'n amserol i fod yn edrych ar reolaeth a rhesymoli'r ystad yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor ac anghenion y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer trigolion Gwynedd. Law yn llaw â hyn byddwn yn cadarnhau ein trefniadau gweithio hyblyg a gweithio hybrid.

	Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
GWYNEDD GYFARTAL - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg					
Sicrhau tegwch i bawb	✓	✓		✓	
Merched mewn arweinyddiaeth				✓	
GWYNEDD YFORY - Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc					
Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	✓	✓	✓	✓	✓
Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu	✓	✓	✓	✓	✓
Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir	✓	✓	✓	✓	✓
Gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng					
Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	✓	✓	✓	✓	✓
Adfywio cymunedau a chanol trefi	✓	✓	✓	✓	✓
Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu	✓	✓	✓	✓	✓
Cefnogi pobl Gwynedd mewn i waith sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial	✓	✓	✓	✓	✓
Cadw'r Budd yn Lleol	✓	✓	✓	✓	✓
Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD GLYD - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau					
Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol	✓	✓	✓	✓	
Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd	✓	✓		✓	
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD OFALGAR - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau					
Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓
Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal	✓	✓	✓	✓	✓

Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth		✓	✓	✓	✓
Llechen Lân	✓	✓		✓	✓
Datblygu ymhellach y ddarpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan	✓	✓	✓	✓	✓
Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd	✓	✓	✓	✓	✓
Cefnogi Llesiant Pobl	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Awtistiaeth	✓	✓		✓	✓
GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posibl i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned					
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi	✓	✓	✓	✓	✓
Nôl i Wynedd	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD WERDD – Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd					
Gweithredu ar risgiau llifogydd	✓	✓	✓	✓	✓
Gwastraff ac ailgylchu	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur	✓	✓	✓	✓	✓
Teithio Llesol	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Datblygu Lleol newydd	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD EFFEITHLON – Sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon					
Datblygu diwylliant y Cyngor	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Digidol	✓	✓	✓	✓	✓
Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓

Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o brosiectau gwahanol sydd wedi eu rhestru dan wyth maes blaenoriaeth.



Cyflwyniad

Rhagair i'r Cynllun gan y Cynghorydd Nia Jefferys.



Gwynedd Yfory

Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc.



Gwynedd Lewyrchus

Cryfhau'r economi a chefnogi pobl Gwynedd i ennill cyflogau teallwng.



Gwynedd Olyd

Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau.



Gwynedd Ofaelgar

Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau.



Gwynedd Gymraeg

Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.



Gwynedd Werdd

Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd.



Gwynedd Effeithlon

Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithlon ac effeithlon.



Gwynedd Gyfartal

Gwynedd lle rydym ni i gyd yn cael ein trin yn gyfartal.

Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Drwy ein Dewrder

Unniwyd Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb i edrych, herio a gyrru'r holl ffrydiau gwaith sy'n deillio o'r adolygiadau ac ymchwiliadau yn dilyn troseddau Cyn-Bennaeth Ysgol Friars.

Mae'r Bwrdd yn anrhybuddu sy'n cynnwys pobl broffesiynol a sefydliadau eraill fel Estyn, Uywodaeth Cymru, Comisiynydd y Plant ac Arolygaeth Gofal Cymru, felly mae'n gallu edrych ar y gwaith yn wrthrychol, a chynnig her o'r tu allan. Mae'r Bwrdd yn edrych ar effaith y newidiadau mae Cyngor Gwynedd yn eu cyflwyno, ac yn adrodd ar yr hyn sy'n gweithio o'r hyn sydd wedi newid.

[Gweld gwybodaeth am oselodaeth a gwaith y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb](#)

Fersiwn PDF o'r Cynllun

Cliciwch ar y linc isod i lawrlwytho fersiwn pdf o'r Cynllun:

[Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 \(fersiwn pdf\)](#)

[Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28: Adolygiad 2024/25](#)

(Dymat pdf o'r cynllun lansiwyd yn 2023. Ers hynny mae adolygiadau blynyddol wedi eu cynnal, a gwelir y fersiwn ddiweddaraf yn y teitl uchod).

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl gyda nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2023-28, Adolygiad 2026/27

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2023 a 2028. Dyma bedwaredd blwyddyn y Cynllun. Cafodd fersiwn wreiddiol y Cynllun ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 2 Fawrth 2023.

Mae'r Cynllun yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd ers ei fabwysiadu, ac yna bydd pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Dyma'r newidiadau sydd wedi'u gwneud yn Adolygiad 2026/27:

Mae'r Adran newydd canlynol wedi'i hychwanegu o'r newydd:

Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder.

- Oherwydd pwysigrwydd y gwaith hwn, nodwyd y dymuniad i gynnwys cyflwyno'r adran newydd i gydnabod gwaith y Cynllun Ymateb. Pwrpas y Cynllun Ymateb yw esbonio sut fydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau na fydd troseddu fel hyn yn digwydd eto yng Ngwynedd a bod trefniadau Diogelu plant a phobl ifanc o'r safon uchaf posibl.

Mae'r Maes Blaenoriaeth Newydd canlynol wedi'i gynnwys o'r newydd:

Gwynedd Gyfartal – mae dau brosiect o Gwynedd Effeithlon yn cael eu symud yma (**Sicrhau tegwch i bawb a Merched mewn arweinyddiaeth**).

Mae sgôp neu bwrpas y prosiectau canlynol wedi newid:

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory

- **Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir** – diwygiad i drosolwg y prosiect.

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Lewyrchus

- **Creu'r amgylchedd gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu.**
- **Adfywio cymunedau a chanol trefi**
- **Cadw'r Budd yn Lleol**

– diwygiad i drosolwg y prosiectau

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Glyd

- **Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.**

– diwygiad i drosolwg y prosiect.

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Ofalgar

- **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned.**
- **Cynllun Awtistiaeth**
- **Llechen Lân**

– diwygiad i drosolwg y prosiectau.

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Effeithlon

- **Datblygu diwylliant y Cyngor**

– diwygiad i drosolwg y prosiect.

Mae'r prosiectau canlynol wedi'u hychwanegu o'r newydd:

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Gymraeg

- **Nôl i Wynedd**

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Lewyrchus

- **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd**

Mae'r prosiect canlynol wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran berthnasol yn ystod 2026/27:

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory

- Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol.

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Glyd

- Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd.
- Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant.

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Werdd

- Cymunedau Glân a Thaclus
- Trafnidiaeth Gyhoeddus

Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Effeithlon

- Adolygiad strategol ar reolaeth lechyd a Diogelwch.
- Cynllunio'r Gweithlu
- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob prosiect unigol o fewn y Cynllun gael Asesiad ar wahân, yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y prosiectau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor, Gwasanaethau Corfforaethol

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Ionawr 2023 – fersiwn 1 - asesiad llawn o'r Cynllun
Hwn yw fersiwn 4 – Chwefror 2026 - adolygiad 2026/27 o'r Cynllun

2) Gweithredu**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda phobl gyda nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynggori. Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.

Anogwyd cymaint â phosibl o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhoadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlenni aelodau etholedig a staff y Cyngor.

Cysylltwyd â sefydliadau sy'n cynrychioli neu'n gweithio gyda phobl a/neu blant gyda nodweddion cydraddoldeb i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw o 8fed o Rhagfyr 2022 hyd at 3ydd Ionawr 2023.

Derbyniwyd 643 o ymatebion i'r holiadur. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno â'r meysydd blaenoriaeth a'r prosiectau ac nid oedd unrhyw bryderon penodol yn ymwneud â'r nodweddion cydraddoldeb.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Ardal	Nifer	Canran
Arfon	282	43.9%
Dwyfor	137	21.3%
Meirionnydd	203	31.6%
Tu allan i Wynedd	9	1.4%
Dim ateb	12	1.9%
Cyfanswm	643	100.0%

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb (yn ddewisol) a roedd yr wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

Rhyw

	Nifer	Canran
Dyn / Gwryw	267	41.5
Dynes / Benyw	313	48.7

Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol	1	0.2
Gwell gennyf beidio â dweud	47	7.3
Dim ateb	15	2.3
Cyfanswm	643	100.0

Oed

	Nifer	Canran
15 oed neu iau	4	0.6
16 - 24 oed	11	1.7
25 - 34 oed	59	9.2
35 - 44 oed	60	9.3
45 - 54 oed	119	18.5
55 - 64 oed	162	25.2
65 - 74 oed	128	19.9
75 - 84 oed	38	5.9
85 + oed	4	0.6
Gwell gennyf beidio â dweud	46	7.2
Dim ateb	12	1.9
Cyfanswm	643	100.0

Ydych chi'n deall, siarad, darllen a/ neu'n ysgrifennu'n Gymraeg?

	Nifer	Canran
Siarad Cymraeg	329	51.2
Deall Cymraeg ar lafar	281	43.7
Darllen Cymraeg	279	43.4
Ysgrifennu'n Gymraeg	243	37.8
Ddim yn deall Cymraeg (dim un o'r uchod)	107	16.6
Gwell gennyf beidio â dweud	66	10.3
Arall	75	11.7
Cwestiwn aml-ddewis		

Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol

	Nifer	Canran
Cymreig	304	47.3
Seisnig	83	12.9
Albanaidd	5	0.8
Gwyddelig o Ogledd Iwerddon	1	0.2
Prydeinig	161	25.0
Gwell gennyf beidio â dweud	46	7.2
Arall	30	4.7
Dim ateb	13	2.0
Cyfanswm	643	100.0

Hil

	Nifer	Canran
Gwyn	556	86.5
Du / Affricanaidd / Caribïaidd	0	0.0
Asiaidd	1	0.2
Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig	2	0.3
Cymysg / sawl grŵp ethnig	8	1.2
Gwell gennyf beidio â dweud	57	8.9
Arall	7	1.1
Dim ateb	12	1.9
Cyfanswm	643	100.0

Beth yw eich crefydd

	Nifer	Canran
Dim crefydd	238	37.0
Cristion	286	44.5
Mwslim	0	0.0
Bwdhaidd	4	0.6
Hindŵ	0	0.0
Iddewig	3	0.5
Sïc	0	0.0
Gwell gennyf beidio â dweud	71	11.0
Arall	26	4.0
Dim ateb	15	2.3
Cyfanswm	643	100.0

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?

	Nifer	Canran
Heterorywiol / Strêt	506	78.7
Dyn hoyw	10	1.6
Dynes hoyw / lesbiaid	8	1.2
Deurywiol (Bisexual)	10	1.6
Gwell gennyf beidio â dweud	79	12.3
Arall	10	1.6
Dim ateb	20	3.1
Cyfanswm	643	100.0

Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni?

	Nifer	Canran
Ydi	10	1.6
Nac ydi	541	84.1
Gwell gennyf beidio â dweud	67	10.4
Dim ateb	25	3.9
Cyfanswm	643	100.0

Nid oedd yn bosibl adnabod patrwm yn ymatebion unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb.

Dylai prosiectau unigol ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ac ymgysylltu ymhellach â thrigolion Gwynedd yn ôl yr angen.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, ym mis Gorffennaf 2022, gofynnwyd i Benaethiaid Adran nodi ac ystyried blaenoriaethau a chynlluniau posibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriwyd sawl darn o waith / gwybodaeth, gan gynnwys y prosiectau oedd yn y Cynllun blaenorol 2022-23, adborth o waith ymgysylltu Fframwaith Adfywio 'Ardal Ni', a'r Asesiadau Llesiant gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Yn ychwanegol, yn Hydref 2022 cynhaliwyd gweithdy gyda'r Aelodau Cabinet er mwyn trafod cynlluniau posibl ar gyfer y Cynllun newydd.

Cynhaliwyd 2 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau etholedig ym mis Rhagfyr 2022 er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol mynegi eu barn ac i amlygu unrhyw faterion ychwanegol a oedd angen sylw.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, penderfynwyd ymgysylltu ar fersiwn 2023-28 o'r Cynllun gyda'r cyhoedd ym mis Rhagfyr 2022 – Ionawr 2023. Roedd hwn yn gyfle i drigolion, busnesau, grwpiau a sefydliadau, aelodau etholedig, a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned gael dweud eu dweud ar y blaenoriaethau drafft.

Cynhaliwyd gweithdai adolygu Cynllun y Cyngor gydag Aelodau Cabinet ac Aelodau Etholedig ym mis **Ionawr a Chwefror 2026** ac mae'r pwyntiau a godwyd yn y gweithdai hyn wedi bwydo i mewn i'r adolygiad.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau Herio a Chefnogi Perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio cynnydd a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw.

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 ynghyd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

3) Adnabod yr Effaith

- 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl gyda'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor am 2024-28 yn ystyried yn arbennig unrhyw faterion yn codi o Gynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' o fewn Cynllun y Cyngor yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys hil.
Anabledd	Positif	Mae gofal yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith positif. Disgwylir i bob cynllun unigol arall edrych ar yr effaith ar anabledd wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân. Fe nodwyd 9.8% (N=63) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus fod ganddynt anabledd. Roedd canran uwch o'r ymatebwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd (95.2%, N=60) yn cytuno gyda Maes Blaenoriaeth 3 o gymharu a phawb a wnaeth ateb i'r ymgynghoriad (85.1%, N=547). Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys anabledd.
Rhyw	Positif	Ceir un cynllun unigol yn y benodol yn y maes yma sef "Merched mewn Arweinyddiaeth" felly disgwylir effaith positif yma. Wedi dweud hynny, nid yw'n bosibl adnabod effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd heb gwblhau asesiadau effaith ar y cynlluniau unigol eraill. Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys rhyw.
Oedran	Positif	Mae oedran yn cael ei flaenoriaethu mewn nifer o feysydd felly disgwylir cael effaith positif ar faes plant, pobl ifanc a phobl hŷn. Disgwylir i bob cynllun unigol edrych ar yr effaith ar oeddrannau gwahanol wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.

		Roedd 91.3% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno â Maes Blaenoriaeth 1. Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys oedran.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys crefydd.
Ailbennu rhywedd	Positif	Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys ailbennu rhywedd.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys beichiogrwydd a mamolaeth.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif	Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys priodas a phartneriaeth sifil.
Yr iaith Gymraeg	Ansicr ar hyn o bryd oherwydd diffyg tystiolaeth	Mae blaenoriaeth benodol o fewn y Cyngor sydd yn ymwneud â hybu defnydd o'r Gymraeg, gyda dau brosiect wedi eu hadnabod dan y flaenoriaeth honno. Mae nifer o brosiectau unigol o fewn y Cyngor sydd yn cyfrannu at amcan strategol y Cyngor i hybu defnydd o'r Gymraeg hefyd. Gan nad oes asesiadau unigol wedi eu paratoi/cyflwyno ar gyfer y brosiectau unigol, mae'n anodd iawn ar y pwynt yma asesu effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd ar y Gymraeg a'i siaradwyr, boed hynny yn gadarnhaol neu yn negyddol. Disgwylir i bob cynllun unigol edrych ar yr effaith ar yr iaith wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân. Roedd 66.9% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno â Maes Blaenoriaeth 5. Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys iaith.
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod nifer o bobl Gwynedd yn byw mewn amodau o anghyfartaledd oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly mae eisoes nifer o'r brosiectau sydd yng Nghynllun y Cyngor yn ymwneud â lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol. Isod mae enghreifftiau o brosiectau: Gwaith – Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu

		Cefnogi pobl Gwynedd mewn i waith sy'n eu galluogi i fyw bywyd da Addysg - Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar Iechyd - Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned Cyfiawnder a Safonau Byw – Cefnogi Llesiant Pobl
--	--	---

- 3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried.

- 3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Prosiect – **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**

Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf, a gaiff ei ledaenu ar draws Cymru. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg hefyd yn cael y cyfle i fagu hyder a gloywi eu Cymraeg drwy gefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi. Rydym hefyd am weld ehangu ein dulliau trochi iaith i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau ble mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a thu allan i'r ysgol yn gyfyngedig. Bydd y prosiect yma mewn cydweithrediad â'r Gyfundrefn Drochi a'n hysgolion yn rhoi'r cyfle gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Prosiect - Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod holl bolisiâu a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg

Prosiect - Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

Byddwn yn cynnal prosiectau penodol fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.

Bydd gwybodaeth o'r Asesiadau Effaith unigol yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y bydd y prosiectau'n gweithredu yn unol, â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2023 a 2028. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob prosiect unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynlluniau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i hybu'r iaith Gymraeg yn eu meysydd.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Isod mae esiamplau o brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun sy'n ymateb i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol:

Gwaith - Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith.

Cefnogi pobl Gwynedd mewn i waith sy'n eu galluogi i fyw bywyd da

Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau bod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad llafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol.

Addysg - Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.

Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posibl i'w cyfnod mewn addysg.

Iechyd – Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal

Mae angen i ni alluogi pobl Gwynedd i fyw bywyd da cyn hired â phosibl o fewn eu cymunedau'n lleol. I gyflawni hyn, mae angen iddynt fod â'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i fanteisio ar gyfleon cymunedol fyddai'n hyrwyddo eu llesiant, yn ogystal â dulliau hyblyg o drefnu'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.

Cyfiawnder a Safonau Byw – Cefnogi Llesiant Pobl.

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd a mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach.

Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae disgwyl i bob prosiect unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono a bydd hyn yn cynnwys asesu'r anfantais economaidd gymdeithasol. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynlluniau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i leihau anghyfaraledd o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu meysydd.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar nifer o'r nodweddion cydraddoldeb. Disgwylir i bob asesiad effaith cydraddoldeb unigol edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Mae hyn yn arbennig o wir os ydi ystyriaethau Covid am gael eu hystyried yn llawn yn eu hasesiadau effaith.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod gyda'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae pob asesiad effaith unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r asesiadau unigol yn adnabod unrhyw effeithiau negyddol a'r camau i'w lliniaru.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Nid ydym wedi adnabod unrhyw weithred ar gyfer y Cynllun yn ei gyfanrwydd ond bydd yn cael ei ystyried yn yr asesiadau unigol.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau Herio a Chefnogi Perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio cynnydd a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw.

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 ynghyd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

CYFARFOD:	Y Cyngor Llawn
DYDDIAD:	14 Mai 2026
AELOD CABINET:	Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes Aelod Cabinet Economi a Chymuned
TEITL:	Mabwysiadu strategaeth datblygu economaidd newydd i Wynedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned

PENDERFYNIAD A GEISIR:

Fod Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu 'Gwynedd 2035: Economi Sy'n Gweithio i Bawb' yn strategaeth datblygu economaidd i Wynedd.

1. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CYNGOR WNEUD Y PENDERFYNIAD:

- 1.1 Mae [Adran 4 Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd](#) yn nodi fod strategaeth datblygu economaidd yn rhan o'r Fframwaith Polisi ac mae'n ofynnol i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo ar sail argymhelliad gan y Cabinet.

2. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

Cefndir

- 2.1 Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau sy'n cyfeirio at ddatblygu'r economi:
- 'Gwynedd Lewyrchus' yw un o'r saith blaenoriaeth o fewn [Cynllun y Cyngor](#);
 - mae [Cynlluniau Adfywio Lleol Ardal Ni](#) yn adnabod blaenoriaethau lleol ar gyfer yr economi; ac,
 - mae [Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri](#) yn cynnig arweiniad ar gyfer rhan o'r economi.
- 2.2 Y cynlluniau yma - ynghyd â dogfennau rhanbarthol, megis [Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru](#) - sydd wedi gosod y sail ar gyfer gwaith y Cyngor yn y maes datblygu'r economi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- 2.3 Drwy law Cynllun y Cyngor, mae'r Cabinet wedi adnabod fod peidio cael un cynllun yn crynhoi'r hyn mae pobl a chymunedau Gwynedd yn ei ddymuno ac sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer economi'r sir yn fwllch. O ganlyniad, dyma ofyn i'r Adran Economi a Chymuned lunio strategaeth datblygu economaidd newydd i Wynedd.

Y gofyn am strategaeth datblygu economaidd

- 2.4 Mae ariannu ar gyfer y maes datblygu'r economi yn gynyddol ansicr ac yn ddibynnol ar gyllid am gyfnodau byr; er enghraifft, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn dod i ben yn ystod y flwyddyn ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol ARFOR a dim olynnydd i'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF) sy'n ariannu'r rhaglen Llewyrch o'r Llechi.
- 2.5 Mae pwyslais cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar gydweithio rhanbarthol, yn enwedig yng nghyd-destun Uchelgais Gogledd Cymru a'r cyfrifoldeb lles economaidd sydd gan y Cydbwyllgor Corfforedig.
- 2.6 Mae buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG ym Mhorthladd Rhydd Ynys Môn a Pharth Buddsoddi Fflint a Wrecsam, ond dim cynlluniau cyffelyb ar gyfer Gwynedd.
- 2.7 Mae hyn oll o fewn amgylchedd gweithredu i fentrau sy'n newid yn gyson.
- 2.8 Mae ansicrwydd parhaus o fewn yr economi yn deillio o'r gwrthdaro cynyddol yn rhyngwladol a'r awyrgylch tymhestlog yn wleidyddol ac yn gymdeithasol yng Nghymru a'r DG.
- 2.9 Mae'r economi hefyd ar drothwy newid technolegol mawr o ganlyniad i deallusrwydd artiffisial a hynny law yn llaw â sgil effeithiau newid hinsawdd.
- 2.10 Drwy lunio a mabwysiadu strategaeth bydd modd crynhoi'r achos ar gyfer datblygu economi Gwynedd, pennu blaenoriaethu cytûn ar gyfer ymateb i'n hanghenion a sefydlu canllaw cyson ar gyfer dewis a dethol cynlluniau a blaenoriaethu gwariant yn y maes.
- 2.11 O fod wedi mabwysiadu strategaeth, gallwn adnabod a datblygu gweithgareddau priodol a mesur yn well effaith ein hymdrechion.

Yr heriau sydd angen sylw

- 2.12 Yma yng Ngwynedd, mae gennym hanes economaidd cryf y gallem ymfalchïo ynddo. Mae yma hefyd economi fodern ac arloesol gyda photensial sylweddol yn y mentrau sydd yma a chyfleoedd mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd ond mae llawer o'r potensial hwn eto i'w wireddu.
- 2.13 Mae ystod o rinweddau cadarnhaol i'r economi; mae diweithdra yn isel, mae lefel cymwysterau ein gweithlu yn uchel, rydym yn wydn ac mae cyfradd goroesi ein busnesau y gorau yng Nghymru.
- 2.14 Er hyn, yn yr un modd ac ardaloedd eraill gwledig ac ymylol, mae heriau sydd angen sylw ac, wrth reswm, mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar ymateb i'r heriau.

2.15 Mae'r prif faterion sydd angen ymateb iddynt yn cynnwys:

- Llai o bobl oed gwaith yn gweithio
- Llai o bobl oed gwaith
- Cyflogau isel
- Gormod o waith rhan-amser a tymhorol
- Pobl mewn tlodi er eu bod yn gweithio
- Cynhyrchiant isel
- Diffyg amrywiaeth diwydiannau
- Dim digon o fentrau newydd yn cychwyn
- Mentrau ddim yn tyfu

Datblygu'r Strategaeth

2.16 Mae'r strategaeth newydd; 'Gwynedd 2035: Economi Sy'n Gweithio i Bawb', wedi ei amgáu yn Atodiad 1 yr adroddiad.

2.17 Mae cynnwys y Strategaeth yn deillio o broses datblygu estynedig ar y cyd gydag ystod eang o rhanddeiliaid gan gynnwys partneriaid allweddol y Cyngor o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector.

2.18 Roedd y prif gamau yn natblygiad y Strategaeth yn cynnwys:

- ymchwil i gyfansoddiad a pherfformiad cymharol economi Gwynedd;
- adolygiad o arfer da yng Nghymru, ac ardaloedd cyffelyb ledled Prydain;
- ceisio barn mentrau o bob math ac o bob rhan o Wynedd drwy law arolwg;
- trafodaethau unigol, ac ar y cyd, gyda rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector; a,
- derbyn mewnbwn aelodau etholedig y Cyngor drwy law'r Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi.

2.19 Ar sail y wybodaeth a gasglwyd lluniwyd drafft o'r Strategaeth. Derbyniwyd adborth adeiladol a chadarnhaol ar y drafft gan y Pwyllgor Craffu a rhanddeiliaid y Cyngor ar draws y tair sector cyn cadarnhau'r cynnwys.

Blaenoriaethau'r Strategaeth

2.20 Rydym eisiau economi sy'n rhoi cyfle i bawb fyw bywydau cyflawn a gwireddu eu llawn botensial, ac economi sy'n cryfhau'r cyfoeth naturiol a diwylliannol sy'n gwneud ein sir mor unigryw.

2.21 Gyda newidiadau economaidd sylweddol ar droed, mae cyfle cyffrous i wneud Gwynedd yn gyrchfan rhagoriaeth mewn diwydiannau newydd. Yn yr un modd, rhaid ein bod yn gefn i'r diwydiannau hynny sydd eisoes yng Ngwynedd ac yn hanfodol i'n cymunedau, mentrau a'n trigolion rhaid parhau i feithrin ac ychwanegu gwerth at ein sectorau traddodiadol, fel amaeth a thwristiaeth, fel sylfaen gadarn a rhan lawn o economi fodern ac arloesol.

2.22 Gweledigaeth 'Gwynedd 2035: Economi Sy'n Gweithio i Bawb' yw:

'Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb'

2.23 Mae'n weledigaeth sy'n rhoi pobl, cymunedau a mentrau Gwynedd yn ganolog ac er mwyn ei weithredu, mae tair thema wedi eu hadnabod: Mentergarwch, Pobl a Lle.

2.24 Ar gyfer pob un o'r tair thema, mae dwy flaenoriaeth strategol:

Mentergarwch: mentrau lleol llewyrchus sy'n rhagori

1. Uchafu gwerth ein heconomi bresennol:
Gwireddu potensial ein mentrau a'n sectorau presennol drwy gynyddu eu gwerth, cryfhau eu gwydnwch a'u cefnogi i leihau allyriadau
2. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd:
Cefnogi a gwneud y mwyaf o ddiwydiannau a gweithgareddau newydd â photensial sylweddol gan sicrhau fod y budd yn aros yn lleol

Pobl: gweithlu medrus a chynhwysol

3. Sicrhau gweithlu medrus:
Meithrin, denu a chadw talent gan ymateb i anghenion sgiliau hirdymor y sir
4. Cefnogi ein pobl:
Cefnogi pobl Gwynedd i wireddu eu llawn botensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleoedd yn lleol

Lle: yr amodau gorau i ffynnu

5. Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl:
Gweithredu am well cysylltedd ac isadeiledd busnes i hybu'r economi
6. Lle gwych i fyw, gweithio a mentro:
Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwych i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu'r iaith Gymraeg a'n hunaniaeth arbennig

Rhoi'r Strategaeth ar waith

2.25 Thema gyson drwy gydol y Strategaeth yw'r angen am berchnogaeth eang ac ymdrech ar draws sefydliadau a sectorau er mwyn ei gwireddu.

2.26 Mae'r panel ymgynghorol sefydlwyd i gefnogi gwireddu'r SPF yng Ngwynedd wedi amlygu'r gwerth sy'n deillio o ddod a sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector ynghyd.

2.27 Byddwn felly yn sefydlu 'Fforwm Economi Gwynedd' er mwyn cydlynu gweithredu'r Strategaeth.

- 2.28 Bydd aelodaeth y Fforwm yn cynnwys y prif sefydliadau sy'n cyfrannu i ffyniant lleol, a'r cyrff sy'n gweithio i ddatblygu economi sy'n buddio ein cymunedau. Bydd y Fforwm yn dod â phartneriaid lleol ynghyd o'r sector gyhoeddus, sector breifat a'r drydedd sector. Bydd sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol hefyd yn rhan o'r Fforwm.
- 2.29 Byddwn yn sicrhau llais i rannau gwahanol o Wynedd er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r amrywiaethau ar draws y sir.
- 2.30 Bydd y Fforwm yn cwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn, er mwyn:
- Llunio a chydlyn Cynllun Cyflawni blynyddol ar gyfer y Strategaeth.
 - Monitro gweithgareddau a'u dangosyddion unigol a chyfansawdd.
 - Cynnal gorolwg o'r cynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth.
 - Adolygu a diweddarw'r Strategaeth yn ôl yr angen.
 - Cynnal gorolwg o'r maes a datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i economi Gwynedd gan lobio o blaid ein hanghenion.
 - Hyrwyddo a hwyluso cydweithio rhwng sefydliadau gyda rôl yn datblygu economi'r sir a phartneriaethau / fforymau eraill.
- 2.31 Mae'r Strategaeth yn sefydlu'r nod ac yn adnabod dull o fynd i'r afael â'r heriau economaidd hirdymor sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Gwynedd.
- 2.32 Bydd Cynllun Cyflawni yn cael ei lunio yn flynyddol dan arweiniad Fforwm Economi Gwynedd i weithredu'r Strategaeth. Bydd y Cynllun yn cynnwys gweithgaredd sydd eisoes ar waith, a phrosiectau sydd ar y gweill gan nodi eu haliniad gyda'r Strategaeth a'r ardaloedd fydd yn elwa. Bydd Fframwaith Monitro a Gwerthuso'r Strategaeth yna'n fodd o fesur llwyddiant ac effaith y gweithgareddau.
- 2.33 Mae paratoi'r Strategaeth hefyd wedi ysgogi cynnal adolygiad o drefniadau gweithredu yn y maes datblygu'r economi yn y sir. Bydd yr adolygiad yn ystyried cyfleoedd i sefydlu Menter Gwynedd fel cerbyd cydweithio i sicrhau fod mentrau ymhob cwr o Wynedd yn derbyn cefnogaeth ac yn deall ble mae help ar gael.

3. GWAITH YMGYSYLLTU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Roedd ymdrech gyson i sicrhau mewnbwn rhanddeiliaid i'r Strategaeth. Cyn cychwyn llunio'r Strategaeth casglwyd barn eraill ynglŷn â anghenion a blaenoriaethau pobl a chymunedau Gwynedd ac mae'r Strategaeth wedi cael ei rhannu ar ffurf drafft i sicrhau fod cefnogaeth i'r cynnwys.
- 3.2 Ymhlith y rhanddeiliaid sydd wedi cynnig mewnbwn mae:
- Llywodraeth Cymru
 - Uchelgais Gogledd Cymru
 - Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
 - Busnes Cymru

- Prifysgol Bangor.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cymdeithas tai Adra
- Ffederasiwn y Busnesau Bychain (FSB) Cymru
- Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035
- Yr Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFW) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Gwynedd
- Mantell Gwynedd

3.3 Mae Aelodau Etholedig y Cyngor hefyd wedi cynnig mewnbwn ac arweiniad drwy law Aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi.

3.4 Mae crynodeb o'r ymgysylltu, y mewnbwn ddaeth i law a'n hymateb yn Atodiad 2 yr adroddiad.

4. ASESIAD EFFAITH CYFANSAWDD

4.1 Mae Atodiad 3 yn cynnwys yr Asesiad Effaith Cyfansawdd sydd wedi ei baratoi ar gyfer y Strategaeth. Mae'r Asesiad yn ystyried effaith y Strategaeth ar drigolion Gwynedd, gan:

- adnabod prif nodweddion y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi yng Ngwynedd, ac yn dangos sut mae'r Strategaeth yn ymateb i'r nodweddion hyn er mwyn cryfhau'r Gymraeg.
- asesu effaith y Strategaeth ar lesiant mewn modd cyfannol, gan gynnwys agweddau economaidd a chymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol
- egluro sut mae'r Strategaeth yn bodloni gofynion a phwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy (h.y., y Pum Ffordd o Weithio) a'r Saith Nod Llesiant

4.2 Mae llunio'r Asesiad wedi bod yn broses parhaus gyda swyddogion cydraddoldeb ac iaith y Cyngor dros gyfnod datblygu'r Strategaeth mae hyn, yn ei dro, wedi hysbysu cynnwys y ddogfen.

5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

5.1 Cynhaliwyd asesiad o aliniad y Strategaeth i ofynion a dymuniadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi ei amgáu yn Atodiad 4. Mae canlyniad yr asesiad wedi arwain at lunio Adran 3 y Strategaeth (Yr Achos Dros Weithredu).

6. ARGYMHELLIAD Y CABINET

- 6.1 Fe wnaeth Cabinet Cyngor Gwynedd, yn ei gyfarfod 10 Mawrth 2026, ystyried y wybodaeth uchod a chynnwys y Strategaeth, gan gytuno i argymell mabwysiadu 'Gwynedd 2035: Economi Sy'n Gweithio i Bawb', i'r Cyngor Llawn.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

"Mae'r Strategaeth Datblygu Economaidd yn rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. Yn unol â'r gofynion statudol cyflwynir y strategaeth ar argymhelliad y Cabinet i'w fabwysiadu gan y Cyngor. Mae'r adroddiad yn amlygu'r prosesau ymgysylltu a gynhaliwyd ynghyd â'r asesiadau ac ystyriaethau statudol perthnasol mewn modd priodol. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y penderfyniad a geisir."

Pennaeth Cyllid:

"Mae'r Strategaeth yma yn cynnwys nifer o feysydd gweithgaredd, a phwysleisir yn yr adroddiad a'r Strategaeth fod angen am berchnogaeth eang ac ymdrech ar draws sefydliadau a sectorau er mwyn ei gwireddu. Yn y cyd-destun hwn nodir nad yw'r Strategaeth yn amlygu'r costau refeniw a chyfalaf fydd Cyngor Gwynedd yn eu hwynebu er mwyn ei wireddu. Tra bydd llawer o'r costau hyn yn cael eu hariannu o gyllidebau cyfredol, os bydd angen gwneud ceisiadau am gyllideb ychwanegol rwyf yn disgwyl y bydd hynny yn cael eu gwneud trwy drefniadau arferol y Cyngor. Fodd bynnag, bydd y Strategaeth Economaidd a'n cynlluniau oddi mewn iddo yn cael ystyriaeth wrth adolygu cynlluniau ariannol tymor hir y Cyngor."

ATODIADAU

1. Y Strategaeth 'Gwynedd 2035: Economi Sy'n Gweithio i Bawb'
2. Adroddiad Ymgysylltu
3. Asesiad Effaith Cyfansawdd
4. Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol


GWYNEDD 2035 ECONOMI SY'N GWEITHIO I BAWB



*Economi arloesol,
gynhyrchiol a
charbon isel sy'n
cryfhau'r Gymraeg,
yn creu cyfleoedd
newydd ac yn
cyfrannu at lesiant
pawb.*



CRYNODEB GWEITHREDOL



Mae Gwynedd yn sir unigryw.
Yn ei chymunedau clos, ei harddwch
naturiol ac ym mywiogrwydd y Gymraeg
yn y sir, mae ganddi hunaniaeth ac apêl unigryw
sy'n rhoi iddi ei lle ymhlith y lleoedd gorau i fyw a
gweithio yng Nghymru a thu hwnt.

Mae yma hefyd economi fodern ac arloesol gyda photensial sylweddol yn y mentrau sydd yma eisoes a chyfleoedd mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd am ddyfodol llewyrchus i bobl Gwynedd.

Ond mae llawer o'r potensial hwn eto i'w wireddu. Yn ôl sawl dangosydd, mae bwlch sylweddol rhwng economi Gwynedd a gweddill Cymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG). Yn rhannol o'r herwydd, y teimlad yn aml yw nad oes yma y cyfleoedd, y math o waith priodol, na'r cyflogau sydd eu hangen ar gyfer byw bywydau cyflawn.

Mae'r Strategaeth hon yn ymateb i'r bwlch hwn a bydd yn siapio ein gwaith hyd at 2035. Mae'n asesiad gonest o'r economi heddiw ond yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Trwy adnabod ein cryfderau a'n gwendidau, y cyfleoedd sydd yma yn y sir, a'r meysydd hynny sydd angen eu gwella, pwrpas y Strategaeth yw gwireddu potensial ein pobl a'n mentrau, a chreu buddion a chyfleoedd newydd. Ein gweledigaeth yw creu:

"Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb."

Nid twf er ei fwyn ei hun yw'r bwriad. Pwrpas y Strategaeth yw cryfhau'r economi mewn ffordd gynhwysol a chynaliadwy fel bod pawb yng Ngwynedd - yn unigolion, yn fusnesau ac yn fentrau cymunedol - yn cael budd gwirioneddol. Wrth ei hanfod, mae'n weledigaeth sy'n canolbwyntio ar y gwerthoedd hynny sy'n golygu fwyaf i bobl Gwynedd:



Cael byw ag urddas

Fe ddylai pawb gael digon i gynnal eu hunain a'u teuluoedd, i fyw heb eisiau, yn llawn ac yn hapus.



Cyfleoedd

Fe ddylai pob unigolyn allu cyrraedd y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwireddu eu llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.



Tegwch

Ni ddylai unrhyw ardal, berson neu gymuned fod wedi'u gadael ar ôl.



Gwreiddiau lleol

Mentrau Gwynedd yw hanfod economi Gwynedd, a trwyddynt y mae modd cadw'r cyfoeth rydym yn ei greu yn lleol.



Cynaliadwyedd

Rhaid meithrin a gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd sydd, fel ei gilydd, yn gwneud Gwynedd yn le mor arbennig i fyw, gweithio a mentro.

Wrth i'r tirlun ariannu newid, bydd angen penderfynu lle a sut i dargedu adnoddau i sicrhau'r budd mwyaf yn economaidd ac yn gymdeithasol. Gall hyn gynnwys targedu adnoddau yn ddaearyddol neu at grwpiau neu sectorau penodol. Mae'r Strategaeth hon yn rhoi'r strwythur i ni asesu a blaenoriaethu ymyraethau, er mwyn cydbwysu rhwng twf ac ansawdd bywyd.






Nid Strategaeth y Cyngor yn unig mo hon. Bydd angen cydweithio â phartneriaid ar bob lefel yn lleol, sirol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf posibl. Byddwn yn adeiladu ar brofiadau cadarnhaol o gydweithio drwy sefydlu **Fforwm Economi Gwynedd**. Bydd y Fforwm yn dod â sefydliadau a phartneriaid ynghyd i lunio a chydlyn cynllun cyflawni blynyddol fydd yn cynnwys gweithgaredd ar waith a phrosiectau ar y gweill. Fe fydd hyn yn gymorth i adnabod bylchau daearyddol a thematig o ran gweithredu'r Strategaeth.

Er mwyn adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Strategaeth, mae Fframwaith monitro a gwerthuso wedi'i ddatblygu. Mae'r dangosyddion o fewn y fframwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth a'r newid sydd ei angen. Bydd yn gymorth i'r Fforwm wrth werthuso ac adolygu cynnydd.

Dyma weledigaeth sy'n rhoi pobl, cymunedau a mentrau Gwynedd yn ganolog. Er mwyn ei gweithredu, mae gennym dair thema:



Mae **mentrau** lleol o bob maint – masnachol, cymunedol a gwirfoddol – yn allweddol i greu cyfleoedd i **pobl** leol gynnal eu hunain a gwireddu eu potensial.

Mae **pobl** fedrus yn allweddol i **fentrau** os ydynt am lwyddo.

Mae **pobl** a **mentrau** angen ei gilydd os am ffynnu a chyfrannu'n gadarnhaol i'w cymunedau.

Mae **lle** effeithiol a deniadol sy'n eu helpu i lwyddo yn allweddol i **fentrau** a **phobl**.

Ar gyfer pob un o'r tair thema, rydym wedi adnabod dwy flaenoriaeth strategol.

Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.



Mentrau lleol llewyrchus sy'n rhagori

**Uchafu gwerth ein
heconomi bresennol**

- Tud. 67



Gweithlu medrus a chynhwysol

Sicrhau gweithlu medrus

1. Goresgyn heriau recriwtio a sgiliau.
2. Cydweithio ar anghenion sgiliau hirdymor.
3. Dangos cyfleoedd gwaith lleol i bobl ifanc
4. Hyrwyddo cynlluniau denu a datblygu talent.
5. Cefnogi pobl ifanc NEET i wireddu eu potensial.
6. Cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli.
7. Annog trefniadau gwaith hyblyg.



Yr amodau gorau i ffynnu

Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl

1. Gwella cysylltedd digidol mewn ardaloedd gwan.
2. Pwyso am well trafnidiaeth leol
3. Gwella rhwydwaith ffyrdd Gwynedd ar gyfer busnes.
4. Pwyso am welliannau'r grid ac isadeiledd cyfleustodau.
5. Cefnogi adfywio canol trefi.
6. Datblygu stoc unedau gwaith.

**Lle gwych i fyw, gweithio
a mentro**

1. Cryfhau hyder i lwyddo'n lleol.
2. Cefnogi diwylliant unigryw Gwynedd.
3. Cryfhau defnydd a gwelededd y Gymraeg.
4. Denu diaspora Gwynedd yn ôl i'r ardal.
5. Annog prynu'n lleol.

**Y NEWID
SYDD EI ANGEN**

Mwy o swyddi sefydlog

Mwy o bobl yn byw a gweithio yn lleol

Cynnydd yn y defnydd a gwelededd yr iaith




EIN STRATEGAETH I DDATBLYGU ECONOMI GWYNEDD HYD AT 2035



CYNNWYS

1. RHAGAIR	1
2. PROFFIL ECONOMI GWYNEDD	3
3. YR ACHOS DROS WEITHREDU	7
4. Y NEWID SYDD EI ANGEN	9
5. DATBLYGU'R STRATEGAETH I ECONOMI GWYNEDD	11
6. BLAENORIAETHAU'R STRATEGAETH	15
7. Y STRATEGAETH AR WAITH	23

1. | RHAGAIR



Yma yng Ngwynedd, mae gennym hanes economaidd cryf y gallem ymfalchïo ynddo. O'n cymunedau chwarelyddol byd-enwog i'n prifysgol a'n pwerdai - mae pob cwr o Wynedd yn dyst i ddyfeisgarwch a blaengarwch sylweddol.

Ond nid ydym am fodloni ar y gorffennol. Heddiw, mae digon o botensial yma yng Ngwynedd – yn ein trigolion, ein cymunedau a'n entrepreneuriaid; ond nid yw'r potensial hwnnw yn cael ei wireddu bob tro. Mae bwlch sylweddol o hyd rhwng perfformiad yr economi yng Ngwynedd a Cymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG) ar gyfartaledd.

Braint felly yw cael cyflwyno'r Strategaeth Economaidd hon sy'n gosod yn glir ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau hirdymor ar gyfer economi Gwynedd:

“

“Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.”

”

Nid twf er ei fwyn ei hun yw ein bwriad. Rhaid creu economi sy'n dod â budd i bawb drwy greu cyflogaeth newydd, lleihau tlodi a gwella ansawdd bywyd ledled y sir. Dyma economi fydd yn rhoi i'n pobl y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i aros neu ddychwelyd i'w cymunedau, a ffynnu. A dyma economi fydd yn cryfhau ac yn gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd. Wrth galon hyn, bydd mentrau Gwynedd yn gwireddu eu llawn botensial, yn wydn ac yn tyfu, a bydd y cyfoeth rydyn ni'n ei greu yn aros yn lleol.

Mae'n weledigaeth sy'n ymateb i'r alwad am ffyniant a fynegwyd gan drigolion Gwynedd yn yr ymgynghoriad Ardal Ni. Clywsom alwadau am swyddi cyflog uwch llawn-amser, am economi fwy sefydlog ac amrywiol, am ganol trefi bywiog, ac am gyfleoedd i'n pobl ifanc ffynnu yng Ngwynedd.

Rydym eisiau economi sy'n rhoi cyfle i bawb fyw bywydau cyflawn a gwireddu eu llawn botensial, ac economi sy'n cryfhau'r cyfoeth naturiol a diwylliannol sy'n gwneud ein sir mor unigryw.

Ffyniant sydd nid yn unig yn gynaliadwy felly, ond sy'n **gynhwysol a theg** ac yn **adfer** cyfoeth cymunedol, naturiol a diwylliannol ein sir.

Gyda newidiadau economaidd sylweddol ar droed, mae cyfle cyffrous o'n blaenau i wneud Gwynedd yn gyrchfan rhagoriaeth mewn diwydiannau newydd – yn y diwydiannau creadigol a digidol, gwasanaethau proffesiynol, ynni glân a gweithgaredd carbon isel, y gwyddorau bywyd, gweithgynhyrchu uwch ac awyrofod. Yn yr un modd, rhaid ein bod yn gefn i'r diwydiannau hynny sydd eisoes yng Ngwynedd ac yn hanfodol i'n cymunedau, mentrau a'n trigolion – gyda'r ail arwynebedd mwyaf yng Nghymru o ran tir amaeth, er enghraifft, rhaid parhau i feithrin ac ychwanegu gwerth at ein sectorau traddodiadol, fel amaeth a thwristiaeth, fel sylfaen gadarn a rhan lawn o economi fodern ac arloesol.

Yn sgil hyn, mae angen llais clir a chryf i lywio datblygu sy'n effeithio arnom a chadw buddion yn lleol. I'r pwrpas hwn y lluniwyd y Strategaeth Economaidd hon. Mae'n cydnabod y bydd angen cydweithio â phartneriaid ar bob lefel a dylanwadu arnynt os am fanteisio ar gyfleoedd a goresgyn heriau, ac wrth i'r tirlun ariannu a pholisi economaidd newid, bydd gwerth a phwysigrwydd cydweithio yn cynyddu.

Edrychwn ymlaen at weld y Strategaeth Economaidd hon yn cyflawni'i gweledigaeth.




Cyng. R. Medwyn Hughes

Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Cyngor Gwynedd

2. PROFFIL ECONOMI GWYNEDD

Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru o ran maint. Wedi'i lleoli yng ngogledd-orllewin Cymru, mae Gwynedd yn ymestyn o Fae Ceredigion yn y gorllewin hyd at lannau Afon Menai yn y gogledd, gyda rhan sylweddol o'r sir o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ddaearyddiaeth hon yn siapio dosbarthiad gofodol y boblogaeth gyda'r mwyafrif yn byw ar hyd yr arfordir a'r tir isel, yn enwedig yng ngogledd y sir, a'r gweddill mewn pentrefi, trefi llai neu yng nghefn gwlad.

Mae Gwynedd yn sir arbennig gyda chyfoeth diwylliannol ac amgylcheddol eithriadol. Gwynedd yw'r sir â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae 92% o ardaloedd lleol y sir * uwchlaw trothwy dwysedd Cymraeg uchel y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Mae'r sir hefyd yn amgylcheddol gyfoethog ac yn cynnwys mynyddoedd Eryri, Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, a Pharth Biosffer Bro Dyfi. Mae yma hefyd dreftadaeth fyd-enwog ac unigryw a adlewyrchir yn y ddau Safle Treftadaeth y Byd UNESCO - Cestyll Edward I a Thirwedd Llechi Gwynedd.



* Mae'r ardaloedd wedi eu diffinio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is - ardaloedd ystadegol safonol sy'n cael eu defnyddio i gasglu a chyhoeddi data ar lefel leol fach, fel arfer yn cynnwys tua 1,500 o bobl.

Y FARCHNAD LAFUR

73% o boblogaeth Gwynedd o oedran gweithio mewn cyflogaeth, sy'n is na Chymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG).ⁱ

Cyfradd gweithlu Gwynedd sy'n hunangyflogedig dros **50%** yn uwch nag yng Nghymru.ⁱⁱ

Mae cyflog wythnosol gweithwyr Gwynedd ar gyfartaledd dros **£50** yn llai na Chymru a £100 yn llai na'r DG.ⁱⁱⁱ

CYNHYRCHIANT

Mae gwerth ychwanegol gros (GVA) y pen yng Ngwynedd tua £3,500 y flwyddyn yn llai na chyfartaledd y Gogledd, a bron i **£12,000** yn llai na'r DG.^{iv}

Mae GVA fesul swydd yng Ngwynedd **£10,000** yn is na chyfartaledd gogledd Cymru, a dros **£23,000** yn is na'r DG.^v

GVA fesul awr a weithir yng Ngwynedd yw'r ail isaf yn y Gogledd, ac wedi tyfu leiaf rhwng 2004 a 2023.^{vi}

SGILIAU

Dim ond **4%** o bobl o oedran gwaith yng Ngwynedd sydd heb gymwysterau – llai na gogledd Cymru a Chymru.^{vii}

70.6% o bobl o oedran gwaith yng Ngwynedd gyda chymwysterau uwch na Lefel A – mwy na gogledd Cymru a Chymru.^{viii}

Bron i **1/3** o bobl o oedran gwaith sy'n anweithgar yng Ngwynedd eisiau swydd – mwy na Chymru a'r DG.^{ix}

MENTRAU'R SIR

Mae **dros hanner** y mentrau a sefydlwyd yng Ngwynedd yn 2019 yn dal i fasnachu yn 2024 – y gyfradd oroesi dros bum mlynedd uchaf yng Nghymru.^x

94.6% o fentrau cynhenid Gwynedd yn cyflogi llai na 10 o bobl.^{xi}

230 o fentrau sy'n cyflogi mwy na 250 o bobl yng Ngwynedd (1.4%).^{xii}

Mae bron i **14%** o fentrau Gwynedd yn rhai lletygarwch – canran uwch na siroedd eraill gogledd Cymru.^{xiii}

Yn siroedd y gorllewin mae'r ganran uchaf yng ngogledd Cymru o fentrau amaethyddol

23% ond y ganran isaf o fentrau gweithgynhyrchu – dim ond **5%**^{xiv}

Mae bron i **13,000** o fentrau cynhenid yng Ngwynedd.^{xv}

Cyfraniad sectorau i'r economi^{xvi}





3. YR ACHOS DROS WEITHREDU

Yma yng Ngwynedd, mae gennym hanes economaidd cryf y gallem ymfalchïo ynddo. Mae yma hefyd economi fodern ac arloesol gyda photensial sylweddol yn y mentrau sydd yma a chyfleoedd mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd.

Mae ystod o rinweddau cadarnhaol i'r economi; mae diweithdra yn isel, mae lefel cymwysterau ein gweithlu yn uchel, rydym yn wydn ac mae cyfradd goroesi ein busnesau y gorau yng Nghymru.

Er hyn, yn ôl sawl dangosydd, mae bwlch rhwng yr economi yng Ngwynedd a ac ardaloedd eraill yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG). Mae hyn yn cynrychioli anghyfartaledd strwythurol dwfn ac yn rhoi pobl Gwynedd dan anfantais gymharol. Mae'n cyfyngu ar allu ein pobl i gael gwaith addas sy'n cynnig sicrwydd a chyflogau teg, a photensial yr economi leol i wella safonau byw a chyfleoedd bywyd.

Yn ôl y [Mynegai Cystadleurwydd \(2025\)](#), mae Gwynedd ymhlith y 10% o siroedd sy'n tanberfformio fwyaf yn economaidd ledled Cymru a Lloegr. Er fod perfformiad Gwynedd ymysg y gorau o blith siroedd gwledig a gorllewinol Cymru, mae'n her ganolog sy'n cael effaith uniongyrchol ar lesiant pobl Gwynedd.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y materion sydd angen sylw ac mae'r bylchau mwyaf yn dangos tanberfformiad Gwynedd ym mwy nag un [Dangosydd Llesiant Cenedlaethol](#):

BYLCHAU YN ECONOMI GWYNEDD

BWLCH GWEITHLU

Cyfradd ddiweithdra isel, ond cyfradd anweithgarwch y sir (h.y. cyfran y boblogaeth 16 i 64 oed nad ydynt mewn gwaith) yn uwch na chyfartaledd gogledd Cymru a'r DG.

(Dangosydd Llesiant 21: Cyfran y boblogaeth mewn gwaith)

BWLCH POBLOGAETH

Poblogaeth yn heneiddio'n gyflymach na Chymru a'r DG, gyda chyfran uwch o bobl hŷn mewn oed ymddeol a lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc.

BWLCH CYFLOG

Cyflog cyfartalog wythnosol gweithiwr llawn-amser ac incwm gwario gros aelwydydd yn gyson is yng Ngwynedd ers 2010 na chyfartaleddau Cymru a'r DG.
(Dangosyddion Llesiant 10: Incwm Gwario Gros Aelwydydd y Pen)

BWLCH AMODAU GWAITH

Cyfraddau sylweddol uwch o weithwyr yng Ngwynedd yn gyflogeion rhan-amser a thymhorol o gymharu â Chymru a'r DG.
(Dangosydd Llesiant 16: Canran y boblogaeth sydd mewn gwaith, ar gontractau parhaol ac sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol).

BWLCH LLESIANT

Cyflogau isel a swyddi rhan-amser yn achosi lefelau uchel o dlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol, gyda thlodi mewn gwaith yn arbennig o uchel yng Ngwynedd o gymharu â Chymru a'r DG.

(Dangosyddion Llesiant 18: Canran o aelwydydd mewn tlodi o gymharu â'r DG)

(Dangosydd Llesiant 19: Canran yr aelwydydd mewn amddifadedd materol)

BWLCH CYNHYRCHIANT

Gwerth yr hyn a gynhyrchir yng Ngwynedd (fesul pob awr a weithir; fesul pob swydd a lenwir) yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG yn 2023, a chyfradd twf cynhyrchiant yng Ngwynedd yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG ers 2004.

(Dangosydd Llesiant 09: GVA fesul yr awr a weithir o gymharu â chyfartaledd y DG)

BWLCH DIWYDIANNOL

Amrywiaeth cymharol gul o ddiwydiannau gyda chyflogeion a mentrau yn fwy niferus mewn ystod llai o ddiwydiannau.

BWLCH MENTERGARWCH NEWYDD

Y gyfradd geni busnes yng Ngwynedd ymhlith yr isaf ar draws siroedd Cymru yn 2023, yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DG.

BWLCH PERFFORMIAD UCHEL

Canran y mentrau a welodd gynnydd o 20% yn nifer y cyflogeion dros gyfnod tair blynedd yn gyson is yng Ngwynedd na Chymru a'r DG rhwng 2018 a 2023.

BWLCH CYSYLLTEDD DIGIDOL

Canran yr eiddo â mynediad at gysylltedd gigabeit (>1,000 Mbps) yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DG, gyda chyfran uwch o eiddo hefyd â chysylltedd gwan (<15 Mbps). Cyrhaeddiad 4G a 5G hefyd yn is yng Ngwynedd.

(Dangosydd Llesiant 50: Cynhwysiant digidol)

4. Y NEWID SYDD EI ANGEN



Mae'r bylchau sy'n wynebu Gwynedd yn dangos angen clir am newid sylfaenol yn yr economi: newid sydd, ar un llaw, yn mynd i'r afael â than berfformiad cymharol yr economi ac yn creu'r amodau gorau posibl i'n mentrau, ac ar y llaw arall, newid sy'n cael effaith bositif uniongyrchol ar lesiant ein pobl a chyfleoedd bywyd yng Ngwynedd. Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu er mwyn egino a chefnogi'r mathau hyn o newid.

Ar lefel yr economi gyfan, mae'n cynnwys:

- **Codi lefelau cynhyrchiant ein mentrau a'n gweithwyr** er mwyn ysgogi cyflogau uwch ac amodau gwaith gwell.
- **Cynyddu cystadleurwydd ein mentrau cynhenid** fel eu bod yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn gwireddu'u hamcanion busnes hir-dymor ac yn creu swyddi o safon.
- **Cryfhau cysylltedd digidol ac isadeiledd busnes y sir** er mwyn creu'r amodau gorau posibl ar gyfer mentro.
- **Creu sylfaen ddiwydiannol sy'n fwy amrywiol** gyda mentrau lleol mewn ystod o ddiwydiannau yn creu cyfleoedd newydd ac economi mwy gwydn.
- **Cefnogi ein pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt** fel eu bod nhw, ynghyd â'r mentrau sy'n eu cyflogi, yn gallu manteisio'n llawn ar gyfleoedd.
- **Cadw mwy o'r cyfoeth rydym yn ei greu yn lleol yng Ngwynedd** er mwyn uchafu buddion i bobl, mentrau a chymunedau Gwynedd.
- **Adeiladu economi sy'n gynaliadwy** yn amgylcheddol, ieithyddol a diwylliannol.

Rydym am weithredu'r newidiadau hyn yn bennaf er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl Gwynedd. Y prif welliannau fydd yn effeithio pobl Gwynedd yw:

- Cyflogau ac incwm gros aelwydydd yn uwch
- Mwy o bobl wedi'u cyflogi mewn swyddi sefydlog
- Lefelau is o dlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol
- Amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith yn lleol
- Mwy o bobl yn gallu aros, byw a gweithio yn eu cymunedau lleol
- Mwy o bobl yn mwynhau eu gwaith ac yn gwireddu eu llawn botensial
- Economi werdd sy'n amddiffyn amgylchedd naturiol eithriadol y sir
- Economi Gymraeg sy'n cynyddu defnydd a gwelededd yr iaith gyda chwsmeriaid ac yn y gweithle ledled Gwynedd.

Wrth wraidd pob ymdrech i gyflawni'r Strategaeth byddwn yn canolbwyntio ar y gwerthoedd sy'n golygu fwyaf i bobl Gwynedd:

Cael byw ag urddas

Fe ddylai pawb gael digon i gynnal eu hunain a'u teuluoedd, i fyw heb eisiau, yn llawn ac yn hapus.

Cyfleoedd

Fe ddylai pob unigolyn allu cyrraedd y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwireddu eu llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.

Tegwch

Ni ddylai unrhyw ardal, berson neu gymuned fod wedi'u gadael ar ôl.


Gwreiddiau lleol

Mentrau Gwynedd yw hanfod economi Gwynedd, a trwyddynt y mae modd cadw'r cyfoeth rydym yn ei greu yn lleol.

Cynaliadwyedd

Rhaid meithrin a gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd sydd, fel ei gilydd, yn gwneud Gwynedd yn le mor arbennig i fyw, gweithio a mentro.

Bydd angen i ni fod yn ddewr wrth weithredu'r Strategaeth hon gan annog eraill i wneud yr un fath. Bydd angen i ni fod yn barod i arbrofi gyda dulliau newydd a gwahanol, gan dderbyn na fydd pob ymdrech yn dwyn ffrwyth.



5. DATBLYGU'R STRATEGAETH I ECONOMI GWYNEDD

Datblygwyd y Strategaeth trwy ymchwil pen-desg ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid rhwng 2024 a 2025. Mae'n asesiad gonest ond uchelgeisiol o'r economi, ac wedi ei chynllunio yng ngolau cyfleoedd, heriau ac anghenion Gwynedd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bosib ei gyflawni gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid.



YMCHWIL AC YMGYSYLLTU

Yn gyntaf ystyriwyd proffil economi Gwynedd - ei nodweddion a'i pherfformiad, sut mae'n cymharu ag ardaloedd eraill, a'r dylanwadau ehangach sy'n effeithio ar Wynedd heddiw neu sy'n debygol o wneud yn y dyfodol. Law yn llaw â'r ymchwil yma, mapiwyd y cyd-destun strategol a pholisi - yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol (Cymru a'r DG) - er mwyn sicrhau'r budd gorau posibl i Wynedd o ystod eang o weithgareddau datblygu economaidd.

Bu ymgysylltu helaeth â phartneriaid strategol, busnesau a thrigolion, gan gynnwys cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol y Cyngor ym maes datblygu economaidd.

Casglwyd barn busnesau Gwynedd drwy Arolygon Busnes y Cyngor yn 2024 a 2025 roddodd ddarlun clir o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n eu hwynebu, y mathau o gymorth sydd ei angen, a'u bwriadau ar gyfer y dyfodol.

Defnyddiwyd hefyd ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus y Cyngor, gan gynnwys Ymgynghoriad Ardal Ni, a ganolbwyntiodd ar economi a chymunedau Gwynedd.

Casglwyd sylwadau pobl Gwynedd am gryfderau eu hardaloedd lleol, y pethau sydd angen eu gwella, a'r newidiadau y maent yn am eu gweld. Mae'n fesur defnyddiol o'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd a'u gweledigaeth ar gyfer economi'r sir.

DYLANWADU A CHYD-WEITHIO

Mae gan gyflogwyr yn y sector gyhoeddus, y sector breifat a'r trydydd sector rôl allweddol wrth wireddu'r Strategaeth hon. Trwyddyn nhw y bydd llawer o'r newidiadau yn dwyn ffrwyth, ac mae'n gofyn ein bod yn eu cefnogi – drwy ddylanwad uniongyrchol y Cyngor, neu drwy weithio gyda'n partneriaid. Mae'r meysydd sydd o fewn dylanwad lleol yn eang ac yn amrywio o grantiau datblygu busnes, cynlluniau harddu ac adfywio, gwaith cynllunio a rheolaeth adeiladu, i drwyddedau busnes a safonau masnachu. Maent hefyd yn cynnwys cymorth a chynghor gyrfaol, yn ogystal ag ymyraethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi gweithlu iach, diogel sy'n abl i gweithio.

Un maes sydd o arwyddocâd penodol wrth ddatblygu'r economi yw sicrhau fod cytundebau cyhoeddus yn cefnogi cyflenwyr lleol. Boed yn unigol, neu wrth ffurfio mentrau cydweithredol, mae gan gyflenwyr lleol y gallu i gyflenwi cytundebau sylweddol. Mae cadw'r bunt yn lleol yn bwysicach nag erioed. Mae dyletswydd, nid yn unig i'r Cyngor, ond i'n holl bartneriaid i wneud ymdrech benodol i gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol, trwy ymarferion caffael a thrwy annog busnesau unigol i'w ddefnyddio.

Mae llawer o'r meysydd hyn yn cael eu dylanwadu'n sylweddol gan bolisiâu cenedlaethol Llywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru, lle mae'r prif rymoedd penderfynu'n gorwedd. O ganlyniad, mae cydweithio a dylanwadu'n hanfodol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i Wynedd. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos cryfaf dros sicrhau cyfran deg o fuddsoddiad economaidd o bob ffynhonnell yn y dyfodol.

Bydd buddsoddiad cyhoeddus, preifat a mentrau ar-y-cyd yn hollbwysig wrth wireddu'r Strategaeth hon. Rydym eisoes yn gweithredu ar brosiectau trwy bartneriaeth, a byddwn yn parhau i gynnal ac ehangu ein rhwydwaith o bartneriaid cyllido. Byddwn yn archwilio dulliau traddodiadol ac arloesol o ddod â chyrff at ei gilydd i gyllido'r prosiectau priodol i'r sir.

Y CYD-DESTUN STRATEGOL A PHOLISI

Mae'r Strategaeth hon yn ymateb i'r cyd-destun strategol a pholisïau datblygu economaidd perthnasol, gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith er mwyn ychwanegu gwerth a sicrhau bod Gwynedd yn cael y budd mwyaf. Bydd y cyd-destun hwn yn cael ei fonitro dros gyfnod y Strategaeth er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn ymateb i newidiadau polisi ehangach.

Mae hefyd yn cydnabod bod Gwynedd yn rhan o ranbarth ehangach gyda phobl a busnesau yn gweithio a gweithredu ar draws ffiniau sirol. Nid yw'n bosibl i economi Gwynedd ffynnu heb dderbyn a chyfrannu syniadau, dulliau a thalent o fewn y ranbarth a thu hwnt.

ARDALOEDD LLEOL

- [Ardal Ni: Cynlluniau Adfywio Lleol](#) : Yn 2022, ymgynghorodd Cyngor Gwynedd â chymunedau ledled y sir a arweiniodd at ddatblygu 13 o gynlluniau adfywio lleol. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio fframwaith adfywio i'r sir, gyda materion economaidd yn thema gyffredin.
- [Cynlluniau Adfywio Trefi](#): Mae gan Gyngor Gwynedd wyth o gynlluniau i wella ei brif ganolfannau masnachol fydd yn ganllaw ar gyfer buddsoddiad i'r dyfodol.
- [Cynlluniau Lleol a chymunedol](#): Mae amrywiaeth o rwydweithiau yng Ngwynedd, yn gynghorau tref a chymuned, a fforymau lleol, sydd wedi nodi blaenoriaethau ac anghenion lleol mewn dogfennau strategol.

GWYNEDD

- [Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28](#): Mae cynllun corfforaethol y Cyngor yn adnabod Gwynedd Lewyrchus fel blaenoriaeth strategol, gyda'r nod o *"gryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng"*.
- [Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035](#) : Mae'r Cynllun Strategol wedi ei fabwysiadu gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wireddu eu hegwyddorion economi ymweld.
- [Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023-2033](#): Mae'r Strategaeth Iaith yn nodi blaenoriaethau Cyngor Gwynedd o ran hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd ar draws y sir.
- [Cynllun Eryri](#): Cynllun Eryri yw Cynllun Rheoli Statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i warchod rhinweddau unigryw Eryri.
- [Polisi Cynllunio](#): Mae tiriogaeth Gwynedd o ran cynllunio gwlad a thref wedi ei rannu rhwng awdurdodau cynllunio [Cyngor Gwynedd](#) ac [Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#).



RHANBARTHOL

- [Cynllun Twf Gogledd Cymru](#): Mae'r cynllun, dan arweiniad Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, yn buddsoddi cyllid o £120 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £120 miliwn gan Lywodraeth y DG mewn detholiad o brosiectau ar draws pum rhaglen gan anelu i greu 4,000 o swyddi erbyn 2036.
- [Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025](#): Mae Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru yn cynnig arweiniad ar anghenion cyflogwyr a chyflogai o fewn yr economi.
- [Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru](#): Mae'r fframwaith yn amlinellu sut mae'r rhanbarth yn gweithio tuag at flaenoriaethau cyffredin.
- [Rhaglen ARFOR](#): Partneriaeth rhwng cynghorau Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr yw ARFOR, sy'n ceisio cefnogi hyfywedd y Gymraeg drwy fynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol mewn cymunedau Cymraeg cynhenid.

CYMRU

- [Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru](#): Fframwaith Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu eu dull gweithredu ar gyfer y maes buddsoddi rhanbarthol.
- [Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach](#): Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu economi fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrdd, ar sail pedwar maes blaenoriaeth, gan roi pwyslais ar dwf cynhwysol.
- [Economi sylfaenol: datganiad cenhadaeth](#): Datganiad o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sectorau maent yn ystyried yn sylfaenol i'r economi.
- [Strategaeth arloesi i Gymru](#): Strategaeth Llywodraeth Cymru ar sut i ddefnyddio arloesedd i wella bywydau pobl a sbarduno'r economi.
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#): Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried llesiant y boblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu yn unol ag egwyddorion a phwrrpas y Ddeddf hon.

Y DEYRNAS GYFUNOL

- [Cenhadaeth Economi](#): Twf economaidd yw blaenoriaeth bennaf y llywodraeth bresennol yn Llundain. Y nod yw cynyddu cynhyrchedd a chreu economi gystadleuol, amrywiol ac arloesol.
- [Strategaeth ddiwydiannol 2035](#): Mae strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DG, *Invest 2035*, yn ganolog i'w Cenhadaeth Economi. Mae'n adnabod wyth sector twf strategol a chyfres o ymyraethau i'w cefnogi. Mae Cynllun Gweithredu Deallusrwydd Artiffisial hefyd yn hybu twf drwy gynyddu'r defnydd o dechnoleg ymhlith mentrau a'r economi ehangach.

6. | BLAENORIAETHAU'R STRATEGAETH



EIN GWELEDIAETH

“Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.”



MENTERGARWCH

Mentrau lleol llewyrchus sy'n rhagori

BLAENORIAETH UN

Uchafu gwerth ein heconomi bresennol

Nod (beth?):

Gwireddu potensial ein mentrau a'n sectorau presennol drwy gynyddu eu gwerth, cryfhau eu gwydnwch a'u cefnogi i leihau allyriadau.

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 1.1 Cefnogi mentrau i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol, a chreu mwy o werth.
- 1.2 Cefnogi mentrau i ddod yn fwy effeithlon, a lleihau costau a gwastraff.
- 1.3 Cefnogi mentrau i fabwysiadu ac/neu ymateb i dechnolegau newydd.
- 1.4 Cefnogi mentrau i arloesi drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i greu a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.
- 1.5 Cefnogi mentrau lleol i gyrraedd marchnadoedd newydd.
- 1.6 Cefnogi cynlluniau olyniaeth sy'n cadw perchnogaeth yn lleol.
- 1.7 Cadw mwy o wariant cyhoeddus yn lleol.
- 1.8 Ymgysylltu rheolaidd â mentrau Gwynedd er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd a gwybodaeth busnes.
- 1.9 Cefnogi'r newid at economi sero net a manteisio ar gyfleoedd sy'n dod o hynny.
- 1.10 Annog mentrau maint micro a bychain i gydweithio er mwyn adeiladu ar gryfderau ei gilydd.
- 1.11 Annog a chefnogi perchnogaeth leol o asedau economaidd.



Gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd

Nod (beth?):

Cefnogi a gwneud y mwyaf o ddiwydiannau a gweithgareddau newydd â photensial sylweddol gan sicrhau fod y budd yn aros yn lleol

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 2.1** Denu buddsoddiad er mwyn creu cyflogaeth o ansawdd i'r sir.
- 2.2** Manteisio ar fuddsoddiadau sylweddol yn rhanbarth y Gogledd er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Wynedd o Gynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Wrecsam a Sir Fflint, a Phorthladd Rhydd Ynys Môn.
- 2.3** Cefnogi mentrau lleol sydd â photensial mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd er mwyn cadw'r budd yn lleol.
- 2.4** Cefnogi mentrau lleol i fanteisio ar gyfleoedd buddsoddiad amgen a phreifat.
- 2.5** Gwneud y mwyaf o'n hasedau strategol â photensial i ddenu datblygiadau sylweddol.
- 2.6** Sicrhau bod datblygiadau newydd yng Ngwynedd yn elwa'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt.
- 2.7** Sicrhau fod mentrau Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd yn deillio o newidiadau mawrion yn yr economi fyd-eang.
- 2.8** Annog a galluogi mentrau a sefydliadau addysg i gydweithio ar gyfleoedd ymchwil a datblygu.





Pobl

Gweithlu medrus a chynhwysol

BLAENORIAETH TRI

Sicrhau gweithlu medrus

Nod (beth?):

Meithrin, denu a chadw talent gan ymateb i anghenion sgiliau hirdymor y sir

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 3.1** Cefnogi mentrau Gwynedd i oresgyn heriau recriwtio ac anghenion sgiliau.
- 3.2** Cyd-weithio â phartneriaid sector addysg er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion sgiliau hirdymor.
- 3.3** Cadw cyswllt â phobl ifanc sy'n gadael y sir, neu sy'n ystyried gwneud, a dangos y cyfleoedd gwaith sydd yma yng Ngwynedd.
- 3.4** Hyrwyddo cynlluniau denu a datblygu talent.
- 3.5** Cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg i fanteisio ar gyfleoedd a gwireddu eu llawn botensial.
- 3.6** Cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli.
- 3.7** Annog defnydd o drefniadau a phatrymau gwaith amgen i alluogi gweithio mwy hwylus o ran lleoliad ac amser, yn enwedig o fewn ein hardaloedd gwledig.



Cefnogi ein pobl

Nod (beth?):

Cefnogi pobl Gwynedd i wireddu eu llawn botensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleoedd yn lleol

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 4.1** Cefnogi pobl sy'n ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol i gael gwaith.
- 4.2** Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i gyrraedd swydd well â chyflogau uwch neu amodau gwaith mwy sicr.
- 4.3** Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith cyflogwyr y sir.
- 4.4** Hyrwyddo mathau cynhwysol o gyflogaeth i'w gwneud yn haws i bobl allu gweithio.
- 4.5** Hyrwyddo cyfleoedd gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl.
- 4.6** Cefnogi pobl hŷn mewn oedran ymddeol i barhau i weithio a gwirfoddoli, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- 4.7** Lleihau anghydraddoldeb rhwng dynion a merched i sicrhau bod pawb yn cael yr un driniaeth ac yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y farchnad lafur.
- 4.8** Sicrhau bod pobl anabl yn cael cyfleoedd teg, drwy ddileu rhwystrau a sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau ac at gyfleoedd.





Lle

Yr amodau gorau i ffynnu

BLAENORIAETH PUMP

Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl

Nod (beth?):

Gweithredu am well cysylltedd ac isadeiledd busnes i hybu'r economi

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 5.1 Ehangu mynediad at y cysylltedd digidol gorau posibl mewn ardaloedd ble mae'n wan.
- 5.2 Pwyso am welliannau mewn trafndiaeth er mwyn hwyluso symudedd pobl yn lleol.
- 5.3 Pwyso am welliannau yn rhwydwaith ffyrdd Gwynedd er mwyn hwyluso datblygiad busnes.
- 5.4 Pwyso am welliannau yng nghapasiti'r grid yn lleol ac isadeiledd cyfleustodau.
- 5.5 Cefnogi cynlluniau adfywio canol trefi.
- 5.6 Creu a gwella stoc unedau gwaith er mwyn sicrhau darpariaeth addas.



Lle gwych i fyw, gweithio a mentro

Nod (beth?):

Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwych i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu'r iaith Gymraeg a'n hunaniaeth arbennig

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 6.1 Cryfhau hunan-hyder a'r gred y gellir llwyddo'n lleol yng Ngwynedd.
- 6.2 Egnïo a chefnogi sin ddiwylliannol a chymdeithasol unigryw Gwynedd.
- 6.3 Cryfhau defnydd a gwelededd y Gymraeg fel agwedd unigryw o economi Gwynedd.
- 6.4 Ymgysylltu â diaspora Gwynedd er mwyn denu profiad, arbenigedd a buddsoddiad gwahanol yn ôl i'r ardal.
- 6.5 Annog mwy o bobl a mentrau i brynu'n lleol.





7. | Y STRATEGAETH AR WAITH

GWEITHIO DRWY BARTNERIAETH

Nid yw'r Strategaeth yn ddogfen ar gyfer sefydliad unigol. Bydd gofyn am ymdrech ar draws sefydliadau a sectorau er mwyn ei gwireddu.

Byddwn yn adeiladu ar y profiad cadarnhaol o weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Gyfunol (DG) a'r gwerthfawrogiad mae sefydliadau wedi ei fynegi o'r cyfle i ddod ynghyd i gydweithio, cydlynu eu hymdrechion, a lleisio anghenion eu rhanddeiliaid. Byddwn felly yn sefydlu 'Fforwm Economi Gwynedd' er mwyn gweithredu'r Strategaeth.

Bydd aelodaeth y Fforwm yn cynnwys y prif sefydliadau sy'n cyfrannu i ffyniant lleol, a'r cyrff sy'n gweithio i ddatblygu economi sy'n buddio ein cymunedau. Bydd y Fforwm yn dod â phartneriaid lleol ynghyd o'r sector gyhoeddus, sector breifat a'r drydedd sector. Bydd sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol hefyd yn rhan o'r Fforwm.

Byddwn yn sicrhau llais i rannau gwahanol o Wynedd er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r amrywiaethau ar draws y sir.



Bydd y Fforwm yn cwrdd yn ffurfiol dair gwaith y flwyddyn, er mwyn:

1. Llunio a chydlyn Cynllun Cyflawni blynyddol ar gyfer y Strategaeth.
2. Monitro gweithgareddau a'u dangosyddion unigol a chyfansawdd.
3. Cynnal gorolwg o'r cynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth.
4. Adolygu a diweddarau'r Strategaeth yn ôl yr angen.
5. Cynnal gorolwg o'r maes a datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i economi Gwynedd gan lobio o blaid ein hanghenion.
6. Hyrwyddo a hwyluso cydweithio rhwng sefydliadau gyda rôl yn datblygu economi'r sir a phartneriaethau / fforymau eraill.



CYNLLUN CYFLAWNI'R STRATEGAETH


Mae'r Strategaeth yn sefydlu'r nod ac yn adnabod dull o fynd i'r afael â'r heriau economaidd hirdymor sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Gwynedd.

Bydd Cynllun Cyflawni yn cael ei lunio yn flynyddol dan arweiniad Fforwm Economi Gwynedd i weithredu'r Strategaeth. Bydd y Cynllun yn cynnwys gweithgaredd sydd eisoes ar waith, a phrosiectau sydd ar y gweill gan nodi eu haliniad gyda'r Strategaeth a'r ardaloedd fydd yn elwa.

Bydd y cynllun hefyd yn fodd i'r Fforwm adnabod bylchau mewn darpariaeth ac o ddylanwadu ar gynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol.

MONITRO, GWERTHUSO AC ADOLYGU

Mae'n allweddol ein bod yn gallu mesur yr hyn mae cynlluniau a gweithgareddau yn eu cyflawni yn unigol, a'u heffaith cyfansawdd.



Drwy gael detholiad cyson o ddangosyddion bydd modd gwerthuso effaith gweithgareddau ac adolygu ein cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Strategaeth.

Mae'r dangosyddion sydd wedi eu hadnabod yn adlewyrchu'r newid sydd ei angen a'r blaenoriaethau o fewn y Strategaeth

FFRAMWAITH MONITRO A GWERTHUSO
Y STRATEGAETH AR WAITH

Allbynnau - Tymor Byr

A1. Mentrau wedi'u cefnogi i fabwysiadu technoleg	A12. Datblygiadau mawrion wedi ymgysylltu	A23. Pobl di-waith, anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol wedi'u cefnogi i gael gwaith	A34. Gwelliannau i gapasiti'r grid ac isadeiledd cyfleustodau eraill
A2. Mentrau wedi derbyn cefnogaeth olyniaeth	A13. Datblygiadau mawrion wedi'u caniatáu	A24. Pobl sydd mewn gwaith wedi cael hyfforddiant neu gymorth	A35. Unedau gwaith wedi eu hadeiladu
A3. Mentrau wedi'u cefnogi i drosglwyddo i berchnogaeth gweithwyr	A14. Mewnfuddsoddiad i brosiectau cyfalaf	A25. Pobl o oedran ymddeol wedi'u cefnogi i barhau i weithio neu wirfoddoli	A36. Gofodau llawr masnachol wedi'u caniatáu
A4. Mentrau yn mabwysiadu technoleg wyrdd	A15. Buddsoddiad sector gyhoeddus i brosiectau cyfalaf	A26. Pobl anabl wedi'u cefnogi i gael hyfforddiant, gwaith neu i wirfoddoli	A37. Gofodau llawr masnachol wedi'u hadeiladu
A5. Mentrau lleol yn ymgysylltu â chefnogaeth busnes	A16. Buddsoddiad sector gyhoeddus i gefnogi twf busnesau presennol	A27. Merched wedi'u cefnogi i gael hyfforddiant neu i ddychwelyd i waith	A38. Siaradwyr Cymraeg wedi'u cefnogi i gael swydd a dychwelyd i'r ardal
A6. Mentrau wedi derbyn cefnogaeth caffael	A17. Mewnfuddsoddiad i gefnogi twf busnesau presennol	A28. Gwelliannau i isadeiledd digidol wedi'u cefnogi	A39. Mentrau yn ymrwymo i ddefnyddio mwy o Gymraeg
A7. Mentrau wedi'u cefnogi i ehangu i farchnad newydd	A18. Mentrau yn derbyn cefnogaeth recriwtio	A29. Nifer o swyddi wedi eu creu	A40. Pobl ifanc sy'n cael eu hymgysylltu cyn iddynt raddio o addysg
A8. Mentrau'n wedi'u cefnogi i ennill cytundebau sector cyhoeddus	A19. Pobl sy'n cofrestru ar gyfer cymhwyster	A30. Trefi wedi derbyn buddsoddiad	A41. Mentrau wedi'u cefnogi i wario mwy yn y gadwyn gyflenwi leol
A9. Mentrau wedi'u cefnogi i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol	A20. Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn derbyn cefnogaeth	A31. Adeiladau gwag wedi dychwelyd i ddefnydd	A42. Gweithgareddau diwylliannol neu gymdeithasol wedi eu cefnogi
A10. Mentrau gweithgynhyrchu wedi'u cefnogi i sefydlu neu dyfu	A21. Pobl wedi'u cefnogi gan gynlluniau denu a datblygu talent	A32. Mannau cyhoeddus wedi'u gwella	A43. Nifer o weithgareddau i hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o Wynedd
A11. Mentrau mewn sectorau gwerth uchel wedi'u cefnogi i sefydlu neu dyfu	A22. Pobl wedi'u cefnogi i wirfoddoli	A33. Gwelliannau i gysylltedd trafnidiaeth	

Canlyniadau - Tymor Canolig

C1. Mentrau yn aros mewn perchnogaeth lleol yn dilyn ymddeoliad sefydlydd	C9. Mentrau yn cael eu sefydlu neu'n tyfu o ganlyniad i fuddsoddiad sector gyhoeddus	C16. Pobl sy'n cynyddu eu henillion (mwy o oriau/cyflog) o ganlyniad i gefnogaeth	C24. Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â chanol trefi
C2. Mentrau yn fwy cynhyrchiol o ganlyniad i gefnogaeth	C10. Gwariant gyda mentrau lleol gan ddatblygiadau sylweddol	C17. Mentrau yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o ganlyniad i gefnogaeth	C25. Mentrau wedi eu lleoli mewn unedau gwaith newydd neu ofodau llawr masnachol newydd
C3. Mentrau wedi lleihau eu hól troed carbon o ganlyniad i gefnogaeth	C11. Mentrau sy'n adrodd bod lleihad mewn heriau recriwtio	C18. Pobl mewn gwaith o ganlyniad i gefnogaeth	C26. Mentrau yn defnyddio mwy o Gymraeg o ganlyniad i gefnogaeth
C4. Cynnydd yn y gyfradd sefydlu busnesau	C12. Pobl yn ennill cymhwyster o ganlyniad i gefnogaeth	C19. Pobl o oedran ymddeol mewn gwaith neu'n gwirfoddoli o ganlyniad i gefnogaeth	C27. Pobl wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd diwylliannol neu gymdeithasol
C5. Cynnydd yn y gyfradd busnesau sy'n goroesi	C13. Pobl ifanc NEET mewn addysg, hyfforddiant neu waith o ganlyniad i gefnogaeth	C20. Pobl anabl wedi cael hyfforddiant, mewn gwaith neu'n gwirfoddoli o ganlyniad i gefnogaeth	C28. Pobl wedi ymgysylltu gyda gweithgareddau i hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o Wynedd
C6. Gwariant gyda mentrau lleol gan y sector gyhoeddus	C14. Pobl yn gwirfoddoli o ganlyniad i gefnogaeth	C21. Unigolion / busnesau gyda mynediad i isadeiledd digidol gwell	C29. Mentrau yn creu cynllun gweithredu i ddefnyddio'r Gymraeg
C7. Cynnydd mewn gwariant yn y gadwyn gyflenwi yng Ngogledd Cymru	C15. Pobl oedd yn ddi-waith, anweithgar neu'n wynebu heriau ychwanegol mewn gwaith	C22. Trigolion yn byw / ymweld â threfi wedi derbyn buddsoddiad	
C8. Mentrau yn cael eu sefydlu neu'n tyfu o ganlyniad i fewnfuddsoddiad		C23. Pobl yn elwa o well cysylltedd i drafnidiaeth	

Effeithiau - Tymor Hir

E1. Bwlch cynhyrchedd economi Gwynedd yn lleihau o'i gymharu â Cymru, y DG ac ardaloedd cyffelyb	E8. Twf busnesau'n cynyddu wrth i gyflenwad talent gryfhau	E15. Cyfradd gweithio rhan amser yn agosach i'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DG	E21. Lleihad yn y rhwystr mae cysylltedd trafnidiaeth yn ei greu i bobl sy'n ceisio gwaith
E2. Cyfran o fusnesau yn cyflogi yn agosach i gyfartaledd Cymru a'r DG	E9. Lefel sgiliau'r sir wedi'i chynnal ac wedi gwella	E16. Lleihad yn y gyfradd o blant mewn aelwydydd heb waith	E22. Lleihad yn y gyfradd o bobl ifanc yn ymfudo o'r sir
E3. Cynnydd yn y gyfran o fentrau canolig eu maint	E10. Lleihad mewn pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	E17. Cynnydd yn y gyfradd o bobl dros 50 oed sy'n parhau i weithio	E23. Cynnydd yn y canfyddiad fod Gwynedd yn lle da i fyw neu fentro ymhlith pobl ifanc
E4. Twf mewn cyflogaeth ar draws yr economi, yn enwedig yn y sectorau gwerth uchel / cynhyrchiant uchel	E11. Cynnydd mewn balchder bro ac ymgysylltiad cymunedol	E18. Cyfradd argaeledd isadeiledd digidol yn agosach i'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DG ac yn well nag ardaloedd cyffelyb	E24. Lleihad yn y gyfradd o bobl yn cymudo o'r sir
E5. Economi yn fwy amrywiol o ran sectorau	E12. Cyfradd anweithgarwch economaidd yn agosach i'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DG	E19. Canol trefi sy'n fwy gwydn a chynaliadwy, gyda llai o adeiladau sydd wedi dirywio neu'n wag	E25. Cynnydd yn y defnydd o Gymraeg ar draws y sir
E6. Twf mewn cyflogaeth ar draws yr economi, yn enwedig yn y sectorau gwerth uchel / cynhyrchiant uchel	E13. Lleihad yn y bwlch cyflog cyfartalog â Cymru a'r DG	E20. Lleihad yn y risg y bydd capasiti'r grid neu isadeiledd arall yn cyfyngu ar neu'n oedi datblygiadau	E26. Cymunedau lle mae'r canran o siaradwyr wedi ei gynnal neu wedi gwella
E7. Economi fydd yn fwy abl i fanteisio ar gyfleoedd byd-eang	E14. Incwm aelwydydd yn agosach i'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DG		

FFYNHONELLAU

- i. Mae 73% o boblogaeth Gwynedd o oedran gweithio mewn cyflogaeth, sy'n is na Chymru (73.7%) a'r Deyrnas Gyfunol (DG) (76.6%). Data Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Medi 25 [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: crynodeb o weithgarwch economaidd | StatsCymru](#)
- ii. Mae data Nomis ar gyflogaeth a diweithdra ar gyfer y cyfnod Hydref 2024 – Medi 2025 i'r boblogaeth o oedran gwaith (18–64) yn dangos 11.9% yn hunangyflogedig yng Ngwynedd, 7.9% yn Nghymru a 9.5% yn y DG [Labour Market Profile – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics](#)
- iii. Mae gweithwyr Gwynedd yn ennill rhai o'r cyflogau isaf yn y DG: £669.20 yr wythnos o'i gymharu â £719.30 yng Nghymru, a £766.60 yn y DG. Data Nomis o gyflog wythnosol a mesul awr yn ôl lleoliad yn dangos bod Gwynedd yn is na Chymru a'r DG [Labour Market Profile – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics](#)
- iv. Mae data Llywodraeth Cymru ar GVA ar gyfer 2023 yn dangos £23,848 y pen i Wunedd, £27,395 y pen i ogledd Cymru, £25,742 i Gymru a £35,661 i'r DG [Gwerth ychwanegol Crynswth yn ôl awdurdod lleol Cymru a blwyddyn | StatsCymru](#)
- v. Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n mesur cynhyrchedd ar gyfer y cyfnod 2002 i 2023, yn dangos GVA fesul swydd a lenwir o £43,076 i Wunedd, £66,402 i'r DG, a chyfartaledd o £53,042 i ogledd Cymru – [GVA fesul swydd a lenwir fesul Awdurdod Lleol](#) (tabl B3 / llinell 347, llinell 6, a chyfartaledd llinell 346–351)
- vi. Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n mesur cynhyrchedd ar gyfer y cyfnod o 2004 i 2023, yn dangos GVA o £29.30 fesul awr a weithir yng Ngwynedd yn 2023, twf o 43% ers 2004 [GVA fesul awr a weithir fesul Awdurdod Lleol](#) (tabl A3 / llinell 347)
- vii. Mae data Llywodraeth Cymru ar lefelau o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio (18–64) ar gyfer y flwyddyn 2024 yn dangos 4% o bobl Gwynedd, 8.5% o bobl ogledd Cymru a 7.9% o bobl Cymru heb ddim cymwysterau [Dim cymhwyster gan oedolion o oedran gweithio yn ôl rhanbarth a awdurdod lleol](#)
- viii. Mae data Llywodraeth Cymru ar lefelau o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio (18–64) ar gyfer y flwyddyn 2024 yn dangos 70.6% o bobl Gwynedd, 69.1% o bobl ogledd Cymru a 68.6% o bobl Cymru wedi cymhwyso i lefel 3 (Lefel A) neu uwch [Cymhwyster lefel 3 gan oedolion o oedran gweithio yn ôl rhanbarth a awdurdod lleol](#)
- ix. Mae data am anweithgarwch economaidd poblogaeth o oedran gwaith gan Nomis ar gyfer y cyfnod Hydref 2024 – 2025 yn dangos bod 32.7% o bobl Gwynedd sy'n anweithgar eisiau swydd. Mae hyn yn cyfateb i tua 60% yn uwch na Chymru (19.3%) a'r DG (20.5%) [Labour Market Profile – Nomis](#)
- x. Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mesur niferoedd o fusnesau sydd wedi goroesi ar ôl 5 mlynedd ers eu sefydlu. Mae gan Wunedd gyfradd oroesi o 55.2% ar ôl pum mlynedd, y gyfradd uchaf yn Nghymru, i'w chymharu â 38.1% i Gymru gyfan, a 38.4% i'r DG [Cyfraddau goroesi busnesau yn ôl ardal a blwyddyn dechrau'r busnes](#)
- xi. Mae data Llywodraeth Cymru sy'n dadansoddi maint mentrau ar gyfer pob diwydiant yn 2025, yn dangos bod 94.6% o fusnesau Gwynedd, 94.3% o fusnesau ogledd Cymru, 94.6% o fusnesau Cymru a 95.8% o fusnesau'r DG yn fusnesau micro (0–9 o weithwyr) [Data Llywodraeth Cymru – nifer o fentrau micro](#)
- xii. Mae data Llywodraeth Cymru sy'n nodi nifer o fentrau yn ôl maint a diwydiant yn 2025, yn dangos mai 230, neu 1.4% o fentrau Gwynedd sydd yn cyflogi 250 neu fwy o weithwyr, i'w gymharu a 1.0% yng ngogledd Cymru a 0.7% yng Nghymru [Data Llywodraeth Cymru – nifer o fentrau mawr](#)
- xiii. Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y nifer o fentrau fesul sector ym mhob sir yn 2025 (Tabl 1, Gwynedd yn llinell 345) [UK business: activity, size and location – Office for National Statistics](#)
- xiv. Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y nifer o fusnesau fesul sector ym mhob sir yn 2025 (Tabl 1, Gwynedd yn llinell 345) [UK business: activity, size and location – Office for National Statistics](#)
- xv. [Dadansoddiad o faint y busnesau yn ôl diwydiant \(SIC2007\), band maint, ardal a blwyddyn | StatsCymru](#)

xvi. **Cyfraniad sectorau i'r economi**

Mae'r sectorau wedi'u grwpio mewn ffordd sy'n ein galluogi i gymharu data a chyfleu'r wybodaeth mewn ffordd berthnasol ac ystyrlon i bobl Gwynedd.

GVA: Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) Gwynedd yn dangos cyfradd GVA pob sector yn erbyn ein grwpiau sectorau. Nid yw data rhent priodoledig perchnogion-feddianwyr, sydd yn werth £308m, neu bron 11% o'r cyfanswm, wedi ei gynnwys oherwydd nad yw'n cynrychioli gwir gynhyrchiant yn yr economi. [Regional gross value added \(balanced\) by industry](#)

Nifer o swyddi: Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y nifer a gyflogwyd fesul sector wedi ei gasglu gan y [Business Register and Employment Survey](#). Mae'r data'n cynnwys perchnogion busnes sy'n gweithio, gan fod hyn yn cynnwys unigolion hunan-gyflogedig, carfan sydd â chynrychiolaeth uchel yng Ngwynedd.

Nifer o fentrau: Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y nifer o fentrau wedi ei gasglu gan yr [Inter Departmental Business Register \(IDBR\)](#). Dim ond y nifer o fentrau, nid y nifer o unedau lleol sydd wedi ei gynnwys.



LLUNIAU

Clawr blaen

[MST Cars](#), Llithfaen

[Hufenfa De Arfon](#), Rhydygwystl © Hufenfa De Arfon

[Y Groser Harlech](#) © Hawlfraint y Goron

Tudalennau Crynodeb Gweithredol:

[Hufenfa De Arfon](#), Rhydygwystl © Hufenfa De Arfon

Gŵyl Fwyd Caernarfon © Hawlfraint y Goron

[Dylan's](#), Llanaber © Dylan's

[Academi Adra](#), Tŷ Gwyrddfai, Penygroes © Adra (Tai) Cyf.

[Dyfi Distillery](#), Corris © Hawlfraint y Goron

[Antur Stiniog](#), Blaenau Ffestiniog © Hawlfraint y Goron

[Harlech Foodservice](#), Llanystumdwy © Harlech Foodservice Ltd.

Tud.1: Snowdon Trail Marathon Eryri, Llanberis © [Always Aim High Events](#) Ltd

Tud.6: [Academi Adra](#), Tŷ Gwyrddfai, Penygroes © Adra (Tai) Cyf.

Pont Rheilffordd Bermo © Hawlfraint y Goron

Tud.7: Sgwâr Eldon, Dolgellau

Tud.9: Adeiladu unedau gwaith newydd yn Parc Busnes Eryri, Minffordd

Tud.10: [Snowdonia Gear Repair](#), Y Felinheli © Snowdonia Gear Repair

Tud.11: [Sherpa'r Wyddfa](#) © Hawlfraint y Goron

Tud.13: Treialon technoleg LoRoWan ar ffermydd gan Uchelgais Gogledd Cymru

Fferm yn Arfon @ Buddug Owen

Tud.15: [Cwrw Llŷn](#), Nefyn © Hawlfraint y Goron

Labordy [Pennotec](#), Y Ffôr © Prifysgol Bangor

Cadair Idris © Hawlfraint y Goron

Tud.16: Unedau busnes, Parc Menter Dyffryn Nantlle © [Antur Nantlle](#)

Tud.17: Unedau gwaith newydd yn Parc Busnes Eryri, Minffordd

Tud.18: [Academi Adra](#), Tŷ Gwyrddfai, Penygroes © Adra (Tai) Cyf.

Tud.19: [Beics Antur](#), Caernarfon © Antur Waunfawr

Tud.20: Ffordd osgoi Caernarfon-Bontnewydd © Jones Bros. Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd

Tud.21: Sesiwn Fawr, Dolgellau © Hawlfraint y Goron

[Caffi Meinir](#), Nant Gwrtheyrn © Kristina Banholzer

Tud.22: Stryd Fawr, Pwllheli © Hawlfraint y Goron

Gwinoedd gwinllan [Pant Du](#), Penygroes © Hawlfraint y Goron

Tud.23: [Dylan's](#), Llanaber © Dylan's

[Academi Adra](#), Tŷ Gwyrddfai, Penygroes © Adra (Tai) Cyf.

Tud.24: Gŵyl Fwyd Caernarfon © Hawlfraint y Goron

Tud 29. [Y Groser Harlech](#) © Hawlfraint y Goron



ATODIAD 2

Strategaeth Economi Gwynedd - Adroddiad ymgysylltu

GWYNEDD 2035

Economi sy'n Gweithio i Bawb

Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb

Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod o flwyddyn rhwng Tachwedd 2024 a diwedd Hydref 2025 mewn cysylltiad â datblygu a chreu Strategaeth Economi Gwynedd.

Bu ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, yn bartneriaid strategol i'r Cyngor, ac yn fusnesau a thrigolion y sir. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd unigol â phrif bartneriaid y Cyngor yn y maes datblygu economaidd, yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, a chafwyd mewnbwn gan y sectorau cyhoeddus, preifat, a sefydliadau'r trydydd sector.

Er mwyn ennyn mewnbwn gan gymuned fusnes Gwynedd, defnyddiwyd Arolygon Busnes y Cyngor yn 2024 a 2025; y negeseuon gan fusnesau am eu bwriad i'r dyfodol, y cyfleoedd a'r heriau sy'n eu wynebu, a'r mathau o gymorth sydd ei angen arnynt. Mae canlyniadau'r arolwg i'w gael ar wefan Cyngor Gwynedd [Arolwg Busnes 2024 Cyngor Gwynedd](#)

Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu eang er mwyn cyrchu barn rhanddeiliaid ac Aelodau'r Cyngor wrth ddatblygu'r Strategaeth ac ar ffurf drafft y polisi.

Cafwyd adborth ar themâu a blaenoriaethau i'w cynnwys, cryfderau a gwendidau economi Gwynedd, anghenion a heriau'r sir, a chyfleoedd y dylid ymateb iddynt.

Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad unswydd o aliniad y Strategaeth i ofynion a dymuniadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae canlyniad yr asesiad wedi arwain at lunio adran 3 y Strategaeth (Yr Achos Dros Weithredu).

Dull ymgysylltu

Trefnwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid strategol a rhanddeiliaid allanol yn unigol yn ogystal â mynychu cyfarfodydd grŵp.

Ymhlith y rhanddeiliaid sydd wedi cynnig mewnbwn mae cynrychiolwyr o:

- Lywodraeth Cymru
- Uchelgais Gogledd Cymru
- Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Busnes Cymru
- Prifysgol Bangor.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cymdeithas tai Adra

- Ffederasiwn y Busnesau Bychain (FSB) Cymru
- Mantell Gwynedd
- GISDA
- Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035
- Yr Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFW) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Gwynedd
- Menter Môn

Gwnaed ymdrech hefyd i sicrhau adborth gan arbenigwyr yn y maes adeiladu cyfoeth cymunedol a'r economi sylfaenol drwy law yr Athrawon Karel Williams a Julie Froud (Foundational Economy Research Ltd)

Yn ogystal â phartneriaid allanol mae'r Strategaeth wedi ei drafod gydag ystod o swyddogion o fewn y Cyngor gan gynnwys:

- Yr Uned Iaith a Chydraddoldeb (Gwasanaethau Corfforaethol)
- Yr Uned Gaffael (Gwasanaethau Corfforaethol)
- Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy (Economi a Chymuned)
- Strategaeth Llechen Lân (Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol)

Lluniwyd rhestr o gwestiynau enghreifftiol er mwyn hwyluso ac ysgogi trafodaeth gyda rhanddeiliaid (ynghlwm).

Ymateb

Cafwyd sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol gan bartneriaid a rhanddeiliaid ar gyfeiriad a chynnwys y Strategaeth. Yn dilyn y trafodaeth, fe wnaed addasiadau wrth lunio'r polisi i adlewyrchu'r adborth.

Roedd yr ymatebion yn nodi nifer o themâu cyffredinol, ac mae'r adborth wedi ei grynhoi i'r rhai canlynol:

- Gweithlu a sgiliau
- Cyd-destun Gwynedd
- Cymunedau lleol
- Iaith a diwylliant Gwynedd
- Cydweithio
- Busnesau
- Is-adeiledd
- Amgylchedd

Isod mae manylion y sylwadau roddwyd cyn llunio'r Strategaeth:

Thema	Materion a godwyd	Ymateb
Gweithlu a sgiliau	Heriau recriwtio	Blaenoriaeth 3 Pwynt 1 yn cyfarch hyn yn benodol
	Mae angen darparu hyfforddiant a chynyddu sgiliau'r gweithlu i gyfarch anghenion penodol y swyddi sydd ar gael. Mae prentisiaethau yn ffordd bwysig o wneud hyn, ond mae heriau gan nad oes rhybudd digonol am ddatblygiadau mawr.	Blaenoriaeth 3 Pwynt 2 yn cyfarch hyn yn benodol. Y Rhagair yn sôn am y tirlun ariannu.
	Angen buddsoddi mewn pobl ifanc i leihau'r nifer sy'n datgysylltu gydag addysg.	Blaenoriaeth 3 Pwynt 5 yn cyfarch hyn yn benodol
	Cyfarch yr angen i gadw pobl ifanc yn yr ardal, ac i ddenu nhw'n ôl i'r ardal i weithio.	Blaenoriaeth 3 Pwynt 3 yn cyfarch hyn yn benodol
	Cydraddoldeb yn bwysig yn y gweithlu	Blaenoriaeth 4 Pwynt 4, 7 a 8 yn cyfarch hyn yn benodol
	Angen amodau fydd yn annog creu swyddi o ansawdd i bobl Gwynedd	Blaenoriaeth 1 a 2 yn cyfrannu at hyn a Blaenoriaeth 4 Pwynt 2, 3 a 5 yn cyfeirio at amodau gwaith.
Cyd-destun	Angen dangos y cyd-destun economaidd rhanbarthol i economi Gwynedd	Adran II – Proffil Economi Gwynedd yn mynd i fanylder am hyn
	Cyfeirio at yr her o gael rhaglenni ariannu tymor byr	Wedi ei grybwyll yn y Rhagair
	Angen cysondeb ac aliniad gyda strategaethau eraill y Cyngor e.e. cynllun llesiant, Strategaeth Caffael, Strategaeth Iaith	Adran V – Datblygu'r Strategaeth i Economi Gwynedd yn mynd i fanylder am hyn
Cymunedau lleol	Sicrhau bod cefnogaeth ar gael ar draws y sir yn cynnwys ardaloedd gwledig, a thargedu adnoddau'n deg, yn hytrach na bod cyfleoedd wedi eu cronni mewn rhai ardaloedd.	Blaenoriaeth 5 yn ei gyfanrwydd yn cyfarch hyn.
	Angen cadw'r budd yn lleol o wariant mentrau.	Blaenoriaeth 6 Pwynt 5 yn cyfarch hyn yn benodol
	Annog caffael gwasanaethau a chynnyrch lleol.	Adran V – Dylanwadu a chydweithio yn cyfeirio at gefnogi cyflenwyr lleol, a Blaenoriaeth 1 pwynt 7 yn cyfeirio at hyn.
	Ystyried sut i sicrhau bod y gymuned leol yn cael budd o dwristiaeth.	Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035

		wedi ei ystyried yn y cyd-destun strategol. Y rhagair yn cyfeirio at dwristiaeth.
Iaith a Diwylliant Gwynedd	Angen rhoi blaenoriaeth a gwarchod rôl allweddol y Gymraeg mewn swyddi ac yn economi'r sir	Hwn yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n cael eu hamlygu yn y Strategaeth. Blaenoriaeth 6 pwynt 3 yn cyfeirio at hyn yn benodol
	Angen cyfeirio at gyfraniad pwysig y celfyddydau a threftadaeth i economi Gwynedd	Blaenoriaeth 6 pwynt 2 yn cyfeirio at hyn yn benodol
Cydweithio	Angen sicrhau cydweithio rhwng y Cyngor, partneriaid lleol a rhanbarthol, a chymunedau i wireddu'r Strategaeth	Adran V – Dylanwadu a chydweithio - yn cyfeirio at hyn. Adran VII – Y Strategaeth ar waith – yn pwysleisio gweithio drwy bartneriaeth.
	Angen fforwm i annog partneriaeth economaidd	Adran VII – Y Strategaeth ar waith – yn gosod sylfaen i sefydlu Fforwm Economi Gwynedd.
Busnesau	Dylid cynnwys cefnogaeth i fusnesau a mentrau yn y strategaeth, a'r angen am gymorth i dyfu a datblygu'r busnes.	Pwrpas Blaenoriaeth 1 yn ei gyfanrwydd yw cefnogi busnesau a mentrau
	Angen cefnogi entrepreneuriaid i ddatblygu busnesau	Blaenoriaeth 1 yn cyfarch hyn
	Angen gofodau i fusnesau sy'n tyfu	Blaenoriaeth 5 pwynt 6 yn cyfarch hyn yn benodol
	Annog cyfleoedd sy'n codi o ddatblygiadau mawrion	Blaenoriaeth 2 pwynt 6 a 7 yn cyfarch hyn yn benodol
	Annog cydweithio a rhwydweithio rhwng mentrau	Blaenoriaeth 1 pwynt 10 yn cyfarch hyn yn benodol
Is-adeiledd	Angen ymateb i heriau cludiant cymunedol a thrafnidiaeth cyhoeddus	Blaenoriaeth 5 pwynt 2 yn cyfarch hyn yn benodol
	Angen ystyried daearyddiaeth y sir – anghenion trafndiaeth a chysylltedd digidol.	Blaenoriaeth 5 pwynt 1 a 3 yn cyfarch hyn yn benodol
Amgylchedd	Angen i ddatblygiadau mawr ddangos eu bod yn gwarchod yr amgylchedd.	Adran IV -Y Newid Sydd Ei Angen - yn cyfeirio at hyn

Ar ôl ei llunio, fe gafodd drafft o'r Strategaeth ei chylchredeg i bartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn casglu adborth ar y ddogfen. Bu ymdrech hefyd i ennyn barn Aelodau Etholedig y Cyngor drwy law Aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi.

Ar y cyfan roedd cefnogaeth gyffredinol i'r Strategaeth, ond rhoddwyd rhai sylwadau fel sy'n cael ei fanylu isod. Addaswyd y ddogfen derfynol i adlewyrchu awgrymiadau'r adborth.

Thema	Materion a godwyd	Ymateb
Gweithlu a sgiliau	Angen cyfeirio at batrymau gwaith a dulliau gweithio hyblyg	Blaenoriaeth 3 pwynt 7 yn cyfarch hyn yn benodol
	Angen cyfarch uwchsgilio pobl ifanc, a defnyddio sefydliadau addysgol sylweddol yn y sir i ddarparu hyfforddiant er mwyn ateb y galw mewn sectorau a diwydiannau newydd.	Adran IV – Y Newid Sydd ei Angen – a Blaenoriaeth 3 pwynt 2, 3, 4 a 5 yn cyfarch hyn yn benodol
Cyd-destun	Cyfeirio at y cyfleoedd sy'n codi o ddylanwadau statudol a chenedlaethol	Adran V – Datblygu'r Strategaeth – yn cyfeirio at hyn
Cymunedau lleol	Dylid cyfeirio at dwristiaeth yn y rhagair.	Wedi ei gynnwys
	Cryfhau'r cyfeiriad at gaffael gwasanaethau lleol a chryfhau'r gadwyn gyflenwi lleol er mwyn cadw'r gwariant a'r budd yn lleol gan y sectorau cyhoeddus a phreifat.	Wedi ei gynnwys yn Adran V a VI. Blaenoriaeth 1 pwynt 7 a Blaenoriaeth 6 pwynt 5 yn cyfarch hyn yn benodol
	Mae angen dangos y bydd adnoddau yn cael eu targedu tuag at ardaloedd difreintiedig a gwledig.	Adran IV – Y Newid Sydd Ei Angen yn cyfeirio at welliannau fydd yn dod o weithredu'r Strategaeth.
	Angen crybwyll y Porthladd Rhydd	Wedi ei gynnwys yn Blaenoriaeth 2 pwynt 2
Iaith a Diwylliant Gwynedd	Angen dangos bod hunaniaeth a diwylliant Gymraeg yn bwysig ar gyfer twf.	Wedi ei gynnwys yn y Rhagair ac yn Blaenoriaeth 6
	Cadarnhaol bod y Gymraeg yn cael sylw yn y weledigaeth, ond awydd i'r iaith gael lle mwy amlwg yn y blaenoriaethau.	Y weledigaeth a Blaenoriaeth 6 pwynt 3 yn cyfeirio'n benodol at hyn
	Sôn am ddwyieithrwydd Gwynedd	Wedi ei gynnwys yn Adran II – Proffil Economi. Blaenoriaeth 6 yn ei gyfarch hefyd
	Bod yn gryf yn datgan bod y Strategaeth yn berthnasol i'r Gymraeg a'r gymuned leol	Hwn yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n cael eu hamlygu yn y Strategaeth. Blaenoriaeth 6 yn ei gyfanrwydd yn cyfarch hyn
	Cyfeirio at Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd	Wedi ei gynnwys yn y proffil economi.

Cydweithio	Angen dangos yn gliriach y bydd adrannau'r Cyngor yn cydweithio, a chydweithrediad gyda chyrff mawr allanol.	Adran V – Dylanwadu a chyd-weithio yn cyfarch hyn.
	Rhoi mwy o wybodaeth am rôl Fforwm Economi Gwynedd.	Adran VII – Y Strategaeth ar Waith yn cyfarch hyn.
	Rhoi pwyslais ar bartneriaid strategol yn gweithredu i gyflawni'r Strategaeth yn ogystal â'r Cyngor	Y Rhagair, Adran V – Dylanwadu a chyd-weithio, ac Adran VII – Y Strategaeth ar Waith yn cyfarch hyn.
	Cyfeiriad cryfach i ddylanwadu ar y llywodraethau er mwyn uchafu'r buddsoddiad economaidd i Wynedd, ac i gydweithio i ddenu buddsoddiad.	Adran VII – Y Strategaeth ar Waith yn cyfarch hyn.
	Angen cryfhau'r cyfeiriad cynyddu'r cysylltiad rhwng y brifysgol a chymunedau Gwynedd, a defnyddio'r arbenigedd ac adnoddau yno i wneud gwaith ymchwil fydd yn buddio'r economi.	Y Rhagair, Adran V – Dylanwadu a chyd-weithio yn cyfarch hyn.
Busnesau	Angen cyfeirio mwy at ddenu ac annog buddsoddiad gan y sector breifat	Adran V – Dylanwadu a chyd-weithio, a Blaenoriaeth 2 pwynt 1 yn cyfarch hyn.
	Ni ddylid cyplysu sectorau lletygarwch ac amaeth – gan eu bod yn wahanol iawn.	Rhagair wedi ei addasu i ddangos hyn
	Nid oes cyfeiriad at arbrofi a threialu syniadau newydd ac arloesol. Angen cydnabod yr hybiau arloesi cymunedol sy'n bodoli.	Blaenoriaeth 1 pwynt 4 yn cyfarch hyn.
Is-adeiledd	Angen eglurdeb ar pa isadeiledd sy'n cael ei dargedu	Blaenoriaeth 5 yn nodi targedau penodol.
	Cryfhau ystyriaethau teithio i'r gwaith a theithio llesol ar draws y rhanbarth.	Blaenoriaeth 5 pwynt 2 a 3 yn cyfarch hyn.
Cyflawni'r Strategaeth	Angen dangosyddion clir sy'n cysylltu gyda'r blaenoriaethau, ac y gellid eu defnyddio i fesur llwyddiant y Strategaeth Cynnwys allbwn i ddangos faint o swyddi sydd wedi eu creu	Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn cynnwys dangosyddion.
	Angen adolygu be sydd wedi ei gyflawni yn flynyddol, a dysgu trwy weithredu'r ymyriadau	Bydd Ffowrm Economi Gwynedd yn gwneud hyn – wedi ei nodi yn Adran VII
	Angen dangosydd i fesur effaith y nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n dal swyddi proffesiynol.	Anodd iawn mesur hyn yn ymarferol.

	Gellid dangos yn well sut y bydd amcanion yn cael eu gwireddu, a pha rai sydd fwyaf allweddol. Yn gefnogol o'r fframwaith monitro.	Y Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn cynnwys dangosyddion fydd yn cael eu mesur.
	Angen dangos yn well sut y bydd yr ymyriadau yn gwella'r economi a pha sectorau fydd yn cael eu targedu.	Adran IV yn nodi y prif welliannau i'r economi. Bydd y Cynllun Cyflawni blynyddol yn nodi targedau fwy manwl

Fframwaith Monitro a Gwerthuso

Datblygwyd Fframwaith i fesur effaith y Strategaeth ac mae'r dangosyddion wedi eu dethol yn benodol er mwyn cyfarch y themâu godwyd wrth ymgysylltu.

Cafwyd cyngor proffesiynol arbenigwyr yn y maes economi hefyd er mwyn safoni'r detholiad a sicrhau bod y dangosyddion yn cyd-fynd a'r Weledigaeth a'r Blaenoriaethau yn y Strategaeth.

Casgliad

Bu ymdrech sylweddol dros gyfnod o amser i ymgysylltu gyda phartneriaid o sectorau gwahanol yn ogystal ag arbenigwyr mewn amrywiaeth o feysydd sy'n berthnasol i ddatblygiad economaidd Gwynedd. Cafwyd sylwadau i lywio cyfeiriad a chynnwys y Strategaeth cyn dechrau'r broses o lunio'r ddogfen, a chafwyd adborth eang ar ddrafft er mwyn sicrhau bod materion perthnasol wedi eu cyfarch.

Cwestiynau enghreifftiol i ysgogi trafodaeth gyda rhanddeiliaid

- 1.** Pa bethau ddylid eu hadlewyrchu yn natganiad uchelgais y Cynllun?
- 2.** Pa bethau ddylid eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau'r Cynllun?
- 3.** Pa heriau economaidd sydd angen eu goresgyn yng Ngwynedd, yn eich sector neu eich hardal chi?
 - Beth yw'r prif rwystrau sy'n cyfyngu ar dwf economaidd?
 - A oes unrhyw rwystrau penodol yn gysylltiedig â sgiliau, neu is-adeiledd technoleg?
- 4.** Pa gyfleoedd economaidd ydych chi'n teimlo y gellid manteisio arnynt?
 - Pa feysydd sydd â photensial i dyfu neu i fod yn arloesol?
 - Sut all y Cyngor fanteisio ar y cyfleoedd hyn?
- 5.** A oes gennych chi unrhyw gynlluniau neu weithgareddau fydd yn cyfrannu at ddatblygu economaidd y sir?
- 6.** Pa flaenoriaethau pwysig ddylai'r Strategaeth Economaidd newydd ganolbwyntio arnynt?
 - Yn eich tyb chi, pa gamau gweithredu fyddai'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar yr economi leol?
 - Ydych chi'n teimlo bod angen strategaethau penodol ar gyfer sectorau unigol, neu strategaeth fwy cyffredinol?
- 7.** Sut allwn ni hyrwyddo datblygu cynaliadwy a datblygiadau gwyrdd yn yr economi leol, a sicrhau fod buddion o ddatblygiadau'n cael eu cadw'n lleol?
- 8.** Sut all y Strategaeth gyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg yng Ngwynedd?
- 9.** A oes unrhyw syniadau ychwanegol neu adborth yr hoffech ei rannu yng nghyswllt y strategaeth?

Atodiad 3

Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Asesiad Cydraddoldeb Strategaeth Economi Gwynedd 30/01/2026

Awdur: Siwan Lisa Evans (ECON A CMND)

Teitl Swydd: Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd

Dyddiad: 30 Ionawr 2026

Fersiwn: I

CAM I - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth laith Gymraeg)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Gweledigaeth Strategaeth Economi Gwynedd yw meithrin economi arloesol, gynhyrchol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb. Nod y Strategaeth newydd hon yw sicrhau twf gynhwysol a chynaliadwy, fel bod unigolion, busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd yn elwa'n wirioneddol o'r economi. Bydd y Strategaeth yn weithredol hyd at 2035.

Drwy adnabod cryfderau a gwendidau'r sir, ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael a'r meysydd sydd angen eu gwella, mae'r amcan yn glir: galluogi pobl a mentrau Gwynedd i gyrraedd eu potensial llawn, gan greu buddion a chyfleoedd newydd i'r dyfodol.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Busnesau Gwynedd
Pobl a chymunedau Gwynedd
Mentrau cymunedol
Mentrau cymdeithasol
Sefydliadau addysgol Gwynedd

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiad	Gwybodaeth
Mantell Gwynedd	09/07/25	Adborth ar ddrafft o'r Strategaeth
Swyddogion adran fusnes Prifysgol Bangor	09/07/25	Adborth ar ddrafft o'r Strategaeth
Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri	03/12/24	Ymgynghori i gael mewnbwn i'r strategaeth: Yn croesawu'r dyhead am Strategaeth yn fawr.
Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn	03/12/24	Ymgynghori i gael mewnbwn cychwynnol
Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)	13/12/24	Ymgynghori i gael mewnbwn i'r strategaeth
Uchelgaïs Gogledd Cymru	21/11/25	Sylwadau ar y drafft: Yn gefnogol
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru	31/10/25	Adborth ar y drafft: Yn gadarnhaol iawn am y strategaeth.
Uwch Ymgynghorydd Iaith Cyngor Gwynedd	28/10/25	Sylwadau ar y drafft: Cadarnhaol bod y Gymraeg yn cael sylw yn y weledigaeth.
Llywodraeth Cymru	31/10/25	Adborth ar ddrafft o'r Strategaeth Yn gefnogol o'r fframwaith monitro, ond angen rhoi mwy o wybodaeth am rôl Fforwm Economi Gwynedd.
Cynrychiolydd Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Gwynedd	28/07/25	Adborth ar ddrafft o'r Strategaeth
Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo-Menai	21/08/25	Adborth ar ddrafft o'r Strategaeth
Cyfarwyddwr Polisi a Chyflawni - Cymdeithas dai Adra Cyf.	15/09/25	Sylwadau ar y drafft: Y Strategaeth yn taro'r marc o ran y prif feysydd.
Pwyllgor craffu Cyngor Gwynedd	16/10/25	Sylwadau ar y drafft: Mae angen dangos y bydd adnoddau yn cael eu targedu tuag at ardaloedd difreintiedig a gwledig.

		Angen sicrhau y bydd adrannau'r Cyngor yn cyd-weithio i gyflawni'r Strategaeth Angen adolygu be sydd wedi ei gyflawni yn flynyddol
Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn	30/10/25	Adborth ar ddrafft o'r Strategaeth

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Dim tystiolaeth	Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn
Anabledd	Mae canran yr eiddo â mynediad at gysylltedd gigabeit (>1,000 Mbps) yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DG, gyda chyfran uwch o eiddo hefyd â'r cysylltedd gwan (<30 Mbps). Cyrhaeddiad 4G – a 5G hefyd yn is yng Ngwynedd. Felly, nid oes cymaint o gyfle i gyflogwyr gynnig telerau gweithio'n hybrid neu o gartref. Mae cyfradd cyflogaeth pobl anabl yng Ngwynedd yn is fel canran nag yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol.	Effeithiau Gadarnhaol o weithredu'r Strategaeth: Gwellu hygyrchedd i adeiladau busnesau Gwynedd Cynyddu cynhwysiant digidol ymysg pobl Gwynedd Cynyddu is-adeiledd digidol yng Ngwynedd fydd yn caniatáu i fwy o wasanaethau a busnesau weithredu ar-lein Annog cyflogwyr i fabwysiadu arferion recriwtio cynhwysol, gan gynnwys cyfweliadau hygyrch a swyddi hyblyg Cynyddu amrywiaeth yn y gweithlu Cynyddu cyfleoedd a swyddi i bobl ag anghenion amrywiol Lleihau'r bwlch rhwng cyflogau yn yr economi leol Sicrhau bod busnesau a mentrau Gwynedd yn cadw at deddfwriaeth, safonau hygyrchedd a hawliau pobl anabl a/neu niwro-wahanol ac yn eu gweithredu'n ymarferol Mae'r cyngor yn rhan o gynllun Hyderus o ran anabledd hyd at lefel 2, ac yn oed-gyfeillgar.
Rhyw	Mae mwy o ddynion na merched mewn cyflogaeth, ac mae cyflog wythnosol merched ar gyfartaledd yn is na chyflog wythnosol dynion	Lleihau'r bwlch cyflogau rhwng y rhywiau drwy gynnig cyfleoedd mwy hyblyg, a lleihau effaith o gyflogau tymhorol a gwaith rhan-amser.

	Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics	Cynyddu'r cyfleon i ferched ddychwelyd i waith ar ôl cyfnod mamolaeth.
Oedran	Poblogaeth yn heneiddio'n gyflymach na chyfartaledd Cymru a'r DG, a lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc sy'n creu her i gynnal gweithlu medrus a digonol.	Lleihau pwysau ar y farchnad lafur drwy gefnogi pobl mewn oedran ymddeol i barhau i weithio neu wirfoddoli os dymunant. Cynyddu'r nifer o bobl dros 50 sydd mewn cyflogaeth drwy wella cynhwysiant digidol y gweithlu, gwella hyblygrwydd amodau gwaith swyddi yng Ngwynedd, a chynyddu hyfforddiant a chynghor ar gyfer newid neu ail-afael mewn gyrfa. Gweithlu mwy medrus drwy sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael i bobl ifanc ar gyfer y diwydiannau / gyrfaoedd / sectorau sydd ar gael yng Ngwynedd, fydd yn ei dro yn cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n cael eu cyflogi yn y sir. Mwy o bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith yn cael eu cefnogi ar y daith o addysg i gyflogadwyedd.
Crefydd a Chred	Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn	Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn	Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn
Ail-bennu rhywedd	Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn	Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn	Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Mae mwy o ddynion na merched mewn cyflogaeth, ac mae cyflog wythnosol merched ar gyfartaledd yn is na chyflog wythnosol dynion Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics	Mwy o ddiogelwch swydd i fenywod beichiog, drwy leihau'r risg o gontractau ansicr neu oriau ansefydlog. Cynyddu'r cyfleoedd i ferched ddychwelyd i waith ar ôl cyfnod mamolaeth, drwy annog amodau gwaith mwy hyblyg a chefnogol gan fentrau yng Ngwynedd. Gwell mynediad at hyfforddiant a datblygiad gyrfaol ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth. Annog cyflogwyr i fabwysiadu polisïau mwy cynhwysol sy'n cefnogi

		merched ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth - e.e. dychwelyd graddol, oriau hyblyg, cefnogaeth iechyd, gofal plant
Iaith Gymraeg	Gwynedd yw'r sir yng Nghymru â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg	Cryfhau gwelededd a defnydd y Gymraeg - bydd yr iaith yn rhan o brofiad cwsmeriaid ac yn y gweithle. Bydd mynediad i wasanaethau a gweithgareddau gan fentrau'r sir yn well. Sicrhau cyfleoedd gwaith sy'n cefnogi'r iaith, bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd. Bydd fframwaith monitro yn cynnwys yr ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg gan fentrau'r sir.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Mae cyfradd anweithgarwch y sir (h.y. cyfran y boblogaeth 16-64 nad ydynt mewn gwaith) yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru a'r Deyrnas Gyfunol. Mae cyflog cyfartalog wythnosol gweithiwr llawn-amser ac incwm gwario gros aelwydydd yn gyson is yng Ngwynedd ers 2010 na chyfartaleddau Cymru a'r DG. Mae cyfraddau sylweddol uwch o weithwyr yng Ngwynedd yn gyflogai rhan-amser a thymhorol o gymharu â Chymru a'r DG. Mae cyflogau isel a swyddi rhan-amser yn achosi lefelau uchel o dlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol, gyda thlodi mewn gwaith yn arbennig o uchel yng Ngwynedd o gymharu â Chymru a'r DG.	Lleihau tlodi ac amddifadedd drwy geisio codi cyflogau a sicrhau swyddi sefydlog, fydd yn ei dro yn cynyddu incwm aelwydydd. Cefnogi unigolion sy'n ddi-waith neu'n anweithgar i oresgyn rhwystrau er mwyn cael swyddi neu hyfforddiant. Ceisio sicrhau nad oes unrhyw gymuned neu grŵp yn cael eu gadael ar ôl drwy hyrwyddo cyflogaeth gynhwysol i alluogi pobl o wahanol gefndiroedd ac oedranau i weithio. Cryfhau cymunedau lleol drwy adfywio is-adeiledd a chanol trefi.
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn	Dim effaith wedi ei adnabod hyn yn hyn

Hawliau Dynol	Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn	Dim effaith wedi ei adnabod hyn yn hyn
Arall	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Mae ymgynghoriad gynhwysfawr wedi ei wneud ac nid oes unrhyw fylchau wedi eu hadnabod

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnu)?

Mae effaith gynyddol gadarnhaol gan fod y Strategaeth yn un hirdymor.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Mae'r strategaeth yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu trwy sawl dull gweithredu pendant - mae'n pwysleisio nad oes unrhyw berson, ardal na chymuned i gael eu gadael ar ôl, ac yn anelu i sicrhau fod cyfleoedd gwaith, hyfforddiant a chefnogaeth i fentergarwch ar gael i bawb, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, oedran neu leoliad.

Bydd cefnogaeth i oresgyn rhwystrau ar gyfer pobl sy'n ddi-waith neu anweithgar oherwydd heriau ychwanegol.

Bydd cynlluniau i atal pobl ifanc rhag bod yn NEET (heb waith, addysg na hyfforddiant).

Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau mathau gynhwysol o gyflogaeth drwy hyrwyddo patrymau gwaith hyblyg a threfniadau amgen i alluogi pobl o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys rhieni, gofawyr a phobl ag anableddau, i weithio.

Bydd cyfleoedd gwirfoddoli i gryfhau sgiliau a chydlyniant cymunedol yn cael eu cefnogi – bydd hyn yn annog pobl o fewn cymuned i ddod at ei gilydd drwy weithgareddau gwahanol. Bydd hyn yn meithrin perthnasau da o fewn cymunedau a chydlyniant ehangach ar gynlluniau cymunedol a chymdeithasol.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Bydd mentrau'r sir yn cael eu hannog i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol er mwyn lleihau tloedi mewn i'r rhai sydd yn gweithio.

Bydd mynediad teg i bawb at sgiliau a hyfforddiant gan gynnwys grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli.

Bydd dangosyddion tymor byr, canolig a hir yn cael eu monitro i asesu cynnydd tuag at economi gynhwysol, er enghraifft:

- nifer o bobl sy'n cael cymorth i oresgyn rhwystrau
- nifer y busnesau sy'n ymrwymo i gyflogau teg
- nifer o unigolion o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli sy'n manteisio ar gyfleoedd.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae Polisi Iaith presennol Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar egwyddor bod y Gymraeg yn iaith naturiol y Cyngor ac mai'r Gymraeg yw'r brif iaith weinyddol a chyhoeddus, gyda phob gwasanaeth, cyfarfod, gohebiaeth ac arwydd yn ddwyieithog ond gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg. Mae'n sicrhau bod y cyhoedd a staff yn cael gwasanaeth llawn yn Gymraeg, bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol i bob swydd, ac mae disgwyl i gyrff sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor hefyd hyrwyddo'r Gymraeg.

Un o brif flaenoriaethau'r Strategaeth yw i 'Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwyh i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu ein hunaniaeth arbennig, a'r iaith Gymraeg'. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i gryfhau'r defnydd o'r iaith yn y gweithle ac ymhlith cwsmeriaid, gan sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn naturiol mewn busnesau yn y sir.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod ffactorau economaidd yn dylanwadu ar drosglwyddiad iaith, yn enwedig mewn aelwydydd sy'n wynebu tlodi. Trwy greu swyddi o ansawdd a chyflogau teg, mae'n ceisio lleihau'r pwysau economaidd sy'n arwain at golli'r iaith.

Mae sicrhau cyfleoedd gwaith i siaradwyr Cymraeg yn flaenllaw yn y Strategaeth er mwyn ceisio cadw pobl ifanc yn lleol trwy greu swyddi deniadol, gan leihau allfudo – sef un o'r prif achosion o golli siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl leol symud i swyddi rheolaethol a phroffesiynol.

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd sîn ddiwylliannol Gwynedd fel rhan o'r economi, gan gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith a hunaniaeth leol.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Pum ffordd o weithio ar waith

Cynnwys: Defnyddiwyd barn trigolion Gwynedd o'r ymgynghoriad Ardal Ni a dau arolwg gan fusnesau Gwynedd i ddeall anghenion pobl, cymunedau a mentrau. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol i sicrhau amrywiaeth o safbwyntiau ac arbenigedd.

Gweithredu Tymor Hir: Mae'r Strategaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y dyfodol er gwaethaf ansicrwydd ariannu. Mae'n mynd i'r afael â bylchau economaidd hirdymor fel cynhyrchiant isel, poblogaeth sy'n heneiddio, cysylltedd digidol gwael a chyflogau isel.

Gweithredu Ataliol: Mae'r Strategaeth yn ymateb yn fwriadol i atal cyfres o broblemau economaidd gymdeithasol rhag gwaethygu trwy godi lefelau cynhyrchiant, cryfhau cysylltedd, creu sylfaen ddiwydiannol sy'n fwy amrywiol, cynyddu sgiliau, a chadw mwy o'r buddion yn lleol. Disgwylir canlyniadau fel swyddi sefydlog, cyflogau uwch, llai o dlodi, economi werdd a Chymraeg.

Integreiddio: Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â chynlluniau presennol y Cyngor a fframweithiau adfywio lleol. Mae hefyd yn ategu cynlluniau twristiaeth a chaffael i gadw buddion yn lleol.

Cyd-weithio: Mae'r Strategaeth wedi ei ddatblygu gyda mewnbwn gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus, cyrff preifat a mentrau cymunedol. Bydd cynlluniau gweithredu lleol yn cael eu cyd-ddatblygu gyda'r partneriaid dros gyfnod llawn y Strategaeth 2025–2035.

Ymateb i'r 7 nod

1. Cymru Lewyrchus: Gweledigaeth y Strategaeth yw economi sy'n rhoi pwyslais ar les economaidd-gymdeithasol y boblogaeth, nid dangosyddion macro traddodiadol.

2. Cymru Gydnerth: Mae gan Wunedd gyfoeth naturiol eithriadol sy'n ei gwneud yn un o'r lleoedd gorau i fyw a gweithio. Felly, mae amddiffyn a meithrin yr amgylchedd yn ganolog i'r Strategaeth - bwriedir gweithredu i leihau gwastraff, annog dulliau cylchol a gwyrdd o wneud busnes, hybu a chymryd mantais o gyfleon newydd yn yr economi werdd, a phwyso am welliannau yng nghapasiti'r grid yn lleol er mwyn gwneud datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn fwy dichonadwy yng Ngwynedd.

3. Cymru Iachach: Mae pobl sy'n byw mewn tlodi, gydag ansicrwydd gwaith neu'n cael cyflogau isel yn aml yn dioddef o iechyd corfforol a meddyliol gwaeth. Mae'r Strategaeth yn gweithio i wella cyflogau ac amodau gwaith, ac yn y pen draw bydd hyn yn helpu i wella iechyd pobl Gwynedd. Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod bod mwynhau eich gwaith yn bwysig i iechyd meddyliol, felly mae sicrhau bod pobl yn cael swyddi sy'n rhoi boddhad iddynt yn bwysig.

4. Cymru sy'n fwy Cyfartal: Un o flaenoriaethau allweddol y Strategaeth yw cefnogi pobl Gwynedd i gyrraedd eu llawn botensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleon yn lleol. Mae'r camau ymarferol i wneud hyn yn cynnwys:

- Helpu pobl ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu rhwystrau i gael swydd.

- Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i symud i swyddi gwell gyda chyflogau ac amodau tecach.
- Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Hyrwyddo swyddi sy'n gynhwysol i'w wneud yn haws i bobl allu gweithio.
- Hyrwyddo cyfleon gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl Gwynedd.
- Helpu pobl hŷn i barhau i weithio neu wirfoddoli os dymunant.

Mae'r Strategaeth hefyd yn ceisio atal pobl ifanc rhag gadael Gwynedd am resymau gwaith, trwy greu cyfleoedd lleol a dangos bod modd llwyddo yma.

5. Cymru o Gymunedau Cydlynus: Mae cysylltedd yn rhan hanfodol o'r Strategaeth oherwydd bod band-eang yn wannach na'r cyfartaledd yng Ngwynedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd gweithredu felly i wella cysylltedd digidol, gan sicrhau bod mwy o bobl a busnesau yn cael mynediad at fand-eang cyflym a dibynadwy.

6. Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu: Mae'r Gymraeg yn ganolog i'r Strategaeth. Mae'n cydnabod bod ffactorau economaidd yn gallu effeithio ar hyfywedd yr iaith mewn cymunedau Cymraeg fel Gwynedd. Felly, mae'r Strategaeth yn gweithio i atal neu wrthdroi'r newid iaith sy'n digwydd, ac i gynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg ymhlith cwsmeriaid ac yn y gweithle.

Bydd unrhyw fusnes neu fenter sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor yn gorfod dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg, ac mae system fonitro newydd wedi'i chreu i wirio hyn.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd diwylliant Gwynedd, yn enwedig wrth greu egni a bywyd cymdeithasol gyfoethog yn lleol, ac mae blaenoriaeth benodol yn ymdrin â hyn.

7. Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang: Mae'r Strategaeth yn edrych y tu hwnt i Wunedd, gan gydnabod bod llawer o bobl o Gymru sy'n byw dramor yn awyddus i helpu eu cymunedau gwreiddiol. Mae hyn yn gyfle i ddod â'u profiad, eu harbenigedd a'u talent yn ôl i Wunedd, ac mae'r grŵp hwn yn cael eu targedu'n benodol. Yn ogystal â hyn, mae'r Strategaeth yn cefnogi'r symudiad byd-eang tuag at economi sero net, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan contractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo'r dyletswydd gan y Cyngor a'u bartneriaid i gefnogi cyflenwyr lleol wrth gaffael gwasanaethau a phenodi contractwyr.

Bydd unrhyw ddogfennau tendro a manyldebau yn dilyn polisiau caffael Cyngor Gwynedd ac yn cydymffurfio ag unrhyw reolau a deddfwriaeth perthnasol.

Partneriaeth:

Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo'r dyletswydd gan y Cyngor a'u bartneriaid i gefnogi cyflenwyr lleol wrth gaffael gwasanaethau a phenodi contractwyr.

Bydd unrhyw ddogfennau tendro a manyldebau yn dilyn polisiau caffael Cyngor Gwynedd ac yn cydymffurfio ag unrhyw reolau a deddfwriaeth perthnasol.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

1. Mwy o swyddi sefydlog a chyflogau teg - bydd y Strategaeth yn helpu i greu swyddi o ansawdd, lleihau ansicrwydd gwaith, a hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
2. Lleihau tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol - trwy wella incwm aelwydydd a chynig cyfleoedd gwaith lleol, bydd llai o dlodi mewn gwaith ac amddifadedd.
3. Cadw pobl ifanc a thalent yn lleol - bydd cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn lleihau allfudo pobl ifanc ac yn denu talent yn ôl i'r sir.
4. Gwellu sgiliau a mynediad at hyfforddiant - mae rhaglenni hyfforddiant a chynlluniau sgiliau yn sicrhau gweithlu medrus ar gyfer diwydiannau newydd.
5. Cryfhau'r Gymraeg a diwylliant Gwynedd - bydd busnesau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg, a bydd cefnogaeth i'r sîn ddiwylliannol yn hybu hunaniaeth leol.
6. Gwellu cysylltedd digidol ac isadeiledd - drwy fuddsoddi mewn band-eang a thrafnidiaeth, fydd yn ei dro yn creu cyfleoedd gwaith mwy hygyrch ac amrywiol.
7. Economi werdd a gynaliadwy - mae'r Strategaeth yn cefnogi economi sero net, gan greu cyfleoedd mewn technolegau gwyrdd a diogelu'r amgylchedd.

Effaith Negyddol Sylweddol:

1. Ansicrwydd ariannu - mae cyflawni'r Strategaeth yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phartneriaid. Os na fydd y cyllid ar gael, gallai rhai prosiectau fethu â chael eu gweithredu. Gan fod y Strategaeth yn un hirdymor gobeithir gallu sianelu unrhyw arian fydd ar gael i wireddu prosiectau fydd yn dod â'r buddion mwyaf i bobl Gwynedd.
2. Risgiau gweithredu - gallai prosiectau mawr gymryd amser hir i'w cwblhau, gan achosi oedi cyn gweld canlyniadau. Gall hyn yn ei dro greu rhwystredigaeth ymhlith busnesau a chymunedau.
3. Effaith anghyfartal - bydd angen targedu adnoddau yn ofalus rhag i rai ardaloedd neu grwpiau elwa mwy na'i gilydd, a allai gynyddu anghydraddoldeb o fewn y sir. Bydd y Cynllun Cyflawni yn ystyried lledaeniad daearyddol cynlluniau er mwyn gwirio fod pob ardal yn elwa ac i leihau anghydraddoldeb daearyddol.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Ddim yn berthnasol

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Ddim yn berthnasol

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Gan fod ystyriaeth briodol wedi ei wneud yn barod nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Gan fod ystyriaeth briodol wedi ei wneud yn barod nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Gan fod ystyriaeth briodol wedi ei wneud yn barod nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiâu/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu.

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Cyflwyno i Cabinet y Cyngor	10/03/2026	un tro	Sioned Williams	la
Cyflwyno i'r Cyngor Llawn	14/05/2026	un tro	Sioned Williams	la

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Cynllun Cyflawni'r Strategaeth	Bob Blwyddyn	Swyddogion Adran Economi	Na



ATODIAD 4

TEITL **Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

1. PWRPAS YR ASESIAID

- 1.1. Yn yr asesiad hwn, cyflwynir Strategaeth Economaidd Gwynedd, ac yn egluro'r modd y cafodd y Strategaeth ei datblygu, a sut mae'n bodloni gofynion a phwrrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. GOFYNION Y DDEDDF

- 2.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrannu at lesiant cenedlaethau heddiw, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n ystyried llesiant mewn modd cyfannol, gan gynnwys agweddau economaidd a chymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- 2.2. Gofynnir fod y penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus yn bodloni dau ofyn – y Pum Ffordd o Weithio a'r Saith Nod Llesiant Cenedlaethol. Mae'r Pum Ffordd o Weithio yn adnabod cyfres o gamau y dylid gweithredu arnynt wrth wneud penderfyniadau, ac mae'r Saith Nod Llesiant yn amlinellu'r canlyniadau hir-dymor y dylid cyfrannu tuag atynt.

Pum Ffordd o Weithio (Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Cymru):

- Cynnwys
- Gweithredu hir-dymor
- Atal
- Integreiddio
- Cyd-weithio

Nodau Llesiant Cenedlaethol:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

3. CYMRU LEWYRCHUS

- 3.1. Er fod y nodau llesiant yn gyfannol ac yn gyd-ddibynnol, *Cymru Lewyrchus* sy'n edrych fwyaf ar faterion economaidd. Fe'i diffinnir yn y modd canlynol:

“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur – gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd; ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy [...] waith teg.”

Mae'n cydnabod gwerth a phwysigrwydd cynhyrchiant, ond yn pwysleisio nad twf er ei fwyn ei hun yw “llewyrch”. Yn hytrach, rhoddir pwyslais ar les economaidd-gymdeithasol – ar ganlyniadau bywyd, nid dangosyddion economaidd traddodiadol, a hynny heb or-ddefnyddio adnoddau'r blaned.

- 3.2. Yn ei [Adroddiad Blynyddol](#) yn 2025, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nad yw polisi economaidd yng Nghymru wedi symud ddigon at fodel economi llesiant (tud. 86.), ac y dylid gwneud hynny ar bob lefel, gan gynnwys llywodraeth leol. Yn ei ddiffiniad, mae'n cynnwys gwaith gweddus, caffael teg a lleol, economïau lleol, sgiliau ar gyfer y dyfodol a chymdeithas carbon isel.

- 3.3. Yng ngolau'r diffiniadau hyn, dadleuir fod gweledigaeth y Strategaeth yn asio'n agos iawn at ystyr y nod llesiant a bwysleisir gan y Comisiynydd:

“Economi arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleon ac yn cyfrannu at lesiant pawb.”

Diffinnir y weledigaeth yn erbyn pum o egwyddorion sy'n canolbwyntio ar anghenion llesiant pobl Gwynedd:

- **Cael byw ag urddas:** Y dylai pawb gael digon i gynnal eu hunain a'u teuluoedd, i fyw heb eisïau, yn llawn ac yn hapus.
- **Cyfleoedd:** Y dylai pob unigolyn allu cyrraedd y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwireddu eu llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.
- **Tegwch:** Na ddylai unrhyw ardal, berson neu gymuned fod wedi'u gadael ar ôl.
- **Gwreiddiau lleol:** Mai mentrau Gwynedd yw hanfod economi Gwynedd, a trwyddynt y mae modd cadw'r cyfoeth a grëir yng Ngwynedd yn lleol.
- **Cynaliadwyedd:** Y dylid meithrin a gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd sydd, fel ei gilydd, yn gwneud Gwynedd yn le mor arbennig i fyw, gweithio a mentro.

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

FFORDD O WEITHIO	SUT Y'I RHODDWDYD AR WAITH?
CYNNWYS Ennyn mewnbwn gan unigolion a grwpiau gyda diddordeb ac/neu arbenigedd mewn materion perthnasol, ac adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir.	▪ Defnyddiwyd y negeseuon a gyflëwyd gan bobl Gwynedd yn yr <i>Ymgynghoriad Ardal Ni</i> (2022) er mwyn adnabod yr hyn y mae pobl Gwynedd yn teimlo sy'n dda am eu hardaloedd lleol, a'r pethau hynny sydd angen gwella. Ymgorfforwyd y negeseuon hyn yng ngweledigaeth y Strategaeth er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae'n adnodd ddefnyddiol ar gyfer deall barn trigolion Gwynedd, ac amrywiaeth barn yng ngwahanol rannau'r sir. ▪ Gwahoddwyd mentrau yng Ngwynedd i ymateb i ddau <i>Arolwg Busnes</i>, y cyntaf yn 2024 a'r ail yn 2025. Er fod busnesau lletygarwch wedi'u gor-gynrychioli rhyw ychydig, cafwyd ymatebion gan fusnesau mewn ystod amrywiol o ddiwydiannau. Cyflëwyd negeseuon am fwriad busnesau i'r dyfodol, yr heriau a wynebant a'r mathau o gymorth a werthfawrogir. Mae'r Strategaeth yn ymateb i'r mewnbwn hwn, yn enwedig wrth drin â mentrau Gwynedd – yn ymateb, e.e., i'r heriau a nodwyd ganddynt, gan gynnwys recriwtio. ▪ Mae'r maes economi yn gymhleth ac yn cynnwys actorion polisi ar sawl lefel. Er mwyn ennyn mewnbwn gan yr amrywiaeth fwyaf posibl o actorion a dwyn eu harbenigedd, trefnwyd cyfres o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda'r cyrff canlynol: Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru; Ffederasiwn Busnesau Bychain Cymru; yr undebau amaethyddol (FUW, NFU Cymru); Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru; Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru; Parc Cenedlaethol Eryri; Prifysgol Bangor; Grŵp Llandrillo-Menai; Rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd, ac; Mantell Gwynedd ar gyfer y maes gwirfoddol yng Ngwynedd.
GWEITHREDU HIR-DYMOR Adnabod tueddiadau hir-dymor a chynllunio ar eu cyfer mewn modd sydd wedi'i gyd-bwyso ag anghenion tymor byr.	▪ Mae'r cyd-destun polisi a chynllunio economaidd yn ansicr ac yn newid yn gyflym yng Nghymru. Nid oes sicrwydd o ran dyfodol cynlluniau ariannu gan lywodraethau Cymru a'r DG, ac mae pwyslais cynyddol ar gyd-weithio rhanbarthol. Mae'r Strategaeth hon yn ymateb i'r ansicrwydd hyn, yn gosod cyfeiriad strategol hir-dymor, waeth beth fo'r cynlluniau ariannu a drosglwyddir i'r Cyngor a'i bartneriaid. ▪ Mae'r Strategaeth yn ymateb i gyfres o "fylchau" sy'n adlewyrchu tan-berfformiad strwythurol yr economi yng Ngwynedd dros y tymor hwy, pan y'i cymherir â Chymru a'r DG. Mae dros hanner ohonynt yn Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol ac yn dangos anfantais cymharol Gwynedd o ran lles economaidd: ○ Bwlch Cynhyrchiant (Dangosydd Llesiant 09): Gwerth yr hyn a gynhyrchir yng Ngwynedd (fesul pob awr a weithir; fesul pob swydd a lenwir) yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG yn 2023, a chyfradd twf cynhyrchiant yng Ngwynedd yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG ers 2004. ○ Bwlch Diwydiannol: Amrywiaeth cymharol gul o ddiwydiannau, gyda chyflogeion a mentrau yn fwy niferus mewn ystod llai o ddiwydiannau.

	○ Bwlch Mentergarwch Newydd: Y cyfradd geni busnes yng Ngwynedd ymhlith yr isaf ar draws siroedd Cymru yn 2023, yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DG. ○ Bwlch Perfformiad Uchel: Canran y mentrau a welodd cynnydd o 20% yn nifer y cyflogeion dros gyfnod tair blynedd yn gyson is yng Ngwynedd na Chymru a’r DG rhwng 2018 a 2023. ○ Bwlch Cysylltedd Digidol (Dangosydd Llesiant 50): Canran yr eiddo â mynediad at gysylltedd gigabeit (>1,000 Mbps) yn is na chyfartaleddau Cymru a’r DG, gyda chyfran uwch o eiddo hefyd â’r cysylltedd gwannaf (<15 Mbps) yn unig. Cyrhaeddiad 4G – a 5G yn enwedig – hefyd yn is yng Ngwynedd. ○ Bwlch Gweithlu (Dangosydd Llesiant 21): Cyfradd diweithdra isel, ond cyfradd anweithgarwch y sir (h.y., cyfran y boblogaeth 16-64 nad ydynt mewn gwaith) yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru a’r DG. ○ Bwlch Poblogaeth: Poblogaeth yn heneiddio’n fwy cyflym na Chymru a’r DG, gyda chyfran uwch o bobl hŷn mewn oed ymddeol a lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc. ○ Bwlch Cyflog (Dangosydd Llesiant 10): Cyflog cyfartalog wythnosol gweithiwr llawn-amser ac incwm gwario gros aelwydydd yn gyson is yng Ngwynedd ers 2010 na chyfartaleddau Cymru a’r DG. ○ Bwlch Amodau Gwaith (Dangosydd Llesiant 16): Cyfraddau sylweddol uwch o weithwyr yng Ngwynedd yn gyflogeion rhan-amser a thymhorol o gymharu â Chymru a’r DG. ○ Bwlch Llesiant (Dangosyddion Llesiant 18 & 19): Cyflogau isel a swyddi rhan-amser yn achosi lefelau uchel o dlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol, gyda thlodi mewn gwaith yn arbennig o uchel yng Ngwynedd o gymharu â Chymru a’r DG. ▪ Ynghyd â’r “bylchau” hir-dymor hyn, adnabuwyd tueddiadau hir-dymor eraill hefyd sy’n debygol o gael effaith ar y Strategaeth a’i heffeithiolrwydd: ○ Symudiad at economi sero net a charbon isel yn gyfle economaidd; ond, os am gadw’r cyfoeth newydd a grëir yn lleol, mae angen sicrhau fod gan bobl Gwynedd y sgiliau er mwyn manteisio ar gyfleon gwaith a busnes. ○ Technolegau newydd, e.e., deallusrwydd artiffisial yn gyfle; ond yn peri risgiau, yn enwedig os nad yw pobl a busnesau Gwynedd yn fyw i’r datblygiadau diweddaraf ac yn gallu ymateb iddynt yn effeithiol. ○ Shifft iaith yng Ngwynedd yn cael ei ddylanwadu’n rhannol gan yr economi (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024); e.e., trosglwyddiad iaith yn is mewn aelwydydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
GWEITHREDU ATALIOL Atal problemau rhag ddigwydd yn y lle cyntaf neu waethgu. Tud. 125	▪ Mae’r Strategaeth yn ymateb yn fwriadol i gyfres o “fylchau” ble mae Gwynedd yn perfformio islaw cyfartaleddau cenedlaethol neu gymeiriad, ac sy’n creu problemau lles economaidd-gymdeithasol. Gweithredir felly am y newidiadau canlynol sydd, wrth eu hanfod, yn ceisio lliniaru’r “bylchau” neu’u hatal rhag waethgu. Ar yr un llaw, newid strwythurol yn yr economi, gan gynnwys: ○ Codi lefelau cynhyrchiant ein mentrau a’n gweithwyr er mwyn ysgogi cyflogau uwch ac amodau gwaith gwell; ○ Cynyddu cystadleurwydd ein mentrau cynhenid fel eu bod yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn gwireddu’u hamcanion busnes

	hir-dymor ac yn creu swyddi o safon; ○ Cryfhau cysylltedd digidol ac isadeiledd busnes y sir er mwyn creu'r amodau gorau posibl ar gyfer mentro; ○ Creu sylfaen ddiwydiannol sy'n fwy amrywiol gyda mentrau lleol mewn ystod o ddiwydiannau yn creu cyfleon newydd ac economi mwy gwydn; ○ Cefnogi ein pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt fel eu bod nhw, ynghyd a'r mentrau sy'n eu cyflogi, yn gallu manteisio'n llawn ar gyfleon; ○ Cadw mwy o'r cyfoeth rydym yn ei greu yn lleol yng Ngwynedd yn lleol er mwyn uchafu buddion i bobl, mentrau a chymunedau Gwynedd, ac; ○ Adeiladu economi sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, ieithyddol a diwylliannol. ▪ Gwneir hyn yn bennaf oll er mwyn atal neu leihau'r heriau lles economaidd-gymdeithasol a wynebir yng Ngwynedd. I'r pwrpas hwn, bydd y newid a weithredir ar ei gyfer yn cynnwys: ○ Cyflogau ac incwm gros aelwydydd yn uwch; ○ Mwy o bobl wedi'u cyflogi mewn swyddi sefydlog; ○ Lefelau is o dlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol; ○ Amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith yn lleol; ○ Mwy o bobl yn gallu aros, byw a gweithio yn eu cymunedau lleol; ○ Mwy o bobl yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo'u bod yn cyrraedd eu llawn botensial; ○ Economi werdd sy'n amddiffyn amgylchedd naturiol eithriadol y sir, ac; ○ Economi Gymraeg sy'n cynyddu defnydd a gwelededd yr iaith, gyda chwsmeriaid ac yn y gweithle ledled Gwynedd.
INTEGREIDDIO Gweithredu mewn modd sy'n gydnaws â chynlluniau a blaenoriaethau eraill, ac sy'n ychwanegu gwerth atynt yn hytrach na'u tanseilio.	▪ Adeiladir ar y cyfeiriad strategol sydd wedi'i osod eisoes yng Nghynllun y Cyngor: <i>“Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng”</i>. Mae'r Strategaeth yn derbyn y cyfeiriad hwn, ond oherwydd ei fod yn un mewn nifer o flaenoriaethau corfforaethol, pwrpas y Strategaeth hon yw diffinio'r weledigaeth economaidd mewn dyfnder pellach a rhoi sylw penodol i'r economi; hynny er mwyn sicrhau blaenoriaethau a gweithredu ystyrllon. ▪ Mae'r Strategaeth Economaidd newydd yn gorwedd ochr-yn-ochr â Chynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, yn dilyn y cyfeiriad sydd wedi'i osod yn y Cynllun hwnnw ym maes twristiaeth, ac yn ategu'r weledigaeth sydd ynddo am economi llesiant gynaliadwy. ▪ Gwynedd Ni yw fframwaith adfywio lleol Cyngor Gwynedd. Mae'n canolbwyntio ar 13 o ardaloedd lleol ledled y sir. Er mwyn sicrhau gweithredu ystyrllon ym mhob un o'r ardaloedd lleol hyn, bydd cynlluniau gweithredu unigol yn cael eu paratoi ar eu cyfer ac yn cael ei ychwanegu at y fframwaith. Bydd cynnwys y cynlluniau hyn yn cael eu cyd-ddatblygu â phartneriaid y Cyngor yn lleol – yn gynrychiolwyr lleol, yn fentrau cymunedol ac yn gyrff preifat ac elusennol.

	▪ Datblygwyd y Strategaeth ar y cyd â Chynllun Caffael newydd y Cyngor, gan olygu’u bod yn asio’n agos iawn at ei gilydd, yn enwedig wrth geisio cadw buddion gwariant cyhoeddus yn lleol.
CYD-WEITHIO Gweithredu ar y cyd â phartneriaid (mewnol ac allanol), a chyda mentrau a phobl Gwynedd.	▪ Mae’r Strategaeth wedi’i ddatblygu yng ngolau’r mewnbwn a roddwyd gan gyfres o bartneriaid, fel y’u rhestrir uchod yn y Rhan Cynnwys. Mae’n cydnabod y bydd angen cyd-weithio â hwy er mwyn uchafu gwerth y Strategaeth ac na all y Cyngor fel corff unigol weithredu’n annibynnol. Felly, mae’r Strategaeth hyn fyw i’r grymoedd sydd yn nwylo’r Cyngor, yn ogystal â’r grymoedd sy’n gorwedd mewn cyrff eraill. ▪ Mae’r Strategaeth yn cydnabod mai pobl a mentrau Gwynedd yw hanfod yr economi leol. Felly, bydd y Cyngor yn parhau i ennyn mewnbwn ganddynt dros lawn cyfnod y Strategaeth, gan gynnwys yr Arolygon Busnes blynyddol. Bydd angen parhau i gyd-weithio hefyd wrth weithredu ar brosiectau’r Strategaeth. ▪ Bydd y cynlluniau gweithredu lleol a ddatblygir yng ngolau’r Strategaeth yn cael eu cyd-greu â phartneriaid y Cyngor yn lleol – yn gynrychiolwyr lleol, yn fentrau cymunedol ac yn gyrff preifat ac elusennol. Bydd hyn yn sicrhau cyd-gynhyrchu a chyd-gweithredu dros lawn gyfnod bywyd y Strategaeth, 2025-35.

5. SUT Y CAIFF Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL EU BODLONI?

Cymru Lewyrchus

“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd bydeang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur – gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd; ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy [...] waith teg.”

Gweler Rhan 3. Eglurir priod weledigaeth y Strategaeth yn asio’n agos iawn at ddiffiniad Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol o’r nod Cymru Llewyrchus, h.y., economi sy’n rhoi pwyslais ar les economaidd-gymdeithasol y boblogaeth, nid dangosyddion macro traddodiadol.

Cymru Gydnerth

“Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid.”

Mae gan Wynedd gyfoeth naturiol eithriadol sy’n ei gwneud yn un o’r lleoedd gorau i fyw a gweithio. Felly, mae amddiffyn a meithrin yr amgylchedd yn ganolog i’r Strategaeth,

Bwriedir gweithredu i leihau gwastraff, annog dulliau cylchol a gwyrdd o wneud busnes, hybu a chymryd mantais o gyfleon newydd yn yr economi werdd, a phwyso am welliannau yng ngapasiti’r grid yn lleol er mwyn gwneud datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn fwy dichonadwy yng Ngwynedd.

Cymru Iachach

“Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.”

Gwyddys fod pobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, sy’n wynebu cyflogau isel, ansicrwydd gwaith neu dlodi, yn fwy tebygol o wynebu iechyd corfforol a meddyliol salach. Gweithredir am welliannau yng nghyflog ac amodau gwaith yn y Strategaeth – ac bydd hyn, maes o law, yn cael effaith strwythurol positif ar ganlyniadau iechyd.

Cydnabyddir hefyd yn y Strategaeth fod iechyd meddyliol yn cael ei siapio’n rhannol gan y mwynhad a geir o waith, neu beidio. Felly, mae sicrhau fod pobl yng Ngwynedd yn cael gafael ar waith a fwynheir hefyd yn bwysig.

Cymru sy’n fwy Cyfartal

“Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial [...], waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau.”

Mae rhyddhau potensial pobl Gwynedd yn amcan ganolog yn y Strategaeth, ac fe’i pwysleisir ar sawl tro yn y ddogfen ei hun. Ar y foment, mae’r “bylchau” sy’n golygu fod Gwynedd yn tanberfformio’n economaidd pan y’i cymherir â Chymru a’r DG, yn golygu fod pobl Gwynedd yn wynebu anfantais cymharol – ac, o’r herwydd, yn wynebu heriau strwythurol yn cyrraedd eu llawn potensial. Felly, gweithredir i liniaru’r “bylchau” a’u hatal rhag waethygu ar draws chwe blaenoriaeth y Strategaeth.

Yn benodol, mae'r bedwaredd flaenoriaeth – *Cefnogi Ein Pobl* – yn ymdrin yn benodol ar gefnogi pobl i gyrraedd eu llawn potensial: *“Cefnogi pobl Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleon yn lleol.”* Mae'n cynnwys y gweithrediadau canlynol:

- Cefnogi pobl i waith sy'n ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol;
- Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i gyrraedd swydd gwell â chyflogau uwch, neu amodau gwaith mwy sicr.
- Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith cyflogwyr y sir.
- Hyrwyddo mathau cynhwysol o gyflogaeth i'w wneud yn haws i bobl allu gweithio.
- Hyrwyddo cyfleoedd gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl Gwynedd.
- Cefnogi pobl hŷn mewn oedran ymddeol i barhau i weithio ac/neu wirfoddoli, ble maent eisiau gwneud hynny.

Gwyddys hefyd fod llawer o'r pobl ifanc sy'n gadael Gwynedd yn gwneud hynny nid am eu bod eisiau gadael o reidrwydd, ond eu bod yn teimlo fod angen gwneud am resymau gwaith. Oherwydd hyn, ymdrinnir â'r her mudo yn benodol (5.3.) er mwyn cefnogi pobl ifanc i allu llwyddo'n lleol, waeth beth fo'u cefndir a'u dyheadau.

Cymru o Gymunedau Cydlynus

“Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.”

Mae cysylltedd yn rhan hanfodol o'r Strategaeth, yn enwedig yn ngolau'r “bwlch” digidol sy'n golygu fod cysylltedd band-eang yn wannach yng Ngwynedd. Gweithredir felly am welliannau mewn cysylltedd band-eang, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n wynebu'r cysylltedd digidol mwyaf gwan.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

“Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.”

Mae'r Gymraeg yn derbyn sylw canolog yn y Strategaeth. Gwyddys fod y dylanwadau economaidd strwythurol yn cael effaith ar hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024), gan gynnwys Gwynedd – ac mae'r Strategaeth yn derbyn hynny'n llwyr. Bydd y Strategaeth yn gweithredu i liniaru neu wrth-droi'r shifftiau iaith a wynebri yng Ngwynedd a'u gyrrir yn rhannol gan yr economi, yn ogystal â chynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg yn fwy cyffredinol yng Ngwynedd, hynny ymhlith cwsmeriaid ac yn y gweithlu.

Mae'r shifftiau iaith mwyaf yn cynnwys:

- Allfudo pobl ifanc – Yn fwy tebygol o fod yn siarad Cymraeg.
- Pobl lleol wedi'u tan-gynrychioli yn y swyddi rheolaethol uchaf yng Ngwynedd, ac;

-
- Aelwydydd ag un rhiant neu fwy yn siarad Cymraeg ond sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn llai tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i blant.

Bydd unrhyw gorff, menter neu fusnes sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor, boed yn gymorth ariannol neu anariannol, yn gorfod dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg; ac mae dogfen fonitro newydd wedi'i datblygu i'r pwrpas hwn.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod mor bwysig yw sîn ddiwylliannol Gwynedd, yn enwedig wrth greu egni a bywyd cymdeithasol gyfoethog yn lleol – ac fel un agwedd bwysig o'r economi. Oherwydd hyn, ymdrinnir â diwylliant yn benodol yn chweched blaenoriaeth y Strategaeth.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

“Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.”

Mae gogwydd rhyngwladol i'r Strategaeth. Mae'n cydnabod fod gan Wunedd a Chymru “ddiaspora” rhyngwladol sydd, llawer tro, yn edrych yn ôl i Gymru ac eisiau gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau y maent yn dod ohonynt yn wreiddiol. Mae'n gyfle i ddod ag adnodd, arbenigedd a phersonau talentog yn ôl i Wunedd, ac fe'u targedir yn y Strategaeth er mwyn gwneud hynny.

Tu hwnt i'r cyfle hwn, mae'r Strategaeth yn cefnogi'r symudiad at economi sero net oherwydd yr argyfwng newid hinsawdd yn rhyngwladol.

6. CASGLIAD

- 6.1. Yn dilyn yr asesiad hwn, deuir i'r casgliad fod Strategaeth Economaidd Gwynedd yn bodloni gofynion a phwrrpas y Ddeddf Llesiant yn agos iawn. Cafodd y Pum Ffordd o Weithio eu hymgorffori'n llawn wrth ddatblygu'r Strategaeth, ac mae gogwydd llesiant clir i'w weld yn ei chynnwys – gogwydd sy'n gochel rhag ffocws traddodiadol ar dwf economaidd er ei fwyn ei hun, tuag at fodel datblygu economaidd newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i les economaidd-gymdeithasol y boblogaeth.

CYFARFOD	Cyngor Llawn
DYDDIAD	14 Mai 2026
PWNC	Ardoll Ymwelwyr
PWRPAS	Penderfynu os y dylid gweithredu trefn ymgynghori cyhoeddus ar gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd
AWDUR	Roland Evans Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned
AELOD CABINET	Cyng. R.Medwyn Hughes

Y Penderfyniad a Geisir

1. I gyhoeddi Adroddiad Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd;
2. I gytuno i gynnal ymgynghoriad ar y Cynnig i gyflwyno Ardoll yn unol â'r rhestr ymgynghoron yn paragraff 5.4 a 5.5 o'r adroddiad yma;
3. I hysbysu Awdurdod Cyllid Cymru, yn unol â'r statud, o'r bwriad i ymgynghori ar gyflwyno yr Ardoll.

Cefndir a Chyd-destun

1. Cefndir

- 1.1. Ar 25 Tachwedd 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).
- 1.2. Cymeradwywyd y Bil gan Senedd Cymru ar 08 Gorffennaf 2025 a derbyniodd Gysyniad Brenhinol ar 18 Medi 2025, Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).
- 1.3. Mae'r Deddf yn gosod allan gofynion ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth newydd i gofrestru llety gwyliau yng Nghymru yn ogystal â chyflwyno deddfwriaeth sydd yn gosod yr hawl i awdurdodau lleol unigol i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn eu hardaloedd unigol.
- 1.4. Ers 2018 mae'r Cyngor wedi datgan ei gefnogaeth i'r egwyddor o sefydlu Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru.
- 1.5. Yn 2019 fe wnaeth ymchwil gan Gyngor Gwynedd 'Elwa o Dwristiaeth' adnabod mai ardoll fyddai'n dod a'r buddion mwyaf i'r ardal o ran incwm posib ellid ei gynhyrchu ar gyfer cefnogi cyrchfannau Gwynedd ac Eryri.
- 1.6. Mae Adroddiadau Ymchwil i Dai Gwyliau a gynhyrchwyd gan Gyngor Gwynedd yn 2019-2020 yn adnabod yr angen i sefydlu trefn drwyddedu ar gyfer llety gwyliau tymor byr.
- 1.7. Mae sefyllfa ariannol Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn amlygu'r angen i geisio adnabod ffynonellau incwm newydd ar gyfer cefnogi'r economi ymweld ac

ymateb i'r heriau ariannol cynyddol i gynnal isadeiledd sirol a'r cyfleoedd sy'n deillio o gael ymwelwyr yn ein hardal.

- 1.8. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cydweithio law yn llaw a gyda phartneriaid cymunedol, busnes a chyhoeddus i ddatblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 – Cynllun i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal. Mae'r Cynllun yn gosod allan ein blaenoriaethau strategol i sicrhau economi ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri.
- 1.9. O ran proffil y sector a phatrwm ymweld, yn ôl adroddiad ymchwil Beauforts yn 2019, mae'r rhan fwyaf o grwpiau ymwelwyr â Gwynedd naill ai'n gyplau (29%) neu'n grwpiau teuluol â phlant ifanc (24%). Roedd cyfran ychydig yn uwch o grwpiau teuluol â phlant hŷn yn ymweld â Gwynedd na'r cyfartaledd ledled Cymru (roedd gan 19% o ymwelwyr â Gwynedd blant hŷn neu gyfuniad o hŷn ac iau, o'i gymharu â 12% ar draws Cymru gyfan). Nifer cyfartalog y bobl ym mhob parti sy'n ymweld yw 4.3 (3.4 oedolyn a 0.9 o blant), sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru gyfan o 3.7 (2.8 oedolyn a 0.9 o blant)
- 1.10. Mae'n rhaid cydnabod bod nifer o leisiau yn codi pryderon am gyflwr yr economi ymweld yn sgil Covid-19, y rheol 182 diwrnod, Cyfarwyddyd Erthygl 4 a'r argyfwng costau byw. Mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau ar yr egwyddor o sefydlu a gweithredu Ardoll yn y gorffennol gyda'r sector ac yn bwriadu parhau i wneud hynny.
- 1.11. Mae *Hyrwyddo ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy* wedi eu cynnwys fel prosiectau blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd o dan y Flaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus. Mae ystyried deddfwriaeth cenedlaethol ar yr Ardoll Ymwelwyr ac ymgynghori drwy Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 (G&E2035) yn un o gerrig milltir blwyddyn 3 a 4 o'r Cynllun.
- 1.12. Cyflwynwyd Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar 12 Chwefror 2026 i graffu effaith cyflwyno Ardoll yng Ngwynedd a'r ystyriaethau ar gyfer gwneud hynny. Penderfyniad y Pwyllgor Craffu oedd:
 - a. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.
 - b. Argymhell i'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned:
 - Sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r holl gymhlethdodau sydd ynghlwm â dod â'r ardoll hwn i fodolaeth o'r newydd.
 - Os yw'r Cyngor yn penderfynu cyflwyno Ardoll Ymwelwyr:
 - Bod ymrwymiad pendant ar sut y bydd yr arian a godir yn cael ei wario gan roi blaenoriaeth i feysydd twristiaeth a chymunedol.
 - Bod ymgynghori trylwyr yn digwydd ar draws y sir a gyda phartneriaid perthnasol i ddarganfod blaenoriaethau cymunedol.
 - Bod angen bod yn dryloyw efo'r sawl sy'n talu'r dreth ynglŷn â sut gaiff yr arian ei wario.
 - Bod cyfathrebu ynglŷn ag eithriadau yn effeithiol a sensitif pan bod angen gwneud hynny.

2. Y Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. Cymru

- 2.1. Bydd gofyn i bob Darparwyr Llety Ymwelwyr yng Nghymru gofrestru eu safleoedd a bydd peth o'r manylion yma ar gael wedi eu cyhoeddi. Bydd rhaid i bob llety gwyliau gofrestru hyd yn oed os nad yw Awdurdod Lleol yn dewis mabwysiadu'r Ardoll yn eu hardal.
- 2.2. Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fydd yn rheoli'r Gofrestr ac yn rheoli casglu'r Ardoll ar ran Awdurdodau Lleol. Ni fydd gan Cyngor Gwynedd unrhyw rôl wrth weithredu'r drefn gofrestru, gorfodi a chasglu Ardoll.
- 2.3. Bydd cofrestru llety ymwelwyr yn rhoi darlun llawer cliriach i Gyngor Gwynedd o niferoedd y gwyliau ymweld sydd ar gael yn y Sir – ond ni fydd yn rhoi darlun o ddefnydd y gwyliau hynny mewn unrhyw flwyddyn.
- 2.4. Rhoddir pwerau i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr drwy benderfyniad gan y Cyngor Llawn.
- 2.5 Bydd arian a godir drwy'r Ardoll yn cael ei wario gan awdurdodau lleol ar reoli cyrchfannau cynaliadwy.
- 2.6 Mae Darparwyr Llety Ymwelwyr yn ffeilio ffurflenni i ACC ac yn talu'r Ardoll Ymwelwyr yn seiliedig ar faint o arosiadau fesul person, y noson.
- 2.7 Mae'r Ddeddf yn nodi graddfeydd ardoll. Y cyfraddau ydi:

Math o lety	Cyfradd (y person, y noson)
Maes gwersylla pebyll a lloffttydd a rennir (hosteli a dorm)	£0.75c £0.90c yn cynnwys TAW
Pob math arall o lety gwyliau (carafán, glampio, cartref modur, hunan-ddarpar, gwely a brecwast, gwesty, ayb)	£1.30 £1.56 yn cynnwys TAW

- 2.8 Mae eithriadau cyfyngedig i'r ardoll ymwelwyr
 - a. pobl ifanc o dan 18 oed o'r gyfradd isaf o'r ardoll (hosteli, gwersylloedd pabell neu loffttydd wedi rhannu)
 - b. unrhyw rai sy'n aros mwy na 31 noson mewn un cyfnod; a
 - c. cartrefu brys neu dros dro wedi ei drefnu gan yr awdurdod lleol.

3. Proses penderfynu, amserlen amlinellol ac ystyriaethau

- 3.1. Bydd rhaid i'r Cyngor Llawn benderfynu ar gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd.
- 3.2. Cyn gwneud hynny mae camau penodol yn seiliedig ar statud neu Arweiniad Statudol angen eu gweithredu:
 - a. mae rhaid hysbysu ACC o'r bwriad
 - b. Cyhoeddi adroddiad yn gosod allan ei gynigion sydd yn gosod allan amcangyfrif o gynnyrch yr ardoll, gwybodaeth am sut y bwriedir defnyddio y cynnyrch a

chynigion y Cyngor ar gyfer aelodaeth y Bwrdd Ardoll (Atodiad 1 – Cynnig Ardoll Gwynedd).

- c. Rhaid cyflwyno yr adroddiad i ACC
 - d. Rhaid cynnal ymgynghoriad statudol
 - e. Yn ogystal ac yn ôl y Canllawiau Statudol mae angen paratoi Asesiad o Ardrawiad Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol. (Atodiad 2 a 3).
 - f. Mae hefyd yn ofyn wrth gwrs i baratoi asesiadau ardrawiad cyffredinol o ran Cydraddoldeb , Iaith Gymraeg a.y.b (Atodiad 4)
- 3.3. Ar hyn o bryd, mae sefyllfa siroedd eraill yng Nghymru yn amrywio o ran yr Ardoll gyda rhai eisoes wedi nodi na fyddant yn ymgynghori ar gyflwyno ardoll yn y tymor byr / canolig (Powys / Sir Penfro) a Chaerdydd wedi cymeradwyo i roi rhybudd i'r ACC y byddent yn gweithredu'r Ardoll o 1 Ebrill 2027.
- 3.4. Mae trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi digwydd dros y misoedd diwethaf er mwyn cydlynu'r amserlen a'r gwaith ymgynghori ar yr Ardoll ac hefyd er mwyn cydweithio ar gomisiynu Asesiadau Effaith. Bydd y dair sir yn cyd-weithio i sicrhau bod ein hamserlenni ymgynghori a phenderfynu yn cyd-fynd.
- 3.5. Mae'r Ddeddf yn darparu y gellir cyflwyno Ardoll o'r 01 Ebrill neu'r 01 Hydref mewn unrhyw flwyddyn ariannol – ond rhaid rhoi 12 mis o rybudd yn dilyn ymgynghoriad a phenderfyniad y Cyngor Llawn.
- 3.6. Oherwydd yr angen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ystyrion ac er mwyn cyd-fynd â chyfnodau cyn-etholiad, y cynharaf y gall Gwynedd weithredu Ardoll fyddai'r 01 Hydref 2027 yn dilyn 12 mis o rybudd.
- 3.7. Ni wneir penderfyniad terfynol ar y mater hyd nes bydd yr ymgynghoriad wedi cwblhau a'r mater yn dychwelyd i'r Cyngor Llawn am ystyriaeth.

4. Asesiad o'r Lefi yng Ngwynedd a materion ymchwil a gwybodaeth

- 4.1. Rhaid nodi bod ansawdd a dibynadwyedd y data sydd ar gael ar lefel genedlaethol heb sôn am lefel Gwynedd er mwyn asesu effaith cyflwyno Ardoll yn hynod o heriol ac wedi ei gyfyngu gan nad yw'n bodoli mewn llawer o achosion. Mae'r gallu i dderbyn data mwy manwl a dibynadwy ar gyfrifo ymwelwyr a defnydd o welyau ymwelwyr yn annhebygol iawn oni bai y byddai gwariant sylweddol ac yn ôl rhagolygon nid oes sicrwydd o unrhyw ddata ychwanegol nac ychwaith cadarnhad na fyddai'r data yn dyddio bron yn syth.
- 4.2. Ers nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor wedi ystyried sut allai ymwelwyr wneud cyfraniad i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn y Sir – gan gynnwys y prosiect Elwa o Dwristiaeth a gyfeiriwyd ato yn flaenorol. O'r holl opsiynau posib a ystyriwyd bryd hynny – o rodd gwirfoddol gan ymwelwyr, sefydlu Ardal Gwella Busnes Twristiaeth i sefydlu Ardoll Ymwelwyr – yr Ardoll oedd yn amlygu ei hun fel y dull mwyaf effeithiol o sicrhau incwm i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal

gan y tybiwyd bryd hynny y gallai godi hyd at £9m o incwm ychwanegol y flwyddyn (ar sail data ymwelwyr STEAM 2017 -Scarborough Tourism Economic Assessment Monitor).

- 4.3. Fel cyd-destun lleol, mae data STEAM Gwynedd (sydd efo rhybuddion / cafeatau ac yn fodel rhyngwladol i asesu tueddiadau o ran nifer ymweld a chyfraniad economaidd) yn amlygu'r canlynol ar gyfer 2024:

Effaith Economaidd: £1.785bn

Nifer ymweld: 7.75m

Nifer dyddiau ymweld: 24.09m

Cyfanswm cyflogaeth: 17,644

- 4.4. Wrth ystyried yr ymchwil sydd wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r bil, yn ogystal â gwaith ymchwil blaenorol a'r canllawiau drafft sydd wedi eu derbyn gan y Llywodraeth, mae'r Adran Economi a Chymuned yn cyd-weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac wedi comisiynu cwmni asesiad ardrawiad economaidd cyflwyno Ardoll yn ein hardaloedd. Rydym hefyd wedi ymgynghori gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Dinas Caeredin.

- 4.5. Mae'r asesiad ardrawiad a gomisiynwyd ar y cyd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn defnyddio modelau tebyg a ddefnyddiwyd gan y Llywodraeth wrth ddatblygu asesiadau effaith cenedlaethol. Mae'r data a ddefnyddir wedi ei sylfaenu ar ffigyrau'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (International Passenger Survey) a Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (Great British Tourism Survey) ar gyfer y blynyddoedd 2022-2024. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i data STEAM fel rhan o'r asesiad.

- 4.6. Mae'r gwaith ymchwil yma yn canolbwyntio ar:

- Yr ymchwil a'r astudiaethau baratowyd gan Lywodraeth Cymru yn eu hasesiad
- Adolygiad o unrhyw astudiaethau eraill sy'n bodoli
- Asesiad ardrawiad ar lefel Gwynedd – ond gyda llawer o amodau a chafeatau.
- Croes-gyfeirio yn ôl i waith y Llywodraeth
- Casgliad ar yr ardrawiad posib.
- Adolygu'r asesiad ardrawiad drafft yn sgil y broses ymgynghori

- 4.7. Mae'r asesiad ardrawiad effaith economaidd yn dod i'r casgliad y byddai effeithiau'r ardoll yn gymharol fach ar Wynedd. Nodir y canlynol:

- Mae'r sylfaen dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o fannau eraill, ynghyd â bylchau ac ansicrwydd yn y data. O ganlyniad, mae'r asesiad cenedlaethol yn cynnwys nifer sylweddol o amodau (caveats) ac yn dibynnu ar ystodau eang o amcangyfrifon. Mae asesiad ar lefel leol yn wynebu heriau pellach, o ganlyniad i fylchau data mwy amlwg a sylfaen dystiolaeth hyd yn oed yn llai datblygedig ar effaith ardollau ymwelwyr ar lefel leol (o'i gymharu â'r lefel genedlaethol).*
- Y prif amodau / cafeatau sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw:*

- *Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch elastigedd y galw. Er bod hyn eisoes yn wir ar lefel Cymru gyfan, mae'r ansicrwydd hyd yn oed yn fwy amlwg pan gaiff ei gymhwyso ar lefel Gwynedd.*
 - *Ceir gwahanol ffynonellau data ar gyfer amcangyfrif maint presennol economi ymwelwyr Gwynedd. Mae'r prif ddadansoddiad yn defnyddio'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (International Passenger Survey – IPS) a'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (Great British Tourism Survey – GBTS), yn unol ag asesiad Llywodraeth Cymru a'r canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol. Mae data STEAM yn dangos economi ymwelwyr sylweddol fwy; nodir goblygiadau hyn yn yr adroddiad.*
 - *Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw o fewn Cymru. Nid yw hyn o reidrwydd yn wir ar lefel ardal lai; er enghraifft, gall rhywfaint o wariant gan ymwelwyr â Gwynedd ddigwydd yng Nghonwy neu Ynys Môn (ac i'r gwrthwyneb).*
 - *Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd lefel uwch o ollyngiad (leakage) yn gysylltiedig â gwariant a ariennir drwy'r ardoll, gan y gall rhai busnesau sy'n elwa ar gontractau a ariennir drwy'r ardoll fod wedi'u lleoli y tu allan i Wynedd.*
 - *Mae'r asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Ar lefel Gwynedd, bydd yr effeithiau'n wahanol yn dibynnu a yw un awdurdod lleol yn unig yn cyflwyno'r ardoll, neu a yw awdurdodau cyfagos hefyd yn ei gweithredu.*
- c. *Felly, mae'r asesiad ar lefel Gwynedd wedi'i amodi'n briodol, a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun y bylchau yn y data a'r sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.*
- d. *Serch hynny, rydym yn hyderus y bydd yr effaith ar Wynedd yn gymharol fach, o ran cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA). Rydym wedi mabwysiadu dull sy'n fras debyg i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn pennu'r "penterfynau" (bookends) ar gyfer yr ystod debygol o'r effeithiau hyn.*
- e. *O fewn y prif ddadansoddiad hwn, mae'r rhagdybiaethau a wneir yn gyffredinol yn rhai ceidwadol o ran asesu'r effaith ar yr economi (h.y. maent yn tueddu i oramcangyfrif yr effaith negyddol bosibl). Er enghraifft, mae'n cael ei dybio bod Gwynedd yn colli'r holl wariant ymwelwyr, pan fyddai rhywfaint o'r gwariant hwnnw, mewn gwirionedd, wedi digwydd y tu allan i Wynedd (er enghraifft, pan fydd ymwelwyr sy'n aros yng Ngwynedd yn gwario arian mewn awdurdodau lleol eraill ar deithiau dydd). Mae hefyd yn cael ei dybio bod rhywfaint o ollyngiad o weithgarwch economaidd y tu allan i Wynedd o ganlyniad i wariant yr ardoll, tra'n tybio ar yr un pryd nad yw busnesau Gwynedd yn elwa ar gontractau sy'n deillio o wariant ardollau ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill.*

- f. Yn yr un modd, mae'r dadansoddiad yn tybio nad oes twf yn economi'r ymwelwyr ac yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i gyflwyno'r ardoll. Yn ymarferol, pe bai economi'r ymwelwyr yn tyfu, byddai'r cyllid a godir drwy'r ardoll yn cynyddu, a gallai gwariant yr ardoll ei hun ysgogi twristiaeth uwch drwy well profiad i ymwelwyr. Byddai hyn yn helpu i gynnal a gwella cystadleurwydd Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth. Ceir tystiolaeth o dwf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ymwelwyr mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno.
- g. Byddai unrhyw dwf yn economi'r ymwelwyr hefyd yn gwrthbwysu unrhyw golledion i'r economi (o ran swyddi a GVA) sy'n deillio o ymwelwyr nad ydynt yn dod o ganlyniad i'r ardoll, a byddai hefyd yn cynyddu'r refeniw a godir drwy'r ardoll.
- h. Serch hynny, ar sail y dull hwn, amcangyfrifir bod effeithiau'r ardoll yn gymharol fach. Hyd yn oed gyda'r rhagdybiaethau ceidwadol hyn (h.y. rhagdybiaethau a allai oramcangyfrif unrhyw effaith negyddol), amcangyfrifir y gallai'r ardoll arwain at:
- Newid mewn cyflogaeth rhwng -50 a +21 o swyddi – sy'n cyfateb i golled o tua -0.1% neu gynnydd o tua 0.04% o gyflogaeth yng Ngwynedd.
 - Newid mewn GVA blynyddol rhwng -£2.7m a +£0.4m y flwyddyn – sy'n gyfwerth â cholled o tua -0.1% neu gynnydd o lai na 0.01% o economi Gwynedd.
 - Refeniw blynyddol o rhwng £2.4m a £2.8m.
- i. Mae'r ystod hon, sy'n amrywio o effaith negyddol gymharol fach i effaith gadarnhaol gymharol fach, yn adlewyrchu canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru, a ddaeth hefyd i'r casgliad bod yr effaith ar raddfa genedlaethol yn debygol o fod rhwng effaith negyddol fach ac effaith gadarnhaol fach.
- j. Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi dwristiaeth bresennol Gwynedd yn sylweddol fwy na'r hyn a nodir gan yr IPS a'r GBTS; pe bai data STEAM yn cael ei ddefnyddio, byddai effeithiau'r ardoll tua 4 i 5 gwaith yn fwy. Mae hyn yn tanlinellu'r ansicrwydd yn y data, ac felly'r ansicrwydd cynhenid wrth ragfynegi effaith yr ardoll.
- 4.8. Mae ymchwil gan [Brifysgol Bangor](#) i effaith cyflwyno Ardoll Ymwelwyr mewn 7 o ardaloedd cymharol i Gymru o'r byd yn nodi bod:
- a. Tystiolaeth gyfyngedig ar effeithiau trethi twristiaeth: 'Mae **asesiad cynhwysfawr o effeithiau trethi twristiaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig**, er gwaethaf eu cymhellion clir dros weithredu'.
 - b. Yn gyffredinol, mae **twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr wedi parhau i dyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn** (er na allwn wybod beth fyddai'r gwrth-ffeithiol wedi bod heb ardoll).
- 4.9. Mae ymchwil pellach a gyhoeddwyd fis Ebrill 2026 gan Brifysgol Bangor ar ran Roberts Group ['Ardoll Ymwelwyr i Wynedd'](#) yn darparu argymhellion ar sut y gallai

Cyngor Gwynedd ddefnyddio ei bwerau o dan y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) i wella perfformiad y sector twristiaeth yng Ngwynedd. Mae'r adroddiad yn archwilio modelau llywodraethu, gweithredu, buddsoddi, cyfathrebu ac adolygu gan ddarparu 9 prif argymhelliad. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad:

Os caiff ei weithredu'n effeithiol, gall yr ardoll drawsnewid sector twristiaeth Gwynedd, gan wella cystadleurwydd, lleihau pwysau ar ardaloedd sensitif, a chreu manteision economaidd a chymdeithasol hirdymor.

- 4.10 Mae Drafft Cynnig Ardoll Gwynedd eisoes yn mynd i'r afael a'r argymhellion a'r ystyriaethau a nodir yn yr adroddiad hwn.

5. Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

- 5.1. Pe byddai'r Cyngor yn cefnogi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus—byddai'r gwaith yma'n cael ei arwain gan y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau gyda chefnogaeth y Gwasanaethau Cyfathrebu a Chyfreithiol a chymorth gan Lywodraeth Cymru ac ACC.
- 5.2. Mae disgwyl i Awdurdod Lleol ymgymryd â phroses ymgynghori ar sail egwyddorion ymgynghori cyhoeddus "Gunning" cyn penderfynu a ddylid cyflwyno y rhybydd o 12 mis i weithredu'r Ardoll.
- 5.3. Dylai'r ymgynghoriad nodi'r achos dros gyflwyno ardoll gan amlinellu'r manteision posibl a chynnig awgrymiadau ar sut y gellid buddsoddi'r ardoll er budd yr ardal leol, busnesau, trigolion ac ymwelwyr. Fel pob ymgynghoriad bydd angen i'r broses sicrhau fod digon o wybodaeth yn cael ei gynnwys i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. Mae hefyd yn gyfrwng i gael cyfraniad at yr asesiadau ac adroddiadau fydd yn mynd gerbron y Cyngor wrth ystyried mabwysiadu yr ardoll.
- 5.4. Yn achos Gwynedd, yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cyngor cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal dros 08 wythnos rhwng 20 Mai a 15 Gorffennaf 2026. Mae hi'n ofyn statudol ymgynghori gyda:
- Pobl Leol
 - Cynghorau Tref a Chymuned
 - Cynghorau Sir sydd yn ffinio ar Wynedd
 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
 - Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd
 - Cyrff sydd yn cynrychioli busnesau twristiaeth neu busnesau sydd yn ymwneud a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn hybu neu'n hwyluso twristiaeth yn ardal y cyngor yn ardal y prif gyngor;
 - Darpar aelodau y Bwrdd Ardoll os nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys yn y rhestr yma.
- 5.5. Bwriedir ymgynghori drwy'r dulliau canlynol fydd yn cynnwys:
- Holiadur arlein ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr
 - Digwyddiadau arbennig (un ym mhob un o 3 ardal Gwynedd ac un arlein)
 - Sesiynau pop-up o fewn y 3 ardal o Wynedd

- d. Cyfarfodydd Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035
 - e. Darparu gwybodaeth trwy ran penodol yr Ardoll ar wefan y Cyngor
- 5.6. Er ei bod yn bosib cyflawni llawer o'r uchod gydag adnoddau presennol – bydd elfennau hwyluso a threfnu, dadansoddi ac adrodd yn cael eu comisiynu er mwyn cefnogi'r broses.
- 5.7. Er mwyn sicrhau ymgynghoriad cynhwysol mae asesiadau ardrawiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wedi ei baratoi ac bydd rhain yn ffurfio rhan o'r pecyn ymgynghoriad i geisio ymatebion pellach. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ystyriaeth ar gyfer yr asesiadau ardrawiad terfynol yn ogystal â bod yn ystyriaeth i benderfyniad y Cyngor ar fabwysiadu'r Ardoll a'i peidio.

6. Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- 6.1. Pe bai penderfyniad i ymgynghori'n gyhoeddus, bwriedir bwrw ati i sefydlu trefniadau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu ar a chyfathrebu'r Ddeddf yng Ngwynedd.
- 6.2. Byddai sefydlu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn creu trefniadau ffurfiol yn fewnol i'r Cyngor a gyda phartneriaid i gyfathrebu ac ymgysylltu ar ddatblygiad y drefn gofrestru llety dros nos a'r Ardoll o fewn i Wynedd. Mae Llywodraeth Cymru ac ACC wedi darparu canllawiau statudol ar gyfer hyn.

7. Defnydd posib o'r Ardoll Ymwelwyr a Gweithrediad

- 7.1. Mae'r Ddeddf yn adnabod meysydd penodol ar gyfer buddsoddi (neilltuo) arian yr Ardoll yn y dyfodol at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ei ardal, yn cynnwys:
 - a. lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;
 - b. cynnal a hybu defnyddio'r Gymraeg;
 - c. hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
 - d. darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio)."
- 7.2. Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ac ACC gyhoeddi canllawiau pellach ar y meysydd neilltuo hyn.
- 7.3. O ystyried ein bod wedi mabwysiadu [Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035](#) sy'n adnabod gweledigaeth, egwyddorion ac amcanion clir i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal – byddai'n synhwyrol defnyddio'r blaenoriaethau hyn (sy'n cyd-fynd a'r meysydd neilltuo) er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau o'r ardoll yng Ngwynedd er mwyn gwireddu ein gweledigaeth.

Adroddiad ar ddefnyddio enillion yr ardoll:

- 7.4. Rhaid i brif gyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar faint yr enillion o'r Ardoll a sut mae'r enillion hyn wedi cael eu defnyddio gan y Cyngor i reoli a gwella cyrchfannau.

Fforymau partneriaeth ardoll:

- 7.5. Mae'r ddeddf yn gofyn am sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll lleol i roi gwybodaeth a chynghor ar sut y gellir defnyddio enillion o'r Ardoll a rhoi gwybodaeth a chynghor os yw Cynghor yn dymuno ychwanegu swm ychwanegol at yr Ardoll yn lleol (premiwm).
- 7.6. Os penderfynir gweithredu'r Ardoll, o ystyried ein bod wedi sefydlu Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035, mae hi'n rhesymol cynnig y dylai'r bartneriaeth hon weithredu fel 'Fforwm Partneriaeth Ardoll' yng Ngwynedd i gynnig arweiniad.

Adnoddau a buddsoddi

- 7.7. Mae gwybodaeth o ran faint yr incwm ellid ei gasglu yng Ngwynedd yn amrywio ar sail y data a ddefnyddir. Fel a welir o'r Adroddiad Asesiad Ardrawiad gall fynd o £2.8m ar lefel geidwadol, besimistaidd i hyd at £12.4m os defnyddir data STEAM sy'n debygol o or-gyfrifo.
- 7.8. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu tuag at gostau sefydlu'r Ardoll yng Nghymru fel na fydd costau gweinyddu'r Ardoll yn fwy nag uchafswm o 10% o'r adnoddau a gesglir mewn Awdurdod Lleol. (Felly o £200,800 i £1.2m os defnyddir y ffigyrau uchod).
- 7.9. Mae ystyriaethau yn lleol o ran y costau tebygol i weinyddu'r bartneriaeth a'r gronfa fydd ar gael i fuddsoddi yn yr ardal yn sgil yr Ardoll – mae bras-amcan o'r costau hyn yn gwneud cyfanswm o tua £100,000 y flwyddyn. Gall y gost yma gael ei dalu trwy enillion yr Ardoll.
- 7.10. Yn sgil canllawiau statudol gan Llywodraeth Cymru ar gyfer y broses ymgynghori a phenderfynu i gyflwyno Ardoll mewn ardal leol, awgrymir y bydd angen adnoddau ychwanegol gan yr Adran Economi a Chymuned i ymgymryd a'r gwaith hwn. Byddai'r adnoddau ychwanegol hyn yn cyfrannu at gomisiynu asesiadau effaith, cydlynu proses ymgynghori a dadansoddi atebion, cydlynu a sefydlu trefniadau fframweithiau buddsoddi'r Ardoll.
- 7.11. Yn naturiol, bydd y sector, cymunedau, rhanddeiliaid ac ymwelwyr yn awyddus i weld buddsoddiad amlwg a gallai hyn gynnwys prosiectau megis e.e:

Egwyddor ac Amcan G+E2035	Enghreifftiau o weithgaredd posib y gellid eu cyllido trwy'r Ardoll yng Ngwynedd
Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth: → Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro → Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored	✓ Ymgyrchoedd i hybu diwylliant a'r Gymraeg ✓ Hybu naws am le a Chynnig Cymraeg i fusnesau trwy hyfforddiant ✓ Prosiectau i warchod treftadaeth ddiwylliannol adeiledig a byw ✓ Cefnogaeth i'r Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi a'i weithgareddau

	✓ Cefnogi rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol ✓ Cefnogi cymunedau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd → Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol → Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.	✓ Trafnidiaeth gyhoeddus well i wasanaethu cymunedau - bysiau ychwanegol ac yn hwyrach gyda'r nos ✓ Isadeiledd sylfaenol (biniau / casglu sbwriel / toiledau / glendid stryd ayb) ✓ Cynnal llwybrau poblogaidd a chreu rhai newydd. ✓ Gwarchod cynefinoedd e.e. moroedd a dyfroedd, ucheldiroedd ayb ✓ Dehongli pwrpasol o'n hamgylchedd a chynefinoedd ✓ Cefnogaeth i brosiectau cadwraeth amgylcheddol ✓ Ymgyrchoedd a chefnogaeth i gael sector di-blastig
Sicrhau bod y manteision i gymunedau'r ardal yn fwy nac unrhyw anfanteision → Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn → Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn → Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol	✓ Pecynnau grant i gefnogi busnesau, digwyddiadau a chymunedau ✓ Ymgyrchoedd ymweld i ymestyn y tymor, hyrwyddo rhinweddau arbennig yr ardal ac annog parch a diogelwch. ✓ Datblygu pecynnau a theithiau pwrpasol i ymweld a'r ardal a lleihau pwysau ar ardaloedd prysur ✓ Cefnogaeth i e.e. Timau Achub Mynydd a'r arfordir ✓ Gwella isadeiledd e.e. Arosfan, meysydd parcio, gorsafoedd ayb ✓ Ymestyn oriau wardeiniaid a gorfodaeth ✓ Hyrwyddo neu gefnogi ymdrechion twristiaeth adfywiol, h.y. Twristiaeth sydd â effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol a'r amgylchedd. ✓ Hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. ✓ Datblygu pecyn cynnyrch lleol a chadwyni cyflenwi lleol ✓ Cefnogaeth i fusnesau

8. Ystyriaethau eraill

- 8.1. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi na fydd eu rhaglen 'Pethau Bychain' i fuddsoddi mewn isadeiledd twristiaeth yn debygol o gael ei gynnal y tu hwnt i 2027. Mae hon wedi bod yn gronfa bwysig i Wynedd ac wedi buddsoddi mewn meysydd parcio, toiledau, llwybrau a chyfleusterau newydd megis 'Aros-fan'.
- 8.2. Mae angen sicrwydd gan Lywodraeth Cymru na fydd cyflwyno Ardoll mewn ardal yn effeithio ar ein setliad blynyddol, y grant poblogaeth ddyrchafedig nac ar ein gallu i gael mynediad at unrhyw gronfeydd ariannol i gefnogi twristiaeth a rheoli cyrchfan yn y dyfodol.
- 8.3. Mae beirniadaeth bod y sector dan warchae, bod Cyngor Gwynedd yn wrth-dwristiaeth ac y bydd cyflwyno ardoll yn troi ymwelwyr dros nos i ffwrdd o'r ardal. Bydd yr astudiaethau effaith yn archwilio'r maes yma – ond mae gwybodaeth ar lefel leol yn anodd i'w gasglu, er bod tystiolaeth o ardaloedd eraill sydd wedi cyflwyno ardoll yn awgrymu nad yw'n cael effaith ar niferoedd ymweld.
- 8.4. Dylid cofio bod Llywodraeth y DU bellach yn deddfu er mwyn caniatáu i Faeri yn Lloegr gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn y dinas-ranbarthau yn Lloegr.
- 8.5. Yn y dyfodol, pe penderfynir cyflwyno Ardoll Ymwelwyr, mae modd rhoi rhybudd o 12 mis yn dilyn ymgynghoriad i ddileu'r Ardoll mewn ardal leol.
- 8.6. Rhaid cofio bod y sector twristiaeth yn agored i newidiadau mewn patrymau ymweld sy'n cael eu effeithio gan ffactorau ehangach lleol a byd-eang ac mae cael patrwm cyson o un flwyddyn i'r nesaf yn amhosib eu rhagweld.

9. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 9.1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- 9.2. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.
- 9.3. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol y gallai'r Ardoll Ymwelwyr gefnogi pe byddai'n cael ei fabwysiadu:
 - GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
 - GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
 - GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
 - GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

10. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

10.1. Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Yn unol a'r Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 paratowyd asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae Asesiad effaith cyfansawdd wedi ei baratoi mewn drafft (Atodiad 4) ac yn amlygu y gallai rhai effeithiau negyddol gael eu codi wrth fabwysiadu Ardoll yng Ngwynedd. Ond, mae ail-fuddsoddi'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll efo'r potensial i gefnogi deilliannau positif ar y diwydiant, ein cymunedau, yr amgylchedd a'r Gymraeg. O weithredu trwy strwythur Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 mae modd gweithredu'n gynhwysol a monitro gweithredu'r ardoll a'i flaenoriaethau gweithredu trwy fesuryddion newydd a bydd modd ystyried ac ymateb i unrhyw effeithiau negyddol ar y grwpiau gwarchodedig.

11. Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol

11.1. Mae Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol (**Atodiad 5**) yn amlygu'r meysydd a ganlyn i liniaru effaith posib cyflwyno Ardoll yng Ngwynedd:

- a. Clustnodi cyfran benodol o incwm yr ardoll ar gyfer prosiectau amgylcheddol a rheoli cyrchfannau.
- b. Monitro rheolaidd o effeithiau'r ardoll ar lif ymwelwyr a phwysau amgylcheddol, gan addasu polisiau os oes angen.
- c. Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol, sefydliadau amgylcheddol a'r sector twristiaeth i sicrhau bod buddsoddiadau'n targedu'r meysydd o'r angen mwyaf.
- d. Defnydd o incwm yr ardoll ar gynlluniau parcio cartrefi modur dynodedig, gorfodaeth a rheolaeth gwell, a seilwaith gwersylla cynaliadwy lle bo'n briodol.

11.2. Mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad bod gan Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd, ar yr amod bod yr incwm a gesglir yn cael ei fuddsoddi'n strategol ac yn dryloyw mewn rheoli cyrchfannau a gwarchod asedau naturiol.

11.3. Gyda mesurau lliniaru priodol, gellir sicrhau bod yr ardoll yn cyfrannu at economi ymweld gynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

12. Asesiad Ardrawiad Cymdeithasol

- 12.1. Mae Asesiad Ardrawiad Cymdeithasol (**Atodiad 6**) yn amlygu'r meysydd a ganlyn i liniaru effaith posib cyflwyno Ardoll yng Ngwynedd:
- Ymgynghori cymunedol trylwyr a pharhaus ar flaenoriaethau buddsoddi
 - Cyfathrebu clir bod incwm yr Ardoll yn:
 - Cael ei gadw'n lleol
 - Cael ei fuddsoddi er budd cymunedau a llesiant
 - Monitro effaith gymdeithasol yn rheolaidd wrth adolygu'r Ardoll
 - Creu Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd i sicrhau cyfranogiad cymunedol
- 12.2. Mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad yn gyffredinol, y gall mabwysiadu Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd gael effaith gymdeithasol gadarnhaol sylweddol, ar yr amod:
- Bod egwyddorion tegwch a chynhwysiant yn ganolog
 - Bod yr incwm yn cael ei dargedu'n glir tuag at fudd cymunedol
 - Bod y Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid
- 12.3. Gyda'r mesurau lliniaru priodol, mae'r Ardoll yn cynnig cyfle i gryfhau cydlyniant cymunedol a sicrhau economi ymweld sy'n gweithio'n well i bobl Gwynedd.
13. Bydd yr holl asesiadau ardrawiad yn cael eu hadolygu yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac yn derbyn ystyriaeth lawn pan fydd penderfyniad i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd neu beidio yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn yn y dyfodol.

14. Camau Nesaf

Amserlen	Cam Gweithredu
14 Mai '26	Cyngor Llawn yn penderfynu ymgynghori yn gyhoeddus Comisiynu cymorth ymgynghori a dadansoddi adborth os cefnogi
20 Mai'26 – 15 Gorff. '26	Ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw mewn, holiadur arlein ayb
Awst 2026	Ystyried canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ac unrhyw addasiadau i'r Asesiadau Effaith
24 Medi 2026	Cyngor Llawn Penderfyniad ar fabwysiadu'r Ardoll yng Ngwynedd neu beidio
30 Medi 2026	Cyflwyno Rhybudd Swyddogol 12 mis i ACC os yw Cyngor Gwynedd yn penderfynu mabwysiadu'r Ardoll
01 Hydref 2027	Ardoll yn weithredol yng Ngwynedd
30 Mehefin 2028	Taliad cyntaf o'r Ardoll i Gyngor Gwynedd

Gwybodaeth Cefndir

Adroddiadau i Bwyllgorau Cyngor Gwynedd:

Dyddiad	Adroddiad	Penderfyniad
12-02-26	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Derbyn yr adroddiad gydag argymhellion i'r Aelod Cabinet ystyried pe mabwysiadir Ardoll yng Ngwynedd.
28-03-23	Papur ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sefydlu trefn gofrestru statudol.	Cefnogaeth i ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Croeso Cymru ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol yng Nghymru ar gyfer llety gwyliau.
15-12-2020	Gwaith ymchwil Tai Gwyliau	b) Er mwyn cynorthwyo i gadw rheolaeth dylid hefyd galw am gyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer llety gwyliau tymor byr fyddai'n gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol ei weithredu
13-03-2018	Pwerau Trethiant Llywodraeth Cymru	Rhoddir cyfle i'r Cabinet drafod bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno trethi newydd er mwyn ystyried a yw'n dymuno mynegi barn ar y cynigion.

[Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru a thystiolaeth gan Gyngor Gwynedd](#) (30/01/25)
[Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035](#)

Barn Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

“Mae'r adroddiad a'r ddogfennaeth sydd yn cefnogi y cynnig wedi bod yn destun mewnbwn a chyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Nodaf yn benodol fod y broses ymgynghori yn cael eu cynllunio dan ddal sylw at yr egwyddorion yn achos R v London Borough of Brent ex parte Gunning1985 sydd yn gosod y sylfaen gyfreithiol ar gyfer prosesau ymgynghori. Yn unol a darpariaethau Adran 54 Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 mae'r penderfyniad i gymeradwyo y cynnig a chynnal proses ymgynghori yn fater i'r Cyngor Llawn. Rwyf felly yn fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.”

Y Pennaeth Cyllid

“Mae Ardoll Ymwelwyr wedi bod yn destun trafodaeth yng Nghymru ers sawl blwyddyn bellach, ac rwyf wedi bod yn ymwybodol o’r datblygiadau hyn. Mae’r ddogfennaeth sydd wedi ei gynnwys fel rhan o’r pecyn ar gyfer yr eitem yma yn dangos y gwaith manwl sydd wedi ei wneud er mwyn casglu tystiolaeth a dod i benderfyniad ar y mater mewn modd priodol.

Mae unrhyw gamau gellir eu cymryd i ddenu incwm ychwanegol a lliniaru costau’r Cyngor wrth ymdrin â meysydd gwariant uwch i gefnogi’r sector twristiaeth i’w groesawu. Y cam nesaf, sef y penderfyniad a geisir ar hyn o bryd, yw i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater neu beidio. Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir – dyma’r cam nesaf rhesymegol yn y broses a bydd canlyniadau’r ymgynghoriad yn cael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater ym Medi 2026.”

Atodiadau

Atodiad 1 - Cynnig Ardoll Gwynedd

Atodiad 2 - Asesiad Effaith Economaidd a

Atodiad 3 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Atodiad 4 - Asesiad Effaith Cyfansawdd Cyngor Gwynedd

Atodiad 5 – Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol

Atodiad 6 – Asesiad Ardrawiad Cymdeithasol



CYNNIG ARDOLL YMWELWYR **GWYNEDD**

Mai 2026

1. Ardoll Ymwelwyr Gwynedd: y cynnig

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar gyfer pob llety gwyliau ac arosiadau dros nos cymwys fel a nodir yn neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 o fewn i ffiniau awdurdod lleol Cyngor Gwynedd o'r 1 Hydref 2027. Bydd hyn ar gyfer pob darparwr llety fydd yn gorfod cofrestru ar gofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety.

Bydd yr Ardoll yn cael ei chodi ar gyfradd y person y noson fel a amlinellir yn y ddeddf. Bydd yr Ardoll yn cael ei chasglu gan y darparwr llety. Bydd y cyfraddau cychwynnol fel a nodir yn y ddeddf:

Math o lety	Cyfradd (y person, y noson)
Maes gwersylla pebyll a lloffttydd a rennir (hosteli a dorm)	£0.75c (plant o dan 18 wedi eithrio) £0.90c yn cynnwys TAW
Pob math arall o lety gwyliau (carafán, cartref modur, hunan-ddarpar, gwely a brecwast, gwesty, ayb)	£1.30 £1.56 yn cynnwys TAW

Eithriadau

Ni fydd disgwyl talu'r ardoll os ydych:

- O dan 18 oed ac yn aros mewn gwersyll pebyll neu ystafell a rennir (megis hostel neu dorm);
- Yn aros am fwy na 31 noson mewn un arhosiad; ac
- Mewn llety argyfwng neu dros dro wedi ei drefnu gan gyngor lleol.

Ad-daliadau

Bydd y canlynol yn gymwys i ymgeisio am ad-daliad gan Awdurdod Cyllid Cymru:

- Pobl anabl sy'n talu costau ardoll ychwanegol pan fydd ganddynt ofalwr; a
- Pobl sy'n ffoi o drais yn y cartref.

2. Incwm yr Ardoll

Dull gweithredu

Defnyddiwyd amrywiol o ffynonellau data er mwyn amcangyfrif incwm cychwynnol yr Ardoll i Wynedd. Canolbwyntiwyd ar y ffynonellau canlynol:

- Gwybodaeth a data gan Lywodraeth Cymru, Croeso Cymru
- Asesiadau ac ymchwil gan Lywodraeth Cymru
- Data y Great British Tourism Survey
- Data International Passenger Survey
- Data STEAM ar gyfer Gwynedd

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data STEAM ar gyfer ei adroddiadau monitro perfformiad. Fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn ddoeth cynnal dadansoddiad pellach i sicrhau bod y data sy'n cael ei ddefnyddio yn briodol wrth bennu lefel gyffredinol yr incwm y byddai'r ardoll yn ei chodi.

Yn benodol ystyriwyd hyn oherwydd:

- Mae'r holl ddata yn parhau i fod yn seiliedig ar wybodaeth sampl ac yn destun gwallau;
- Y gallu i wirio amcangyfrifon gan ddefnyddio dulliau amgen; ac
- Ystyriaeth o'r effaith ar feysydd fel esemptiadau Ardoll.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod data STEAM yn ddata a ddefnyddir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac yn un o'r mesurau cyffredin o ran twristiaeth sydd ar gael.

Data ac ymchwil

Rhaid amlygu bod y data cenedlaethol yn ogystal a'r data lleol yn agored i'w herio, ac yn seiliedig ar samplau a lluosydd.

Mae STEAM yn broses modelu effaith economaidd twristiaeth sy'n mesur twristiaeth o'r gwaelod i fyny, drwy ei ddefnyddio o ddata ochr gyflenwi leol a pherfformiad twristiaeth a chasglu data arolygon ymwelwyr. Mae STEAM yn gallu darparu allbynnau cadarn ar amrywiaeth o lefelau daearyddol ac, fel y cyfryw, mae wedi'i fabwysiadu i'w ddefnyddio ledled y Deyrnas Unedig a thramor gan fyrdau twristiaeth, awdurdodau lleol, asiantaethau datblygu rhanbarthol, awdurdodau parciau cenedlaethol, a llawer o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.

Mae STEAM yn meintio effaith economaidd lleol twristiaeth, o ymwelwyr sy'n aros dros nos ac ymwelwyr dydd, trwy ddadansoddi a defnyddio amrywiaeth o fewnbynnau gan gynnwys niferoedd atyniadau ymwelwyr, stoc gwelyau llety i dwristiaid, presenoldeb mewn digwyddiadau, lefelau deiliadaeth, tariffau llety, ffactorau macroeconomaidd, lefelau gwariant ymwelwyr, lefelau defnydd trafndiaeth a lluosyddion economaidd sy'n benodol i dwristiaeth.

Amlyga data STEAM y canlynol o ran gwerth a niferoedd y sector twristiaeth i Wynedd ar gyfer 2024:

- Effaith Economaidd: £1.785bn
- Nifer ymweld: 7.75m
- Nifer dyddiau ymweld: 24.09m
- Cyfanswm cyflogaeth: 17,644

Mae'r ymchwil stoc gwelyau a gynhaliwyd fwyaf diweddar gan Gyngor Gwynedd yn 2019 yn dangos y canlynol gyda chymhariaeth ar gyfer 2011. Dylid nodi y gallai'r ffigyrau yma fod wedi newid yn sylweddol yn sgil Covid19 a sefyllfa costau byw. Bydd trefn gofrestru genedlaethol yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar gael yn y dyfodol ar gyfer y niferoedd hyn:

	Nifer 2019	Nifer 2011	% Newid ers 2011
Sefydliadau heb gynnwys AirBnB	3,212	2,807	+14.4%
Sefydliadau AirBnB*	745	-	-
Cyfanswm Sefydliadau	3,957	2,807	+40.9%
		■	
Gwelyau Ymwelwyr heb AirBnB	132,924	125,273	+6.1%
Gwelyau Ymwelwyr AirBnB*	3,661	-	-
Cyfanswm Gwelyau Ymwelwyr	136,585	125,273	+9.0%

Ar sail yr Asesiad Effaith Ardrawiad Economaidd (gweler Pennod 8 am fanylion pellach) byddai'r ardoll ymwelwyr yn codi tua £2.8m, a byddai hyd at £2.5m o hyn yn cael ei gadw gan Gyngor Gwynedd i'w wario yn yr ardal leol (yn unol â'r Ddeddf), gan dybio bod hyd at 10% o'r refeniw yn cael ei ddefnyddio i dalu costau gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru.

Mae'r dull a nodir i gyfrifo'r swm yma yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn y galw mewn ymateb i'r ardoll ymwelwyr – mae'r gostyngiad hwn yn arwain at ostyngiad bach yn y refeniw, ond mae'n parhau rhwng £2.7m a £2.8m i gyd, a rhwng £2.4m a £2.5m unwaith y bydd y cyfraniad at gostau gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru wedi'i eithrio.

Mewn gwirionedd, gallai'r refeniw a gesglir fod yn uwch na hyn am nifer o resymau:

- Mae hyn yn tybio bod nifer yr ymwelwyr yn sefydlog yn seiliedig ar ddata 2024, a mai'r unig newid yw gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr (neu'r nosweithiau aros) o ganlyniad i'r dreth. Mewn gwirionedd, gallai economi ymwelwyr Gwynedd dyfu (gyda'r dreth neu hebddi). Mae marchnad dwristiaeth Gwynedd wedi bod yn tyfu ers y pandemig Covid, a gallai hyn barhau. Ceir hefyd dystiolaeth o dwf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno treth

ymwelwyr (gweler adroddiad Prifysgol Bangor yn yr Ardrawiad Effaith Economaidd).

- Bydd y dreth ymwelwyr yn galluogi Cyngor Gwynedd i fuddsoddi mewn gweithgareddau yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth, a darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr. Mae'n debygol y bydd y buddsoddiad hwn ei hun yn ysgogi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. I'r gwrthwyneb, gallai fod gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr pe na bai'r buddsoddiad hwn yn cael ei wneud drwy'r dreth ymwelwyr.
- Mae data STEAM yn awgrymu bod economi ymwelwyr bresennol Gwynedd yn sylweddol fwy, a fyddai'n arwain at refeniw uwch.

	Prif Ddadansoddiad Senario craidd (elastigedd o -0.74)	STEAM (elastigedd o -0.74)
Refeniw (heb TAW)	£2.8m <i>£2.5m yn cyfrifo cyfraniad i ACC</i>	£12.4m <i>£11.2m yn cyfrifo cyfraniad i ACC</i>

Cyllideb arfaethedig yr Ardoll yng Ngwynedd 2027/28

Awgrymir y dylid cyfrifo'r gyllideb arfaethedig i Gwynedd ar ffigwr ceidwadol o **£2.5m** yn y flwyddyn gyntaf y gweithredir yr Ardoll yn lleol, ond rhagwelir y bydd y ffigwr yma yn uwch o ystyried y bylchau yn y data a'r gwahaniaeth enfawr rhwng ffigyrau'r data a ddefnyddiwyd. Dim ond pan fydd Ardoll yn cael ei gweithredu yng Ngwynedd y byddwn yn gwybod, gyda sicrwydd, faint o arian y bydd yn cael ei gasglu.

3. Cynigion ar gyfer defnyddio incwm yr Ardoll yng Ngwynedd

Mae defnydd o'r Ardoll wedi ei gyfyngu ar gyfer pwrpasau 'rheoli a gwella cyrchfan'. Yng nghyd-destun Cymru amlygir y meysydd canlynol yn y ddeddf:

- a. lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;
- b. cynnal a hybu defnyddio'r Gymraeg;
- c. hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- d. darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio)."

Mae'r ddeddf yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi manylion ar ddiwedd blwyddyn ariannol mewn cyhoeddiad sy'n amlygu faint o incwm sydd wedi ei gasglu a sut mae'r incwm hwnnw wedi ei fuddsoddi er mwyn rheoli a gwella cyrchfan.

O ystyried bod Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 (G+E2035) sy'n adnabod gweledigaeth, egwyddorion ac amcanion clir i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal – bwriedir defnyddio'r blaenoriaethau hyn er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau o'r ardoll yng Ngwynedd.

Ein gweledigaeth o fewn y cynllun yw:

"Economi Ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"

Mae 3 egwyddor wedi eu cytuno er mwyn gwireddu'r weledigaeth:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn fwy nac unrhyw anfanteision

Mae Cynllun Gweithredu Blynyddol yn cael ei ddatblygu i weithredu'r Cynllun Strategol gan ymateb i holiadur trigolion Gwynedd ar dwristiaeth, holiadur busnes Gwynedd yn ogystal â gwaith cynlluniau Ardal Ni a gweithdai blaenoriaethau gydag aelodau Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035.

Yng Ngwynedd fe allai cynlluniau buddsoddi'r ardoll ganolbwyntio ar rai o'r gweithgareddau canlynol sy'n gweithredu ar yr egwyddorion:

Egwyddor ac Amcan G+E2035	Enghreifftiau o weithgaredd posib y gellid eu cyllido trwy'r Ardoll yng Ngwynedd
Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth: • Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro • Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored	✓ Ymgyrchoedd i hybu diwylliant a'r Gymraeg ✓ Hybu naws am le a Chynnig Cymraeg i fusnesau trwy hyfforddiant ✓ Prosiectau i warchod treftadaeth ddiwylliannol adeiledig a byw ✓ Cefnogaeth l'r Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi a'i weithgareddau ✓ Cefnogi gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol ✓ Cefnogi defnydd o'r Gymraeg
Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd • Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol • Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.	✓ Trafnidiaeth gyhoeddus gwell i wasanaethu cymunedau ac unigolion sydd eisiau teithio i waith - bysiau ychwanegol ac yn hwyrach gyda'r nos ✓ Isadeiledd sylfaenol (biniau / casglu sbwriel / toiledau / glendid stryd ayb) ✓ Cynnal llwybrau poblogaidd a chreu rhai newydd. ✓ Gwarchod cynefinoedd e.e. moroedd a dyfroedd ✓ Dehongli pwrpasol ✓ Cefnogaeth i brosiectau cadwraeth amgylcheddol ✓ Ymgyrchoedd a chefnogaeth i gael sector di-blastig ✓ Pwyntiau gwefru ceir ✓ Cynlluniau dwr ymdrochi neu draethau glan.
Sicrhau bod y manteision i gymunedau'r ardal yn fwy nac unrhyw anfanteision • Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn • Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn	✓ Pecynnau grant i gefnogi busnesau, digwyddiadau a chymunedau ✓ Ymgyrchoedd ymweld i ymestyn y tymor, hyrwyddo rhinweddau arbennig yr ardal ac annog parch a diogelwch. ✓ Datblygu pecynnau a theithiau pwrpasol i ymweld a'r ardal a lleihau pwysau ar ardaloedd prysur ✓ Cefnogaeth i e.e. Timau Achub Mynydd a morwrol

• Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol	✓ Gwellu isadeiledd e.e. toiledau, Arosfan, meysydd parcio, gorsafoedd, mynediad at leoliadau ayb ✓ Ymestyn oriau wardeiniaid neu swyddogion gorfodaeth ✓ Hyrwyddo neu gefnogi ymdrechion twristiaeth adfywiol, h.y. Twristiaeth sydd â effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol a'r amgylchedd. ✓ Hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. ✓ Datblygu pecyn cynnyrch lleol ✓ Cynlluniau cefnogi twf twristiaeth cynaliadwy. ✓ Darpariaeth gwybodaeth i ymwelwyr.
---	--

4. Sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd

Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol sy'n cyflwyno Ardoll yn eu hardal sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll i drafod materion yn ymwneud a'r Ardoll yn lleol. Yn benodol mae disgwyl i'r Fforwm roi gwybodaeth a chynghor ar sut y dylid blaenoriaethu buddsoddiad o incwm yr Ardoll ar gyfer rheoli a gwella cyrchfan yn yr ardal.

Dylai barn y Fforwm lywio'r broses benderfynu ynghylch buddsoddi incwm yr Ardoll a dylai'r Cyngor ystyried unrhyw wybodaeth neu gynghor a ddarperir gan y Fforwm wrth wneud penderfyniadau.

Rhaid i Awdurdod Lleol gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau bod y Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr:

- Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio mewn twristiaeth, neu'n gweithredu mewn gweithgareddau cysylltiedig o fewn ardal y prif Gyngor;
- Sefydliadau sy'n hyrwyddo neu'n hwyluso twristiaeth yn ardal y prif Gyngor; a
- Cyrff lleol perthnasol eraill a chynrychiolwyr gyda diddordeb mewn twristiaeth neu lety ymwelwyr yn ardal y prif Gyngor y mae'r cyngor yn teimlo eu bod yn berthnasol.

Eisoes mae Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 wedi ei sefydlu yng Ngwynedd i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal.

Mae'r Partneriaeth yn agored i unrhyw un sydd a diddordeb yn y maes economi ymweld yng Ngwynedd ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, cymunedol a chyhoeddus.

Mae Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 yn cyfarfod i:

- Fod yn lais i sicrhau perchnogaeth o Gynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri gan randdeiliaid yr economi ymweld;
- Trafod, rhoi barn a monitro gweithrediad Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035, ei fesuryddion a'i Gynllun Gweithredu;
- Bod yn fforwm cyswllt sector a rhannu gwybodaeth efo'r sector;
- Adnabod Blaenoriaethau a materion i'w hadrodd i'r Grŵp Gweithredu;
- Bod yn lais i'r sector wrth flaenoriaethu unrhyw gyfleon cyllido all fod ar gael;
- Goruchwyllo'r Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Partneriaeth gan ei addasu fel yr angen gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Llywio;
- Rhoi llais i'r sector ar y Bwrdd Strategol pan yn briodol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus y Cynllun a'i strwythurau gweithredu.

Mae'r Bartneriaeth yn annibynnol i Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri ond yn ran ffurfiol o'r strwythur gweithredu gan adrodd i'r Bwrdd Strategol.

Bydd disgwyl i'r Bartneriaeth wneud sylwadau ac argymhellion ar weithrediad y Cynllun Gwynedd & Eryri 2035, ei strwythurau gweithredu a blaenoriaethau'r Ardoll i'r Bwrdd Strategol trwy'r Cyd-Gadeiryddion neu'r Cyd-is-gadeiryddion.

Adnabod Blaenoriaethau Buddsoddi'r Ardoll

Bwriedir sicrhau trafodaeth / gweithdy blynyddol o fewn i Bartneriaeth G&E2035 er mwyn adnabod blaenoriaethau a phrosiectau posib ar gyfer buddsoddi'r Ardoll. Bydd blaenoriaethau a phrosiectau'n cael eu dylanwadu gan:

- Arolwg Trigolion Gwynedd
- Arolwg Busnesau Gwynedd
- Adborth Fforymau Ardal Ni
- Arolwg Ymwelwyr (pan fyddant wedi eu cynnal)
- Barn aelodau'r Bartneriaeth ar faterion cyfredol
- Materion strategol wedi eu hadnabod

Byddwn yn dilyn y drefn sydd wedi ei mabwysiadu o fewn i Gynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn adnabod cynlluniau blaenoriaeth a mesur effaith eu gweithredu:



Aelodaeth arfaethedig Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr Gwynedd

Bydd llais y Bartneriaeth a'r blaenoriaethau / prosiectau a godwyd yn y gweithdy yn cael eu crynhoi a'u pecynnu er mwyn eu trafod, ychwanegu atynt a chytuno arnynt fel argymhellion yn y Bwrdd Strategol i'w cyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd.

Gan bod y Bwrdd Strategol hefyd yn cynnwys rhan o Gonwy, ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ran o'r drafodaeth flaenoriaethu hon – er fe allai'r blaenoriaethau hefyd fod yn berthnasol i Fforwm Partneriaeth Ardoll Conwy pe byddent yn sefydlu Ardoll yn y sir.

Aelodau arfaethedig y Fforwm (sef Bwrdd Strategol G&E2035 **heb** gynnwys llais ffurfiol i Gonwy)

Cyd-gadeiryddion Gwynedd + Eryri 2035 (x2) – cynrychioli'r holl bartneriaeth

Arweinydd Cyngor Gwynedd

Aelod Cabinet Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd

Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri

Cynrychiolydd Twristiaeth Gogledd Cymru

Cynrychiolydd Twristiaeth Canolbarth Cymru

Swyddogion Cyngor Gwynedd (x2)

Swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (x2)

Sylwebyddion: Croeso Cymru + Awdurdod Cyllid Cymru

Bydd penderfyniadau terfynol ar ddefnyddio incwm yr Ardoll yn gyfrifoldeb i aelodau etholedig Cabinet Cyngor Gwynedd wrth ystyried argymhellion Bwrdd Strategol G&E2035.

Amserlen blynyddol cyfarfodydd:

Mis	Grŵp	Pwrpas
Tachwedd	Partneriaeth G&E 2035	Adolygu tymor blaenorol. Gweithdy sgopio ac adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol.
Mawrth	Bwrdd Strategol G&E2035	Cytuno ar argymhellion blaenoriaethau a phrosiectau i'w cyflwyno i Cabinet Cyngor Gwynedd. Adrodd ar weithrediad Ardoll.
Mai	Partneriaeth G&E 2035	Adrodd ar weithrediad cynllun gweithredu. Adrodd ar weithrediad Ardoll ac incwm. Rhannu gwybodaeth tymor yma. Hyfforddiant.
Medi	Bwrdd Strategol G&E2035	Monitro cynnydd gweithredu. Adrodd ar weithredu'r Ardoll. Adnabod materion strategol posib allai gael eu blaenoriaethu yn y dyfodol.

Trefn adnabod blaenoriaethau Ardoll yn defnyddio strwythurau presennol:

Cabinet Cyngor Gwynedd
Penderfynu ar flaenoriaethau

Bwrdd Strategol G&E 2035
Cytuno ac argymhell blaenoriaethau

Partneriaeth Gwynedd & Eryri 2035
Gweithdy blynyddol i adnabod materion ac ymatebion posib

5. Adroddiadau Blynyddol

Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol gyhoeddi adroddiad ym mhob blwyddyn ariannol y mae wedi derbyn incwm yr Ardoll. Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol:

- Nodi sut mae incwm o'r Ardoll wedi ei glustnodi;
- Nodi cyfanswm yr incwm sydd wedi ei gasglu trwy'r Ardoll ac wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Lleol;
- Nodi'r refeniw net sydd wedi ei dderbyn ar ôl i gostau gael eu hystyried;
- Darparu manylion am sut mae incwm y flwyddyn dan sylw wedi eu buddsoddi ar gyfer rheoli a gwella cyrchfan;
- Darparu asesiad o effaith y prosiectau hynny ar fusnesau a chymunedau;
- Gellid ystyried cynnwys manylion ar sut y bwriedir buddsoddi arian yn y dyfodol – yn enwedig mewn achosion lle mae incwm yn cael ei gario drosodd i flwyddyn ariannol arall.

Disgwylir i adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi mor fuan a phosib ar ôl 30 Mehefin yn dilyn blwyddyn ariannol ar wefan yr Awdurdod Lleol.

Monitro a gwerthuso

Unwaith y bydd Ardoll yn weithredol mewn ardal, bydd angen i Awdurdod Lleol asesu effaith yr Ardoll ar eu hardal er mwyn sicrhau nad oes sgil-ffeithiau andwyol neu negyddol. Mae'r Canllawiau yn nodi y gall Awdurdodau Lleol fonitro effaith trwy nifer o ddulliau gan gynnwys:

- Dadansoddiad cost-budd y prosiectau, rhaglenni neu weithgareddau a gyllidir trwy'r Ardoll.
- Arolygon, cyfweiliadau ac ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid (e.e. Adborth o'r Fforwm Partneriaeth).
- Dadansoddiad tueddiadau, ystyried niferoedd a llif ymwelwyr.
- Dadansoddiad tueddiadau o ddarpariaeth llety ymwelwyr yn yr ardal.

Bydd angen ystyried dangosyddion ar lefel leol ar gyfer penderfyniadau buddsoddi'r Ardoll. Gall rhain gyd-fynd â dangosyddion sydd wedi eu hadnabod ac sy'n cael eu datblygu ar gyfer Cynllun G&E2035:

GE01	% o drigolion y sir a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol
GE02	% o drigolion y Sir a holwyd yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru
GE03	% o fusnesau a mentrau economi ymweld sydd wedi cael achrediad Pencampwr Twristiaeth Cynaliadwy GaE2035

GE04	Nifer yr unigolion wedi cofrestru ar gynllun Llysgennad Gwynedd a Eryri
GE05	% o drigolion y Sir a holwyd yn deud bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar yr amgylchedd a byd natur
GE06	Nifer yn defnyddio'r gwasanaeth Sherpa (ceisio adnabod mesuryddion trafnidiaeth ac amgylchedd pellach)
GE07	Gwariant ymwelwyr dros nos
GE08	Gwariant ymwelwyr dydd
GE09	Nifer yn cael eu cyflogi oddi fewn i'r sector twristiaeth

Bydd hefyd angen monitro:

- Cyfanswm niferoedd ymwelwyr sy'n aros dros nos
- Cyfraddau defnydd gwestai

Gallai dangosyddion ar gyfer buddsoddiadau o incwm yr Ardoll yng Ngwynedd amrywio ar sail y blaenoriaethau fydd yn cael eu cefnogi, ond gallai gynnwys er enghraifft:

- Nifer prosiectau i gefnogi economi ymweld cynaliadwy (diwylliant / iaith / amgylchedd / twristiaeth adfywio)
- Nifer grantiau cefnogi economi ymweld cynaliadwy a ddyrannir
- Cyfanswm buddsoddiad £ a ddenir trwy brosiectau a ariannir trwy'r Ardoll
- Nifer yr ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo egwyddorion G&E2035 a gefnogir
- Cyrhaeddiad yr ymgyrchoedd a gefnogir
- Gwariant ychwanegol yn sgil ymgyrchoedd a gefnogir
- Bodlonrwydd ymwelwyr â Gwynedd
- Km o lwybrau a grëir neu sy'n cael eu gwella
- Nifer oriau agor ychwanegol toiledau cyhoeddus
- Nifer y gwasanaethau bws ychwanegol a grëir
- Nifer yn mynychu digwyddiadau a hyfforddiant a gynhelir trwy incwm yr Ardoll
- ayb

6. Proses Ymgynghori

Mae disgwyl i Awdurdod Lleol ymgymryd â phroses ymgynghori ar sail egwyddorion ymgynghori cyhoeddus "Gunning" cyn cyflwyno rhybydd o 12 mis.

Dylai'r ymgynghoriad nodi'r achos dros gyflwyno ardoll gan amlinellu'r manteision posibl a chynnig awgrymiadau ar sut y gellid buddsoddi'r ardoll er budd yr ardal leol, busnesau, trigolion ac ymwelwyr. Mae'r canllawiau yn nodi bod:

- Rhaid i'r ymgynghoriad fod mewn cyfnod ffurfiannol;
- Digon o wybodaeth yn cael ei ddarparu i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb ddeallus;
- Amser digonol yn cael ei roi ar gyfer ystyriaeth ac ymateb;
- Rhaid i'r corff sy'n gwneud penderfyniadau gymryd i ystyriaeth yn gydwysbodol yr ymatebion o'r ymgynghoriad.

Rhaid i'r deunyddiau ymgynghori fod yn glir ac hygyrch, dylai amserlenni fod yn realistig a dylai adborth gael ei ystyried yn wirioneddol wrth lunio'r polisi terfynol. Dylai Awdurdod Lleol wedyn ymgynghori gyda chymunedau ynghylch ei gynigion er mwyn ystyried yr ymatebion wrth wneud penderfyniad ar fabwysiadu'r Ardoll.

Y ddogfen hon ydi Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd.

Yr ymgynghorai

Mae'r Canllawiau yn nodi'r canlynol fel ymgynghorai gorfodol y dylid eu cynnwys:

- **Pobl leol**, h.y. pobl sy'n byw, gweithio neu astudio yn ardal yr Awdurdod Lleol.
- **Cynghorau cymuned** yn ardal yr Awdurdod Lleol.
- **Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus** (yn ôl ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol).
- **Y prif gyngor ar gyfer ardal sy'n ffinio ag ardal y cyngor sy'n ymgynghori**, h.y. cynghorau cyfagos, fel eu bod yn ymwybodol o'r cynlluniau. Efallai y bydd yr awdurdodau hefyd yn dymuno ystyried a oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Yn achos Gwynedd mae hyn yn cynnwys Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Phowys.
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol** ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal yr Awdurdod Lleol
- **Pwyllgor ar y cyd corfforaethol** sy'n cynnwys fel aelod o leiaf un aelod gweithredol uwch o'r prif gyngor.
- **Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio ym maes twristiaeth**, neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn ardal y prif gyngor; a/neu'n hyrwyddo neu'n hwyluso twristiaeth yn ardal y cyngor.
- **Lle mae'r cynnig i gyflwyno'r ardoll**, dylai'r ymgynghoriad gynnwys pob person a nodir yn yr adroddiad yn rhinwedd adran 47(5)(c) o'r Ddeddf (sy'n cyfeirio at aelodaeth

arfaethedig y fforwm partneriaeth ardoll ymwelwyr) nad yw fel arall yn ymgynghorydd gorfodol.

Fframwaith ymgynghori

Yn achos Gwynedd byddai'r cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal dros 08 wythnos rhwng Mai a Gorffennaf 2026 ac yn cynnwys:

- Holiadur arlein ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr
- Digwyddiadau arbennig (un ym mhob un o 3 ardal Gwynedd ac un arlein)
- Sesiynau pop-up a galw mewn o fewn y 3 ardal o Wynedd
- Cyfarfod Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ystyriaeth ar gyfer yr asesiadau ardrawiad terfynol yn ogystal â bod yn ystyriaeth i benderfyniad y Cyngor ar fabwysiadu'r Ardoll a'i peidio.

Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Bwriedir sefydlu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu er mwyn creu trefniadau ffurfiol yn fewnol i'r Cyngor a gyda phartneriaid i gyfathrebu ac ymgysylltu ar ddatblygiad y drefn gofrestru llety dros nos a'r Ardoll o fewn i Wynedd.

Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru ac ACC yn darparu canllawiau statudol maes o law ond mae drafft ar gael sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel canllaw.

7. Asesiadau Effaith Lleol

Effaith Economaidd

Gall cyflwyno Ardoll Ymwelwyr gael tair effaith sy'n gwrthdaro ar yr economi leol:

- Gall y prosiectau a'r rhaglenni a fuddsoddwyd ynddynt gefnogi twf yr economi ymwelwyr;
- Mae cyflwyno Ardoll â'r potensial i leihau'r galw am lety; ac
- Mae costau gweinyddu'r Ardoll yn cael effaith negyddol ar y sector twristiaeth.

Y nod cyffredinol ddylai fod sicrhau bod manteision y cynllun yn gorbwyso'r effeithiau negyddol. Mae hyn yn awgrymu:

- Dylai gwariant ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n cynyddu twristiaeth cynaliadwy;
- Dylid gosod lefel yr Ardoll, i sicrhau bod effeithiau ar y galw yn fach; ac
- Mae costau gweinyddol yn cael eu lleihau.

Ar y pwynt cyntaf, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod yr Ardoll yn cyflawni ychwanegolrwydd o ran gwariant.

Pwysigrwydd yr economi ymweld i economi Gwynedd

Mae'r sector economi ymweld yn bwysig i economi Gwynedd.

Mae Gwynedd ac Eryri yn gartref i atyniadau naturiol a threftadol eiconig gan gynnwys Yr Wyddfa, Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn, un o rannau hiraf Llwybr Arfordir Cymru, traethau a marinas baner las, coedwig fwyaf Gogledd Cymru, dros 100 o lynnoedd, Safleoedd Treftadaeth y Byd ynghyd a Biosffer Dyfi.

Mae 17 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn Eryri; mwy nag mewn unrhyw barc cenedlaethol arall yng Nghymru; a 56 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r bioamrywiaeth aruthrol yn adlewyrchu amrywiaeth y dirwedd, y ddaeareg, yr hinsawdd a'r dulliau rheoli tir. Mae cyfoeth planhigion ac anifeiliaid yn sylfaenol i hanes, diwylliant, iaith, economi a lles parhaus yr holl bobl sy'n byw yn yr ardal ac yn ymweld â hi.

Yma ceir nifer o fusnesau, atyniadau a chynhyrchwyr bwyd a diod o'r safon uchaf sydd wedi buddsoddi'n helaeth dros y ddegawd ddiwethaf gan ddarparu profiadau unigryw i drigolion ac ymwelwyr. Dau o sectorau twristiaeth cryfaf y sir yw'r sectorau awyr agored a threftadaeth.

Mae'r ardal yn gadarnle i'r Gymraeg, gyda thros 64% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn rhugl yn ôl cyfrifiad 2021.

Ers canrifoedd mae'r ardal wedi denu ymwelwyr sydd wedi eu cyfareddu gan ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n chymunedau.

Mae gan yr economi ymweld gyfraniad pwysig i'w wneud i economi a chymunedau Gwynedd ac Eryri - mae angen i'r cyfraniad hwnnw fod yn gytbwys ac yn gynaliadwy er mwyn diogelu ein cymunedau, ein hamgylchedd, iaith a diwylliant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae data ac ymchwil yn amlygu'r angen i gael cydbwysedd gwell yn yr economi ymweld ac o fewn yr economi'n gyffredinol yn ardal Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynnig Ardoll Gwynedd, comisiynwyd Asesiad Ardrawiad Economaidd i asesu beth fyddai'r effaith o gyflwyno Ardoll yn lleol.

O ran maint y sector yng Ngwynedd, mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn defnyddio Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024 – dyma hefyd y canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau lleol.

Mae hyn yn arwain at gyfartaledd o 0.87 miliwn o ymweliadau, gyda 3.6 miliwn o nosweithiau gwely, gan gefnogi £250 miliwn o wariant. Dylid nodi bod hyn yn cynnwys pob taith, gan gynnwys y rhai sy'n aros mewn llety nad yw'n dod o dan yr ardoll (er enghraifft, aros gyda ffrindiau a theulu).

Dylid nodi bod y set ddata hon wedi dangos gostyngiad yn nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant o'i chymharu â chyfartaleddau cyn-Covid (2017–2019) a'r data a ddefnyddiwyd yn Nogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gallai'r gostyngiad hwn fod yn rhannol oherwydd newid yn y fethodoleg casglu data, ond mae hefyd yn deillio o ostyngiad gwirioneddol mewn twristiaeth yng Ngwynedd.

Fodd bynnag, nid yw defnyddio cyfartaledd 2022–24 yn ystyried y twf mwy diweddar (na'r twf posibl yn y dyfodol) yn nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant. Felly, cynhwysir prawf sensitifrwydd gan ddefnyddio data nosweithiau gwely a gwariant 2024.

Cynhwysir prawf sensitifrwydd hefyd sy'n defnyddio data STEAM, sydd â niferoedd ymwelwyr a lefelau gwariant llawer uwch – mae hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith yr ardoll, ond fe'i cynhwysir er cyflawnrwydd, ac oherwydd y nodir y gallai natur wledig Gwynedd olygu bod y GBTS a'r IPS yn tanamcangyfrif niferoedd yr ymwelwyr.

Rhaid nodi bod ansawdd a dibynadwyedd y data sydd ar gael ar lefel genedlaethol heb sôn am lefel Gwynedd er mwyn asesu effaith cyflwyno Ardoll yn hynod o heriol ac wedi ei gyfyngu gan nad yw'n bodoli mewn llawer o achosion.

Ers nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor wedi ystyried sut allai ymwelwyr wneud cyfraniad i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn y Sir – gan gynnwys y prosiect Elwa

o Dwristiaeth yn ystod 2019. O'r holl opsiynau posib a ystyriwyd bryd hynny – o rodd gwirfoddol gan ymwelwyr, sefydlu Ardal Gwella Busnes Twristiaeth i sefydlu Ardoll Ymwelwyr – yr Ardoll oedd yn amlygu ei hun fel y dull mwyaf effeithiol o sicrhau incwm i gefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal gan y tybiwyd bryd hynny y gallai godi hyd at £9m o incwm ychwanegol y flwyddyn (ar sail data ymwelwyr STEAM 2017 (Scarborough Tourism Economic Activity Monitor)).

Wrth ystyried yr ymchwil sydd wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r bil, yn ogystal â gwaith ymchwil blaenorol a'r canllawiau drafft sydd wedi eu derbyn gan y Llywodraeth, mae'r Adran Economi a Chymuned yn cyd-weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac wedi comisiynu asesiad ardrawiad economaidd cyflwyno Ardoll yn ein hardaloedd. Mae'r canlyniadau yn ystyried ymchwil gan Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor i fodelau o weithredu lefi mewn cychfannau rhyngwladol ar effaith economaidd ar y cymunedau hynny

Mae'r asesiad ardrawiad a gomisiynwyd ar y cyd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn defnyddio modelau tebyg a ddefnyddiwyd gan y Llywodraeth wrth ddatblygu asesiadau effaith cenedlaethol. Mae'r data a ddefnyddir wedi ei sylfaenu ar ffigyrau'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (International Passenger Survey) a Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (Great British Tourism Survey) ar gyfer y blynedd 2022-2024. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i data STEAM fel rhan o'r asesiad.

Mae'r gwaith ymchwil yma yn canolbwyntio ar:

- Yr ymchwil a'r astudiaethau baratowyd gan Lywodraeth Cymru yn eu hasesiad
- Adolygiad o unrhyw astudiaethau eraill sy'n bodoli
- Asesiad ardrawiad ar lefel Gwynedd – ond gyda llawer o amodau a chafeatau.
- Croes-gyfeirio yn ôl i waith y Llywodraeth
- Casgliad ar yr ardrawiad posib.
- Adolygu'r asesiad ardrawiad drafft yn sgil y broses ymgynghori

Mae'r asesiad ardrawiad effaith economaidd yn dod i'r casgliad y byddai effeithiau'r ardoll yn gymharol fach ar Wynedd. Nodir y canlynol:

Mae'r sylfaen dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o fannau eraill, ynghyd â bylchau ac ansicrwydd yn y data. O ganlyniad, mae'r asesiad cenedlaethol yn cynnwys nifer sylweddol o amodau (caveats) ac yn dibynnu ar ystodau eang o amcangyfrifon. Mae asesiad ar lefel leol yn wynebu heriau pellach, o ganlyniad i fylchau data mwy amlwg a sylfaen dystiolaeth hyd yn oed yn llai datblygedig ar effaith ardollau ymwelwyr ar lefel leol (o'i gymharu â'r lefel genedlaethol).

Y prif amodau / cafeatau sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw:

- Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch elastigedd y galw. Er bod hyn eisoes yn wir ar lefel Cymru gyfan, mae'r ansicrwydd hyd yn oed yn fwy amlwg pan gaiff ei gymhwyso ar lefel Gwynedd.
- Ceir gwahanol ffynonellau data ar gyfer amcangyfrif maint presennol economi ymwelwyr Gwynedd. Mae'r prif ddadansoddiad yn defnyddio'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (International Passenger Survey – IPS) a'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (Great British Tourism Survey – GBTS), yn unol ag asesiad Llywodraeth Cymru a'r canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol. Mae data STEAM yn dangos economi ymwelwyr sylweddol fwy; nodir goblygiadau hyn yn yr adroddiad.
- Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw o fewn Cymru. Nid yw hyn o reidrwydd yn wir ar lefel ardal lai; er enghraifft, gall rhywfaint o wariant gan ymwelwyr â Gwynedd ddigwydd yng Nghonwy neu Ynys Môn (ac i'r gwrthwyneb).
- Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd lefel uwch o ollyngiad (leakage) yn gysylltiedig â gwariant a ariennir drwy'r ardoll, gan y gall rhai busnesau sy'n elwa ar gontractau a ariennir drwy'r ardoll fod wedi'u lleoli y tu allan i Wynedd.
- Mae'r asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Ar lefel Gwynedd, bydd yr effeithiau'n wahanol yn dibynnu a yw un awdurdod lleol yn unig yn cyflwyno'r ardoll, neu a yw awdurdodau cyfagos hefyd yn ei gweithredu.

Felly, mae'r asesiad ar lefel Gwynedd wedi'i amodi'n briodol, a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun y bylchau yn y data a'r sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.

Serch hynny, rydym yn hyderus y bydd yr effaith ar Wynedd yn gymharol fach, o ran cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA). Rydym wedi mabwysiadu dull sy'n fras debyg i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn pennu'r "pen-terfynau" (bookends) ar gyfer yr ystod debygol o'r effeithiau hyn.

O fewn y prif ddadansoddiad hwn, mae'r rhagdybiaethau a wneir yn gyffredinol yn rhai ceidwadol o ran asesu'r effaith ar yr economi (h.y. maent yn tueddu i oramcangyfrif yr effaith negyddol bosibl). Er enghraifft, mae'n cael ei dybio bod Gwynedd yn colli'r holl wariant ymwelwyr, pan fyddai rhywfaint o'r gwariant hwnnw, mewn gwirionedd, wedi digwydd y tu allan i Wynedd (er enghraifft, pan fydd ymwelwyr sy'n aros yng Ngwynedd yn gwario arian mewn awdurdodau lleol eraill ar deithiau dydd). Mae hefyd yn cael ei dybio bod rhywfaint o ollyngiad o weithgarwch economaidd y tu allan i Wynedd o ganlyniad i wariant yr ardoll, tra'n tybio ar yr un pryd nad yw busnesau Gwynedd yn elwa ar gontractau sy'n deillio o wariant ardollau ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill.

Yn yr un modd, mae'r dadansoddiad yn tybio nad oes twf yn economi'r ymwelwyr ac yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i gyflwyno'r ardoll. Yn ymarferol, pe bai economi'r ymwelwyr yn tyfu, byddai'r cyllid a godir drwy'r ardoll yn cynyddu, a gallai gwariant yr ardoll ei hun ysgogi twristiaeth uwch drwy well profiad i ymwelwyr. Byddai hyn yn helpu i gynnal a gwella cystadleurwydd Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth. Ceir tystiolaeth o dwf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ymwelwyr mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno.

Byddai unrhyw dwf yn economi'r ymwelwyr hefyd yn gwrthbwyso unrhyw golledion i'r economi (o ran swyddi a GVA) sy'n deillio o ymwelwyr nad ydynt yn dod o ganlyniad i'r ardoll, a byddai hefyd yn cynyddu'r refeniw a godir drwy'r ardoll.

Serch hynny, ar sail y dull hwn, amcangyfrifir bod effeithiau'r ardoll yn gymharol fach. Hyd yn oed gyda'r rhagdybiaethau ceidwadol hyn (h.y. rhagdybiaethau a allai oramcangyfrif unrhyw effaith negyddol), amcangyfrifir y gallai'r ardoll arwain at:

Newid mewn cyflogaeth rhwng -50 a +21 o swyddi – sy'n cyfateb i golled o tua -0.1% neu gynnydd o tua 0.04% o gyflogaeth yng Ngwynedd.

Newid mewn GVA blyneddol rhwng -£2.7m a +£0.4m y flwyddyn – sy'n gyfwerth â cholled o tua -0.1% neu gynnydd o lai na 0.01% o economi Gwynedd.

Refeniw blyneddol o rhwng £2.4m a £2.8m.

Mae'r ystod hon, sy'n amrywio o effaith negyddol gymharol fach i effaith gadarnhaol gymharol fach, yn adlewyrchu canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru, a ddaeth hefyd i'r casgliad bod yr effaith ar raddfa genedlaethol yn debygol o fod rhwng effaith negyddol fach ac effaith gadarnhaol fach.

Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi dwristiaeth bresennol Gwynedd yn sylweddol fwy na'r hyn a nodir gan yr IPS a'r GBTS; pe bai data STEAM yn cael ei ddefnyddio, byddai effeithiau'r ardoll tua 4 i 5 gwaith yn fwy. Mae hyn yn tanlinellu'r ansicrwydd yn y data, ac felly'r ansicrwydd cynhenid wrth ragfynegi effaith yr ardoll.

8. Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Iaith

Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau'r asesiad effaith cydraddoldeb yn erbyn nodweddion gwarchodedig:

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Lliniaru posibl lle bo'r angen
Oedran	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Oedran unwaith y bydd mesurau lliniaru (gan gynnwys yr eithriad dan 18 oed ar gyfer llety terfyn is) yn cael eu hystyried. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau Asesiad Effaith Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (AEC LIC). Mae effeithiau posibl yn gysylltiedig â chyfran uwch o ymwelwyr hŷn â Gwynedd, a gweithlu ifanc, ond mae unrhyw effeithiau'r ardoll yn debygol o fod yn fach – a byddant i ryw raddau yn cael eu gwrthbwyso gan wariant yr ardoll.	Mae pobl dan 18 oed wedi'u heithrio o'r ardoll ar gyfer arosiadau â chyfradd is. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Anabledd	Nododd AEC LIC y gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n teithio â pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad ond bod yr opsiwn (heb gynnwys eithriad) yn ymateb cymesur. Unwaith y bydd mesur lliniaru (gan gynnwys ad-daliad ar gyfer person sy'n derbyn budd-dal anabledd) wedi'i gynnwys, ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau AEC LIC.	Mecanwaith ad-dalu ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-dal anabledd sydd yn teithio gyda pherson sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Ailbennu rhywedd	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran ailbennu rhywedd. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau AEC LIC.	Mae arosiadau mewn ysbytai preifat wedi'u heithrio rhag ardoll.

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Lliniaru posibl lle bo'r angen
Priodas a phartneriaeth sifil	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Priodas a Phartneriaeth Sifil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau AEC LIC.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl
Beichiogrwyd a mamolaeth	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Beichiogrwyd a Mamolaeth. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau AEC LIC.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl
Hil	Mae ymwelwyr i Wynedd a gweithwyr yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytaï yn fwy tebygol o fod yn wyn, na'r cyfartaledd ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Hil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau AEC LIC.	Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag ardoll. Mae eithriadau / ad-daliadau ar gael i grwpiau sy'n agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a'r rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Lliniaru posibl lle bo'r angen
Crefydd a chred	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Crefydd a Chred. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau AEC LIC.	Bydd Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol i ddarparu ar gyfer y rhai y gall eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol. Mae llety am ddim wedi'i eithrio rhag ardoll ac mae ardoll is ar arosiadau mewn llety â chyfradd is. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Rhyw	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl mewn perthynas â Rhyw. Nid oes unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau AEC LIC. Ni ragwelir y byddai effaith anghymesur neu wahaniaethol yng Ngwynedd o ganlyniad i'r ardoll ar ferched (neu ddynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Lliniaru posibl lle bo'r angen
Cyfeiriadedd rhywiol	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Cyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau AEC LIC.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl
Iaith	Yn ol asesiad Llywodraeth Cymru, gallai effeithiau ar y Gymraeg ymddangos os yw'r ardoll yn lleihau cystadleurwydd a phroffidioldeb y sector twristiaeth, sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys yr ymwelwyr hynny rhag cynnal ymweliadau addysgol â chyrchfannau yng Nghymru. Fe allai'r ardoll gefnogi'r diwydiant twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth neu fentrau mewn rhanbarthau Cymraeg eu hiaith. Mae'n debygol y bydd effaith fach iawn/dim effaith fesuradwy oherwydd yr ardoll ar y defnydd o'r Gymraeg heblaw sylweddoli efallai y byddai llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg petai colled o ran y galw. Nid oes tystiolaeth yn dangos y byddai pobl yn gadael eu cymunedau oherwydd ardoll ymwelwyr.	Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol i gefnogi'r Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau a busnesau

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Lliniaru posibl lle bo'r angen
Anfantais Economaidd-gymdeithasol	Yn ôl asesiad integredig Llywodraeth Cymru, fe allai trethi uwch atal teithwyr sydd ar gyllideb neu unigolion sydd ag incwm is rhag ymweld ag ardaloedd sy'n mabwysiadu ardoll, gan godi pryderon o bosibl am degwch a chynwysoldeb. Fodd bynnag, mae'r ardoll wedi'i chynllunio gyda dwy gyfradd a fydd yn cael eu cymhwyso fesul person y noson. Y gyfradd sylfaenol fydd £1.30 ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o lety a bydd cyfradd is ar gyfer hosteli a safleoedd gwerau o £0.75. Mae ychwanegu cyfradd is yn cydnabod bod cost y mathau hyn o lety yn is o gymharu ag eraill. Yn ogystal, ni fydd pobl ifanc dan 18 mlwydd oed wedi eu cynnwys yn y tâl a gyfrifir ar gyfer yr ardoll ymwelwyr mewn arosiadau cyfradd is. Golyga hyn na fydd raid iddynt dalu'r ardoll pan gaiff ei throsglwyddo gan ddarparwr gan na fyddant wedi eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r ardoll (h.y. nid oes ardoll i'w throsglwyddo).	Gall Gweinidogion Cymru asesu a newid y cyfraddau a nodir yn y ddeddfwriaeth i liniaru effeithiau. Defnydd o'r Ardoll yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i'r ardal leol, trwy ddefnyddio'r refeniw i helpu i gynnal ac adfywio'r gwasanaethau a'r seilwaith lleol.

Asesiad Ardrowiad Amgylcheddol

Mae Gwynedd yn cynnwys ystod eang o asedau amgylcheddol sensitif, gan gynnwys:

- Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a thirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Ecosystemau bregus sy'n destun pwysau tymhorol oherwydd niferoedd uchel o ymwelwyr.
- Trefi a phentrefi hanesyddol lle gall gor-dwristiaeth effeithio ar ansawdd yr amgylchedd byw a'r dreftadaeth adeiledig.

Mae dogfennau'r Cyngor eisoes yn cydnabod bod angen rheoli'r pwysau hyn er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor economi ymweld Gwynedd.

Bu i 997 o drigolion Gwynedd ymateb i Holiadur Trigolion Gwynedd: Barn ar Dwristiaeth yn 2025. O'r 380 oedd yn credu bod dylanwad negyddol ar eu cymuned, fe nodwyd yr ymatebion canlynol sy'n berthnasol i'r Amgylchedd:

- 26.1% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar yr amgylchedd a natur
- 31.4% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar lendid mannau cyhoeddus

- 31.6% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar ysbwriel

Pe byddai Ardoll yn cael ei sefydlu yng Ngwynedd rhoddwyd blaenoriaeth i Gynlluniau Amgylcheddol o'r dewis o feysydd buddsoddi posib (Amgylcheddol / Cymunedol / Diwylliant a Iaith / Isadeiledd / Rheolaeth Cyrchfan).

Effeithiau Amgylcheddol Posibl

Effeithiau Cadarnhaol

Gallai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr greu nifer o fanteision amgylcheddol, gan gynnwys:

- Gwell rheolaeth ar gyrchfannau poblogaidd, drwy fuddsoddi mewn seilwaith megis llwybrau, cyfleusterau gwastraff a chyfleusterau glanweithdra.
- Buddsoddi mewn cadwraeth tirweddau, bioamrywiaeth a threftadaeth naturiol, gan liniaru difrod sy'n deillio o or-dwristiaeth.
- Annog twristiaeth fwy cynaliadwy, drwy symud y ffocws o dwf mewn niferoedd at werth ac ansawdd profiad yr ymwelydd.
- Gwell a'r cynnig cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus i bobl leol ac ymwelwyr.

Mae'r defnydd arfaethedig o'r incwm i wella'r amgylchedd leol wedi'i amlygu yng nghyflwyniadau a phapurau'r Cyngor ar yr ardoll.

Effeithiau Negyddol Posibl

Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau negyddol neu risgiau anuniongyrchol, gan gynnwys:

- Newidiadau mewn patrwm ymwelwyr, a allai symud pwysau tuag at ardaloedd llai parod os yw ymwelwyr yn chwilio am opsiynau rhatach.
- Risg y gallai lleihau ychydig ar nifer yr ymwelwyr arwain at ganlyniadau economaidd anuniongyrchol, gyda goblygiadau posibl i fuddsoddi parhaus mewn rheolaeth amgylcheddol os na chaiff yr incwm ei neilltuo'n glir.

Yn ogystal â'r effeithiau a nodwyd uchod, mae perygl y gallai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar arosiadau dros nos atgyfnerthu rhai ymddygiadau twristiaeth amhriodol, os na chaiff ei weithredu ochr yn ochr â mesurau rheoli a gorfodaeth priodol. Yn benodol:

- Cynnydd posibl mewn gwersylla gwyllt heb awdurdod, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif yn amgylcheddol, a all arwain at:
 - Ddifrod i gynefinoedd naturiol a bioamrywiaeth.
 - Cynnydd mewn gwastraff, baw dynol a llygredd dŵr.
 - Pwysau ychwanegol ar lwybrau troed, tir comin a safleoedd gwarchodedig.
- Parcio anghyfreithlon cartrefi modur a cherbydau gwersylla dros nos, yn enwedig ar lonydd cul, mannau arfordirol a ger gyrchfannau poblogaidd, gyda'r canlyniadau canlynol:
 - Effaith weledig negyddol ar y dirwedd a threftadaeth naturiol.
 - Rhwystro mynediad i drigolion lleol, gwasanaethau brys a gweithgarwch amaethyddol.

- Pwysau ychwanegol ar gyfleusterau lleol nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer aros dros nos.
- Risg y gallai rhai ymwelwyr, wrth geisio osgoi costau llety cofrestredig, symud tuag at fathau o aros nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, gan danseilio nodau'r ardoll o ran:
 - Creu economi ymweld fwy cynaliadwy.
 - Sicrhau bod ymwelwyr yn cyfrannu'n deg at gostau rheoli a chynnal yr amgylchedd.

Mae'r problemau hyn eisoes wedi'u cydnabod fel rhan o'r drafodaeth ehangach ynghylch rheoli twristiaeth a phwysau ymwelwyr ar gymunedau Gwynedd, a heb ymyrraeth briodol gallent gynyddu yn sgil newidiadau ymddygiadol anfwriadol.

Mesurau Lliniaru a Gwella

Er mwyn lleihau effeithiau negyddol ac atgyfnerthu buddion amgylcheddol, argymhellir:

- Clustnodi cyfran benodol o incwm yr ardoll ar gyfer prosiectau amgylcheddol a rheoli cyrchfannau.
- Monitro rheolaidd o effeithiau'r ardoll ar lif ymwelwyr a phwysau amgylcheddol, gan addasu polisiau os oes angen.
- Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol, sefydliadau amgylcheddol a'r sector twristiaeth i sicrhau bod buddsoddiadau'n targedu'r meysydd o'r angen mwyaf.
- Defnydd o incwm yr ardoll ar gynlluniau parcio cartrefi modur dynodedig, gorfodaeth a rheolaeth gwell, a seilwaith gwersylla cynaliadwy lle bo'n briodol.

Mae'r bwriad i sefydlu trefniadau llywodraethu a phartneriaeth lleol wedi'i nodi eisoes yn y gwaith polisi cysylltiedig â'r ardoll.

Mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad bod gan Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd, ar yr amod bod yr incwm a gesglir yn cael ei fuddsoddi'n strategol ac yn dryloyw mewn rheoli cyrchfannau a gwarchod asedau naturiol.

Gyda mesurau lliniaru priodol, gellir sicrhau bod yr ardoll yn cyfrannu at economi ymweld gynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Asesiad Ardrawiad Cymdeithasol

Mae Gwynedd yn sir:

- Gyda chymunedau cryf eu hunaniaeth, iaith a diwylliant Cymraeg
- Sy'n profi pwysau tymhorol sylweddol mewn rhai ardaloedd oherwydd lefelau uchel o ymweliadau
- Lle mae twristiaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflogaeth, ond hefyd yn gallu:
 - Gynyddu pwysau ar wasanaethau lleol

- Effeithio ar fforddiadwyedd tai a chydlyniant cymunedol
- Creu tensiynau rhwng anghenion ymwelwyr a trigolion
- Bu i 997 o drigolion Gwynedd ymateb i Holiadur Trigolion Gwynedd: Barn ar Dwristiaeth yn 2025 gan nodi'r ymatebion canlynol sy'n berthnasol i elfennau cymdeithasol:
 - 69.5% yn byw mewn cymuned ble mae twristiaid yn ymweld yn aml
 - 74.1% yn credu bod twristiaeth yn cael mwy o ganlyniadau cadarnhaol na negyddol ar eu cymuned
 - 85.7% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar yr economi leol
 - 83.2% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar gyflogaeth
 - 67.1% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar bywiogrwydd y gymuned
 - 59.9% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar ansawdd bywyd
 - 21.2% yn credu bod dylanwad niwtral ar ansawdd bywyd
 - 39.4% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig
 - 35% yn credu bod dylanwad niwtral ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig
- O'r 380 oedd yn credu bod dylanwad negyddol ar eu cymuned, rhain oedd y prif faterion:
 - 67.1% - Materion Traffig
 - 63.9% - Materion Parcio
 - 53.8% - Colli'r tai sydd ar gael mewn cymunedau er budd llety tymor byr
 - 50.5% - cynnydd ym mhrisiau tai
 - 48.5% - tyrfaoedd o bobl
 - 38.3% - colli dilystrwydd eich ardal, gan wanhau ei hunaniaeth leol, ei hiaith a'r ffordd o fyw
 - 27.5% - cynnydd mewn costau byw
 - 28.8% - materion diogelwch, ymddygiad amharchus
 - 21.7% - sŵn
 - 21.9% - llygredd golau

Effeithiau Cymdeithasol Cadarnhaol Posibl

Budd i Gymunedau Lleol

- Creu ffynhonnell incwm pwrpasol i fuddsoddi mewn:
 - Seilwaith cymunedol

- Mannau cyhoeddus, canol trefi a phentrefi
- Gweithgareddau diwylliannol a chymunedol

Gwell Llesiant Cymunedol

- Gall ail-fuddsoddi'r incwm helpu:
 - Rheoli pwysau ymwelwyr
 - Gwella ansawdd bywyd trigolion mewn ardaloedd poblogaidd
 - Cefnogi mentrau lleol sy'n cryfhau cydlyniant cymdeithasol

Cefnogi'r Gymraeg a Diwylliant Lleol

- Potensial i dargedu buddsoddiad mewn:
 - Mentrau diwylliannol
 - Digwyddiadau cymunedol
 - Seilwaith sy'n cryfhau defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Effeithiau Cymdeithasol Negyddol Posibl a Risgiau

Tegwch a Chynhwysiant

- Gallai'r Ardoll:
 - Effeithio'n anghymesur ar ymwelwyr incwm is neu deithwyr ar gyllideb
 - Greu pryderon am fforddiadwyedd gwyliau, yn enwedig i deuluoedd neu grwpiau penodol (risg a nodwyd hefyd gan Lywodraeth Cymru)

Effaith ar Fusnesau Bach

- Busnesau llety bach neu gymunedol:
 - Gallent bryderu am effaith ar alw os ydi ymwelwyr yn dewis peidio ymweld â Gwynedd
 - Gallai fod angen cymorth cyfathrebu a chysondeb er mwyn egluro diben yr Ardoll

Canfyddiad Cymunedol

- Heb gyfathrebu clir, gallai fod risg:
 - I'r Ardoll gael ei weld fel "treth dwristiaeth" yn hytrach na mecanwaith buddsoddi cymunedol

Effaith ar Grwpiau Gwarchodedig

- **Pobl anabl:** Mae darpariaethau ad-daliad yn lleihau effaith negyddol bosibl
- **Pobl Ifanc:** Buddsoddi mewn gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn gallu creu budd anuniongyrchol
- **Pobl Hŷn:** Gwell seilwaith a mannau cyhoeddus yn gallu cefnogi llesiant
- **Grwpiau Incwm Isel:** Mae'r risg o effaith negyddol ar fforddiadwyedd yn gofyn am fonitro parhaus

Mesurau Lliniaru ac Atgyfnerthu

Cynigir y mesurau canlynol:

- Ymgynghori cymunedol trylwyr a pharhaus ar flaenoriaethau buddsoddi
- Cyfathrebu clir bod incwm yr Ardoll yn:
 - Cael ei gadw'n lleol
 - Cael ei fuddsoddi er budd cymunedau a llesiant
- Monitro effaith gymdeithasol yn rheolaidd wrth adolygu'r Ardoll

Creu Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd i sicrhau cyfranogiad cymunedol

Bydd yr holl asesiadau ardrawiad yn cael eu hadolygu yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac yn derbyn ystyriaeth lawn pan fydd penderfyniad i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd neu beidio yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn yn y dyfodol.

9. Asesiad Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol y gallai'r Ardoll Ymwelwyr gefnogi pe byddai'n cael ei fabwysiadu:

GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

10. Manylion Cyswllt

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH

01286 679214

Ardolltwristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Twristiaeth/Twristiaeth.aspx>



Quod

DRAFFT

**Asesiad Effaith
Economaid
Ardoll
Ymwelwyr
Gwynedd**

MAWRTH 2026

Cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol	2
2	Cyflwyniad	4
3	Astudiaethau i gefnogi Deddf Llywodraeth Cymru – Effaith Economaidd	7
4	Adolygiad llenyddiaeth pellach	14
5	Asesiad effaith economaidd lefel Gwynedd (gyda chafeat)	17
6	Croeswrio gyda Dadansoddiad Llywodraeth Cymru	33
7	Casgliad	36

DRAFT

1 Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi'r dewis i gynghorau yng Nghymru gyflwyno tâl ar arosiadau dros nos. Fe'i gelwir yn 'ardoll ymwelwyr' a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027 ymlaen.
- 1.2 Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno ardoll ymwelwyr – mae'r Asesiad Economaidd hwn yn ceisio pennu'r effaith economaidd bosibl o wneud hynny.
- 1.3 Cafwyd nifer o astudiaethau i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i weithredu'r Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r adroddiadau hyn i benderfynu pa mor berthnasol fyddai cymhwyso'r un dull ar lefel fwy lleol.
- 1.4 Mae'r sylfaen dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o fannau eraill, ac mae bylchau ac ansicrwydd yn y data. Mae hyn yn golygu bod yr asesiad cenedlaethol yn llawn rhybuddion ac yn dibynnu ar ystodau eang – mae cymhlethdodau pellach yn codi wrth gynnal asesiad lleol o ganlyniad i fylchau yn y data a sylfaen dystiolaeth hyd yn oed yn llai aeddfed ar effaith leol ardollau ymwelwyr (yn hytrach nag ar lefel genedlaethol).
- 1.5 Y cafeatau allweddol sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw:
 - Mae ansicrwydd sylweddol yn elastigion y galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac yn fwy gwir byth pan gaiff ei gymhwyso ar lefel Gwynedd.
 - Mae gwahanol ffynonellau data ar gyfer maint presennol economi ymwelwyr Gwynedd. Mae'r prif ddadansoddiad yn defnyddio'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) a'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) – mae hyn yn unol â chanllawiau arfarnu Llywodraeth Cymru a'r arweiniad a ddarperir i awdurdodau lleol. Mae data STEAM yn adrodd am economi ymwelwyr sy'n llawer mwy o faint ar hyn o bryd – mae goblygiadau hyn wedi'u nodi yn yr adroddiad.
 - Nid yw'r data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwersylla ar safleoedd gwersylla a'r rhai sy'n gwersylla mewn carafannau / faniau gwersylla neu mewn llety "glamping".
 - Ar lefel genedlaethol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei ddal yng Nghymru. Nid yw hynny'n wir mewn ardal lai – er enghraifft, gall rhywfaint o wariant rhywun sy'n ymweld â Gwynedd fod yng Nghonwy neu Ynys Môn (a fel arall).
 - Yn yr un modd, bydd gwariant yr ardoll hefyd yn crwydro i raddau mwy oherwydd efallai na fydd rhai busnesau sy'n elwa o gontractau drwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yng Ngwynedd.
 - Roedd yr asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y byddai'r ardoll yn cael ei chyflwyno ar draws Cymru gyfan – ar lefel Gwynedd, byddai effeithiau gwahanol pe bai Gwynedd yn gweithredu'r tâl ond nad yw ei hawdurdodau cyfagos yn ei wneud, o'i gymharu â sefyllfa lle mae pob awdurdod cyfagos yn gweithredu'r tâl.

- 1.6 Felly, mae'r asesiad ar lefel Gwynedd yn cynnwys cafeatau priodol, a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun y blychau yn y data sail dystiolaeth cymharol gyfyngedig, yn enwedig ar y lefel leol.
- 1.7 Serch hynny, rydym yn hyderus y bydd yr effaith ar Wynedd yn gymharol fach o ran yr effaith ar gyflogaeth a GVA. Rydym wedi defnyddio dull tebyg i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru i sefydlu pegynau ar gyfer amrediad debygol yr effeithiau hyn.
- 1.8 O fewn y prif ddadansoddiad hwn, mae'r rhagdybiaethau'n gyffredinol yn geidwadol o ran y dull o asesu'r effaith ar yr economi (h.y. maent yn tueddu i oramcangyfrif yr effaith negyddol). Er enghraifft, rhagdybir fod Gwynedd yn dioddef yr holl golled mewn gwariant ymwelwyr, pan fo'n debygol mewn gwirionedd y bydd rhywfaint o'r gwariant yn cael ei golli y tu allan i Wynedd (gan fod pobl sy'n aros yng Ngwynedd yn gwario arian mewn awdurdodau lleol eraill ar deithiau dydd). Mae hefyd yn rhagdybio bod gollyngiad o weithgarwch economaidd o wariant yr ardoll y tu allan i Wynedd, tra ar yr un pryd yn tybio nad yw busnesau Gwynedd yn elwa o gontractau sy'n deillio o wariant ardollau ymwelwyr gan awdurdodau lleol eraill.
- 1.9 Yn yr un modd, mae'r dadansoddiad yn tybio nad oes newid yn economi ymwelwyr heblaw am ganiatáu ar gyfer gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr mewn ymateb i gyflwyno'r ardoll. Yn ymarferol, pe bai economi ymwelwyr yn tyfu, byddai'r cyllid a godir drwy'r ardoll yn cynyddu (ac i'r gwrthwyneb¹), ac yn wir gallai gwariant yr ardoll arwain at gynnydd mewn twristiaeth drwy wella profiad yr ymwelwyr. Byddai hyn yn helpu i gynnal a gwella cystadleurwydd Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth. Mae tystiolaeth o dwf blynyddol mewn nifer ymwelwyr mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno.
- 1.10 Byddai unrhyw dwf yn economi ymwelwyr hefyd yn gwrthbwysu unrhyw golledion i'r economi (swyddi a GYC/GVA) o ganlyniad i'r ymwelwyr nad ydynt yn dod oherwydd yr ardoll, ac yn arwain at gynnydd yn refeniw'r ardoll.
- 1.11 Serch hynny, ar sail y dull hwn, amcangyfrifir bod effeithiau'r ardoll yn gymharol fach, **Amcangyfrifir y gallai'r ardoll arwain at**
- Gallai newid mewn cyflogaeth fod rhwng **-50 a +21**, sef rhwng colled o **-0.1%** neu gynnydd o **0.04%** mewn cyflogaeth yng Ngwynedd.
 - Gallai newid blynyddol mewn **Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)** fod rhwng **-£2.7m a +£0.4m y flwyddyn** – mae hyn yn cyfateb i rhwng colled o **-0.1%** a chynnydd o **0.01%** o economi Gwynedd.
 - Refeniw o rhwng **£2.4m a £2.8m y flwyddyn**.
- 1.12 Mae'r amrediad hwn o effaith negyddol cymharol fach i effaith bositif cymharol fach yn adlewyrchu canfyddiadau Arfarniad Llywodraeth Cymru a ddaeth hefyd i'r casgliad y byddai effaith negyddol fach i effaith bositif fach yn genedlaethol.
- 1.13 Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi dwristiaeth Gwynedd ar hyn o bryd yn llawer mwy na'r hyn a awgrymir gan yr IPS a'r GBTC – byddai effeithiau'r ardoll tua 4 i 5 gwaith yn

¹ Conversely if tourism reduced for reasons other than the levy, the revenue funding would decrease.

fwy pe bai data STEAM yn cael ei ddefnyddio yn lle hynny. Mae hyn yn tynnu sylw at yr ansicrwydd yn y data ac, o ganlyniad, yr ansicrwydd cynhenid wrth ragweld effaith yr ardoll.

DRAFT

2 Cyflwyniad

Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

- 2.1 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi'r dewis i gynghorau yng Nghymru gyflwyno tâl ar arosiadau dros nos. Fe'i gelwir yn 'ardoll ymwelwyr' a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027 ymlaen.
- 2.2 Mae'r ardoll yn daladwy ar ddwy gyfradd wahanol:
 - Lleiniau gwersylla, pebyll ac ystafelloedd a rennir (hosteli ac ystafelloedd cysgu): 75c y pen, y noson
 - Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 y pen, y noson
- 2.3 Nodwch y bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n gwersylla mewn faniau gwersylla, carafannau neu lety glamping dalu'r gyfradd uwch.
- 2.4 Mae yna eithriadau²; Ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os ydyn nhw:
 - o dan 18 oed ac yn aros ar lain gwersylla neu mewn ystafell a rennir (fel hostel neu 'dormitories')
 - yn aros am fwy na 31 noson mewn un archeb
 - mewn llety brys neu dros dro a drefnir gan y cyngor lleol
- 2.5 Bydd yr arian o'r ardoll yn cael ei ail-fuddsoddi at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn yr ardal. Mae adran 44 y Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i gynghorau ddefnyddio enillion yr ardoll ar gyfer:
 - lliniaru effaith ymwelwyr;
 - cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
 - hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
 - darparu, cynnal a gwella isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

Pwrrpas yr adroddiad hwn

- 2.6 Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio pennu'r effaith economaidd bosibl o gyflwyno ardoll ymwelwyr.
- 2.7 Mae'r adroddiad hwn yn gam dau o broses ddau gam. Comisiynwyd rhan un ar y cyd gan awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, a bu'n adolygu argaeledd y data a'r sylfaen dystiolaeth y gellid eu defnyddio yn yr Asesiadau Effaith Economaidd unigol. Mae hyn yn

²<http://gov.wales/visitor-levy-small-contribution-lasting-legacy>

golygu bod dull unffurf, cyn belled ag y bo'n bosibl ac yn briodol, wedi'i fabwysiadu ar gyfer adolygu a dadansoddi'r data i lywio'r broses ymgynghori. Mae'r Asesiad Effaith Economaidd hwn ar gyfer Cyngor Gwynedd yn adroddiad annibynnol ac mae'n cynnwys y wybodaeth berthnasol o astudiaeth cam un.

- 2.8 Mae Adran 3 o'r adroddiad hwn yn adolygu'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ddeall effeithiau economaidd y Ddeddf ar lefel genedlaethol, a'r graddau y gallai'r dull fod yn gymwys ar lefel fwy lleol. Mae'r sylfaen dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o fannau eraill, ac mae bylchau ac ansicrwydd yn y data. Felly, mae hyd yn oed yr asesiad cenedlaethol wedi'i amgáu'n helaeth â rhybuddion ac yn dibynnu ar ystodau eang.
- 2.9 Mae'r sail dystiolaeth ar effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol gyfyngedig, oherwydd diffyg tystiolaeth berthnasol o effaith ardollau ymwelwyr o leoedd eraill, ac mae bylchau ac ansicrwydd yn y data. Felly, hyd yn oed mae'r asesiad cenedlaethol yn cynnwys llawer o gymwysterau ac yn dibynnu ar ystodau eang. Mae'r cyfyngiadau hyn hyd yn oed yn fwy amlwg ar lefel leol
- 2.10 Y prif rybuddion sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw
- Mae ansicrwydd ynghylch faint o'r ardoll sy'n cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr (wedi'i fodelu fel 'pegynau' ar ddim ond 0% neu 100%)
 - Mae ansicrwydd sylweddol yn elastigion y galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac yn fwy gwir byth pan gaiff ei gymhwyso ar lefel Gwynedd.
 - Mae gwahanol ffynonellau data ar gyfer lefel bresennol yr ymwelwyr, nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant. Mae'r prif ddadansoddiad yn defnyddio'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol a'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) – mae hyn yn unol â chanllawiau arfarnu Llywodraeth Cymru a'r arweiniad a ddarperir i awdurdodau lleol. Mae defnyddio data STEAM yn dangos economi ymwelwyr bresennol sy'n llawer mwy ac, o ganlyniad, effaith fwy – mae hyn yn golygu bod ystod eang o effeithiau posibl ac yn tynnu sylw at yr ansicrwydd cynhenid yn y rhagolygon.
 - Nid yw'r data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwersylla ar safleoedd gwersylla (sy'n talu'r gyfradd is) a'r rhai sy'n gwersylla mewn carafannau / faniau gwersylla neu mewn llety glamping (sy'n talu'r gyfradd uwch). At ddiben yr asesiad hwn rydym wedi tybio bod pob ymwelydd domestig i safleoedd gwersylla yn talu'r gyfradd is – mae hyn yn unol â'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr asesiad economaidd a'r cyngor ar y data i'w ddefnyddio mewn asesiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Ar y naill law, bydd y dull hwn yn tanamcangyfrif yr effaith ar ymwelwyr a'r golled mewn cyflogaeth o ganlyniad i wariant ymwelwyr is. Ar y llaw arall, bydd hyn yn cael ei wrthbwysio hefyd gan danamcangyfrif effaith y cynnydd mewn swyddi o ganlyniad i wariant yr ardoll a'r refeniw a gesglir drwy'r ardoll. Bydd hefyd yn cael ei wrthbwysio i ryw raddau gan y dybiaeth (sydd eto'n unol â dull Llywodraeth Cymru) y bydd pob ymwelydd rhyngwladol yn talu'r gyfradd uwch.

- Ar lefel genedlaethol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei ddal yng Nghymru. Nid yw hynny'n wir mewn ardal lai – er enghraifft, gall rhywfaint o wariant rhywun sy'n ymweld â Gwynedd fod yng Nghonwy neu Ynys Môn (a fel arall).
- Yn yr un modd, bydd gwariant yr ardoll hefyd yn crwydro i raddau mwy oherwydd efallai na fydd rhai busnesau sy'n elwa o gontractau drwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yng Ngwynedd.
- Roedd yr asesiad ar lefel genedlaethol (o reidwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gosod ar draws Cymru gyfan – ar lefel Gwynedd, bydd yna effeithiau gwahanol os bydd un awdurdod lleol yn gweithredu'r tâl, ond nid yw ei awdurdodau cyfagos yn gweithredu'r tâl, o'i gymharu â phe bai pob awdurdod cyfagos yn gweithredu'r tâl.

2.11 Felly, mae'r asesiad ar lefel leol (Gwynedd) wedi'i amgáu'n briodol â rhybuddion, a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun yr ansicrwydd yn y data a'r sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.

2.12 Bydd adroddiad wedi'i ddiweddarau yn cael ei gynhyrchu os daw data pellach ar gael, neu os bydd data neu adborth pellach a dderbynnir drwy'r broses ymgynghori yn arwain at newid ystyrlon i gasgliadau'r Asesiad Effaith Economaidd.

2.13 Mae gweddill yr adroddiad yn ymdrin â:

- Adolygiad o'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ddeall effaith economaidd y Ddeddf (Adran 3)
- Adolygiad llenyddiaeth ehangach i ddeall i ba raddau y mae tystiolaeth yn bodoli a fyddai'n caniatáu gallu defnyddio'r dull Cymru gyfan ar raddfa ddaearyddol lai (Adran 4)
- Asesiad effaith economaidd lefel Gwynedd (gyda chafeat) (Adran 5)
- Croeswrio â Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan gyfrif am bwysigrwydd cymharol twristiaeth i Wynedd (Adran 6)
- Casgliad (Adran 7)

3 Astudiaethau i gefnogi Deddf Llywodraeth Cymru – Effaith Economaidd

3.1 Bu nifer o astudiaethau i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru, Alma Economics, 2022
- Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, Ysgol Busnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru, 2024 – cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel dadansoddiad 2024 Llywodraeth Cymru
- Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr, Llywodraeth Cymru, 2025 – cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel dadansoddiad 2025 Llywodraeth Cymru
- Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang, Prifysgol Bangor 2024

3.2 Mae'r adroddiadau hyn wedi'u gwneud ar lefel Cymru gyfan ac yn destun sawl cafeat.

Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru, Alma Economics, 2022

3.3 Fe wnaeth Alma Economics gynnal Asesiad Tystiolaeth Gyflym (REA) a adolygodd y llenyddiaeth ar elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru.

3.4 Roedd yn ceisio amcangyfrif elastigedd prisiau y galw gan dwristiaeth a llety yn arbennig. Elastigedd Pris y Galw (PED) yw mesur o ymatebolrwydd y galw am nwyddau neu wasanaeth pan fydd ei bris yn newid. Mae PED negyddol yn dynodi gostyngiad ym maint y galw pan fydd y pris yn cynyddu. Mae elastigedd galw uchel yn dangos bod faint o nwyddau neu wasanaeth y mae pobl yn galw amdano yn ymatebol iawn i newidiadau yn eu pris, sy'n golygu y gall newid bychan yn y pris arwain at newid sylweddol yn y galw. Galw anelastig (neu elastig isel) yw pan nad yw'r galw yn ymatebol i'r pris.

3.5 Fe wnaeth yr adroddiad ganfod lefel uchel o ansicrwydd a bylchau sylweddol yn y dystiolaeth. Hyd yn oed pan ganfuwyd tystiolaeth berthnasol, roedd amrywiad mawr ym maint yr amcangyfrifon o elastigedd ac nid oedd unrhyw astudiaethau oedd yn rhoi amcangyfrifon penodol i Gymru a dim ond lleiafrif fechan o astudiaethau oedd yn ystyried marchnad y DU.

3.6 Roedd amrywiadau sylweddol yn y canfyddiadau ar gyfer twristiaeth – er bod y mwyafrif o astudiaethau (70%) wedi canfod bod twristiaeth yn anelastig, roedd rhai astudiaethau yn adrodd galw elastig. Y PED canol-ystod ar gyfartaledd ar draws pob astudiaeth oedd -0.7 a'r canolrif oedd -0.9. Mae hyn yn golygu bod cynnydd o 1% ym mhris nwyddau neu wasanaeth yn arwain at ostyngiad o 0.7% yn y galw.

- 3.7 Dim ond dwy astudiaeth oedd yn ystyried llety yn benodol - dangosodd y rheini ei fod yn anelastig i bris (ar -0.7). Mae'r adroddiad yn cynnwys cafeat y dylid dehongli'r rhain yn ofalus o ystyried y nifer cyfyngedig o astudiaethau. Roedd o leiaf un o'r adroddiadau hyn yn seiliedig ar dwristiaeth ryngwladol yn benodol – ac felly bydd yn llai perthnasol i farchnad ddomestig.
- 3.8 Mae'r adroddiad ei hun yn cydnabod mai ychydig iawn o dystiolaeth a ddarparodd yr adolygiad sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil mwy cynnil, gan gynnwys (i) golwg ar y pethau sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr, (ii) effaith ardollau ymwelwyr neu debyg ar y galw am dwristiaeth, a (iii) sut y gall yr elastigion yr edrychwyd arnynt amrywio yn dibynnu ar nodweddion twristiaid (e.e., yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig).
- 3.9 Mae'r adroddiad ei hun hefyd yn glir bod yr astudiaethau hyn yn rhoi ychydig iawn o wahaniaethau tystiolaeth a allai ddigwydd ar lefel is-ranbarthol, gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau yn canolbwyntio ar effeithiau cenedlaethol a / neu dwristiaeth ryngwladol.

Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, Ysgol Busnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru, 2024

- 3.10 Mae'r adroddiad hwn yn amcangyfrif effaith yr ardoll yn economaidd ac ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ar lefel Cymru gyfan. Rydym wedi ei adolygu i ddeall i ba raddau y gellid defnyddio dull tebyg i amcangyfrif effaith ardoll mewn Awdurdodau Lleol unigol.
- 3.11 Mae'r adroddiad yn cynnwys dau senario:
- i. 100% o'r ardoll yn cael ei drosglwyddo o'r busnes i ddefnyddwyr.
 - ii. 100% o'r ardoll yn cael ei amsugno gan y busnes
- 3.12 Nid yw'r dadansoddiad yn cyfrif am newidiadau ar ochr y cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.

100% o'r ardoll yn cael ei drosglwyddo o'r busnes i ddefnyddwyr.

- 3.13 Mae'r astudiaeth yn cyfrifo'r effaith debygol ar yr astudiaeth mewn tri senario (optimistaidd, niwtral a phesimistaidd) yn seiliedig ar ystod o elastigion a gymerwyd o'r astudiaeth Alma. Mae'n cymhwyso'r rhain i wahanol segmentau ymwelwyr (dau ddomestig gyda phatrymau gwariant gwahanol ac ymwelwyr tramor). Mae hyn yn arwain at newid yn y galw gan ddefnyddwyr ar gyfer pob segment.
- 3.14 Mae'r adroddiad yn defnyddio elastigion o astudiaeth Alma Economics sydd (fel y gwelir uchod) yn cynnwys ansicrwydd sylweddol, bylchau data, ac sy'n seiliedig i raddau helaeth ar dwristiaeth ryngwladol ac effeithiau cenedlaethol. Bydd y mater o gymhwyso elastigion cenedlaethol yn fwy problematig ar lefel Awdurdod Lleol nag y byddai ar lefel Cymru gyfan.
- 3.15 Mae'r astudiaeth yn tybio bod elastigedd pris y galw yn bwydo'n uniongyrchol i'r economi – h.y. mae'r cynnydd yn yr ardoll yn arwain at ostyngiad yn y galw (yn ardal yr astudiaeth) sy'n golygu gostyngiad yng nghyfanswm gwariant y daith (hefyd yn ardal yr astudiaeth). Gallai hyn fod naill ai oherwydd nad yw pobl yn ymweld ag ardal yr astudiaeth neu eu bod yn ymweld â'r ardal am gyfnod byrrach o amser o ganlyniad i'r ardoll.

- 3.16 Mae'r model wedyn yn defnyddio tablau Mewnbwn-Allbwn i bennu'r effaith debygol ar Economi Cymru.

100% o'r ardoll yn cael ei amsugno gan y busnes

- 3.17 Mae'r senario hwn yn tybio nad oes unrhyw newid i ymwelwyr na refeniw a bod busnesau yn amsugno'r holl gostau. Mae'r adroddiad yn tybio nad oes unrhyw newidiadau ar ochr y cyflenwad – h.y. nid oes unrhyw fusnes yn gadael y farchnad, neu'n gyndyn o ddod i mewn i'r farchnad yn y dyfodol, yn hytrach mae'r ardoll yn cael ei gymryd o allbwn y busnesau.
- 3.18 Mae'n tybio nad oes unrhyw golledion mewn cyflogaeth a dim ond gostyngiadau mewn cyflog (ac elfennau eraill o allbwn). Mae hyn yn debygol o danamcangyfrif y golled cyflogaeth oherwydd – mewn gwirionedd, byddai colli refeniw yn arwain at ostyngiad mewn staff yn ogystal â gostyngiad mewn cyflogau.

Materion a Chafeatau

- 3.19 Mae'r adroddiad ei hun yn tynnu sylw at gafeatau sylweddol:

- **Ansicrwydd Elastigedd Pris:** fel yr uchod, mae ansicrwydd sylweddol yn yr elastigion – mae hyn yn wir ar lefel Cymru a bydd yn fwy gwir byth pe bai'n cael ei ddefnyddio mewn ardal astudiaeth lai.
- **Cyflenwad Llety:** fel uchod, nid yw'r model yn cyfrif am newidiadau ar ochr y cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.
- **Rhagdybiaethau Pasio Drwodd:** fel uchod, mae'r adroddiad yn asesu 'pegynau' yr effaith debygol drwy asesu'r effaith os yw'r ardoll yn cael ei throsglwyddo i ymwelwyr neu ei hamsugno gan fusnesau – nid yw'n ceisio asesu i ba raddau y mae un yn fwy neu'n llai tebygol.
- **Costau yng Nghymru:** Mae'r dadansoddiad yn cynnwys costau yng Nghymru yn unig ac felly mae'n debygol o danamcangyfrif cyfanswm costau'r daith, yn enwedig ar gyfer teithiau rhyngwladol. Bydd hyn felly yn goramcangyfrif y gostyngiad mewn teithiau rhyngwladol ar ôl yr ardoll (ac felly'n cyflwyno'r senario waethaf)
- **Cyfngiadau Blwyddyn Sylfaen:** Mae'r ardoll wedi'i fodelu ar ddata twristiaeth 2019 oherwydd cyfngiadau data, gan addasu'r cyfraddau ar gyfer chwyddiant.
- **Chwyddiant yn y dyfodol:** Nid yw chwyddiant a newidiadau sector yn y dyfodol wedi'u cynnwys – mae'n gipolwg mewn amser mewn blwyddyn benodol, i bob pwrpas.
- **Costau gweinyddol:** Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys unrhyw gostau ffrithiant na gweinyddol y gallai unrhyw Ardoll newydd ei gynnwys.

Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr, Llywodraeth Cymru, 2025

- 3.20 Mae'r adroddiad hwn wedi diweddarau'r gwaith blaenorol ar gyfer dwy set o gyfraddau. Defnyddiwyd un o'r setiau hynny o gyfraddau (£1.30 safonol / £0.75 is) yn y Ddeddf yn ddiweddarach. Roedd y dadansoddiad hefyd yn eithrio plant a phobl ifanc sy'n aros mewn llety Band Isaf, gan eu bod wedi'u heithrio o'r Ardoll.

3.21 Defnyddiodd yr adroddiad fethodoleg debyg i'r gwreiddiol ond nododd: 'Mae cyfyngiadau ar amser a mynediad at bensaernïaethau data yn golygu nad yw addasiad llawn, cwbl gymaradwy, o asesiad effaith 2024 yn bosibl'.

3.22 Mae canlyniadau'r dadansoddiad ar lefel Cymru i'w gweld yn Nhabl 3.1.

DRAFT

Tabl 3.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol yn adroddiad Llywodraeth Cymru

		Amrediad tebygol	
Cyflogaeth	Trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr	FTEs	-400 i 100
	Busnesau'n amsugno'r ardoll	FTEs	360
GVA Blynnyddol (£m)	Trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr		-£7.5m i +£11.1m
	Busnesau'n amsugno'r ardoll		-£32.3m

Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang, Prifysgol Bangor 2024

- 3.23 Fe wnaeth Prifysgol Bangor gynnal adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardollau ymwelwyr mewn gwahanol gyrchfannau byd-eang. Yna rhoddodd yr adroddiad argymhellion i Lywodraeth Cymru ar weithredu'r ardoll.
- 3.24 Roedd yr adroddiad wedi adnabod pum astudiaeth achos / ardal a oedd wedi gweithredu ardollau ymwelwyr a oedd yn debyg i Gymru o ran y ddibyniaeth ar y sector twristiaeth a/neu eu cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a/neu amgylcheddol. Roedd hyn yn golygu bod yr astudiaethau achos yn cynnwys lleoedd sydd, fel Cymru, yn dibynnu ar eu diwydiant twristiaeth.
- 3.25 Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar weithredu'r ardoll – gan gynnwys yr hyn y gellir gwario'r ardoll arno, y broses a'r awdurdod gwneud penderfyniadau, atebolrwydd lleol, sgôp y prosiect a'r gweithgareddau a ariennir, effaith y prosiectau a ariennir (gan nodi diffyg tystiolaeth) a'r angen am dryloywder, atebolrwydd, monitro a gwerthuso.
- 3.26 Nid oedd yn canolbwyntio ar effaith yr ardoll ar y sector twristiaeth yn benodol, er bod rhai casgliadau sy'n llywio ein hadroddiad:
- Mae tystiolaeth gyfyngedig ar effeithiau trethi twristiaeth: 'Mae **asesiad cynhwysfawr o effeithiau trethi twristiaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig**, er gwaethaf eu cymhellion clir dros weithredu'.
 - Yn gyffredinol, mae **twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr wedi parhau i dyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn** (er na allwn wybod beth fyddai'r gwrth-ffeithiol wedi bod heb ardoll).
 - **Mae rhai lleoliadau yn dewis amrywio'r dreth yn ystod gwahanol dymhorau** – er enghraifft, mae'r Ynysoedd Balearaidd wedi gweithredu dwy ardoll ymwelwyr ar wahân: €0.25 - €1 y pen y noson yn y tymor isel (Tachwedd - Ebrill) a €1 - €4 y pen y noson yn y tymor uchel (Mai - Hydref).³ **Tra nad yw eraill yn gwneud hynny:** yn Mareo a San Martin, lle mae'r tymor yn amrywio'n aruthrol (mae nifer yr ymwelwyr yn y pedwar mis prysuraf dros ddeg gwaith y nifer yn y pedwar mis tawelaf), mae ardoll ymwelwyr fflat wedi'i osod trwy gydol y flwyddyn (€1.50 - €3.50 y pen y noson).
 - Mae rhai lleoliadau (Catalwnia / Barcelona a'r Ynysoedd Balearaidd) **yn amrywio yn ôl math / ansawdd y llety** (gan gynnwys gwahanol gyfraddau ar gyfer gwestai â gwahanol

³Llywodraeth Cymru, 2024. Adolygiad o ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang [yma](#)

ansawdd 'seren'). Tra **nid oes gan eraill gymaint o wahaniaeth**: Cyflwynodd Gwlad yr Iâ gyfradd fflat i ddechrau ac yna rhannu'r gyfradd yn dri categori eang sef gwersylla, gwestai, a llongau mordaith.

Casgliadau a goblygiadau ar gyfer ein hastudiaeth

- 3.27 Mae'r gwaith a wnaed i gefnogi Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith fod bylchau yn y sail dystiolaeth ar gyfer deall effaith economaidd yr Ardoll Ymwelwyr. Mae hyn yn golygu bod yr astudiaeth effaith economaidd ar lefel Cymru o reidrwydd yn cynnwys cafeatau ac yn cynnwys amrediadau eang / pegynau ar gyfer yr effaith debygol.
- 3.28 Byddai defnyddio dull Llywodraeth Cymru ar lefel ardal fwy lleol yn cynnwys yr un cafeatau a materion – a byddai rhai o'r materion yn fwy amlwg mewn ardal astudiaeth lai.
- 3.29 Mae'r manylion wedi'u nodi uchod, ond mae'r materion allweddol yn cynnwys:
- **Tystiolaeth berthnasol gyfyngedig sydd yno ar Elastigedd Pris y Galw** – mae'r ddau arfarniad economaidd gan Lywodraeth Cymru yn defnyddio'r PEDs o'r Astudiaeth Alma sy'n astudiaethau cenedlaethol ar gyfer twristiaeth ryngwladol yn bennaf. Nid oes unrhyw astudiaethau penodol i Gymru a dim ond dwy sy'n edrych yn benodol ar lety (yn hytrach na thwristiaeth yn ei gyfanrwydd). Daw'r broblem o ddefnyddio'r elastigion hyn hyd yn oed yn fwy aciwt mewn ardal astudiaeth lai gan nad yw'n glir bod elastigion cenedlaethol yn dal dŵr ar lefel is-ranbarthol.
 - Nid yw'r dadansoddiad yn **rhoi barn ar i ba raddau y caiff yr ardoll ei throsglwyddo** – mae ganddo begynau ar gyfer effaith 0% neu 100% o'r ardoll yn cael ei throsglwyddo i ddefnyddwyr.
 - Nid yw ychwaith yn **caniatáu am newidiadau ar ochr y cyflenwad** – h.y. nid yw'n caniatáu am y posibilrwydd y bydd rhai busnesau yn gyndyn o ymuno â'r farchnad, neu y byddant yn gadael y farchnad. Yn y senario lle caiff yr ardoll cyfan ei throsglwyddo i fusnesau, tybir nad oes unrhyw golled mewn cyflogaeth (dim ond colled mewn cyflogau).
 - **Ychydig iawn o dystiolaeth sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau mwy cynnil**, gan gynnwys (i) golwg ar y pethau sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr, (ii) effaith ardollau ymwelwyr neu debyg ar y galw am dwristiaeth, a (iii) sut y gall yr elastigion yr edrychwyd arnynt amrywio yn dibynnu ar nodweddion twristiaid (e.e., yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig). **Golyga hyn bod y dadansoddiad yn gwneud rhagdybiaethau llinol yn bennaf yn seiliedig ar gyfartaleddau.** Mae hyn hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cymhwyso nodweddion lleol i'r astudiaeth (ac felly addasu'r fethodoleg yn yr asesiad cenedlaethol i lefel fwy lleol).
 - Nid yw'n **cynnwys costau y tu allan i'r wlad** sy'n debygol o danamcangyfrif cyfanswm cost y daith, yn enwedig ar gyfer teithiau rhyngwladol. Bydd hyn felly yn goramcangyfrif y gostyngiad mewn teithiau rhyngwladol ar ôl yr ardoll (ac felly'n cyflwyno'r senario waethaf).
 - Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried beth y caiff gwariant ymwelwyr sy'n cael ei 'golli' o ganlyniad i'r ardoll ei wario arno yn lle – gallai hyn fod yn dripiâu dydd (yn hytrach na thripiâu dros nos) neu drigolion Cymru yn gwario arian ar bethau eraill (yn hytrach na gwylliau yng Nghymru). Mae'r dull hwn unwaith eto yn debygol o roi'r senario waethaf o ran effaith yr ardoll ar economi Cymru. Mae hyn yn debygol o fod yn llai perthnasol ar

lefel Gwynedd na lefel Cymru gan fod y rhai sy'n ymweld â Gwynedd (sy'n gyndyn o dalu ardoll) yn annhebygol o fyw yng Ngwynedd hefyd (tra gall preswilydd o Gymru hefyd fynd ar wyliau yng Nghymru – er enghraifft, efallai y bydd preswilydd Caerdydd yn gwario arian yng Nghaerdydd yn hytrach na mynd ar wyliau i Wynedd).

DRAFT

4 Adolygiad llenyddiaeth pellach

- 4.1 Fe wnaethom gynnal adolygiad llenyddiaeth pellach i ddeall i ba raddau y mae tystiolaeth yn bodoli a fyddai'n
- Caniatáu addasu'r dull Cymru gyfan ar gyfer asesiad ar lefel leol.
 - Llenwi'r bylchau tystiolaeth a nodwyd uchod
- 4.2 Ychydig iawn o dystiolaeth ychwanegol oedd yno tu hwnt i'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Ddeddf.
- 4.3 Roedd amryw o enghreifftiau eraill lle bu twf parhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr (er, fel y nodir uchod, nid oes modd i ni wybod beth fyddai'r gwrth-ffeithiol wedi bod heb ardoll).
- 4.4 Y cwestiynau eraill y ceisiodd yr adolygiad llenyddiaeth eu hateb oedd:
- I ba raddau y caiff ardoll ymwelwyr ei throsglwyddo i ymwelwyr?
 - Sut mae effaith ardoll ymwelwyr yn newid gyda'r tymor neu boblogrwydd cyrchfan?
 - Sut mae cost llety / taith yn newid effaith yr ardoll? Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol i ateb y cwestiwn hwn.
 - A yw ymwelwyr yn addasu eu gwariant ehangach ar drip os ydyn nhw'n talu cost yr ardoll?

I ba raddau y caiff ardoll ymwelwyr ei throsglwyddo i ymwelwyr?

- 4.5 Bydd y graddau y mae ardoll ymwelwyr yn cael ei throsglwyddo i ddefnyddwyr yn penderfynu p'un ai defnyddwyr ynteu ddarparwyr llety fydd yn ysgwyddo cost yr ardoll. Fel y nodir uchod, nid yw arfarniad economaidd Llywodraeth Cymru yn cymryd barn ar hyn ond mae'n profi'r pegynau bod 0% neu 100% yn cael ei throsglwyddo.
- 4.6 Mae'r llenyddiaeth yn darparu tystiolaeth gymysg ar y gyfradd pasio (sef i ba raddau y mae busnesau'n trosglwyddo newidiadau mewn treth fel newidiadau mewn pris i ddefnyddwyr) mewn ardoll ymwelwyr neu fecanweithiau treth eraill.
- 4.7 Fe wnaethom edrych ar wahanol fecanweithiau treth i bennu cyfraddau pasio:
- Dangosodd adolygiad o drethi llety yn ninasoedd yr Unol Daleithiau fod treth llety yn annhebygol o gael ei throsglwyddo'n llawn i'r ymwelwyr – mae tua 86% o'r dreth a delir yn cael ei thalu gan ymwelwyr ac mae'r 14% sy'n weddill yn cael ei amsugno gan ddarparwyr llety ar ffurf cyfraddau llety is neu lai o ddefnydd.⁴
 - Canfu astudiaeth y Comisiwn Ewropeaidd fod lefel uchel o drosglwyddo'r gost yn y tymor hir ond roedd ganddo hefyd enghraifft o ble nad oedd trethi yn cael eu pasio drwodd. Er

⁴Hudson, S., Meng, F., So, K. K. F., Smith, S., Li, J., & Qi, R. (2021). The effect of lodging tax increases on US destinations. *Tourism Economics*, 27(1), 205-219. Ar gael [yma](#)

enghraifft, dangosodd astudiaeth achos o Disneyland Paris eu bod yn annhebygol o drosglwyddo cynnydd mewn cyfraddau TAW yn 2014 i ymwelwyr oherwydd sensitifrwydd ymwelwyr i brisiau uchel. Roedd hyn yn golygu bod Disneyland wedi amsugno cost y cynnydd TAW i liniaru'r effaith ar nifer yr ymwelwyr a gwariant ymwelwyr.⁵

- Roedd astudiaeth a edrychai ar basio trethi teithwyr awyr i gost tocynnau awyr ledled Ewrop yn amcangyfrif cyfraddau pasio treth teithwyr awyr o rhwng 20% a 56%.⁶ Mae'r un astudiaeth yn sôn bod cyfran defnyddwyr o'r baich treth yn dilyn newid i TAW yn Ffrainc rhwng 57% a 77%.

4.8 Felly, nid yw'r adolygiad llenyddiaeth yn darparu tystiolaeth glir o wahanol lefel y cyfraddau pasio'r dreth y gellid eu defnyddio – ac felly rydym yn cadw'r dull yn Asesiad Llywodraeth Cymru o ddefnyddio pegynau.

Sut mae effaith ardoll ymwelwyr yn newid gyda'r tymor neu boblogrwydd cyrchfan?

4.9 Prin yw'r astudiaethau sydd wedi meintio PEDs ar gyfer gwahanol dymhorau, ond mae sawl astudiaeth yn nodi bod y galw am dwristiaeth yn llai elastig yn y tymhorau uchel o'i gymharu â'r tymhorau isel.⁷

- Fe wnaeth yr adroddiad ar gydbwyso refeniw a galw yn y diwydiant gwestai yn Dubai⁸ ganfod bod elastigedd y galw yn llawer uwch yn y tymhorau isel (ac yn is yn y tymor uchel). Mae teithio rhyngwladol yn debygol o ddylanwadu'n drwm ar hynny – canfu'r adroddiad nad yw gwestai lleol yn profi gwahaniaethau mor fawr rhwng y tymhorau fel mae gwestai rhyngwladol yn ei brofi.
- Dangosodd yr adroddiad ar elastigedd pris gwasanaethau llety ym Mhrâg fod ymwelwyr yn llai elastig yn ystod y tymhorau uchel nag ydyn nhw trwy gydol y flwyddyn gyda PEDs o -0.22 i 0.78 yn y tymhorau uchel o gymharu â PEDs o -0.10 i -0.54 trwy gydol y flwyddyn. Mae'r PEDs positif yn y tymor uchel yn awgrymu efallai na fydd y berthynas pris-galw disgwylidig bob amser yn dal dŵr.⁹

4.10 Canfu astudiaeth y Comisiwn Ewropeaidd fod elastigedd uwch yn y galw mewn cyrchfannau sydd â llyfdd tebyg yn agos iddynt. Dangosodd fod gwledydd Ewropeaidd sy'n agos i'w gilydd yn dal i arddangos gwahaniaethau mewn PEDs oherwydd y math o gynnig twristiaeth tymhorol.

4.11 Ar wahân, dangosodd yr astudiaeth o gynnydd mewn treth llety ar gyrchfannau yr Unol Daleithiau fod tua 49% o deithwyr wedi newid eu cynlluniau oherwydd trethi teithio uchel trwy leihau gwariant, aros yn rhywle rhatach ac ymweld yn ystod y tymor isel.¹⁰

⁵Y Comisiwn Ewropeaidd, 2017. The Impact of Taxes on the Competitiveness of European Tourism [yma](#)

⁶Wozny, F. (2024). *Tax incidence in heterogeneous markets: The pass-through of air passenger taxes on airfares* (No. 16783). IZA Discussion Papers. Ar gael [yma](#)

⁷Baždar Gašljević, T., Maradin, D., & Cerović, L. (2023). Price Elasticity of Demand For Hotel Services On The Business Example Of Two Hotels In The Republic Of Croatia. *Journal of accounting and management*, 13(1), 1-14. Ar gael [yma](#)

⁸Alrawabdeh, W. (2021). Seasonal balancing of revenue and demand in hotel industry: the case of Dubai City. *Journal of Revenue and Pricing Management*, 21(1), 36. Ar gael [yma](#)

⁹Petříček, M., & Chalupa, Š. (2020). PRICE ELASTICITY OF DEMAND FOR ACCOMODATION SERVICES–EMPIRICAL APPLICATION IN PRAGUE. *Ad Alta: Journal of Interdisciplinary Research*, 10(1). Ar gael [yma](#)

¹⁰Hudson, S., Meng, F., So, K. K. F., Smith, S., Li, J., & Qi, R. (2021). The effect of lodging tax increases on US destinations. *Tourism Economics*, 27(1), 205-219. Ar gael [yma](#)

4.12 Er bod yr adolygiad llenyddiaeth wedi tynnu sylw at rywfaint o dystiolaeth bellach ar wahaniaethau tymhorol, nid yw'n ddigon i allu pennu sut y byddai Gwynedd yn wahanol i Gyfartaledd Cymru.

A yw ymwelwyr yn addasu eu gwariant ehangach ar drip os ydyn nhw'n talu cost yr ardoll?

4.13 Er bod yr astudiaeth o gynnydd mewn treth llety ar gyrchfannau yn yr Unol Daleithiau¹¹ (gweler uchod) wedi dangos bod ymwelwyr wedi ymateb i ardoll trwy leihau eu gwariant, ni wnaeth yr astudiaeth feintioli i ba raddau y mae ymwelwyr yn lleihau eu gwariant. Ac ar y cyfan, nid yw'r llenyddiaeth yn glir ynghylch sut y byddai ymwelwyr yn addasu eu gwariant ehangach ar dripiu os ydyn nhw'n ysgwyddo cost yr ardoll.

¹¹Ibid

5 Asesiad effaith economaidd lefel Gwynedd (gyda chafeatau)

- 5.1 Fel sydd wedi'i nodi yn yr adrannau blaenorol, nid oes digon o dystiolaeth i fedru modelu union effaith yr ardoll yn gywir ac yn gadarn, neu sut byddai gwahanol senarios yn effeithio ar raddfa'r effaith (er enghraifft, a yw awdurdodau lleol eraill hefyd yn gweithredu ardoll).
- 5.2 Felly, rydym wedi dilyn dull deuol i ddarparu'r pegynau (gan ddilyn dull Llywodraeth Cymru yn ehangach) a gwiriadau synnwyr cyffredin ar gyfer ystod tebygol yr effaith:
- Atgynhyrchu dull Llywodraeth Cymru (gyda chafeatau). Mae hyn yn cael ei nodi yn Adran 5.
 - Croeswrio gyda Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan gyfrif am bwysigrwydd cymharol twristiaeth i Wynedd. Mae hyn yn cael ei nodi yn Adran 6.

Atgynhyrchu dull Llywodraeth Cymru (gyda chafeatau)

- 5.3 Rydym wedi dilyn dull tebyg i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025 er mwyn amcangyfrif yr effeithiau ar lefel Gwynedd – yn yr un modd â dull Llywodraeth Cymru, mae hyn yn cynnwys 'pegynau' gyda dwy senario, un lle mae 0% o'r Ardoll yn cael ei hamsugno gan fusnesau ac un arall lle mae 100% yn cael ei hamsugno gan fusnesau.
- 5.4 Mae'r dull yn destun cafeat oherwydd – fel y nodir yn Adran 3, mae cafeatau o fewn adroddiad Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn berthnasol yma ac, mewn rhai achosion, sy'n fwy amlwg mewn asesiad ar lefel lleol.
- 5.5 Y cafeatau allweddol sy'n berthnasol i'r asesiad ar lefel leol yw:
- Ar lefel genedlaethol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei ddal yng Nghymru. Nid yw hynny'n wir mewn ardal lai – er enghraifft, gall rhywfaint o wariant rhywun sy'n ymweld â Gwynedd fod yn Ynys Môn neu Gonwy (a fel arall). I ddibenion yr asesiad hwn, rydym yn tybio bod yr holl wariant yn cael ei 'golli' o Wynedd ac felly, dyma'r senario waethaf o ran yr effaith ar yr economi leol.
 - Yn yr un modd, bydd gwariant yr ardoll hefyd yn symud mwy i ardaloedd y tu allan i Wynedd, oherwydd efallai na fydd rhai busnesau sy'n elwa o gontractau drwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yng Ngwynedd.
 - Mae gwahanol ffynonellau data ar gyfer maint presennol economi ymwelwyr Gwynedd – nodir hyn yn fanylach isod
 - Nid yw'r data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwersylla ar safleoedd gwersylla (sy'n talu'r gyfradd is) a'r rhai sy'n gwersylla mewn carafannau / faniau gwersylla neu mewn llety glamping (sy'n talu'r gyfradd uwch). At ddiben yr asesiad hwn rydym wedi tybio bod pob ymwelydd domestig i safleoedd gwersylla yn talu'r gyfradd is – mae hyn yn unol â'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr asesiad economaidd a'r cyngor ar y data i'w ddefnyddio mewn asesiadau a ddarparwyd gan

Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Ar y naill law, bydd y dull hwn yn tanamcangyfrif yr effaith ar ymwelwyr a'r golled mewn cyflogaeth o ganlyniad i wariant ymwelwyr is. Ar y llaw arall, bydd hyn yn cael ei wrthbwysio hefyd gan danamcangyfrif effaith y cynnydd mewn swyddi o ganlyniad i wariant yr ardoll a'r refeniw a gesglir drwy'r ardoll. Bydd hefyd yn cael ei wrthbwysio i ryw raddau gan y dybiaeth (sydd eto'n unol â dull Llywodraeth Cymru) y bydd pob ymwelydd rhyngwladol yn talu'r gyfradd uwch.

- Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn tybio bod newid ym mhris twristiaeth (h.y. yr ardoll) yn arwain at ostyngiad yn y galw am dwristiaeth. Nid yw'n ystyried newidiadau mewn patrymau gwariant ymwelwyr o fewn y daith (er enghraifft, lleihau costau eraill y daith gan gost yr ardoll). Mae hyn yn debygol o fod y senario waethaf o ran effaith yr ardoll ar economi Cymru (gan dybio bod y PED yn profi'r holl newid yn ymddygiad ymwelwyr). Mae'r un dull yn cael ei ddilyn yn yr asesiad lleol – eto, mae hyn yn debygol o fod y senario waethaf.
- Mae ansicrwydd sylweddol yn yr elastigion – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac yn fwy gwir byth pe bai'n cael ei ddefnyddio mewn ardal astudiaeth lai. Nid oes tystiolaeth arall ar gyfer asesiad mwy cadarn ac felly, rydym wedi defnyddio'r ystod o elastigion galw a ddefnyddir yn asesiad Llywodraeth Cymru.
- Roedd yr asesiad ar lefel genedlaethol (o reidrwydd) yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei gosod ar draws Cymru gyfan – bydd yna effeithiau gwahanol os bydd un awdurdod lleol yn gweithredu'r tâl, ond nid yw ei awdurdodau cyfagos yn gweithredu'r tâl, o'i gymharu â phe bai pob awdurdod cyfagos yn gweithredu'r tâl. Nid yw'n bosib asesu'n fanwl gywir beth yw effaith gwahanol gyfuniadau o awdurdodau lleol yn cyflwyno'r ardoll, ond ystyrir yr effaith ar raddfa'r effaith.
- Nid yw'r senario lle mae'r ardoll yn cael ei phasio ymlaen i fusnesau yn cyfrif ar gyfer newidiadau ar ochr y cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.
- Hefyd, nid yw'n cyfrif ar gyfer gostyngiadau mewn cyflogaeth ac yn tybio bod modd gweld yr arbedion o fewn 'ychwanegu gwerth' gweithrediadau busnesau. Mewn gwirionedd, mae'n debygol o arwain at lai o swyddi hefyd.

5.6 Yn yr un modd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru, nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys chwyddiant (mae'n ystyried yr effaith flynyddol pe byddai'r ardoll yn ei lle yn 2024 – y flwyddyn ddiwethaf y mae data ar gael), nid yw'n cynnwys costau gweinyddu ar fusnesau, ac nid yw'n cynnwys costau sydd y tu allan i Gymru (golyga hyn ei bod yn debygol bod y dadansoddiad yn goramcangyfrif effaith yr ardoll ychydig, yn enwedig ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol – lle y byddai costau y tu allan i Gymru yn uwch ar eu cyfer).

5.7 O ystyried y diffyg tystiolaeth, mae rhagdybiaethau (megis elastigion galw) lle nad ydym wedi ceisio gwneud y rhagdybiaethau yn benodol i Wynedd – yn hytrach, rydym wedi dangos a yw'r amcangyfrifon yn debygol o danamcangyfrif neu oramcangyfrif yr effeithiau, a darparu profion sensitifrwydd fel sy'n briodol.

5.8 Bydd TAW yn cael ei chodi ar yr Ardoll Ymwelwyr¹².

Amcangyfrif maint presennol economi ymwelwyr

¹² [Yr Ardoll Ymwelwyr i ddarparwyr llety ymwelwyr: trosolwg | LLYW.CYMRU](#)

- 5.9 Er mwyn amcangyfrif effaith yr ardoll ymwelwyr, mae angen yn gyntaf amcangyfrif maint economi'r ymwelwyr (nifer yr ymwelwyr, nifer y nosweithiau a arhosir, a'r gwariant y maent yn ei gefnogi).
- 5.10 Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn defnyddio Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024 – dyma hefyd y canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau lleol.
- 5.11 Mae hyn yn arwain at gyfartaledd o 0.87 miliwn o ymweliadau, gyda 3.6 miliwn o nosweithiau gwely, gan gefnogi £250 miliwn o wariant. Dylid nodi bod hyn yn cynnwys pob taith, gan gynnwys y rhai sy'n aros mewn llety nad yw'n dod o dan yr ardoll (er enghraifft, aros gyda ffrindiau a theulu).
- 5.12 Dylid nodi bod y set ddata hon wedi dangos gostyngiad yn nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant o'i chymharu â chyfartaleddau cyn-Covid (2017–2019) a'r data a ddefnyddiwyd yn Nogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru¹³. Gallai'r gostyngiad hwn fod yn rhannol oherwydd newid yn y fethodoleg casglu data, ond mae hefyd yn deillio o ostyngiad gwirioneddol mewn twristiaeth yng Ngwynedd.
- 5.13 Fodd bynnag, nid yw defnyddio cyfartaledd 2022–24 yn ystyried y twf mwy diweddar (na'r twf posibl yn y dyfodol) yn nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant. Felly, cynhwysir prawf sensitifrwydd gan ddefnyddio data nosweithiau gwely a gwariant 2024.
- 5.14 Cynhwysir prawf sensitifrwydd hefyd sy'n defnyddio data STEAM, sydd â niferoedd ymwelwyr a lefelau gwariant llawer uwch – mae hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith yr ardoll, ond fe'i cynhwysir er cyflawnrwydd, ac oherwydd y nodir y gallai natur wledig Gwynedd olygu bod y GBTS a'r IPS yn tanamcangyfrif niferoedd yr ymwelwyr.

Ardoll ymwelwyr yn cael ei phasio'n gyfan gwbl i dwristiaid

- 5.15 Mae'r adran hon yn tybio bod 100% o'r ardoll ymwelwyr yn cael ei phasio ymlaen i'r defnyddwyr. Yn gyntaf, mae'n ystyried effaith colli gwariant ymwelwyr ac yna'n ystyried i ba raddau y byddai gwariant yr ardoll ei hun yn gwrthbwysu'r golled.

Effaith y golled bosibl mewn gwariant ymwelwyr.

- 5.16 Yn y prif ddadansoddiad, rydym yn defnyddio'r data blynyddol cyfartalog o'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024.
- 5.17 Gan gynnwys twristiaid rhyngwladol a domestig sy'n aros mewn llety sy'n gymwys ar gyfer yr ardoll, amcangyfrifir bod tua 0.67 miliwn o ymwelwyr dros nos yng Ngwynedd bob blwyddyn – sy'n aros cyfartaledd o 3.9 noson ac yn gwario £307 y pen fesul taith.

¹³ *Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Ardoll Ymwelwyr ddewisol ar gyfer awdurdodau lleol*
Crynodeb o ffynonellau data ymwelwyr a darparwyd llety ymwelwyr 2022.

5.18 Sylwer, gan nad yw hyn yn cynnwys y rhai sy'n aros mewn llety a fyddai'n eithriedig o'r ardoll, fod y 0.87m o ymweliadau a nodir uchod yn lleihau i 0.87m o ymweliadau (ac mae nifer y nosweithiau gwely a'r gwariant hefyd yn lleihau). ¹⁴

Tabl 5.1: Yr holl ymweliadau dros nos cymwys i Wynedd – wedi'u rhannu rhwng y mathau o lety a'r math o ymwelydd – senario craidd (2022 i 2024)

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf)	Ymwelwyr tramor (Band Sylfaenol)	Cyfanswm (cyfartaledd dros 2022-2024)
Cyfanswm o ymweliadau gan ymwelwyr dros nos ('000)	398	227	50	674
Cyfanswm nosweithiau gwely Gwynedd ('000)	1,450	868	305	2,623
Hyd cyfartalog y daith (nosweithiau)	3.6	3.8	6.2	3.9
Cyfanswm gwariant dros nos Gwynedd (gan gynnwys TAW)	£129m	£54m	£24m	£207m
Cost fesul Taith (gan gynnwys TAW)	£324	£236	£485	£307
Cost Fesul Noson (gan gynnwys TAW)	£89	£62	£79	£79

Ffynhonnell: 'Great British Tourism Survey' a'r 'International Passenger Survey'

- 5.19 Amcangyfrifodd dadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025 bod 22% o'r rheini mewn llety Band Isaf yn blant, ac felly wedi'u heithrio o'r ardoll. Tybir bod y rhagdybiaeth hon yn berthnasol ar lefel Gwynedd – pe byddai cyfran y plant yn is, byddai effaith yr ardoll yn uwch, ac i'r gwrthwyneb, pe byddai cyfran y plant yn uwch, byddai graddfa effaith yr ardoll yn llai.
- 5.20 Mae'r tabl isod yn cynnwys ymwelwyr cymwys yn unig (h.y. mae'n eithrio plant yn ymweld â llety band isaf).
- 5.21 Noder y tybir bod yr holl ymwelwyr rhyngwladol yn aros mewn llety sylfaenol ac felly'n talu'r ardoll – mae hyn yn cyd-fynd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru. Pe byddai plant mewn llety band isaf yn y grŵp hwn, byddai graddfa effaith yr ardoll yn llai.
- 5.22 Fel y nodir uchod, nid yw'r data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwersylla ar safleoedd gwersylla (sy'n talu'r gyfradd is) a'r rhai sy'n gwersylla mewn carafannau / faniau gwersylla neu mewn llety glamping (sy'n talu'r gyfradd uwch). At ddiben yr asesiad hwn rydym

¹⁴ Ar gyfer Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, rydym yn eithrio'r rhai sy'n aros mewn 'llety arall', ac ar gyfer yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol rydym yn eithrio'r rhai sy'n aros yn eu cartref eu hunain neu'n aros am ddim gyda ffrindiau a theulu.

wedi tybio bod pob ymwelydd domestig i safleoedd gwersylla yn talu'r gyfradd is – mae hyn yn unol â'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr asesiad economaidd a'r cyngor ar y data i'w ddefnyddio mewn asesiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol.

- 5.23 Ar y naill law, bydd y dull hwn yn tanamcangyfrif yr effaith ar ymwelwyr (gan gynnwys tanamcangyfrif nifer y bobl sy'n talu'r gyfradd uwch a goramcangyfrif nifer y plant sydd wedi'u heithrio rhag talu) a'r golled mewn cyflogaeth o ganlyniad i wariant ymwelwyr is. Ar y llaw arall, bydd hyn yn cael ei wrthbwyso hefyd gan danamcangyfrif effaith y cynnydd mewn swyddi o ganlyniad i wariant yr ardoll a'r refeniw a gesglir drwy'r ardoll. Bydd hefyd yn cael ei wrthbwyso i ryw raddau gan y dybiaeth (sydd eto'n unol â dull Llywodraeth Cymru) y bydd pob ymwelydd rhyngwladol yn talu'r gyfradd uwch.

Tabl 5.2: Yr holl ymweliadau dros nos cymwys i Wynedd – wedi'u rhannu rhwng y mathau o lety a'r math o ymwelydd – senario craidd

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf)	Rhyngwladol	Cyfanswm
Ymweliadau dros nos cymwys ('000)	398	177	50	625
Nosweithiau gwely cymwys ('000)	1,450	677	305	2,432
Hyd cyfartalog y daith (nosweithiau)	3.6	3.8	6.2	3.9
Gwariant dros nos cymwys (gan gynnwys TAW)	£129m	£42m	£24m	£195m
Cost fesul taith	£324	£236	£485	£312
Cost fesul noson	£89	£62	£79	£80

- 5.24 Yr ardoll yw £1.30 y person, y noson ar gyfer llety sylfaenol a 75c ar gyfer llety band isaf. Caiff TAW ei godi ac felly, mae'r costau hyn yn cynyddu i £1.56 a 90c. Yn seiliedig ar gyfartaledd hyd y daith a chyfanswm cost y daith, amcangyfrifir y byddai'r ardoll ymwelwyr rhwng 1.5% a 2.0% o gost y daith yn dibynnu ar fath y daith / ymwelydd.
- 5.25 Tybir mai -0.74 yw'r elastigedd. Mae hyn yn unol ag arfarniad Llywodraeth Cymru (2025) (ar gyfer y senario niwtral). Rydym hefyd wedi profi'r elastigedd mwy pesimistaidd (-1.12) a'r elastigedd mwy optimistaidd (-0.38) o arfarniad Llywodraeth Cymru – cyflwynir yr amrediad hwn ar ddiwedd yr adran hon.
- 5.26 Fel sydd wedi'i nodi uchod, nid oes llawer o dystiolaeth ar elastigion lefel lleol o ganlyniad i ardollau ymwelwyr – mae'r dadansoddiad cymharol gyfyngedig sy'n bodoli yn seiliedig ar dystiolaeth genedlaethol. Yn absenoldeb dystiolaeth sy'n benodol yn fwy lleol, mae ystod o luosyddion wedi cael eu defnyddio.

5.27 Dylid hefyd nodi y bydd elastigedd y galw yng Ngwynedd (i ryw raddau) yn cael ei effeithio os bydd awdurdodau lleol cyfagos hefyd yn cyflwyno'r ardoll ymwelwyr – os mai Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol i gyflwyno'r ardoll, bydd yr effaith ar ymddygiad ymwelwyr yn debygol o fod yn uwch (oherwydd gall ymwelwyr ddewis mynd i awdurdodau lleol eraill yn lle Gwynedd) ond pe byddai mwy o awdurdodau lleol yn cyflwyno tâl, mae'n debygol y bydd yr effaith yn is.

5.28 Mae defnyddio lluosydd niwtral (-0.74) yn arwain at ostyngiad o rhwng 1.1% ac 1.5% yn y galw, yn dibynnu ar fath y daith / ymwelydd.

Tabl 5.3: Newid yn y galw o ganlyniad i'r ardoll – senario craidd

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf)	Rhyngwladol
Yr ardoll fesul person, fesul noson (heb gynnwys TAW)	£1.30	£0.75	£1.30
Yr ardoll fesul person, fel noson (gan gynnwys TAW)	£1.56	£0.90	£1.56
Hyd cyfartalog y daith (nosweithiau)	3.6	3.8	6.2
Cyfartaledd gwariant fesul taith (gan gynnwys TAW)	£324	£236	£485
Ardoll Ymwelwyr fesul taith:	£5.68	£3.45	£9.61
a) Fel % o gost y daith	1.8%	1.5%	2.0%
b) Elastigedd	-0.74	-0.74	-0.74
Newid canran yng ngalw cwsmeriaid (a x b)	-1.3%	-1.1%	-1.5%

5.29 Mae'r gostyngiad hwn yn y galw yn arwain at ostyngiad o £2.5m mewn gwariant gan ymwelwyr fesul blwyddyn (gan gynnwys TAW) a £2.1m (heb gynnwys TAW).

5.30 Ni fyddai'r holl wariant hwnnw yn cael ei wario yng Ngwynedd – byddai peth ohono wedi cael ei wario mewn awdurdodau lleol eraill (naill ai ar deithiau dydd neu ar y daith) ond, i fod yn geidwadol, tybir bod yr holl golled yn cael ei theimlo yng Ngwynedd. Bydd hyn yn goramcangyfrif yr effaith (negyddol) ar economi Gwynedd.

Tabl 5.4: Colled mewn gwariant taith – senario craidd

	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf)	Ymwelwyr tramor (Band Sylfaenol)	Cyfanswm
Gwariant dros nos cymwys (gan gynnwys TAW)	£129m	£42m	£24m	£195m
Newid canran yn y galw	-1.3%	-1.1%	-1.5%	

Gwariant Ardoll ymwelwyr ar ôl y Daith (gan gynnwys TAW)	£127m	£41m	£24m	£192m
Gostyngiad mewn Gwariant Crynswth ar Deithiau (uniongyrchol) – yn cynnwys TAW	-£1.7m	-£0.5m	-£0.4m	-£2.5m
Colledion Gwariant Crynswth ar Deithiau (uniongyrchol) – heb gynnwys TAW	-£1.4m	-£0.4m	-£0.3m	-£2.1m

5.31 Yn seiliedig ar luosyddion Llywodraeth Cymru ar gyfer 'llety a bwyd' – mae'r effeithiau anuniongyrchol a chysylltiedig hefyd wedi cael eu cynnwys. Unwaith eto, ni fyddai'r rhain i gyd wedi'u teimlo yng Ngwynedd ac felly, mae hyn yn debygol o oramcangyfrif yr effaith (negyddol) o golli gwariant o ganlyniad i'r ardoll.

5.32 Rydym yn defnyddio lluosyddion math 1 (sy'n dal effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol) a math 2 (sy'n dal effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a chysylltiedig) ar gyfer llety a bwyd¹⁵ - defnyddir hyn fel procsi ar gyfer yr holl wariant ac mae'n debygol o ddal y rhan fwyaf o'r patrymau gwariant.

5.33 Mae hyn yn arwain at golled o rhwng £1.5m a £1.7m o GVA blynyddol fesul blwyddyn – sy'n arwain at golli rhwng 42 a 47 o swyddi FTE.

Tabl 5.5: Colled yn y GVA blynyddol a chyflogaeth o ganlyniad i golli gwariant ymwelwyr – senario craidd

	Math 1	Math 1 a 2
Newid mewn allbwn blynyddol uniongyrchol (heb gynnwys TAW)	-£2.1m	-£2.1m
Lluosydd (llety a bwyd)	1.23	1.39
Newid yn y cyfanswm allbwn blynyddol	-£2.5m	-£2.9m
Cymhareb Allbwn i GVA (llety a bwyd)	0.58	0.58
Newid mewn GVA blynyddol	-£1.5m	-£1.7m
GVA fesul FTE (llety a bwyd) yng Ngwynedd	£35,525	£35,525
Newid mewn cyflogaeth FTE	-42	-47

Effaith gwario'r Ardoll Ymwelwyr

5.34 Bydd yr ardoll ymwelwyr yn arwain at gynydd mewn gweithgaredd economaidd. Gellir gwario'r ardoll ymwelwyr ar y canlynol:

¹⁵Mae hyn yn seiliedig ar luosyddion economaidd Dangosol Llywodraeth Cymru (tablau mewnbwn-allbwn): 2019

- lliniaru effaith ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

5.35 At ddibenion yr asesiad hwn, tybir bod yr effaith yn cael ei theimlo'n hafal ar draws sectorau gwahanol o'r economi (ac felly, mae cyfartaledd Gwynedd wedi cael ei ddefnyddio). Gellir uwchraddio hyn pan ddaw mwy o wybodaeth ar y math o fuddsoddiad y mae'r ardoll ymwelwyr yn cael ei gwario arno ar gael.

5.36 Byddai'r Ardoll yn arwain at £2.8m o refeniw (gweler Tabl 5.6) – mae hyn yn cyfrif ar gyfer y lleihad mewn galw o ganlyniad i'r ardoll ac yn eithrio plant o'r llety band isaf.

5.37 Ni fyddai hyn i gyd yn cael ei wario gyda chyflogwyr Gwynedd, oherwydd:

- Bydd hyd at 10% yn mynd i Lywodraeth Cymru i dalu costau gweithredu – yn y prif ddadansoddiad tybir bod y 10% llawn yn cael ei gymryd gan Lywodraeth Cymru, ond cynhwysir prawf sensitifrwyd i leihau hyn i 0% (er mwyn dangos yr ystod llawn o 0% i 10%).
- Defnyddir gollyngiad ychwanegol o 25% i gyfrif am y posibilrwydd y bydd gwariant yr ardoll yng Ngwynedd yn cael ei wario ar gwmnïau y tu allan i Wynedd. Mae hwn yn amcangyfrif ceidwadol gan y disgwylir i'r gollyngiad fod yn isel iawn – bydd gwariant y gronfa'n cael ei gyflawni gan Gyngor Gwynedd yn unol â'i egwyddorion twristiaeth gynaliadwy. Mae'n debygol y bydd y gwariant yn cynnwys buddsoddi mewn cyrchfannau a chymunedau yng Ngwynedd, gan gynnwys rheoli cyrchfannau, adfywio, prosiectau'r parth cyhoeddus, a digwyddiadau. Mae hyn yn golygu y bydd y gwariant, cyn belled ag y bo'n bosibl, gyda chontractwyr a busnesau lleol. Mae natur y gwariant (contractau cymharol fach) yn golygu ei bod yn fwy tebygol o gael ei ddarparu gan fusnesau lleol ac yn llai tebygol o ddenu busnesau o ardaloedd pellach. Efallai y bydd grantiau lleol i fusnesau hefyd (a fyddai eu hunain yn cefnogi gweithgarwch economaidd), a fyddai'n cael eu gwario'n bennaf o fewn y sir. Serch hynny, cynhwysir gollyngiad uwch o 45% fel prawf sensitifrwyd

5.38 Unwaith eto, rydym yn defnyddio lluosyddion math 1 a math 2 a chymhareb GVA i allbwn¹⁶ - mae hyn yn arwain at gynnydd o oddeutu £1.1m i £1.3m mewn GVA blynyddol yng Ngwynedd, gan gefnogi 19 i 21 o swyddi FTE (gweler Tabl 5.7).

Tabl 5.6: Refeniw ardoll – senario craidd

Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf)	Ymwelwyr tramor (Band Sylfaenol)	Cyfanswm

¹⁶Lluosydd a chymhared yn seiliedig ar luosyddion economaidd Dangosol Llywodraeth Cymru (tablau mewnbwn-allbwn): 2019

Nosweithiau gwely cymwys ar ôl yr ardoll sy'n cyfrif am lai o alw ('000)	1,431	670	301	2,401
Yr ardoll fesul person, fesul noson (heb gynnwys TAW)	£1.30	£0.75	£1.30	
Refeniw Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW)	£1.9m	£0.5m	£0.4m	£2.8m
Refeniw Ardoll Ymwelwyr (gan gynnwys TAW)	£2.2m	£0.6m	£0.5m	£3.3m

Tabl 5.7: cynnydd mewn GVA blynyddol a chyflogaeth o ganlyniad i wario'r Ardoll Ymwelwyr – senario craidd

	Senario Isel - Math 1	Senario Uchel - Math 2
Refeniw Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) – allbwn uniongyrchol	£2.8m	£2.8m
Eithrio 10% sy'n mynd tuag at gostau gweithredu LIC	£2.5m	£2.5m
Crwydro	25%	25%
Refeniw Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) yng Ngwynedd – allbwn uniongyrchol	£1.9m	£1.9m
Lluosydd (pob sector)	1.21	1.33
Newid yn y cyfanswm allbwn (gan gynnwys uniongyrchol ac ati) yng Ngwynedd	£2.2m	£2.5 m
Cymhareb Allbwn i GVA (pob sector)	0.5	0.5
Newid mewn GVA yng Ngwynedd	£1.1m	£1.3m
GVA fesul FTE ar draws pob sector (Gwynedd)	£58,615	£58,615
Newid mewn cyflogaeth FTE yng Ngwynedd	19	21

Cyfanswm effaith yr Ardoll

- 5.39 Effaith gyfunol yr ardoll yw colli gwariant ymwelwyr, yn ogystal â'r cynnydd mewn gweithgaredd economaidd o ganlyniad i wario'r ardoll yng Ngwynedd.
- 5.40 Yn y senario craidd, rhagwelir hynny i fod yn golled o £0.3m i £0.4m o'r GVA blynyddol (sy'n ostyngiad o lai na 0.01% yn GVA blynyddol Gwynedd) a cholli 22 i 26 o swyddi (sy'n llai na 0.05% o gyflogaeth Gwynedd).

Tabl 5.8: Effaith gyfunol y newid mewn GVA blynyddol a chyflogaeth – senario craidd

	Craidd (yn seiliedig ar elastigion)
GVA	
Gostyngiad oherwydd colli gwariant	-£1.5m i -1.7m
Cynnydd oherwydd gwario'r ardoll	+£1.18m i +£1.3m
Newid mewn GVA blynyddol	-£0.3m i -£0.4m

	GVA Gwynedd (2023)	£2,842m
	Canran cyfartalog GVA Economi Gwynedd	0.01%
Cyflogaeth	Gostyngiad oherwydd colli gwariant	-42 i -47 o swyddi
	Cynnydd oherwydd gwario'r ardoll	+19 i +21 o swyddi
	Newid mewn cyflogaeth FTE	-22 i -26 o swyddi
	Gwynedd Cyfanswm FTE	48,485
	Canran o gyflogaeth Gwynedd	-0.056%

5.41 Mae'r senario craidd yn seiliedig ar elastigedd o -0.74. Mae defnyddio elastigedd optimistaidd Llywodraeth Cymru (-0.38) yn lleihau'r effaith i golli 2 i 3 o swyddi ac yn arwain at gynnydd o £0.1m o GVA blynyddol.

5.42 Mae defnyddio elastigedd mwy pesimistaidd (-1.12) yn arwain at fwy o golled o hyd at 56 o swyddi a hyd at £1.3m o golled blynyddol mewn GVA blynyddol.

Tabl 5.9: Effaith gyfunol y newid mewn GVA blynyddol a chyflogaeth

	Terfyn Is (yn seiliedig ar elastigion)	Craidd (yn seiliedig ar elastigion)	Terfyn uwch (yn seiliedig ar elastigion)
Gostyngiad oherwydd colli gwariant	-£2.2m i -£2.5m	-£1.5m i -£1.7m	-£0.8m i -£0.9m
Cynnydd oherwydd gwario'r ardoll	+£1.1m to +£1.2m	+£1.1m to +£1.3m	+£1.1m to +£1.3m
Newid mewn GVA blynyddol	-£1.1m i -£1.3m	-£0.3m i -£0.4m	£0.4m
GVA Gwynedd (2023)	£2,842m	£2,842m	£2,842m
% GVA Economi Gwynedd	-0.04% i -0.05%	-0.02% i -0.03%	<0.01%
Gostyngiad oherwydd colli gwariant	-63 i -71 o swyddi	-42 i -47 o swyddi	-21 i -24 o swyddi
Cynnydd oherwydd gwario'r ardoll	+ 19 i 21 o swyddi	+ 19 i 21 o swyddi	+ 20i + 22 o swyddi
Newid mewn cyflogaeth FTE	-44 i -50 o swyddi	-22 i -26 o swyddi	-2i -3 o swyddi
Cyfanswm FTE Gwynedd	48,485	48,485	48,485
% cyflogaeth Gwynedd	0.1%	-0.05%	-0.01%

5.43 Mae Tabl 5.10 yn nodi cyfanswm refeniw'r ardoll a gesglir ym mhob senario – nodwch fod y gweithgarwch economaidd a gefnogir gan y gweithgareddau hyn wedi'i gynnwys yn yr effeithiau GVA a nodir uchod, ond ei fod wedi'i gynnwys yma er eglurder.”

5.44 Yn seiliedig ar nifer presennol yr ymwelwyr (nifer y nosweithiau gwely), byddai'r ardoll yn codi £2.8m, a byddai hyd at £2.5m o hynny'n cael ei gadw gan Gyngor Gwynedd i'w wario yn yr

ardal leol (yn unol â'r Ddeddf), gan dybio bod hyd at 10% o'r refeniw yn talu costau gweithredu Llywodraeth Cymru

5.45 Mae'r dull a nodir yn y dadansoddiad blaenorol yn caniatáu ar gyfer gostyngiad yn y galw mewn ymateb i'r ardoll ymwelwyr – mae'r gostyngiad hwn yn arwain at ostyngiad bach yn y refeniw, ond mae'n parhau i fod rhwng £2.7m a £2.8m i gyd, ac rhwng £2.4m a £2.5m unwaith y bydd y cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru wedi'i eithrio

5.46 Mewn gwirionedd, gallai'r refeniw a gesglir fod yn uwch na hyn am nifer o resymau

- Mae hyn yn tybio bod nifer yr ymwelwyr yn statig yn seiliedig ar ddata 2024 – a mai'r unig newid yw gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr (neu nifer y nosweithiau gwely) o ganlyniad i'r ardoll. Mewn gwirionedd, gallai economi'r ymwelwyr dyfu (gyda'r ardoll neu hebddi). Mae marchnad dwristiaeth Gwynedd wedi bod yn tyfu ers Covid, a gallai hyn barhau. Ceir hefyd dystiolaeth o dwf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr (gweler adroddiad Prifysgol Bangor, fel y'i crynhoir yn Adran 3).
- Bydd yr ardoll yn galluogi Cyngor Gwynedd i fuddsoddi mewn gweithgareddau yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth, a darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr. Mae'n debygol y bydd y buddsoddiad hwn ei hun yn sbarduno cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. I'r gwrthwyneb, gallai nifer yr ymwelwyr ostwng pe na bai'r buddsoddiad drwy'r ardoll yn digwydd
- Mae data STEAM yn awgrymu economi ymwelwyr gyfredol lawer mwy sylweddol yng Ngwynedd – byddai hyn yn arwain at refeniw uwch, ac mae hyn wedi'i nodi'n fanylach yn y prawf sensitifrwydd yn yr adran nesaf.
- Nid yw'r data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwersylla ar safleoedd gwersylla (sy'n talu'r gyfradd is) a'r rhai sy'n gwersylla mewn carafannau / faniau gwersylla neu mewn llety glamping (sy'n talu'r gyfradd uwch). At ddiben yr asesiad hwn rydym wedi tybio bod pob ymwelydd domestig i safleoedd gwersylla yn talu'r gyfradd is; mewn gwirionedd bydd rhai yn talu'r gyfradd uwch, a fydd yn cynyddu'r refeniw. Bydd hefyd llai o blant sydd wedi'u heithrio rhag talu.

Tabl 5.10: Amcangyfrifon refeniw

	Ymwelwyr sy'n preswyllo yn y DU	Ymwelwyr sy'n preswyllo yn y DU (Band Is)	Ymwelwyr tramor (Band Safonol)	Cy-fanswm	Wedi'i leihau 10% i Lywodraeth Cymru ar

		(Band Safonol)				gyfer costau gweith-redu
Ardoll fesul noson (heb TAW)		£1.30	£0.75	£1.30		
Dim gostyngiad yn y galw	Nosweithiau gwely o fewn y cwmpas	1.45m	0.68m	0.31m	2.43m	
	Refeniw (heb TAW)	£1.88m	£0.51m	£0.40m	£2.79m	£2.51m
Craidd	Nosweithiau gwely o fewn y cwmpas	1.43m	0.67m	0.30m	2.40m	
	Refeniw (heb TAW)	£1.86m	£0.50m	£0.39m	£2.75m	£2.48m
Optimistaidd	Nosweithiau gwely o fewn y cwmpas	1.44m	0.67m	0.30m	2.42m	
	Refeniw (heb TAW)	£1.87m	£0.50m	£0.39m	£2.77m	£2.49m
Pesimistiadd	Nosweithiau gwely o fewn y cwmpas	1.42m	0.67m	0.30m	2.39m	
	Refeniw (heb TAW)	£1.85m	£0.50m	£0.39m	£2.74m	£2.46m

Prawf sensitifrwydd ac effaith rhagdybiaethau

- 5.47 Gwneir nifer o ragdybiaethau uchod sy'n effeithio ar raddfa'r effaith. Nodir y rhagdybiaethau allweddol yn y tabl isod, ynghyd â'u goblygiadau ar gyfer maint yr effaith. Cynhelir profion sensitifrwydd ychwanegol isod hefyd; nodir y rhain yn nhabl 5.1 a thabl 13.
- 5.48 Fel y nodwyd uchod, ceir nifer o wahanol ffynonellau ar gyfer amcangyfrif maint presennol economi dwristiaeth Gwynedd. Mae'r prif ddadansoddiad a gyflwynir uchod yn defnyddio'r GBTS a'r IPS ar gyfer data cyfartalog blynyddol ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024 – mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ac â'r canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau lleol.
- 5.49 Mae'r ffigur blynyddol ar gyfer 2024 yn uwch na'r ffigurau cyfartalog blynyddol ar gyfer 2022–24 (gan adlewyrchu marchnad sy'n gwella yn dilyn Covid), ac felly mae'r ffigurau ar gyfer 2024 wedi'u hychwanegu fel prawf sensitifrwydd
- 5.50 Mae data STEAM yn amcangyfrif marchnad dwristiaeth lawer mwy yng Ngwynedd – nodir hyn yn fanylach isod, gan gynnwys prawf sensitifrwydd.

Tabl 5.11: Goblygiadau rhagdybiaethau ar raddfa debygol yr effaith

Prawf sensitifrwydd Goblygiad

Cyfraniad at gostau gweithredu LIC wedi'i leihau i 0%	Ie – Tabl 5.12	Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd – Newid dibwys yn yr effaith
Defnyddio lefel fwy (45%) o symudiad	Ie – Tabl 5.12	Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = Graddfa effaith ychydig yn uwch
Defnyddio data GTBS ac IPS ar gyfer 2024 (yn lle'r cyfartaledd ar gyfer 2022–2024)	Ie- Tabl 5.12	Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = Graddfa Effaith ychydig yn uwch
Defnyddio Data STEAM	Ie- Tabl 5.13	Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = Graddfa Effaith yn uwch
Cyfran y plant mewn llety sylfaenol yn uwch na 22%	Na	Llai o effaith o ran colli gwariant ymwelwyr (gan fod mwy o blant sydd wedi'u heithrio) + Effaith is o ran gwario'r ardoll = Graddfa effaith is
Cyfran y plant mewn llety sylfaenol yn is na 22%	Na	Mwy o effaith o ran colli gwariant ymwelwyr (gan fod mwy o blant sydd wedi'u heithrio) + Effaith uwch o ran gwario'r ardoll = Graddfa effaith uwch
Effaith pobl mewn safleoedd gwersylla / cartrefi modur / llety glamping yn talu'r gyfradd uwch	Na	Effaith uwch o ran colled mewn gwariant ymwelwyr + Effaith uwch o ran gwariant yr ardoll = Graddfa uwch o effaith
Elastigedd y galw mwy pesimistaidd	Wedi'i gynnwys yn Nhabl 5.9 (terfyn is)	Wedi'i gynnwys yn y terfyn is uchod = Graddfa effaith uwch
Elastigedd y galw mwy optimistaidd	Wedi'i gynnwys yn Nhabl 5.9 (terfyn uwch)	Wedi'i gynnwys yn y terfyn uwch uchod = Graddfa effaith is
Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol i gyflwyno'r ardoll	Nid yn benodol	Nid yn benodol ond yn debygol o fod yn agosach at 'elastigedd y galw mwy pesimistaidd' = Graddfa effaith uwch
Cyngor Gwynedd ac awdurdodau lleol cyfagos i gyflwyno'r ardoll	Nid yn benodol	Nid yn benodol ond yn debygol o fod yn agosach at 'elastigedd y galw mwy optimistaidd' = Graddfa effaith is
Llai na 100% o'r gwariant yn cael ei 'gollu' o Wynedd	Na	Llai o effaith o ran colli gwariant ymwelwyr = Graddfa effaith is

Tabl 5.12: Profion sensitifrwydd

	Craidd	Cyfraniad at gostau gweithredu LLC wedi'i leihau i 0%	Defnyddio lefel uwch (45%) o symudiad	Defnyddio data 2024 GTBS a IPS
Newid mewn GVA blynyddol	-£0.3m i - £0.4m	-£0.2m i -£0.3m	-£0.3m i -£0.4m	-£0.4m to -£0.5m
GVA Gwynedd (2023)	£2,842m	£2,842m	£2.842m	£2,842m
Canran cyfartalog GVA Economi Gwynedd	-0.01% i - 0.03%	-0.01%	-0.02%-0.03	-0.01% to -0.02%
Newid mewn cyflogaeth FTE	-22 i -26 o swyddi	-20 i -23 o swyddi	-27 i -31 o swyddi	-25 to -29 o swyddi
Cyfanswm FTE Gwynedd	48,485	48,485	48,485	48,485
Canran cyfartalog cyflogaeth Gwynedd	-0.05	-0.05% i -0.05%	-0.06%	-0.05% to -0.06%

5.51 Mae data STEAM yn nodi sector twristiaeth llawer mwy yng Ngwynedd. Yn 2024, amcangyfrifwyd bod 4.1 miliwn o ymwelwyr, yn aros 20.4 miliwn o ddiwrnodau, ac yn gwario dros £1 biliwn. Mae hyn tua 4 i 5 gwaith yn fwy na maint y farchnad dwristiaeth yng Ngwynedd yn seiliedig ar ddata'r IPS a'r GTBS.

5.52 Mae'r prawf sensitifrwydd isod yn amcangyfrif yr effaith debygol o'r ardoll yn seiliedig ar ffigurau STEAM; mae hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith yr ardoll, ond fe'i cynhwysir er mwyn cyflawnrwydd ac i gydnabod y gall natur wledig Gwynedd olygu bod yr GTBS a'r IPS yn tanamcangyfrif nifer yr ymwelwyr.

5.53 Mae data STEAM yn cyfrif diwrnodau ymwelwyr – at ddiben y dadansoddiad rydym wedi tybio bod diwrnod ymwelydd sy'n aros = un noson. Bydd hyn yn oramcangyfrif effaith yr ardoll gan y gall rhywun fod yn bresennol mewn ardal am fwy o ddyddiau nag y mae'n aros dros nos.

5.54 Nid yw data STEAM yn rhannu llety di-wasanaeth yn fand is a llety safonol, ac felly defnyddir ystod (h.y. o 100% yn y band is i 100% yn y band safonol). Bydd y sefyllfa wirioneddol yn y canol.

5.55 Mae'r dadansoddiad STEAM hwn yn darparu pen-terfyn o ran:

5.55.1 Senario gwaethaf o ran effaith ar gyflogaeth a GVA – mae hyn yn arwain at ostyngiad o rhwng 100 a 240 o swyddi (0.2% i 0.5% o gyflogaeth Gwynedd) a £1.5m i £4.0m mewn GVA (hyd at 0.1% o economi Gwynedd).

5.55.2 Y senario gorau o ran gwariant refeniw sydd ar gael – mae hyn yn cynyddu i rhwng £11.2m a £13.8m (ar ôl rhoi cyfrif am gyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru). Mae hyn yn debygol o fod yn senario gorau posibl o ran cyllid refeniw (am y rhesymau a nodwyd uchod mae'n debygol o fod yn oramcangyfrif).

5.56 Nodwch fod yr dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y senario craidd (h.y. elastigedd o -0.74). Byddai cymhwyso ystod elastigedd Llywodraeth Cymru (-0.38 i -1.12) yn arwain at ystod ehangach o effeithiau wrth ddefnyddio data STEAM.

5.57 Y prif ddadansoddiad (gan ddilyn dull a chanllawiau Llywodraeth Cymru) yw'r dull a ffeirir o hyd, ond mae data STEAM yn dangos yr ansicrwydd (a'r pen uchaf posibl) o ran yr effaith debygol.

Tabl 5.13: Newid mewn GVA blynyddol ac effaith gyfunol ar gyflogaeth

	Prif ddadansoddiad Senraio Craidd (elastigedd o -0.74)	STEAM 2024 (elastigedd o -0.74)
Gostynigiad oherwydd diffyg gwariant	-£1.5m to -£1.7m	-£6.7m to -£15.6m
Cynydd oherwydd gwariant yr ardoll	+£1.1m to +£1.3m	+£5.2m to +£11.6m
Newid blynyddol GVA	-£0.3m to -£0.4m	-£1.5m to -£4.0m
Gwynedd GVA (2023)	£2,842m	£2,842m
Tua Canran o GVA Economi Gwynedd	-0.01%	-0.05% to -0.1%
Gostyngiad yn sgil colli gwariant	-42 to -47 jobs	-188 to -438
Cynnydd o ganlyniad i wariant yr ardoll	+19 to +21 jobs	+88 to 198
Newid mewn cyflogaeth -FTE	-22 to -26 jobs	-100 to -240
Cyfanswn FTE Gwynedd	48,485	48,485
Canran fras o gyflogaeth Gwynedd	-0.05%	-0.2% to -0.5%
Refeniw (heb TAW)	£2.8m £2.5m gan ystyried y cyfraniad i Lywodraeth Cymru	£12.4m I £15.3 £11.2m I £13.8m gan ystyried y cyfraniad i Lywodraeth Cymru

Yr ardoll ymwelwyr yn cael ei thalu’n gyfan gwbl gan y darparwr llety

5.58 Mae'r senario hwn yn rhagdybio bod busnesau'n amsugno cost y Dreth Ymwelwyr, sy'n golygu nad oes unrhyw newid yn lefel yr ymwelwyr i Wynedd. Mae hyn yn golygu bod y busnesau'n amsugno £3.3m, gan gynnwys TAW (dyma'r senario waethaf, gan y bydd rhai busnesau'n trosglwyddo'r TAW ymlaen

Tabl 5.11: Cyfanswm y gost yn cael ei amsugno gan y busnes

Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Sylfaenol)	Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf)	Rhyngwladol	CYFANSWM
---	--	-------------	----------

Nosweithiau gwely cymwys (dim lleihad yn y galw) ('000)	1,450	677	305	2,432
Yr ardoll fesul person, fel noson (gan gynnwys TAW)	£1.56	£0.90	£1.56	
Cyfanswm yr ardoll = cyfanswm y gost i gael ei hamsugno gan y busnes	£2.3m	£0.6m	£0.5m	£3.3m

5.59 Mae busnesau'n amsugno £3.3m o'r gost ychwanegol ac mae hyn yn cael ei dalu ar gyfer referiw busnesau – mae arfarniad Llywodraeth Cymru yn tybio bod hyn yn cael ei 'ddarganfod' o'r gwerth ychwanegol ac felly yr un fath â'r GVA. Mewn gwirionedd, byddai'n debygol y byddai ychydig o ostyngiad mewn swyddi hefyd.

5.60 Mae arfarniad Llywodraeth Cymru hefyd yn tybio nad yw'r prisiau mewnbwn yn newid, na niferoedd ymwelwyr na'r raddfa economaidd. Golyga hyn nad oes effeithiau lluosydd cadwyn gyflenwi 'Math 1'. Fodd bynnag, mae yna rai effeithiau anuniongyrchol o ganlyniad i wasgfa'r ardoll, gan leihau incwm i'w wario (yn rhannol) ar draws economi Gwynedd ac felly, mae lluosydd o 1.2 yn cael ei ddefnyddio i gynnwys uniongyrchol a chysylltiedig, ond heb gynnwys GVA anuniongyrchol. Mae hyn yn arwain at golli £3.9m mewn GVA blynyddol.

Tabl 5.12: Newid mewn GVA blynyddol oherwydd effaith yr Ardoll yn cael ei hamsugno gan y busnes

	CYFANSWM
GVA blynyddol uniongyrchol	-£3.3m
Lluosydd (uniongyrchol a chysylltiedig, heb gynnwys anuniongyrchol)	1.16
Cyfanswm GVA blynyddol	-£3.9m

5.61 Fel y nodir uchod, mae disgwyl i wariant yr ardoll arwain at gynnydd o £1.1m i £1.23 mewn GVA y flwyddyn yn y senario cradd a chynnydd o 19 i 21 o swyddi (sy'n cyfrif am y cyfraniad i gostau gweithredu LIC a cholled yr ardoll i siroedd eraill). Mae hyn yn arwain at effaith gyfunol o golli £2.7m mewn GVA blynyddol a chynnydd mewn 19-21 o swyddi.

Tabl 5.13: Effaith gyfunol y newid mewn GVA blynyddol a chyflogaeth – senario craidd

	GVA Blynyddol	Cyflogaeth
Newid oherwydd bod effaith yr Ardoll yn cael ei hamsugno gan y busnes	-£3.9m	0
Newid oherwydd gwario'r Ardoll	-£1.1m i -£1.3m	19-21 o swyddi
Newid net	-£2.7m	19-21 o swyddi
Cyfran economi Gwynedd	-0.1%	0.04%

5.62 Mae'r sensitifrwydd perthnasol a nodir uchod wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gollyngiad uwch, y newid yn y cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru, a'r newidiadau yn y dull o ymdrin â TAW yn arwain at effaith ar swyddi o rhwng 14 a 24 o swyddi, ac at golled o rhwng -£2.0m a -£3.0m o Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) blynyddol.

5.63 Unwaith eto, mae data STEAM yn dangos effaith lawer mwy (wedi'i yrru gan economi dwristiaeth bresennol fwy), ac yn dangos y terfynau eithaf (cadarnhaol a negyddol) o'r effeithiau posibl.


Tabl 5.14: Profion sensitifrwydd

	GVA blynyddol	Cyflogaeth
Craidd	-£2.7m	19-21 o swyddi
Defnyddio lefel uwch (45%) o symudiad	-£3.0m	14-16 o swyddi
Cyfraniad at gostau gweithredu LIC wedi'i leihau i 0%	£25.5m	22-24 o swyddi
Busnesau ddim yn 'amsugno TAW'	-£2.0m	19-21 o swyddi
STEAM	-£12.0m i £25m	88-198 o swyddi

6 Croeswario gyda Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan gyfrif am bwysigrwydd cymharol twristiaeth i Wynedd

- 6.1 Rydym wedi cynnal 'gwiriadau synnwyr cyffredin' sy'n defnyddio effaith gyffredinol yr Ardoll Ymwelwyr ar economi Cymru (o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru) er mwyn amcangyfrif yr effaith debygol ar Wynedd. Noder nad yw hyn yn ymdrin â'r cafeatau gyda dadansoddiad Llywodraeth Cymru, na'r cymhwysedd ar lefel mwy lleol, ond mae'n darparu hyder ychwanegol yn y dadansoddiad.
- 6.2 Yn gyntaf, dylid nodi bod gan Wynedd gyfran sylweddol o farchnad dwristiaeth Cymru ar y cyfan (ac felly cyflogaeth) ac mae'r economi yn dibynnu'n anghymesur arni. Gwelir hyn yn Ffigwr 6.1 sy'n dangos bod gan Wynedd ychydig o dan 14% o gyfanswm cyflogaeth Cymru mewn Llety, ond bod ganddo gyniferydd lleoliad o 3.0 sy'n golygu bod llety yn anghymesur o bwysig i'r economi leol.

Ffigwr 6.1: Cyflogaeth llety yng Nghymru – Cyniferydd Lleoliad a chyfran cyflogaeth yng Nghymru



- 6.3 Mae'r tabl isod yn dangos, yn seiliedig ar nifer o wahanol fesurau (cyflogaeth, nosweithiau ymwelwyr a gwariant); bod sector twristiaeth Gwynedd yn cyfrif am rhwng 7% a 15% o economi twristiaeth Cymru.

Tabl 6.1: Sector twristiaeth Gwynedd fel cyfran o gyfanswm Cymru

Cyfran o gyfanswm sector twristiaeth Cymru	
Cyflogaeth mewn Llety (BRES 2024)	14%
Cyflogaeth mewn Llety a Bwyd (BRES 2024)	7%
Domestig – nosweithiau (pob math o deithiau)	15%
Domestig – gwario (pob math o deithiau)	11%
Rhyngwladol – nosweithiau (heb gynnwys eu cartref eu hunain a theulu a ffrindiau)	10%
Rhyngwladol – gwario (heb gynnwys eu cartref eu hunain a theulu a ffrindiau)	8%

- 6.4 Fel gwiriad synnwyr cyffredin, rydym wedi cymhwyso hyn i ganfyddiadau Arfarniad Llywodraeth Cymru 2024. Yn yr arfarniad a basiodd 100% o'r ardoll i'r cwsmer, cafodd y canlynol ei ganfod:
- Ar draws Cymru, byddai'r Ardoll yn arwain at rhwng colled o 400 o swyddi a chynnydd o 100 o swyddi.
 - A newid mewn GVA blynyddol o rhwng -£7.5m a chynnydd o £11.1m
- 6.5 Pe byddem yn defnyddio'r ystod uchod (7% i 15%), byddem yn disgwyl effaith rhwng -60 a +15 o swyddi a newid yn y GVA sy'n amrywio o golled o £1.1m i ennill £1.7m. Mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrifon yn Adran 5 o -2 i -50 FTEs¹⁷ a rhwng colli £1.3m i ennill £0.4m mewn GVA blynyddol.
- 6.6 Byddai disgwyl i'r dull hwn o rannu dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn gyfartal fod yn uwch na'r dadansoddiad a nodir yn Adran 5 gan fod rhannu dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn gyfartal yn tybio bod **Gwynedd** yn hawlio ei gyfran (cymharol) o wario'r ardoll ymwelwyr (unwaith mae gwariant nad yw'n rhanbarthol wedi'i gyfrif).
- 6.7 Mae'r dadansoddiad yn Adran 5 yn tybio bod rhywfaint o wariant yr ardoll yng Ngwynedd yn digwydd y tu allan i Wynedd ac nid yw'n cyfrif am fusnesau Gwynedd 'yn ennill' o ganlyniad i'r ardoll o awdurdodau lleol eraill (er enghraifft, busnes yng Ngwynedd yn cael ei gyflogi ar brosiect yn Sir Fôn neu Gonwy, a'i dalu gan yr ardoll).
- 6.8 Dylid nodi mai dangosol yn unig yw'r amcangyfrifon hyn – nid yw'r dull ar sail tebyg am debyg. Serch hynny, mae tebygrwydd y ffigyrau yn rhoi hyder yn y dadansoddiad a nodir yn Adran 5.

¹⁷Noder bod hyn yn cymharu swyddi a FTEs, felly nid yw'n cymharu ar sail tebyg am debyg

Tabl 6.2: Croeswiro o gymharu â Dull Llywodraeth Cymru – pasio 100% o'r Ardoll ymlaen

		Pesimistai dd	Craidd	Optimistai dd
Cyflogaeth	<i>Dull LIC – Lefel Cymru</i>	-400	-140	100
	Dull LIC – lefel Gwynedd 7%	-28	-10	7
	Dull LIC – lefel Gwynedd 15%	-60	-21	15
	Dull Gwynedd gyda chafeat (pasio'r Ardoll ymlaen i ymwelwyr) – Adran 5	-44 to -50 jobs	-22 to -26 jobs	-2 to -3 jobs
GVA Blynyddo l (£m)	<i>Dull LIC – Lefel Cymru</i>	-7.5	-7.5	2.1
	Dull LIC – lefel Gwynedd 7%	-0.5	-0.5	0.1
	Dull LIC – lefel Gwynedd 15%	-1.1	-1.1	0.3
	Dull Gwynedd gyda chafeat (pasio'r Ardoll ymlaen i ymwelwyr) – Adran 5	-£1.1m i - £1.3m	-£1.1m to - £1.3m	-£0.3m to - £0.4m

6.9 Byddai defnyddio'r un dull ar gyfer y senario lle mae busnesau yn amsugno'r ardoll, yna defnyddio'r ystod 7% i 15% yn arwain at 25-54 o swyddi ychwanegol (o gymharu â 19-21 yn Adran 5) a rhwng -£2.3m a -£4.8m (o gymharu â -£2.7m yn Adran 5).

Tabl 6.3: Croeswiro o gymharu â Dull Llywodraeth Cymru – pasio 0% o'r ardoll ymlaen

			Craidd
Cyflogaeth	Dull LIC – Lefel Cymru	Swyddi	360
	Dull LIC – lefel Gwynedd 7%	Swyddi	25
	Dull LIC – lefel Gwynedd 15%	Swyddi	54
	Dull gyda chafeat (busnesau yn amsugno) – Adran 5	FTEs	19-21 o swyddi
GVA blynyddol	Dull LIC – Lefel Cymru		-£32.3m
	Dull LIC – lefel Gwynedd 7%		-£2.3m
	Dull LIC – lefel Gwynedd 15%		-£4.8m
	Dull gyda chafeat (busnesau yn amsugno) – Adran 5		-£2.7m

7 Casgliad

- 7.1 Mae tystiolaeth effaith yr ardollau ymwelwyr ar economïau lleol yn weddol gyfyngedig, ac mae yna rai bylchau ystyrlon a ansicr o fewn data, ac felly dylid ystyried hynny wrth ddarllen yr arfarniad hwn.
- 7.2 Rydym wedi ceisio efelychu dulliau'r arfarniad a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, gan eu gwneud yn berthnasol ar lefel lleol pan fo'n bosib, a chynnwys cafeatau a rhagdybiaethau yn dryloyw. Rydym hefyd wedi ychwanegu profion sensitifrwydd a gwiriadau synnwyr cyffredin er mwyn ychwanegu cadernid i'r arfarniad.
- 7.3 Er gwaethaf y rhybuddion sy'n gysylltiedig â'r sylfaen dystiolaeth a'r fethodoleg, rydym yn hyderus y bydd yr effaith ar economi Gwynedd yn gymharol fach, o ran yr effaith ar gyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) blynnyddol. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r ystod debygol gan ddefnyddio'r IPS a'r GTBS (yn unol â'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru).
- 7.4 Mae'r dadansoddiad hwn yn gymharol geidwadol gan ei fod yn rhagdybio nad oes unrhyw dwf yn yr economi ymwelwyr ac yn caniatáu ar gyfer gostyngiad mewn ymateb i'r ardoll. Yn ymarferol, os bydd yr economi ymwelwyr yn tyfu, bydd y cyllid a godir drwy'r ardoll yn cynyddu (ac i'r gwrthwyneb¹⁸), ac yn wir gallai gwariant yr ardoll ysgogi mwy o dwristiaeth drwy wella profiad yr ymwelwyr. Ceir tystiolaeth o dwf o flwyddyn i flwyddyn mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno
- 7.5 Byddai unrhyw dwf yn yr economi ymwelwyr hefyd yn gwrthbwysu unrhyw golledion i'r economi (o ran swyddi a GVA) o ganlyniad i'r ymwelwyr nad ydynt yn dod oherwydd yr ardoll, ac yn arwain at gynnydd yn y refeniw a godir drwy'r ardoll.

Tabl 7.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol

			Prif ddandansoddiad Senario graidd	Amrediad Tebygol ¹⁹
Cyfflogaeth	Dull gyda chafeat (pasio'r Ardoll ymlaen i ymwelwyr)	FTEs	-22 i -26 Swyddi	-50 i -2 Swyddi
	Dull gyda chafeat (busnesau yn amsugno)	FTEs	19 i 21 Swyddi	19 i 21 Swyddi
	Ystod gyfunol	FTEs	-26 i 21 Swyddi	-50 i 21 Swyddi
	Dull gyda chafeat (pasio'r Ardoll ymlaen i ymwelwyr)		-£0.3m i -£0.4m	-£1.3m i £0.4m

¹⁸ I'r gwrthwyneb, pe bai twristiaeth yn lleihau am resymau heblaw'r ardoll, byddai'r cyllid refeniw yn lleihau.
¹⁹ Mae hyn yn cynnwys ystod o senarios o besimistaidd i optimistaidd, yn seiliedig ar yr elastigeddau yn dadansoddiad Llywodraeth Cymru.

GVA Blynnyddol (£m)	Dull gyda chafeat (busnesau yn amsugno)	-£2.7m	-£2.7m
	Ystod gyfunol	-£2.7m i -£0.3m	-£2.7m i +£0.4m
Refeniw Ardoll Ymwelwyr	Ystod gyfunol		£2.4m to £2.8m

- 7.6 Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi ymwelwyr bresennol Gwynedd rhwng 4 a 5 gwaith yn fwy na'r data IPS / GBTS – felly mae defnyddio data STEAM yn arwain at effeithiau sylweddol uwch. Er enghraifft, mae'r newid mewn swyddi yn amrywio o -26 i +21 yn senario graidd y prif ddadansoddiad, ac mae hyn yn cynyddu i rhwng -240 a +198 wrth ddefnyddio data STEAM. Yn yr un modd, mae'r refeniw rhwng £11.2m a £13.8m (er y dylid nodi bod hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif). Mae hyn yn tynnu sylw at yr ansicrwydd yn y data, ac felly'r ansicrwydd cynhenid wrth ragfynegi effaith yr ardoll.



Quod

Asesiad Effaith Cydraddoldeb **DRAFFT**

Cynnig Ardoll
Ymwelwyr ar gyfer
Cyngor Gwynedd

IONAWR 2026

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Cyd-Destun Deddfwriaethol a Pholisi	3
3	Methedoleg– EQIA	7
4	Crynodeb o Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EQIA Llywodraeth Cymru ar Lefel Genedlaethol	9
5	Asesiad Effaith Cydraddoldeb Lleol	14
6	Yr Iaith Gymraeg	31
7	Statws Economaidd Gymdeithasol	34
8	Atodiad A Data Preswylwyr	41

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EQIA) hwn yn ystyried yr effeithiau cydraddoldeb posibl sy'n gysylltiedig â Chyngor Gwynedd yn gosod ardoll ymwelwyr.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd i gefnogi eu hystyriaeth o osod ardoll ymwelwyr mewn perthynas â'i Ddyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus (PSED).
- 1.3 Yn ogystal, mae hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg ac yn ystyried statws economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

- 1.4 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ac ati (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi'r dewis i gynghorau yng Nghymru gyflwyno tâl ar arosiadau dros nos. Fe'i hadwaenir fel 'ardoll ymwelwyr' a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027 ymlaen.
- 1.5 Mae'r ardoll yn daladwy ar ddwy gyfradd ar wahân:
 - Lleiniau gwersylla ac ystafelloedd a rennir (hosteli ac ystafelloedd cysgu): 75c y pen, y noson- Cynnwys TAW
 - Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 y pen cynnwys TAW, y noson
- 1.6 Mae yna eithriadau¹; Ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os ydyn nhw:
 - o dan 18 oed ac yn aros ar lain gwersylla neu mewn ystafelloedd a rennir (fel hostel neu ystafelloedd gwely)
 - yn aros am fwy na 31 noson mewn un archeb
 - mewn tai brys neu dros dro a drefnir gan y Cyngor lleol
- 1.7 Bydd yr arian o'r ardoll yn cael ei ail-fuddsoddi at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn yr ardal. Mae adran 44, Deddf 2025 yn nodi bod rhaid i gynghorau ddefnyddio enillion yr ardoll ar gyfer:
 - lliniaru effaith ymwelwyr;
 - cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
 - hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
 - darparu, cynnal a gwella isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

¹Yr ardoll ymwelwyr: cyfraniad bach ar gyfer etifeddiaeth barhaol. Ar gael [yma](#)

Diben yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EQIA) hwn

- 1.8 Wrth ystyried a ddylid gosod ardoll ymwelwyr, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd ystyried effeithiau cydraddoldeb posibl a allai fod yn berthnasol i'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010').² Pwrpas yr EQIA hwn yw darparu gwybodaeth i gynorthwyo'r cyngor yn ei rôl fel yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei PSED.
- 1.9 Mae **Adran 2** o'r adroddiad hwn yn darparu cyd-destun drwy nodi'r cefndir deddfwriaethol a pholisi, ac mae **Adran 3** yn egluro'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) hwn, gan ystyried effeithiau anghymesur a gwahaniaethol.
- 1.10 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) ar gyflwyno ardoll ymwelwyr ar draws Cymru. Mae **Adran 4** yn crynhoi canfyddiadau'r AEC hwn. Mae **Adran 5** yn ystyried effaith gosod ardoll ymwelwyr yng Ngwynedd a'r ffyrdd posibl y gallai'r effeithiau hyn ryngweithio â nodweddion gwarchodedig.
- 1.11 Mae **Adran 6** yn ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg, ac mae Adran 7 yn ystyried statws economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.
- 1.12 Mae **Asesiad Effaith Economaidd** ar wahân wedi'i gynnal – croes-gyfeirir at hyn lle bo'n berthnasol yn yr EQIA hwn.

²Deddf Cydraddoldeb 2010.

² Yr ardoll ymwelwyr: cyfraniad bach ar gyfer etifeddiaeth barhaol. Ar gael [yma](#)

2 Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

Y Ddeddf Cydraddoldeb

2.1 Mae Deddf 2010 yn sail i gyfraith gwrth-wahaniaethu ym Mhrydain Fawr. Mae adran 4 Deddf 2010 yn diffinio nodweddion gwarchodedig amrywiol sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf:

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd a chred;
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

2.2 Mae Deddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw dyledus i ystyriaethau cydraddoldeb wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw un ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf hon;
- Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

2.3 Mae'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn cynnwys yr angen i (fel y nodir yn Adran 149 (3) Deddf 2010):

- Ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu;
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae eu cyfranogiad yn anghyffredin o isel.

Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol

- 2.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015³ Llywodraeth Cymru (DLICD) yn nodi saith nod ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r rhain yn darparu diben cyffredin sy'n rhwymo'n gyfreithiol i lywodraethau cenedlaethol a lleol, yn ogystal â byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Nod 'Cymru Fwy Cyfartal' yw creu cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
- 2.5 Mae Adrannau 1 i 3 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**, a daeth yr adrannau hyn i rym yng Nghymru yn 2021. Mae'r ddyletswydd yn golygu bod rhaid i awdurdod "wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i ddymunoldeb eu harfer mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau'r anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol". Wrth wneud hynny, rhaid i'r awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan weinidogion Cymru.
- 2.6 Mae'r canllawiau hyn yn diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol fel "byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas", a gall hyn gynnwys "cymunedau o fuddiant" yn ogystal â "chymunedau o le".⁴

Polisi arall berthnasol

- 2.7 Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) ⁵ yn anelu at lunio dyfodol sy'n gynaliadwy, yn iach, yn deg ac yn gyfartal. Anogir pob rhanbarth i adeiladu ar eu cryfderau presennol a manteisio ar gyfleoedd i sicrhau mwy o ffyniant a llesiant.
- 2.8 Mae dau o ddeilliannau Cymru'r Dyfodol yn cyfeirio at dwristiaeth, gan gynnwys pwysigrwydd 'denu diddordeb a gwariant twristiaid a darparu brand nodedig a dibynadwy ar gyfer busnesau Cymru' a darparu dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy.
- 2.9 Cydnabyddir twristiaeth a hamdden fel cyflogwr mawr ac un sy'n tyfu ac sy'n cyfrannu'n sylweddol at economi wledig Cymru. Mae'r cynllun yn nodi y dylid archwilio ffurfiau cynaliadwy o dwristiaeth, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer twristiaeth weithgar, werdd a diwylliannol. Mae twristiaeth hefyd yn ffocws i Ardal Twf Ranbarthol Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru (Polisi 21).
- 2.10 Mae'r Cynllun hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod cynyddu mynychder y Gymraeg yn flaenoriaeth.
- 2.11 Mae'r Genhadaeth Economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach (2023) yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu economi fwy llewyrchus, gyfartal a gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys:

³ Welsh Government. Well-being of Future Generations Act 2015.

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>

⁴ Welsh Government. 2021. A More Equal Wales: The Socio-Economic Duty.

⁵ Welsh Government. 2021. Future Wales: The National Plan 2040.

- Pontio teg a ffyniant gwyrdd
- Llwyfan i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant
- Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'n heconomi bob dydd
- Buddsoddi er mwyn twf.

2.12 Mae deilliannau'r Genhadaeth Economaidd yn sail i'r pedair blaenoriaeth: economi fwy llewyrchus, economi wyrdddech a chymdeithas fwy cyfartal. Mae'n diffinio economi fwy llewyrchus fel un sy'n gweithredu o fewn terfynau amgylcheddol diogel ac yn hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Llywodraeth weithredol sy'n arwain datblygiad economaidd i dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldebau Pontio teg a ffyniant gwyrdd.

2.13 Mae'r **Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2025–2029**⁶ (2025) yn cyflawni dyletswyddau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig penodol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac ymrwymadau i Hawliau Dynol. Mae'n nodi'r nod hirdymor i Gymru fel 'Cymru sy'n genedl sy'n seiliedig ar degwch, gwrth-wahaniaethu a chynhwysiant, drwy gryfhau a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol.'

2.14 Mae'r **Contract Economaidd**⁷ yn gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r busnesau y mae'n eu cefnogi i nodi sut y bydd gweithio mewn partneriaeth yn gwella gwydnwch economaidd ac yn gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i weithio ynddo. Mae'r Contract yn ymrwymo busnesau i ddarparu cyfraniadau buddsoddi cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys mynediad at Waith Teg a hyrwyddo llesiant. Mewn ymateb i'r cyfraniadau hyn, mae'r Contract yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i nodi'r cymorth nad yw'n ariannol y bydd yn ei ddarparu i fusnesau yn gyfnewid.

Polisi Gwynedd

2.15 Gweledigaeth **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011–2026 (2017)**⁸ (CDLIC) yw rhoi cynlluniau a phrosiectau ar waith a fydd yn hyrwyddo cymunedau ffyniannus, iach a diogel. Mae'r amcanion strategol yn cynnwys:

- Diogelu a chryfhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru, a hyrwyddo ei defnydd fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol.
- Cynyddu cyfraddau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd a lleihau cyfraddau diweithdra, fel bod pawb yn nes at y cyfartaleddau cenedlaethol.

⁶ Welsh Government. 2025. Strategic Equality and Human Rights Plan 2025-2029

⁷ <https://businesswales.gov.wales/economic-contract>

⁸ Isle of Anglesey County Council and Cyngor Gwynedd Council. 2017. Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan 2011-2026.

2.16 Mae'r cynllun yn cydnabod twristiaeth fel sector economaidd allweddol a blaenoriaeth, a bod angen 'gwella a rheoli'r ddarpariaeth dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn yn yr ardal mewn modd cynaliadwy, gan ar yr un pryd hyrwyddo treftadaeth, y Gymraeg a diwylliant Cymru yr ardal'.

2.17 Mae gweledigaeth Cyngor Gwynedd, fel y'i nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023–2028, yn seiliedig ar saith maes blaenoriaeth: Yfory Gwynedd, Gwynedd Lewyrchus, Gwynedd Gref, Gwynedd Gofalgar, Gwynedd Gymraeg, Gwynedd Werdd, a Gwynedd Effeithlon.

2.18 **Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Gwynedd 2024–2028⁹** yn sefydlu pum amcan:

- Amcan 1: Cyflogaeth – Gweithredu i wella cydraddoldeb yn y gweithle
- Amcan 2: Gwybodaeth – Gwella ein data am bobl sydd â nodweddion cydraddoldeb
- Amcan 3: Systemau – Sicrhau bod y Cyngor yn sefydliad gwrth-wahaniaethu, drwy wella ein systemau mewnol
- Amcan 4: Gwasanaethau – Sicrhau cydraddoldeb yn ein gwaith o ddydd i ddydd
- Amcan 5: Ysgolion – Gwella cydraddoldeb o fewn addysg

⁹ Gwynedd County Council. Council Plan 2023-2028.

3 Methodoleg- AEC

Dull

- 3.1 Bydd gan bob ymyrraeth ystod o effeithiau, gydag effeithiau cadarnhaol a negyddol o bosibl.
- 3.2 Bydd gan bawb yr effeithir arnynt gan ymyrraeth rai nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2010, a bydd gwahanol raddau o groestoriadedd (megis oedran, hil a rhyw), ac ni fydd pobl yn cael eu heffeithio yn gyfartal. Fodd bynnag, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod effaith ar gydraddoldeb.
- 3.3 Er mwyn nodi pa effeithiau sy'n berthnasol i ystyriaethau cydraddoldeb, mae asesiadau cydraddoldeb yn gwahaniaethu effeithiau cydraddoldeb fel y rhai sy'n cael naill ai effaith anghymesur neu wahaniaethol ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol o'i gymharu â phobl nad ydynt, fel yr eglurir isod:
 - **Anghymesur:** gall fod effaith cydraddoldeb anghymesur lle mae pobl â nodwedd warchodedig benodol yn ffurfio cyfran uwch o'r rhai yr effeithir arnynt nag yn y boblogaeth ehangach.
 - **Gwahaniaethol:** efallai y bydd effaith cydraddoldeb gwahaniaethol lle mae pobl â nodwedd warchodedig yn cael eu heffeithio'n wahanol i'r boblogaeth gyffredinol o ganlyniad i wendidau neu gyfyngiadau y maent yn eu hwynebu oherwydd y nodwedd warchodedig honno.
- 3.4 Ni ellir meintoli graddfa ac arwyddocâd effeithiau o'r fath bob amser. Felly, mae'r ystyriaeth o effeithiau cydraddoldeb yn cynnwys dadansoddiad disgrifiadol o'r effeithiau posibl a nodi a yw effeithiau o'r fath yn andwyol neu'n fuddiol.
- 3.5 Mae effeithiau cydraddoldeb yn gymhleth ac mae'n anodd rhagweld effeithiau yn gywir ac yn gynhwysfawr. Mae nodweddion gwarchodedig pobl yn bersonol ac nid ydynt bob amser yn hysbys, ac nid yw'r holl bobl a fydd yn byw gerllaw'r ardal, yn gweithio ynddi neu'n ymweld â hi yn y dyfodol eisoes yno heddiw. Am y rheswm hwn, dim ond effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol y gall yr EQIA ystyried.
- 3.6 Gall unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff cyhoeddus gynnwys yr angen i ystyried a chydbwyso ystod o effeithiau cadarnhaol a negyddol o wahanol fathau. Efallai y bydd mesurau lliniaru rhesymol a all ddileu neu leihau rhai effeithiau cydraddoldeb anghymesur neu wahaniaethol, ond efallai na ellir osgoi rhai effeithiau bob amser.

Cwmpas yr Asesiad

- 3.7 Prif amcan EQIA yw rhoi gwybodaeth i Gyngor Gwynedd, ynglŷn â'r effaith debygol ar y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddff Cydraddoldeb 2010, i lywio eu penderfyniadau.
- 3.8 Mae tri grŵp eang o bobl a allai gael eu heffeithio gan yr ardoll ymwelwyr:

- Y rhai sy'n cael eu cyflogi (neu a allai fod yn y dyfodol) mewn swyddi twristiaeth (neu sectorau cysylltiedig) y gall cyflwyno'r ardoll effeithio ar eu cyflogaeth – mae hyn hefyd yn berthnasol i berchnogion busnes a allai gael eu heffeithio.
- Trigolion sy'n byw yn yr ardal a allai fod yn cael eu heffeithio wrth gyflwyno'r ardoll – trwy newid yn niferoedd ymwelwyr a / neu sy'n elwa o fuddsoddi'r gwariant ardoll
- Ymwelwyr (neu eraill sy'n aros dros nos) sy'n ofynnol iddynt dalu'r ardoll

3.9 O fewn y grwpiau hyn bydd pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig a bydd graddau amrywiol o groestoriadedd.

3.10 Man cychwyn yr asesiad yw EQIA lefel Cymru gyfan Llywodraeth Cymru¹⁰ (EQIA LIC), gan gynnwys yr asesiad, ymgynghoriad / ymgysylltu a lliniaru. Yna ystyriwn a oes unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a allai newid canfyddiadau'r WGIA ac arwain at effeithiau anghymesur neu wahaniaethol. Nodir hyn yn **Adran 4**, tra bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol wedi'i nodi yn **Adran 5**.

3.11 Mae adrannau diweddarach yn ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg ac yn ystyried statws economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

¹⁰Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ac ati (Cymru) 2025: Asesiad Effaith Cydraddoldeb [yma](#)

4 Crynodeb o EQIA Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol

4.1 Mae EQIA Llywodraeth Cymru (EQIA LIC) yn tynnu ar ystod o ddata a ffigyrau ystadegol ar yr holl nodweddion gwarchodedig ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys elusennau, grwpiau anabledd a sefydliadau ffydd i nodi a (lle bo'n bosibl) lliniaru effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb.

4.2 Mae EQIA LIC yn nodi:

'Nod cyffredinol yr ardoll yw cynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol sy'n dewis defnyddio ardoll ac nid oes disgwyl bod effeithiau "uniongyrchol" ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.'

4.3 Nododd yr asesiad y bydd ardoll ymwelwyr yn effeithio ar awdurdodau lleol, ymwelwyr, trigolion lleol a busnesau lle mae ardoll yn cael ei weithredu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Diffiniwyd 'effaith uniongyrchol' yr ardoll ymwelwyr fel unrhyw effaith bosibl o orfod talu neu godi'r ardoll. Diffiniwyd 'effaith anuniongyrchol' fel effeithiau posibl oherwydd bodolaeth ardoll.

4.4 Mae EQIA LIC yn cydnabod bod ymchwil bresennol ar effeithiau cyflwyno ardoll ymwelwyr ar nodweddion gwarchodedig yn gyfyngedig felly mae'n defnyddio gwybodaeth ansoddol a rhywfaint o ddata i wneud casgliadau o effeithiau "anuniongyrchol" posibl. Mae'r un cafeatau yn berthnasol i'r asesiad lleol.

Sefyllfa gyffredinol ar ad-daliadau ac eithriadau

4.5 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgysylltiad ffurfiol ar y Ddeddf, gan gynnwys mewn perthynas ag eithriadau. Yn gyffredinol, roedd y rhai o blaid cymhwyso eithriadau i grwpiau penodol fel arfer yn gwneud hynny ar y sail:

4.5.1 y dylid cymhwyso eithriadau i hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb canlyniadau trwy gefnogi grwpiau â nodweddion gwarchodedig, ac

4.5.2 na ddylid dosbarthu grwpiau penodol fel ymwelwyr ac felly, ni ddylid eu gosod ar ardoll.

4.6 Roedd y rhai oedd yn anghytuno â chymhwyso eithriadau yn gwneud hynny ar y sail y gallai eithriadau gyflwyno cymhlethdodau, cynyddu baich gweinyddol i awdurdodau treth a darparwyr llety ymwelwyr, a gallai fod yn annheg gan fod pob ymwelydd yn elwa o'r gwasanaethau a'r isadeiledd ymwelwyr.

4.7 Yn y pen draw, mae Llywodraeth Cymru yn glir bod angen sail bolisi glir ar gyfer cyfradd is neu eithriad yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig. Felly, y dull yw lleihau'r defnydd o eithriadau i'r eithaf, ond defnyddio cyfradd ardoll is.

- 4.8 Er mwyn sicrhau bod lefel o flaengarwch yn cael ei bodloni ac nad yw'r rhai ar incwm is yn cael eu hatal neu'n methu â thalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r ardoll, mae dwy gyfradd wedi'u nodi yn y Bil: cyfradd is ar gyfer hosteli a gwersylloedd a chyfradd uwch ar gyfer pob llety arall i ymwelwyr.
- 4.9 Gall Gweinidogion Cymru asesu ac adolygu'r cyfraddau ardoll ymwelwyr sy'n cael eu gosod mewn deddfwriaeth pe bai effeithiau andwyol yn digwydd.
- 4.10 Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi dau gategori o arosiadau mewn perthynas â'r ardoll, a fydd naill ai, wedi'u heithrio neu'n cael eu had-dalu:
- Mae **eithriadau** yn cynnwys arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol, y rhai sy'n ddigartref, llety i geiswyr lloches, ysbytai preifat, adeiladau cymeradwy, cartrefi gofal a safleoedd sipsiwn a theithwyr.
 - Gellir rhoi **ad-daliadau** lle nad yw'n bosibl darparu eithriad. Mae hyn yn cynnwys arosiadau lle mae risg i iechyd, diogelwch neu les pe bai unigolyn yn aros yn ei unig neu brif breswylfa, lle mae unigolyn yn ddigartref (ac nad oedd yr arhosiad wedi'i eithrio), ac arosiadau gan y rhai sy'n derbyn budd-dal anabledd lle'r oedd person yng nghwmni person sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth.
- 4.11 Gwneir eithriadau ar gyfer y grwpiau a'r sefyllfaoedd isod:
- Aros dros nos mewn safle sipsiwn a theithwyr
 - Arosiadau a drefnwyd gan y swyddfa gartref fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
 - Arosiadau brys mewn llety ymwelwyr a drefnwyd gan awdurdodau lleol fel rhan o'u dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
 - Arosiadau a drefnwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
 - Nid yw'r rhai o dan 18 oed wedi'u cynnwys yn y tâl cyfrifadwy ar gyfer arosiadau â chyfradd is.
- 4.12 Yn yr un modd, mae ad-daliadau ar gael mewn achosion lle nad yw'n bosibl darparu eithriad, megis:
- Arhosiad mewn llety ymwelwyr, sy'n gysylltiedig â thai brys dros dro, a drefnwyd gan sefydliadau elusennol ar ran pobl ddigartref gan gynnwys y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig a cheiswyr lloches.
 - Pobl anabl sy'n derbyn budd-dal anabledd cymwys sydd wedi talu ardoll ymwelwyr wrth aros mewn llety ymwelwyr ac sydd yng nghwmni gofalwr.
 - Arosiadau lle mae risg i iechyd, diogelwch neu les os yw unigolyn yn aros yn ei unig neu brif breswylfa (er enghraifft, arosiadau a drefnir gan elusennau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed neu lle mae tân, llifogydd neu drychineb arall wedi gwneud eiddo yn amhreswylfadwy neu lle mae'r gwasanaethau brys wedi rhoi cyngor i beidio ag aros yn yr eiddo am resymau o'r fath).
- 4.13 Fel rhan o'r broses ymgynghori, ymgysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru â thimau polisi yn Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau byw grwpiau bregus sydd angen llety ymwelwyr.

4.14 O ganlyniad i'r ymgysylltiad hwn, ymgwymerwyd â'r camau isod mewn perthynas ag eithriadau ac ad-daliadau:

- Eithriadau:
 - Gwneud yn glir yn Neddf 2025, y mathau o arosiadau mewn llety ymwelwyr nad ydynt yn destun ardoll ymwelwyr i sicrhau bod nodau polisi yn cael eu gwireddu.
 - Y gallu i gyflwyno eithriadau newydd, addasu neu ddileu eithriadau os oes tystiolaeth newydd o unrhyw effaith anghymesur.
- Ad-daliadau – y gallu i ychwanegu at y rhestr o senarios lle gall ad-daliad fod yn berthnasol, os bydd tystiolaeth newydd yn awgrymu hynny.

Nodweddion gwarchodedig

4.15 Mae Tabl 4-1: Effaith ar nodweddion gwarchodedig – EQIA LIC4

Tabl 4-1: Effaith ar nodweddion gwarchodedig – EQIA LIC4

Nodwedd warchodedig	Effaith Bosib	Mesur Lliniaru
Oedran	Dim effeithiau negyddol na chadarnhaol uniongyrchol. Rhai effeithiau eilaidd a nodwyd ar blant a phobl ifanc. Gall y gallu i dalu ardoll effeithio ar y rhai sydd ag incwm is, e.e. pobl iau neu bobl ar incwm is.	Mae pobl dan 18 oed wedi'u heithrio o'r ardoll ar gyfer arosiadau â chyfradd is.
Anabledd	Gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n teithio gyda pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad. Mae hyn oherwydd y byddai pobl anabl sydd angen gofalwr o bosibl yn wynebu costau ychwanegol oherwydd yr ardoll sy'n berthnasol i'r gofalwr, pe bai'r person anabl yn wynebu'r costau ychwanegol hynny.	Mecanwaith ad-dalu ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-dal anabledd sydd yn teithio gyda pherson sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth.
Ailbennu rhywedd	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	Mae arosiadau mewn ysbytai preifat wedi'u heithrio rhag ardoll.
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim effaith negyddol uniongyrchol	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	
Hil	Dim effaith negyddol uniongyrchol	Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag ardoll. Mae eithriadau / ad-daliadau ar gael i grwpiau sy'n agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a'r rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig
Crefydd a chred	Dim effaith negyddol uniongyrchol. Gall yr ardoll effeithio ar fforddiadwyedd twristiaeth grefyddol ond mae llety am ddim wedi'i eithrio.	Bydd Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol i ddarparu ar gyfer y rhai y gall eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol.

Nodwedd warchodedig	Effaith Bosib	Mesur Lliniaru
		Mae llety am ddim wedi'i eithrio rhag ardoll ac mae ardoll is ar arosiadau mewn llety â chyfradd is. Gellid defnyddio refeniw a gynhrychir o'r ardoll ar gyfer cadwraeth a chynnal safleoedd crefyddol.
Rhyw	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	

4.16 O ganlyniad i'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid, mae mesurau lliniaru ychwanegol a fydd yn cael eu gweithredu yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol yn cyhoeddi adroddiad ar faint o refeniw a gynhrychir a sut mae'r refeniw wedi'i ddefnyddio at ddibenion cyrchfan a gwella yn yr ardal leol lle caiff ei wario (a adlewyrchir yn Adran 45 Deddf 2025).
- Gweinidogion Cymru yn cynnal adolygiad o weithrediad ac effaith Deddf 2025 ac yn cyhoeddi adolygiad ar gylch pum mlynedd (a adlewyrchir yn Adran 63 Deddf 2025).
- Monitro'r defnydd o ddata fel arolygon Croeso Cymru, y Baromedr Twristiaeth ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol a busnesau.
- WRA yn monitro ac adolygu effeithiolrwydd gweinyddu ardoll drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol a busnesau ac adrodd ar faint o refeniw a gasglwyd.

4.17 Mae canfyddiadau'r asesiad hwn ar lefel genedlaethol ynghyd â'r mesurau lliniaru yn cael eu hystyried isod lle bo'n briodol.

5 Asesiad effaith cydraddoldeb lleol

- 5.1 Mae'r adran isod yn darparu data gwaelodlin ar ddemograffeg y boblogaeth leol ac ymwelwyr mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2010 lle mae data ar gael. Mae hefyd yn darparu cymhariaeth â data demograffig sylfaenol ar gyfer Cymru mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig. Mae Atodiad A yn cynnwys crynodeb o'r data perthnasol ar gyfer y boblogaeth breswyl ac fe gyfeirir ato yma fel y bo'n briodol.
- 5.2 Rhagwelir y bydd ymgynghori â rhanddeiliaid yn dechrau yn 2026. Bydd sylwadau drwy'r broses ymgynghori yn llywio cam nesaf yr EQIA (fel bo'n briodol).
- 5.3 Mae'r mesurau a'r argymhellion lliniaru a nodir yn yr EQIA yn tynnu ar y rhai a gyflwynwyd yn yr EQIA a gynhaliwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru ar osod ardoll ledled Cymru a'r rhai a grybwyllir yn Neddf 2025.

Nodweddion Gwarchodedig

Oedran

- 5.4 Mae'r effaith bosibl mewn perthynas ag oedran yn cael ei ystyried ar gyfer:

- Ymwelwyr
- Poblogaeth leol o ran cyflogaeth

Ymwelwyr

- 5.5 Nododd EQIA LIC 'Efallai bod y rhai mewn oedrannau sy'n gysylltiedig fel arfer ag incwm is (er enghraifft, pobl iau), yn llai abl i fforddio'r gost ychwanegol o lety ymwelwyr'.
- 5.6 Nid yw'n ofynnol i'r rhai o dan 18 oed sy'n aros mewn arosiadau â chyfradd is dalu'r ardoll am arosiadau â chyfradd is. Bydd hyn yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar bobl ifanc gan y gallant fod yn fwy tebygol o aros mewn llety ymwelwyr â chyfradd is (er bod EQIA Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes data i gadarnhau'r honiad hwn).
- 5.7 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi efallai na fydd costau ychwanegol yn atal y rhai sy'n ennill llai i fynd ar wyliau, ond gallai newid ymddygiad mewn ffyrdd eraill, megis aros am gyfnod byrrach neu wario llai.
- 5.8 Nid yw EQIA LIC yn ystyried yn benodol yr effaith bosibl ar bobl hŷn.
- 5.9 Tabl 5-1: Proffil oedran ymwelwyr⁵
- 5.10 Wrth ddehongli'r tabl, dylid nodi:
 - Mae proffil oedran ymwelwyr Gwynedd yn dyddio o 2019, tra bod proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan o 2024.
 - Mae proffil oedran ymwelwyr Gwynedd ar gyfer ymwelwyr dydd a dros nos tra bod proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan ar gyfer ymwelwyr domestig dros nos

Tabl 5-1: Proffil oedran ymwelwyr⁵

	16 – 24	25 – 34	35 – 44	45 – 54	55 – 64	65+
Gwynedd (% yr ymwelwyr) ¹¹	3	18	22	24	18	15
Cymru (% y teithiau) ¹²	20	27	19	13	13*	7*

Noder: lle dilynir ffigwr gyda seren, mae'r maint sylfaen yn is na 100 a dylid trin y ffigwr fel un dangosol.

5.11 Mae'r graddau y mae'n debygol o gael effaith wahaniaethol ar bobl ifanc yn cael ei liniaru (yn rhannol) gan yr eithriad i bobl dan 18 oed o fand isaf yr Ardoll. Nid yw'n ymddangos bod effaith anghymesur (gan fod y data'n awgrymu bod llai o ymwelwyr ifanc o Gymru â Gwynedd na Chymru gyfan).

5.12 Gallai cyfran uwch o ymwelwyr hŷn â Gwynedd arwain at effaith anghymesur o ganlyniad i effaith andwyol y cynnydd yng nghost y daith. Ar y llaw arall, mae EQIA LIC hefyd yn nodi'r manteision canlynol, sy'n berthnasol i ymwelwyr a thrigolion (pwyslais wedi'i ychwanegu):

5.12.1 'Gallai'r refeniw ychwanegol hefyd fod o fudd anuniongyrchol i drigolion hŷn ac iau trwy wella ansawdd bywyd cyffredinol yn y gymuned, pe bai'r arian yn cael ei ddefnyddio i wella isadeiledd, gan wneud y gyrchfan yn fwy hygyrch i fwy o bobl'.

5.12.2 'Gallai'r cronfeydd hefyd gefnogi ymdrechion cadwraeth ddiwylliannol, a allai helpu i ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth a thraddodiadau lleol, gan fod o fudd i bobl hŷn a allai fod â chysylltiad dyfnach â'r elfennau diwylliannol hyn¹², ac i'r gwrthwyneb, i bobl iau drwy gynnal neu greu cyfleusterau newydd i genedlaethau iau eu defnyddio'

Cyflogaeth

5.13 Mae proffil oedran trigolion Gwynedd yn debyg i gyfartaledd Cymru a Gogledd Cymru – gweler Atodiad A am ragor o fanylion

5.14 Mae EQIA LIC yn nodi bod gan y rhai a gyflogir mewn twristiaeth swyddi sy'n fwy ansicr, h.y. gweithio rhan-amser neu'n treulio llai o amser yn gweithio i'r un cyflogwr. Yn ogystal, mae'r rhai a gyflogir yn y sector twristiaeth yn gyffredinol yn iau.

5.15 Mae EQIA LIC hefyd yn tynnu ar yr asesiad effaith economaidd ar lefel genedlaethol ac yn nodi bod effaith ardoll ymwelwyr ar gyflogaeth rhwng +100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) a thua -400 o swyddi FTE. Mae'r ystod yn codi oherwydd yr ansicrwydd i ba raddau y bydd dirywiad yn y galw am wasanaethau twristiaeth yn cael ei wrthbwyso gan wariant refeniw ardoll ymwelwyr.

5.16 Mae'r nifer cyfatebol ar gyfer Gwynedd rhwng -56 a +16 o swyddi FTE (cyfeiriwch at yr Asesiad Effaith Economaidd am ragor o ddata). Gallai pobl ifanc deimlo anghyfartaledd o ganlyniad i unrhyw golled swyddi.

5.17 Nododd EQIA LIC fod 38% o weithwyr twristiaeth yn 16-29 oed yn 2022 ledled Cymru. Mae data mwy diweddar yn dangos bod 26% o drigolion Cymru yn gweithio yn y sector Dosbarthu,

¹¹Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Gwynedd. Ar gael [yma](#)

¹²Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael [yma](#)

gwestai a bwytaï rhwng 16 a 24 oed dros y cyfnod rhwng Gorffennaf 2024 – Mehefin 2025.¹³ Mae hyn yr un fath yng Ngwynedd lle mae'r ffigwr cyfatebol hefyd yn 26%. Mae cyfran arbennig o uchel o bobl 16-19 oed (16%) yn gweithio yn y sector yng Ngwynedd, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (10%).

Tabl 5-2: Cyflogaeth yn ôl oedran (Dosbarthiad, gwestai a bwytaï)⁵¹⁴ – preswyl (Gorffennaf 2024 – Mehefin 2025)¹⁵

Grŵp oedran	Gwynedd	Cymru
16 – 19	800 (16%)	24,400 (10%)
20 – 24	1,300 (10%)	34,300 (15%)
25 – 49	6,300 (47%)	97,200 (43%)
50+	5,200 (37%)	70,500 (31%)
Cyfanswm	13,400 (100%)	226,400 (100%)

- 5.18 Er efallai y bydd effaith anghymesur (oherwydd tebygolrwydd uwch y bydd pobl ifanc yn cael eu cyflogi yn y sector twristiaeth), mae maint unrhyw effaith negyddol yn debygol o fod yn fach iawn – mae uchafswm gostyngiad o 56 o swyddi, sydd gyfwerth â cholli 0.1% o gyflogaeth yng Ngwynedd, ac mae hynny'n senario waethaf. Efallai hefyd y bydd effaith gadarnhaol (amcangyfrifir hyd at 16 o swyddi).
- 5.19 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi, 'pe bai'r refeniw ychwanegol a godir yn ysgogi gwelliannau i'r isadeiledd a'r gwasanaethau lleol, gallai hyn weld cynnydd mewn ymwelwyr â'r ardal, gan sbarduno mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector twristiaeth'.

Oedran cyffredinol

- 5.20 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Oedran unwaith y bydd mesurau lliniaru (gan gynnwys yr eithriad dan 18 oed ar gyfer llety terfyn is) yn cael eu hystyried.
- 5.21 Mae effeithiau posibl yn gysylltiedig â chyfran uwch o ymwelwyr hŷn â Gwynedd, a gweithlu ifanc, ond mae unrhyw effeithiau'r ardoll yn debygol o fod yn fach – a byddant i ryw raddau yn cael eu gwrthbwysu gan wariant yr ardoll. Felly, ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.
- 5.22 Gellid cynnal asesiad pellach o'r effaith debygol ar bobl iau neu hŷn unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar sut y bydd y gronfa yn cael ei gwario.

Rhyw

- 5.23 Mae'r effaith bosibl mewn perthynas â rhyw yn cael ei hystyried ar gyfer:
- Ymwelwyr

¹³Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Arolwg Poblogaeth Blyneddol

¹⁴Ibid

¹⁵Ibid

- Poblogaeth leol o ran cyflogaeth

Ymwelwyr

5.24 Mae darpariaethau yn Neddff 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswyllo arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth ar sail rhyw.

5.25 Mae EQIA LIC yn nodi bod astudiaethau wedi adrodd bod dynion yn fwy agored i dalu ardoll ymwelwyr - gall hyn fod oherwydd y rhyngweithio rhwng rhyw ac incwm, lle mae gan ferched incwm is ar gyfartaledd na dynion.

5.26 Wrth ddehongli'r tabl isod, dylid nodi'r canlynol:

- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd yn seiliedig ar ddata o 2019, tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan o 2024.
- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd yn cynnwys ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr domestig sy'n aros dros nos yn unig.

5.27 Mae Tabl 5-3 isod yn dangos fod yna gyfrannau tebyg o ymwelwyr benywaidd a gwrywaidd yn ymweld â Gwynedd a Chymru gyfan (er nad yw'r data ar sail debyg am debyg) ac yn y ddau achos mae cyfran uwch o ymwelwyr benywaidd.

5.28 Wrth ddehongli'r tabl isod, dylid nodi:

- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd yn dyddio o 2019, tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan yn dyddio o 2024.
- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd ar gyfer ymwelwyr dydd a dros nos tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan ar gyfer ymwelwyr dros nos domestig.

Tabl 5-3: Dosbarthiad ymwelwyr yn ôl rhyw⁵

	Gwynedd¹⁶	Cymru¹⁷
Benyw	58%	59%
Gwryw	42%	40%
Yr holl bobl	100%	100%

DS efallai na fydd canrannau yn swm o 100% oherwydd talgrynnu

5.29 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi bod arolygon yn awgrymu:

- Cytunodd mwyafrif (58%) yr ymatebwyr y dylai twristiaid gyfrannu tuag at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt. Ychydig iawn (13%) oedd yn anghytuno

¹⁶Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Gwynedd. Ar gael [yma](#)

¹⁷Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael [yma](#)

- Roedd cytundeb y dylai twristiaid gyfrannu at gynnal a buddsoddi mewn cyrchfannau ac mae hyn yn cyd-fynd yn gryf â gradd gymdeithasol a 'modd ariannol'

5.30 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl mewn perthynas â Rhyw. Nid oes unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

Cyflogaeth

5.31 O ran cyflogaeth, mae EQIA LIC hefyd yn nodi bod cyfran y merched yn y gweithlu twristiaeth ar draws Ewrop hefyd yn aml yn uwch. Fodd bynnag, mae Tabl 4-4 isod yn dangos bod y gyflogaeth ym maes Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï wedi'i rhannu'n fras yn gyfartal rhwng dynion a merched yng Ngwynedd a Chymru.

Tabl 5-4: Cyflogaeth yn ôl rhyw (Dosbarthiad, Gwestai a Bwytaï)⁵¹⁸

	Gwynedd	Cymru
Benyw	5,613 (50%)	132,116 (49%)
Gwryw	5,720 (50%)	137,360 (51%)
Yr holl bobl	11,333 (100%)	269,476 (100%)

5.32 Ni ragwelir y byddai effaith anghymesur neu wahaniaethol yng Ngwynedd o ganlyniad i'r ardoll ar ferched (neu ddynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

5.33 Ni ddisgwylir i ddarpariaethau yn Neddf 2025 gael unrhyw effaith ar nodweddion priodas a phartneriaeth sifil. Bydd llety ymwelwyr dros nos ar gyfer priodasau / seremonïau partneriaeth sifil yn destun ardoll.

5.34 Mae cyfran y bobl sengl yng Ngwynedd ychydig yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru neu Gymru, a chyfran y bobl sydd yn briod neu mewn partneriaeth sifil, neu sydd wedi ysgaru, wedi gwahanu neu'n weddwon yn ychydig yn is – gweler Atodiad A am ragor o fanylion

5.35 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Priodas a Phartneriaeth Sifil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

Ailbennu Rhywedd

5.36 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswyllo arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd.

¹⁸Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021

- 5.37 Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth yn Neddf 2025 i'r rhai sydd angen triniaeth feddygol ar gyfer y broses ailbennu rhywedd ac ni chodir ardoll ar arosiadau mewn ysbyty preifat.
- 5.38 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran ailbennu rhywedd. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

Cyfeiriadedd Rhywiol

- 5.39 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswyllo arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

Ymwelwyr

- 5.40 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod 10% o'r teithiau i Gymru wedi'u gwneud gan ymwelwyr LHDTG+ rhwng mis Ionawr a Rhagfyr 2024.¹⁹ Mae EQIA LIC yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai ymwelwyr â'r nodweddion cyfeiriadedd rhywiol hyn dan anfantais trwy ddarpariaethau Deddf 2025. Nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Gwynedd ar gael ar hyn o bryd.

Cyflogaeth

- 5.41 Yn y boblogaeth gyffredinol, mae cyfrannau tebyg o bobl sy'n hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol yng Ngwynedd ag sydd ar draws Gogledd Cymru a Chymru. O ran telerau cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos:
- Mae cyfrannau tebyg o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd yn cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai yng Ngwynedd (4%) o gymharu â Chymru (4%)
 - Mae cyfrannau ychydig yn uwch o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd yn cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai (4%) na'r cyfartaledd ar draws pob sector yng Ngwynedd (2%).

Tabl 5-5: Cyflogaeth preswylwyr yn ôl cyfeiriadedd rhywiol yng Ngwynedd⁵²⁰

		Syth neu Heterorywiol	Hoyw neu Lesbiaidd	Deurywiol	Pob cyfeiriadedd rhywiol arall	Heb ei ateb	CYFANSWM
Dosbarthu, gwestai a bwytai	Gwynedd	89%	2%	2%	0%	7%	100%
	Cymru	90%	2%	2%	0%	6%	100%
Pob sector	Gwynedd	91%	1%	1%	0%	7%	100%
	Cymru	91%	2%	1%	0%	5%	100%

Cyfeiriadedd Rhywiol – yn gyffredinol

¹⁹Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael [yma](#)

²⁰Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021

5.42 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Cyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

Hil

5.43 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswyllo arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail hil.

5.44 Fel y mae EQIA LIC yn nodi, gall effaith ardollau ymwelwyr ar hil amrywio yn dibynnu ar gyd-destunau penodol a dulliau gweithredu, a ble mae'r refeniw a godir yn cael ei wario. Gellir cymryd mesurau rhagweithiol i sicrhau bod manteision twristiaeth yn cael eu dosbarthu'n decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth, gydag ymgysylltiad cymunedol a phrosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol yn hanfodol i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol posibl ar grwpiau ethnig lleiafrifol.

5.45 Fel y nodir yn Adran 5, mae mecanwaith ad-dalu sy'n caniatáu ad-daliadau lle mae grwpiau yn cael eu lletya mewn llety ymwelwyr dros dro a thelir am hyn gan elusen gefnogol, mewn sefyllfaoedd brys.

Ymwelwyr

5.46 Mae Tabl 5.6 isod yn dangos proffil ethnigrwydd twristiaeth ddomestig dros nos Cymru yn 2024 a phroffil ethnigrwydd ymwelwyr â Gwynedd.

Tabl 5-6: Proffil ethnigrwydd teithiau ymwelwyr ac ymwelwyr5

Ethnigrwydd yr ymatebydd	Cymru (% y teithiau) ²¹	Gwynedd (% yr ymwelwyr) ²²
Gwyn	80%	97%
Grwpiau Ethnig Cymysg/aml-ethnig	3%**	3%
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	6%*	
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig	7%*	
Tsieineaidd	0%**	
Arabaid	0%**	
Grŵp Ethnig arall	0%**	
Mae'n well gen i beidio â dweud / Ddim yn gwybod / Amhenodol	3%**	
Cyfanswm	100%	100%

Noder: Lle dilynir ffigwr gyda seren, mae'r maint sylfaen yn is na 100 a dylid trin y ffigwr fel un dangosol. Pan ddilynir ffigwr gyda seren ddwbl, mae'r maint sylfaen yn is na 30 a chynghorir defnyddwyr i beidio â defnyddio'r amcangyfrif hwn.

Noder: efallai na fydd canrannau yn swm o 100% oherwydd talgrynnu

²¹Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael [yma](#)

²²Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Gwynedd. Ar gael [yma](#)

5.47 Wrth ddehongli'r tabl uchod, dylid nodi:

- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd yn dyddio o 2019, tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan yn dyddio o 2024.
- Mae proffil ymwelwyr Gwynedd ar gyfer ymwelwyr dydd a dros nos tra bod proffil ymwelwyr Cymru gyfan ar gyfer ymwelwyr dros nos domestig.
- Gan fod proffiliau ymwelwyr Gwynedd a Chymru yn deillio o wahanol ffynonellau data, mae'r categorïau ychydig yn wahanol.

5.48 Serch hynny, mae hyn yn awgrymu bod cyfran is o ymwelwyr â Gwynedd sy'n dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

Cyflogaeth

5.49 O ran cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos:

- Mae cyfrannau is o bobl sy'n dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai yng Ngwynedd (9%) o'i gymharu â Chymru (12%).
- Mae cyfrannau ychydig yn uwch o bobl sy'n dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cyflogi yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai (9%) na'r cyfartaledd ar draws pob sector yng Ngwynedd (7%) – mae hyn yn golygu y gallai newid mewn lefelau cyflogaeth effeithio ar y grŵp hwn (er bod unrhyw newid yn debygol o fod yn fach).

Tabl 5-7: Cyflogaeth preswylwyr yn ôl ethnigrwydd²³

Dosbarthu, gwestai a bwytai		Gwyn: Saesneg, Cymraeg, Albanaid, Gwyddel neu Wyddel es o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig							
		Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymraeg	Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd	Grwpiau ethnig cymysg neu luosog	Gwyn: Saesneg, Cymraeg, Albanaid, Gwyddel neu Wyddel es o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig	Gwyn: Gwyddelig	Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Roma neu Wyn Arall	Grŵp Ethnig arall	Cyfanswm
Dosbarthu, gwestai a bwytai	Gwynedd	3%	0%	1%	91%	0%	4%	1%	100%
	Cymru	4%	1%	1%	88%	0%	5%	1%	100%
Cyfanswm	Gwynedd	2%	0%	1%	93%	1%	3%	0%	100%
	Cymru	3%	1%	1%	91%	0%	4%	1%	100%

²³Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021

Safleoedd Sipsiwn Roma a Theithwyr

- 5.50 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi bod ffordd o fyw Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gynhenid fyrhoedlog ac yn cynnwys symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol.
- 5.51 Mae EQIA LIC yn sôn bod trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Thros Gynnal Plant Cymru wedi tynnu sylw at pe bai'r safleoedd parhaol a dros dro dynodedig wedi'u heithrio rhag talu ardoll, yna mae'n annhebygol y byddai effaith sylweddol ar Deithwyr Sipsi a Roma.
- 5.52 Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n cael eu darparu gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag ardoll. Roedd 12 o safleoedd cofrestredig yng Ngwynedd yn y cyfrif diwethaf (Ionawr 2025), er dylid nodi bod oedi wedi bod ar y gwaith casglu data er mwyn caniatáu adolygiad o'r broses.
- 5.53 Mae EQIA LIC yn nodi bod Teithwyr Sipsi a Roma yn defnyddio nifer o safleoedd cyhoeddus a phreifat ledled Cymru, gan gynnwys safleoedd tymhorol, tir sy'n addas ar gyfer stopio wedi'i negodi, safleoedd gwyliau prif ffrwd ar gyfer teithio tymhorol. Byddai aelodau o'r gymuned Teithwyr Sipsi a Roma sy'n defnyddio llety ymwelwyr heblaw ar gyfer eu prif fan preswyllo arferol yn destun yr ardoll.
- 5.54 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu eithriadau cenedlaethol newydd os oes tystiolaeth o effaith negyddol ar unrhyw grŵp penodol.

Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

- 5.55 O ystyried na fydd gan geiswyr lloches fynediad at arian neu fynediad cyfyngedig at arian, mae EQIA LIC yn nodi y gallai defnyddio ardoll gael effaith negyddol. Fodd bynnag, mae Deddf 2025 yn caniatáu i lety i geiswyr lloches a drefnwyd gan awdurdodau lleol gael ei eithrio rhag talu ardoll. Mae yna hefyd fecanwaith ad-dalu i ganiatáu i elusennau adennill y costau o'r ardoll ar gyfer unrhyw arosiadau cymwys.
- 5.56 Ym mis Medi 2025, roedd 3,331 o geiswyr lloches yng Nghymru yn derbyn cymorth y Swyddfa Gartref a oedd wedi'u lletya mewn Llety Argyfwng (gwesty), Llety Cychwynnol, Llety wedi'i Wasgaru (llety tymor hwy) neu'n derbyn cynhaliaeth yn unig.²⁴
- 5.57 Yn yr un modd, ym mis Medi 2025, roedd 44 o geiswyr lloches yng Ngwynedd yn derbyn cymorth gan y Swyddfa Gartref a oedd wedi'u lletya mewn llety wedi'i Wasgaru.²⁵
- 5.58 Mae EQIA LIC yn nodi bod anawsterau o ran nodi faint o ffoaduriaid sydd yng Nghymru ac yn ei gyfanrwydd gan fod diffyg data ar ble mae ffoaduriaid yn ymgartrefu. Serch hynny, mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod 11 achos o ailsefydlu yng Nghymru yn Ch2 2025 (yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Gaerfyrddin a Phowys).²⁶
- 5.59 Unwaith eto, mae Deddf 2025 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu eithriadau cenedlaethol newydd os oes tystiolaeth o effaith negyddol ar unrhyw grŵp penodol.

²⁴Y Swyddfa Gartref. Tablau data ystadegau system mewnfudo. Ar gael [yma](#)

²⁵Y Swyddfa Gartref. Tablau data ystadegau system mewnfudo. Ar gael [yma](#)

²⁶Y Swyddfa Gartref. Tablau data ystadegau system mewnfudo. Ar gael [yma](#)

Hil – casgliad cyffredinol

- 5.60 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Hil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.
- 5.61 Mae ymwelwyr i Wynedd a gweithwyr yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytaï yn fwy tebygol o fod yn wyn, na'r cyfartaledd ledled Cymru.
- 5.62 Fel y nodwyd gan EQIA LIC, gellir cymryd mesurau rhagweithiol i sicrhau bod manteision twristiaeth, gan gynnwys gwariant y gronfa, yn cael eu dosbarthu'n decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth.

Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)


- 5.63 Mae EQIA LIC yn nodi'r ymgysylltiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru gyda darparwyr gwasanaethau a goroeswyr i ddeall y profiad byw yn llawnach a deall lefelau'r mathau hyn o senarios.
- 5.64 Mae eithriadau a mecanweithiau ar gyfer ad-dalu wedi'u cynnwys yn y Ddeddf a bydd canllawiau yn cael eu paratoi mewn perthynas â'r broses ymgeisio (o ran datgelu manylion personol). Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn Adran 4.

Crefydd a Chred

- 5.65 Amcangyfrifodd EQIA LIC fod 174,456 o dwristiaid domestig wedi "ymweld ag eglwys gadeiriol, eglwys, abat neu adeilad crefyddol arall" yn 2023.
- 5.66 Mae EQIA LIC yn nodi nad oes unrhyw gydb berthynas uniongyrchol rhwng ardollau ymwelwyr a chrefydd, cred neu ddiffyg cred. Mae hefyd yn nodi y gallai polisiâu neu drethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ryngweithio â rhyddid unigolyn i ymarfer crefydd, yn dibynnu ar natur yr ymweliad. Gallai cyflwyno ardoll ymwelwyr effeithio ar fforddiadwyedd ymweld â lleoedd o'r fath, gan ddylanwadu ar nifer y pererinion neu dwristiaid sy'n ymweld â safleoedd crefyddol oherwydd bod yr ardoll yn cynyddu cost aros i ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr.
- 5.67 Wrth gynnal yr asesiad ar lefel genedlaethol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru yn 2023 a derbyniodd ymateb hefyd i gais pellach am adborth ym mis Mehefin 2024 drwy eu cynrychiolaeth yng Ngrŵp Partneriaeth y Trydydd Sector.
- 5.68 Ni fyddai'r ardoll yn berthnasol i lety sy'n rhad ac am ddim. Fodd bynnag, bydd yr ardoll yn berthnasol i arosiadau mewn llety ymwelwyr dros nos â chyfradd is (mater a godwyd trwy ymgysylltu gan fod grwpiau ffydd yn aml yn trefnu teithiau gwersylla), er y gall y gyfradd is liniaru effeithiau negyddol posibl.
- 5.69 Nid yw'r data cyfatebol ar gyfer nifer y twristiaid sy'n ymweld ag adeilad crefyddol yng Ngwynedd ar gael ar hyn o bryd.

5.70 Fodd bynnag, mae Ffigwr 5-1 yn dangos bod 350 o fannau addoli yng Ngwynedd. Noder bod mapio'r mannau addoli yn ddangosol ac efallai na fydd bob amser yn gyflawn ac nid oes diffiniad cyfreithiol clir o fannau addoli.

Ffigwr 5-51: Mannau addoli yng Ngwynedd



5.71 Efallai y bydd effaith andwyol ar y rhai nad ydynt yn ymwneud â phrosesau digidol fel rhan o'u ffydd. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith bosibl, bydd gwasanaeth nad yw'n ddigidol ar gael pan fo angen.

5.72 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Crefydd a Chred. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

Anabledd

5.73 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswyllo arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth ar sail anabledd.

Poblogaeth

5.74 Roedd oddeutu 22,500 o bobl yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yng Ngwynedd yn 2021, gan gyfrif am 19.2% o gyfanswm y boblogaeth - yn is na chyfartaledd Cymru o 21.6%.²⁷

Ymwelwyr

5.75 Yn ôl tystiolaeth hanesyddol, noda EQIA LIC y gallai fod rhai senarios lle gall pobl anabl wynebu costau uwch am aros mewn llety ymwelwyr a nododd rai rhwystrau a heriau i bobl anabl gan gynnwys:

- Rhwystrau amgylcheddol: Dangosodd adroddiad ymchwil Arolwg Anabledd y DU 2021 fod 57% o bobl anabl wedi dweud nad oeddent yn gallu mynd ar wyliau oherwydd problemau hygrychedd, h.y. mynediad i adeiladau cyhoeddus.
- Mae diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am argaeledd a maint cyfleusterau a gwasanaethau twristiaeth hygrych a hawliau pobl anabl fel twristiaid. Mae gwybodaeth am gyrchfannau hygrych yn ffactor allweddol wrth gynyddu cyfleoedd twristiaeth ymhlith unigolion anabl.
- Gall trefnu gwyliau arwain at gostau ychwanegol oherwydd diffyg argaeledd llety a thrafnidiaeth hygrych a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, ac yn ystod y tymhorau prysuraf. Mewn arolwg diweddar gan *Leonard Chesire Disability*, a gyhoeddwyd yn *Enable Magazine*, dywedodd 8 o bob 10 o bobl anabl eu bod yn wynebu rhwystrau ac anawsterau aros mewn gwestai a chyrchfannau yn y DU. Nododd dros 70% problemau dod o hyd i ystafelloedd hygrych. Mae costau llety hygrych hefyd yn rhwystr cyffredin i gymryd seibiant i tua 6 o bob 10 o ymatebwyr yr arolwg, gydag ystafelloedd hygrych yn aml yn cael eu hystyried yn ddrytach.

5.76 Nododd EQIA LIC nifer o heriau eraill gan gynnwys:

- Dewisiadau a chyfleoedd cyfyngedig i bobl anabl a'r rhai â namau - a all effeithio ar eu hansawdd a'u boddhad â'u profiadau twristiaeth.
- Diffyg hygrychedd i rai pobl anabl mewn gwersylloedd a hosteli sy'n arwain at straen pellach ar gyllidebau teithio – mae hyn yn cael ei liniaru i ryw raddau gan y gyfradd is yn y ddeddfwriaeth.
- Cost ychwanegol a/neu opsiynau cyfyngedig i bobl sydd angen gofalwr, offer arbenigol neu gi tywys.

5.77 Gan gydnabod bod diffyg data a thystiolaeth yn gyffredinol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr o Anabledd Cymru, Autistic UK a Sefydliad Triniaeth Deg i Fenywod Cymru wrth lunio EQIA Llywodraeth Cymru.

5.78 Nododd EQIA LIC y gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n teithio gyda pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad.

5.79 Mae EQIA LIC yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer ad-daliadau i bobl anabl a gofalwyr. Yn y pen draw, yr opsiwn a gynhwysir yn y Ddeddf oedd rhoi ad-daliadau i bobl anabl sy'n derbyn budd-dal anabledd cymwys sydd wedi talu ardoll ymwelwyr wrth aros mewn llety ymwelwyr ac sy'n teithio gyda pherson sy'n darparu gofal.

²⁷Cyfrifiad 2021

5.80 Mae EQIA LIC yn cydnabod (yn rhannol oherwydd nad yw'n cynnwys gofalwyr) nad yw'r opsiwn hwn 'yn dileu'r risgiau o wahaniaethu anuniongyrchol yn llawn, ystyriwyd ei fod yn ymateb cymesur sy'n cydbwysu'r angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu anuniongyrchol ond hefyd sicrhau uniondeb ac effeithlonrwydd y system dreth'.

5.81 O ran gweithgarwch twristiaeth, mae 31% o'r holl deithiau i Gymru yn cynnwys rhywun sy'n anabl neu sydd â nam. Yn ogystal, roedd 20% o'r holl deithiau dros nos a wnaed i Gymru rhwng mis Ionawr a Rhagfyr 2024 gan y rhai sy'n gofalu am bobl â chyflyrau meddygol.²⁸ Mae rhai o'r teithiau hyn yn ymwneud â ffrindiau a theulu yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na llety ymwelwyr ac nid yw'n golygu bod yr ymwelwyr hyn yn teithio gyda'r person maent yn gofalu amdano; yn hytrach, dim ond bod ganddynt y math hwn o gyfrifoldeb gofalu. Nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Gwynedd ar gael.

Cyflogwyr a chyflogaeth

5.82 Mae EQIA LIC hefyd yn nodi y bydd Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) yn casglu ac yn rheoli ardoll. Ar gyfer darparwyr llety, rhagwelir y bydd gweithrediad yr ardoll o ddydd i ddydd yn cael yr effaith leiaf ar berchnogion busnes sydd â nam ar eu golwg a/neu glyw oherwydd y sawl ffordd all person ryngweithio â'r WRA – system ddigidol ar gyfer ffeilio a dychwelyd ffurflenni i'r WRA ochr yn ochr â darparu gwasanaeth ffôn a phapur, lle bo angen.

5.83 Yn ogystal, mae EQIA LIC yn nodi bod gweithwyr anabl yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr na gweithwyr nad ydynt yn anabl. O'r gweithwyr sy'n gweithio ym maes twristiaeth yng Nghymru, mae 18% yn anabl – cyfran debyg i'r cyfartaledd ym mhob diwydiant.²⁹

5.84 Nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Gwynedd ar gael ar hyn o bryd.

Anabledd yn gyffredinol

5.85 Nododd EQIA LIC y gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n cyd-fynd â pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad ond bod yr opsiwn (heb gynnwys eithriad) yn ymateb cymesur.

5.86 Unwaith y bydd mesur lliniaru (gan gynnwys ad-daliad ar gyfer person sy'n derbyn budd-dal anabledd) wedi'i gynnwys, ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

5.87 Nodir hefyd bod Ysbyty Gwynedd yn ysbyty sydd wedi'i leoli yng Ngwynedd ond, fel yr uchod, mae arosiadau ysbyty wedi'u heithrio o'r ardoll.

5.88 Gellir cymryd mesurau rhagweithiol i sicrhau bod manteision twristiaeth, gan gynnwys gwariant y gronfa, yn cael eu dosbarthu'n decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth - gallai hyn gynnwys mesurau i wella hygyrchedd i bobl anabl i safleoedd twristiaeth.

Beichiogrwydd a mamolaeth

²⁸Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael [yma](#)

²⁹Llywodraeth Cymru. Ystadegau busnes a marchnad lafur sector twristiaeth Cymru. Ar gael [yma](#)

- 5.89 Mae darpariaethau yn Neddf 2025 yn berthnasol i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n fan preswyllo arferol iddynt, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.
- 5.90 Nid yw'r ONS yn darparu ystadegau ar nifer y bobl sy'n feichiog. Felly, ystyriodd y dadansoddiad gwaelodlin hwn ddata genedigaethau byw³⁰ fel procsi. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o 2024 yn dangos bod y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol³¹ yn is (42.7) yng Ngwynedd na chyfartaledd Cymru (45.7).
- 5.91 Eto, nodir bod Ysbyty Gwynedd yn ysbyty a leolir yng Ngwynedd ond, fel yr uchod, mae arosiadau ysbyty wedi'u heithrio o'r ardoll.
- 5.92 Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Beichiogrwydd a Mamolaeth. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.

³⁰Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024. Genedigaethau Byw.

³¹Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021. Cyfrifiad.

Crynodeb o'r effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchodedig

5.93 Mae Tabl 5-8: Crynodeb o'r effeithiau 5

Tabl 5-8: Crynodeb o'r effeithiau 5

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Lliniaru posibl lle bo'r angen
Oedran	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Oedran unwaith y bydd mesurau lliniaru (gan gynnwys yr eithriad dan 18 oed ar gyfer llety terfyn is) yn cael eu hystyried. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. Mae effeithiau posibl yn gysylltiedig â chyfran uwch o ymwelwyr hŷn â Gwynedd, a gweithlu ifanc, ond mae unrhyw effeithiau'r ardoll yn debygol o fod yn fach – a byddant i ryw raddau yn cael eu gwrthbwysio gan wariant yr ardoll.	Mae pobl dan 18 oed wedi'u heithrio o'r ardoll ar gyfer arosiadau â chyfradd is. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Anabledd	Nododd EQIA LIC y gellid ei ddehongli fel gwahaniaethu anuniongyrchol i godi ardoll ymwelwyr ar ofalwyr sy'n teithio â pherson anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad ond bod yr opsiwn (heb gynnwys eithriad) yn ymateb cymesur. Unwaith y bydd mesur lliniaru (gan gynnwys ad-daliad ar gyfer person sy'n derbyn budd-dal anabledd) wedi'i gynnwys, ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.	Mecanwaith ad-dalu ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-dal anabledd sydd yn teithio gyda pherson sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Ailbennu rhywedd	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran ailbennu rhywedd. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.	Mae arosiadau mewn ysbytai preifat wedi'u heithrio rhag ardoll.
Priodas a phartneriaeth sifil	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Priodas a Phartneriaeth Sifil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Lliniaru posibl lle bo'r angen
Beichiogrwydd a mamolaeth	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Beichiogrwydd a Mamolaeth. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl
Hil	Mae ymwelwyr i Wynedd a gweithwyr yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytaï yn fwy tebygol o fod yn wyn, na'r cyfartaledd ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Hil. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.	Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig wedi'u heithrio rhag ardoll. Mae eithriadau / ad-daliadau ar gael i grwpiau sy'n agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a'r rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Crefydd a chred	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Crefydd a Chred. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.	Bydd Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol i ddarparu ar gyfer y rhai y gall eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol. Mae llety am ddim wedi'i eithrio rhag ardoll ac mae ardoll is ar arosiadau mewn llety â chyfradd is. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Rhyw	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl mewn perthynas â	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Lliniaru posibl lle bo'r angen
	Rhyw. Nid oes unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC. Ni ragwelir y byddai effaith anghymesur neu wahaniaethol yng Ngwynedd o ganlyniad i'r ardoll ar ferched (neu ddynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth.	
Cyfeiriadedd rhywiol	Mae Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad bod 'dim' effeithiau uniongyrchol posibl o ran Cyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol i Wynedd a fyddai'n newid canfyddiadau EQIA LIC.	Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl

6 Yr Iaith Gymraeg

- 6.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod rhaid i gyrff cyhoeddus Cymru ymgymryd â datblygiad cynaliadwy i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y wlad. Un Nod Lles ar gyfer cyflawni hyn yw creu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod y Gymraeg. Yn unol â hyn, mae'r EqIA hwn yn ystyried effaith bosibl yr Ardoll Ymwelwyr ar y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd.
- 6.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg cenedlaethol o'r Ddeddf.³²
- 6.3 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru hefyd ymarfer ymgynghori fel rhan o'r asesiad hwn. Canfu hyn, er nad oedd gan y mwyafrif o ymatebwyr farn benodol ynghylch effaith yr ardoll ymwelwyr ar y Gymraeg, fod nifer fach o ymatebwyr wedi mynegi pryder ynghylch yr effaith ar ganfyddiad Cymru, ac y gallai unrhyw ostyngiad mewn twristiaeth o ganlyniad i'r ardoll leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â chael effaith negyddol bosibl ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Ar y llaw arall, amlygodd rhai ymatebwyr y gallai reffeniw a godir drwy ardoll gael ei ddefnyddio i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Y Gymraeg yng Ngwynedd- ac yn y sector twristiaeth a bwyd

- 6.4 Yn hanesyddol yn gadarnle i'r Gymraeg, mae Gwynedd yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.
- 6.5 Mae Cyfrifiad 2021 yn nodi cyffredinolrwydd sgiliau yn y Gymraeg ledled Cymru. Mae cyfran y trigolion sydd â rhyw fath o sgil yn y Gymraeg (darllen, ysgrifennu, siarad neu ddeall Cymraeg llafar) yn sylweddol uwch yng Ngwynedd (74%) nag ar draws Gogledd Cymru (39%) a Chymru (25%).
- 6.6 Yn ogystal, mae cyfran trigolion Gwynedd sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (55%) bron ddwywaith cyfartaledd Gogledd Cymru (24%) ac yn fwy na thair gwaith cyfartaledd Cymru (14%). Mae hefyd yn nodi rhywfaint o effaith negyddol bosibl:

Tabl 6.1: Welsh Language (Census 2021)

Mesur		Gwynedd	Gogledd Cymru	Cymru
Sgiliau yn y Gymraeg	Unrhyw sgiliau yn y Gymraeg	74%	39%	25%
	Yn gallu deal Cymraeg llafar yn unig	7%	7%	5%
	Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	55%	24%	14%
	Dim sgiliau yn y Gymraeg	26%	61%	75%

³² Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Act 2025: Welsh Language Impact Assessment

- 6.7 Mae gan y sector dosbarthu, gwestai a bwytaï ychydig yn llai o siaradwyr Cymraeg na'r cyfartaledd ar draws pob sector, ond mae'n parhau'n uchel iawn (59% o drigolion 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth yn y sector).

Tabl 6.2: Y Gymraeg – trigolion 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth yn y sector (Cyfrifiad 2021)

	Gwynedd	Gogledd Cymru	Cymru
Pob Sector	68%	29%	17%
Dosbarthu, gwestai a bwytaï	59%	25%	14%

- 6.8 Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg (AEG) yn nodi y gallai'r ardoll ymwelwyr gael effaith bosibl ar y Gymraeg pe byddai'n cael ei chyflwyno mewn ardaloedd lle mae cyfrannau cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd. Gallai'r effeithiau hyn fod yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Potensial ar gyfer effeithiau Cadarnhaol

- 6.9 Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg (AEG) yn nodi y gallai fod effeithiau cadarnhaol yn deillio o:
- Hwb i'r economi leol drwy wariant yr ardoll, gan arwain at gynydd mewn cyflogaeth yn y sector twristiaeth – nododd yr Asesiad Effaith Economaidd y gallai fod rhwng -50 a +21 o swyddi, felly mae hyn yn debygol o fod yn effaith gymharol fach.
 - Effaith gadarnhaol o ran amlygrwydd a chysylltiad â'r Gymraeg
 - Defnyddio'r refeniw o'r ardoll i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg neu i ariannu mentrau sy'n gwella'r seilwaith a'r gwasanaethau mewn ardaloedd sydd â (neu a fu â hyd yn ddiweddar) ganran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg. Gallai hyn hyrwyddo gwelededd, bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.
- 6.10 Rydym wedi nodi pedwar maes eang lle gallai gwariant o'r Ardoll fod o fudd i'r Gymraeg – nodwch fod hyn yn ddangosol ac y bydd angen ei gadarnhau drwy brosesau llywodraethu ac yn unol â'r Ddeddf, pe bai'r Ardoll yn cael ei mabwysiadu:
1. **Cryfhau Seilwaith a Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg**, gan gynnwys:
 - Mentrau cymunedol sy'n hybu defnydd o'r Gymraeg
 - Digwyddiadau diwylliannol lleol, gwyliau, a phrofiadau ymwelwyr trwy gyfrwng y Gymraeg
 - Grantiau i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg
 2. **Cefnogi Twristiaeth Gynaliadwy sy'n Parchu Hunaniaeth Gymreig**, gan gynnwys:
 - Rhaglenni diwylliannol Cymreig
 - Dehongli ac arwyddion yn y Gymraeg

- Cadwraeth treftadaeth leol

Gallai'r rhain gryfhau hunaniaeth Gymreig mewn profiad yr ymwelwyr.

3. **Lliniaru'r Pwysau ar Gymunedau Cymraeg eu Hiaith**, gan gynnwys:
 - Rheoli pwysau twristiaeth mewn cymunedau â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg
 - Darparu, cynnal a chadw neu wella seilwaith (llwybrau, meysydd parcio ac ati)
4. **Cyfleoedd Economaidd i Siaradwyr Cymraeg**, gan gynnwys:
 - Hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg
 - Annog busnesau twristiaeth i ddefnyddio'r Gymraeg mewn brandio
 - Alinio gyda chynlluniau presennol (e.e. ARFOR) sy'n cysylltu iaith a datblygiad economaidd.

6.11 Os bydd yr ardoll ymwelwyr yn hybu gwydnwch economaidd mewn ardaloedd â chyfraddau cymharol uchel o arosiadau dros nos lle mae siaradwyr Cymraeg yn gyffredin, gallai helpu i gefnogi cyflawni un o amcanion 'Cymraeg 2050': creu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu.

6.12 Cydnabyddir pe na bai (rhan o) wariant yr ardoll yn cael ei dargedu at fentrau'r Gymraeg, y byddai'r cyfle yn cael ei golli.

Potensial ar gyfer effaithiau negyddol

6.13 Mae'r WLIA hefyd yn nodi rhai effeithiau negyddol posibl:

- Effaith economaidd negyddol bosibl yr ardoll – er, fel y nodwyd uchod, rhagwelir y gallai fod hyd at uchafswm o golled o -50 o swyddi yn y senario gwaethaf, ac felly mae'n debygol y byddai'r effaith hon yn gymharol fach.
- Yr effaith bosibl ar deithiau dros nos sy'n ceisio cefnogi'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gael effeithiau addysgol a diwylliannol. Fodd bynnag, ni fydd rhaid i rai dan 18 oed dalu'r ardoll wrth aros mewn llety arddull hostel nac ar leiniau gwersylla. Mae rhyddhadau'n berthnasol i arosiadau dros nos a ddarperir gan ddarparwyr addysg fel rhan o gwrs astudio a gynigir i ddisgyblion neu fyfyrwyr.

Crynodeb

6.14 Yn gyffredinol, mae nifer uchel o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, gan gynnwys yn y sector twristiaeth.

6.15 Gallai ardoll ymwelwyr yng Ngwynedd gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg. Gallai fod effeithiau negyddol bach yn gysylltiedig â gostyngiad mewn gwariant ymwelwyr, neu gallai fod cynnydd bach o ganlyniad i'r cyflogaeth a gefnogir drwy wariant yr ardoll.

6.16 Yn yr un modd, gallai fod effeithiau cadarnhaol yn deillio o ganlyniadau gwariant yr ardoll – bydd hynny'n dibynnu ar sut y caiff y gronfa ei gwario (a fydd yn cael ei ddatblygu gan gynnwys adborth drwy ymgynghori).

7 Statws Economaidd- Gymdeithasol

- 7.1 Er nad yw statws economaidd-gymdeithasol yn nodwedd warchodedig, mae'n berthnasol i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb ac felly caiff ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn (EqIA). Mae sawl agwedd i statws economaidd-gymdeithasol, a ystyrir isod.
- 7.2 Ystyrir statws economaidd-gymdeithasol trigolion Gwynedd yn ogystal â Gogledd Cymru er mwyn cynnwys y rhai a all deithio i mewn i Wynedd ar gyfer gwaith (nodir bod sawl ardal farchnad lafur deithio i'r gwaith (TTWA), ac felly caiff Gogledd Cymru ei defnyddio i ddal y rhai sy'n cymudo i mewn i weithio). Cymharir yr ystadegau lleol / rhanbarthol hyn ag ystadegau cenedlaethol (lefel Cymru).
- 7.3 Amcangyfrifir bod effaith yr Ardoll Ymwelwyr rhwng -50 a +21 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) (cyfeiriwch at yr Asesiad Effaith Economaidd am fwy o ddata) – mae hon yn effaith fach iawn yng nghyd-destun economi Gwynedd (mae colled o 50 o swyddi'n gyfwerth â gostyngiad o -0.1% o'r holl gyflogaeth).
- 7.4 Nid ystyrir yn uniongyrchol statws economaidd-gymdeithasol ymwelwyr, gan fod ymwelwyr sy'n gallu teithio, wrth ddiffiniad, yn gallu ariannu gweithgareddau hamdden ac yn gallu newid sut (neu ble) y maent yn gwario eu harian hamdden

Health and lifestyle

- 7.5 Gellir cymryd ffactorau iechyd a ffordd o fyw fel dangosyddion o statws economaidd-gymdeithasol. Mae cyfraddau uwch o ordewdra, ysmygu a defnydd o alcohol yn aml yn gysylltiedig ag ardaloedd o amddifadedd uchel a statws economaidd-gymdeithasol isel.
- 7.6 Yn ôl data'r ONS, yn ystod 2022–2024³³, roedd disgwyliad oes ar enedigaeth yn uwch yng Ngwynedd i ddynion a menywod nag yng Ngogledd Cymru (ar draws BIPBC – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ac ar gyfartaledd Cymru. Cymerir disgwyliad oes fel dangosydd o statws economaidd-gymdeithasol yn y Fframwaith Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Cenedlaethol i Gymru.

Tabl 7.1: Health and Lifestyle indicators

Mesur		Gwynedd	Gogledd Cymru (BIPBC)	Cymru
Disgwyliad oes ar enedigaeth (Blynnyddoedd) (2018-20)	Dynion	78.8	78.4	78.3
	Menywod	83.3	82.4	82.2

33

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/lifeexpectancyforlocalareasoftheuk>

7.7 Mae Tabl 7.2 yn dangos bod iechyd hunanasesedig yng Ngwynedd yn fras yn unol â chyfartaleddau Gogledd Cymru a Chymru. Mae ychydig yn llai o bobl yn anabl, fel y diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Tabl 7.2: Iechyd ac Anabledd (Cyfrifiad 2021)

		Gwynedd	Gogledd Cymru (BIPBC)	Cymru
Iechyd wedi'i asesu'n hunan	Da iawn/ iawn	81%	80%	79%
	Gweddol	13%	14%	14%
	Drwg/Drwg iawn	6%	6%	7%
Anabledd yn unol a'r Ddeddf Cydraddoldeb	Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu'n fawr	8%	9%	10%
	Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig	11%	11%	11%

7.8 Mae'r JLDP yn parhau i anelu at wella hyn drwy hyrwyddo cymunedau llewyrchus, iach a diogel. Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau negyddol ar iechyd pe bai'n arwain at gynnydd mewn diweithdra neu ostyngiad mewn gweithgarwch economaidd, ond disgwylir i'r effaith ar swyddi fod yn isel iawn. I'r gwrthwyneb, gallai'r ardoll gael effaith gadarnhaol ar iechyd pe bai'n arwain at gynnydd mewn cyflogaeth (drwy wariant yr ardoll) ac, drwy wariant yr ardoll, pe bai (er enghraifft) yn annog cydlynant cymunedol neu'n gwella asedau lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant.

Cymwysterau

7.9 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi lefel cymwysterau poblogaeth fel dangosydd llesiant.

7.10 1.2 Yn gyffredinol, mae lefel uchaf cymwysterau poblogaeth Gwynedd ychydig yn uwch na'r lefelau ³⁴gofodol eraill. Mae cyfran y bobl ifanc â chymwysterau addysg bellach neu uwch (19%) ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (18%) – mae'r patrwm hwn i'w weld ar draws pob graddfa ofodol.

7.11 1.3 Mae gan Wunedd gyfran is o bobl heb gymwysterau – 16% o oedolion dros 16 oed, o'i gymharu â 19% ac 20% ar draws Gogledd Cymru a Chymru, yn y drefn honno.

Tabl 7.3: Cymwysterau (Cyfrifiad 2021) – % o drigolion dros 16 oed

Mesur		Gwynedd	Gogledd Cymru	Cymru
Dim cymwysterau	Cyfanswn	16%	19%	20%

³⁴ Office for National Statistics, 2021. Census.

	Oed 16-24	9%	12%	11%
	Oed 25-64	11%	12%	14%
	Oed 65+	32%	35%	38%
TGAU neu gyfwerth Lefel A	Cyfanswm	41%	41%	40%
	Aged 16-24	69%	66%	66%
	Oed 25-64	42%	44%	42%
	Oed 65+	25%	26%	24%
Addysg Bellach neu Uwch	Cyfanswm	35%	31%	32%
Cymwysterau Eraill	Cyfanswm	8%	9%	8%
	Oed 16-24	4%	5%	5%
	Oed 25-64	7%	7%	7%
	Oed 65+	14%	15%	14%

Gweithgareddau Economaidd

- 7.12 Mae cyfradd gweithgarwch economaidd yng Ngwynedd (77%) yn fras yn unol â'r lefelau gofodol eraill (78% yng Ngogledd Cymru a 76% ar draws Cymru). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi cyfran y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth nac addysg fel dangosydd llesiant allweddol. Ceir lefelau uchel o a weithgarwch economaidd ymhlith y rhai 16 i 19 oed ar draws pob lefel ofodol, ac mae hyn yn arbennig o amlwg ar lefel Gwynedd.
- 7.13 Mae cyfradd diweithdra yng Ngwynedd (6%) yn uwch nag yng Ngogledd Cymru (4%) a Chymru (5%). Unwaith eto, mae diweithdra'n uwch ymhlith pobl ifanc (yn enwedig 16–19 oed), ac mae hyn yn fwy amlwg yng Ngwynedd.
- 7.14 Mae hyrwyddo gweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc, yn ogystal â chadw'r rhai sy'n economaidd weithgar, yn flaenoriaethau i Gynllun Cenedlaethol Cymru a JLDP Ynys Môn a Gwynedd.
- 7.15 Mae data cyfrif hawlwyr yn dangos patrymau tebyg, gyda 3% o drigolion yn hawlio budd-daliadau'n bennaf oherwydd bod yn ddi-waith – yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol.
- 7.16 Gallai'r ardoll ymwelwyr arwain at gynydd bach neu ostyngiad bach mewn cyflogaeth – fel y nodwyd uchod, mae maint yr effaith yn golygu ei bod yn debygol y bydd yr effaith gyffredinol ar weithgarwch economaidd a diweithdra yn fach.

Tabl 7.4: Gweithgarwch Economaidd a Digartrefedd

Mesur		Gwynedd	Gogledd Cymru	Cymru
Cyfradd gweithgarwch economaidd (APS Hydref 2024 – Medi 2025)	Cyfanswm(16 - 64)	77%	78%	76%
	Oed 16-19	54%	45%	43%
	Oed 20-24	59%	69%	70%
	Oed 25-34	91%	89%	86%

Cyfradd diweithdra (APS Hyd 2024–Medi 2025)	Oed 35-49	86%	86%	86%
	Oed 50+	42%	41%	39%
	Cyfanswm (16 - 64)	6%	4%	5%
	Oed 16-19	38%	*	29%
	Oed 20-24	*	*	11%
	Oed 25-34	6%	*	3%
	Oed 35-49	*	*	3%
	Oed 50+	3%	*	3%
	Cyfrif Hawlwyr (Rhagfyr 2025) – Hawlwyr fel cyfran o'r trigolion	3%	*	3%

*Nid yw ffigur ar gael ar y lefel ofodol hon.

Incwm

- 7.17 Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn nodi cyflogau fel dangosydd allweddol o statws economaidd-gymdeithasol..
- 7.18 Mae'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn darparu data ar gyflog trigolion a gweithwyr yn ogystal ag oriau a weithiwyd. Yn 2025, roedd y cyflog gros wythnosol cyfartalog i breswlydd yng Ngwynedd yn £542, yn is na Chymru (£602). Roedd cyflog gweithwyr yng Ngwynedd hefyd yn is na'r cyfartaledd Cymreig (£541 o'i gymharu â £590). The 10th percentile for weekly wage in Gwynedd is broadly in line with the Welsh average for both residents (£221 compared to £223) and workers (£213 compared to £217).
- 7.19 Mae'r 10fed canran ar gyfer cyflog wythnosol yng Ngwynedd yn fras yn unol â chyfartaledd Cymru ar gyfer preswylwyr (£221 o'i gymharu â £223) a gweithwyr (£213 o'i gymharu â £217).
- 7.20 Nid yw data yn ôl sector ar gael ar lefel is na lefel gwlad (Cymru). Mae'r sector llety a bwyd yng Nghymru fel arfer yn talu llai na'r cyfartaledd ar draws yr holl swyddi, yn rhannol (ond nid yn gyfan gwbl) oherwydd nifer uchel o swyddi rhan-amser. Unwaith eto, i'r graddau y byddai'r ardoll yn arwain at newid mewn incwm, gallai fod newid (bach) mewn incwm.

Tabl 7.5: Cyflog Gros Wythnosol 2025

	Mesur	Preswlydd- Pob Sector		Gweithiwr- Pob Sector		Gweithiwr- Llety a Bwyd
		Gwynedd	Cymru	Gwynedd	Cymru	Cymru
Medr	Llaw'n Amser	£ 669	£ 719	£ 665	£ 704	£519
	Rhan Amser	£ 304	£ 292	£ 299	£ 290	£201
	Pob Un	£ 542	£ 602	£ 541	£ 590	£293
10fed Canran	Llaw'n Amser	£ 478	£ 487	£ 481	£ 483	£415
	Rhan amser	£ 114	£ 90	£ 100	£ 92	x

Pob Un	£	221	£	223	£	213	£	217	£82
--------	---	-----	---	-----	---	-----	---	-----	-----

**Nid yw ffigur ar gael ar y lefel ofodol hon.*

Amddifadedd


7.21 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Llywodraeth Cymru (2025) yn cyfuno dangosyddion sy'n cynnwys amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac ym maes tai, er mwyn cynhyrchu sgôr amddifadedd ar gyfer pob ardal ledled Cymru (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is [LSOA]). Mae wyth parth o amddifadedd sy'n cael eu hystyried:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad at wasanaethau
- Tai
- Diogelwch cymunedol
- Amgylchedd ffisegol

7.22 Caiff pob ardal ei graddio o'i chymharu â'i gilydd yn ôl lefel ei hamddifadedd. Mae Ffigur 4.2 isod yn dangos lefelau cymharol amddifadedd yng Ngwynedd – mae ardaloedd a ddangosir mewn coch ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig, mae ardaloedd mewn oren ymhlith y 10%–20% mwyaf difreintiedig ac mae ardaloedd mewn melyn ymhlith y 20%–30% mwyaf difreintiedig.

7.23 Fel y dangosir yn Ffigur 4.2, mae rhai ardaloedd yng Ngwynedd ymhlith y 20%–30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae ardaloedd bach ym Mangor a Chaernarfon ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ffigwr 77:1 Map IMD ar gyfer Gwynedd



7.24 Bydd defnydd o'r arian o'r ardoll yn cael ei ailfuddsoddi at ddibenion rheoli a gwella cyrchfan yn yr ardal, gan gynnwys darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer defnydd ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd ar gyfer defnydd pobl leol ai peidio), a lliniaru effaith ymwelwyr. Yn dibynnu ar sut y caiff y gronfa ei defnyddio, gallai leihau amddifadedd (neu ddangosyddion amddifadedd) a/neu arwain at welliannau o ganlyniad i'r buddsoddiad.

Tai a Sefyllfa Byw

7.25 Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 2% o aelwydydd yng Ngwynedd yn byw mewn cartrefi gorllawn (graddfa llenwi ystafelloedd gwely o -1 neu lai). Mae hyn yn gyson â'r ardaloedd gofodol eraill. Mae cyfran yr aelwydydd sydd â char (82%) yn fras yn unol â chyfartaledd Gogledd Cymru (83%) a Chymru (81%).

7.26 Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn darparu data ar ddeiliadaeth tai. Yng Ngwynedd, mae cyfran yr aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi (66%) yn unol â chyfartaledd Cymru ac yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru (68%). Wrth edrych ar ddeiliadaeth yn ôl oedran prif ddeiliad yr aelwyd, mae gan Wunedd gyfrannau ychydig yn is o aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi ar draws pob grŵp oedran na Gogledd Cymru a chyfartaleddau cenedlaethol Cymru. Mae cyfran yr aelwydydd sy'n rhentu yn gymdeithasol ac yn breifat ychydig yn uwch ar draws y gwahanol lefelau gofodol

I'r graddau y byddai galw ymwelwyr yn gostwng o ganlyniad i'r ardoll hon (sy'n debygol o fod yn gymharol fach), gallai hyn leddfu rhywfaint o'r pwysau ar y sector rhentu preifat.

7.27 I'r graddau y byddai galw ymwelwyr yn gostwng o ganlyniad i'r ardoll hon (sy'n debygol o fod yn gymharol fach), gallai hyn leddfu rhywfaint o'r pwysau ar y sector rhentu preifat

Tabl 7.6 Tai a Sefyllfa byw

Mesur		Gwynedd	Gogledd Cymru	Cymru
Gorlenwi (Graddfa llenwi l -1 a -2 neu lai, ystafloedd gwely)		2%	2%	2%
Catrefi sy'n eiddo l berchnogion	Cyfanswm**	66%	68%	66%
	Oed 16-64**	59%	62%	60%
	Oed 65+**	78%	79%	79%
Catrefi rhent Preifat	Cyfanswm**	18%	17%	17%
	Oed16-64**	22%	22%	22%
	Oed 65+**	9%	8%	7%
Catrefi rhent cymdeithasol	Cyfanswm**	17%	16%	16%
	Oed 16-64**	18%	17%	18%
	Oed 65+**	14%	13%	14%
Un neu fwy o geir neu fan yn y cartref		82%	83%	81%

**Yn ôl person cyfeirio'r cartref.*

Effaith gyffredinol ar statws economaidd-gymdeithasol

- 7.28 Mae dangosyddion iechyd a ffordd o fyw yn awgrymu bod Gwynedd yn gyffredinol yn fras yn unol â chyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc a lefelau incwm isel yn parhau'n her, ac mae pocedi o amddifadedd uchel.
- 7.29 Mae unrhyw effeithiau cyflogaeth o ganlyniad i'r ardoll yn debygol o fod yn gymharol fach (a gallent fod ychydig yn gadarnhaol neu ychydig yn negyddol).
- 7.30 Bydd defnydd o'r arian o'r ardoll yn cael ei ailfuddsoddi at ddibenion rheoli a gwella cyrchfan yn yr ardal, gan gynnwys darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer defnydd ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd ar gyfer defnydd pobl leol ai peidio), a lliniaru effaith ymwelwyr. Yn dibynnu ar sut y caiff y gronfa ei defnyddio, gallai leihau amddifadedd (neu ddangosyddion amddifadedd) a/neu arwain at welliannau o ganlyniad i'r buddsoddiad.

8 Atodiad A- Data Preswylwyr

Tabl 8.1: Crynodeb Preswylwyr

Mesur		Gwynedd	Gogledd Cymru	Cymru
Poblogaeth		117,400	686,900	3,100,000
Strwythur oedran	Oed 0-15	17%	17%	18%
	Oed 16-64	60%	59%	61%
	Oed 65+	23%	23%	21%
Dynion/Merched		49% / 51%	49% / 51%	49% / 51%
Cyfanswm hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw cofrestredig ar genedigaeth		0.4%	0.3%	0.5%
Hoyw, Lesbïaidd neu ddeurywiol		3%	2%	3%
Heb ateb		9%	8%	8%
Sengl		40%	35%	37%
Priod/Partneriaeth Sifil		42%	45%	44%
Wedi ysgaru/Wedi gwahanu/Gweddwy neu Wed-dwraig		18%	20%	19%
Cyfraddau Ffrwythlondeb Cyffredinol (nifer y genedigaethau byw y flwyddyn fesul 1,000 o fenywod 15 i 44 oed)		42.7	*	45.7
Ethnigrwydd	Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	2%	1%	3%
	Du/Du Prydeinig	0%	0%	1%
	Cymysg/Sawl grwp ethnig	1%	1%	2%
	Gwyn	96%	97%	94%
	Arall	1%	0%	1%
Lleoliad Geni	DU	95%	94%	93%
	Ewrop (ac eithrio'r DU)	3%	4%	3%

	Affrica	1%	1%	1%
	Y Dwyrain Canol ac Asia	2%	1%	2%
	America a'r Caribi	1%	0%	0%
	Antartica a Oceania	0%	0%	0%
Prif Iaith	Saesneg neu Gymraef	98%	97%	97%
	Ewropeaidd	1%	2%	2%
	Y tu allan l'r DU ac Ewrop	1%	1%	2%
	Cristion	46%	50%	44%
	Bwdhaidd	0%	0%	0%
	Hindw	0%	0%	0%
	Iddewig	0%	0%	0%
	Mwslim	1%	1%	2%
	Sîc	0%	0%	0%
	Crefydd Arall	1%	0%	1%
	Dim crefydd	44%	42%	47%
	Heb ateb	7%	7%	6%
Iechyd wedi'i asesu'n hunan	Gweithgareddau o ddydd I ddydd wedi'u cyfyngu'n fawr	81%	80%	79%
	Gweithgareddau o ddydd I ddydd wedi'u cyfyngu ychydig	13%	14%	14%
	Gweithgareddau o ddydd I ddydd wedi'u cyfyngu'n fawr	6%	6%	7%
Anabledd yn unol a'r Ddeddf Cydraddoldeb	Gweithgareddau o ddydd I ddydd wedi'u cyfyngu ychydig	8%	9%	10%
	Gweithgareddau o ddydd I ddydd wedi'u cyfyngu'n fawr	11%	11%	11%

Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Asesiad 10/04/2026: Ardoll Ymwelwyr

Awdur: Roland Wyn Evans (ECON A CMND)

Teitl Swydd: Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned

Dyddiad: 10/04/2026

Fersiwn: Ardoll Ebrill 2026

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol (cyfeiriwch at unrhyw AEC cenedlaethol ac ystyried effaith leol)
- Polisiâu, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Mae Cyngor

Gwynedd yn edrych i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar gyfer pob llety gwyliau ac arosiadau dros nos cymwys fel a amlinellir yn neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 o fewn i ffiniau awdurdod lleol Cyngor Gwynedd o'r 1 Hydref 2027. Bydd hyn ar gyfer pob darparwr llety fydd yn gorfod cofrestru ar gofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety.

Bydd yr Ardoll yn cael ei chodi ar gyfradd y person

y noson fel a amlinellir yn y ddeddf. Bydd yr Ardoll yn cael ei chasglu gan y darparwr llety. Bydd y cyfraddau cychwynnol fel a amlygir yn y ddeddf:

Math o lety	Cyfradd (y person, y noson)
Maes gwersylla (Pebyll) a lloffttydd a rennir (fel hosteli a dorm)	£0.75c (0.90c efo TAW)
Pob math arall o lety gwyliau	£1.30 (£1.56 efo TAW)

Eithriadau

Ni fydd disgwyl talu'r ardoll os ydych:

- O dan 18 oed ac yn aros mewn gwersyll neu ystafell a rennir (megis hostel neu dorm);
- Yn aros am fwy na 31 noson mewn un arhosiad; ac
- Mewn llety argyfwng neu dros dro wedi ei drefnu gan gyngor lleol.

Ad-daliadau

Bydd y canlynol yn gymwys i ymgeisio am ad-daliad gan Awdurdod Cyllid Cymru:

- Pobl anabl sy'n talu costau ardoll ychwanegol pan fydd ganddynt ofalwr; a
- Pobl sy'n ffoi o drais yn y cartref.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Mae'r Canllawiau yn nodi'r canlynol fel ymgynghorai gorfodol y dylid eu cynnwys wrth ddatblygu'r Ardoll:

- Pobl leol, h.y. pobl sy'n byw, gweithio neu astudio yn ardal yr Awdurdod Lleol.
- Cyngorau cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol.
- Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (yn ôl ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol).

- Y prif gyngor ar gyfer ardal sy'n ffinio ag ardal y cyngor sy'n ymgynghori, h.y. cynghorau cyfagos, fel eu bod yn ymwybodol o'r cynlluniau. Efallai y bydd yr awdurdodau hefyd yn dymuno ystyried a oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Yn achos Gwynedd mae hyn yn cynnwys Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Phowys.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal yr Awdurdod Lleol
- Pwyllgor ar y cyd corfforaethol sy'n cynnwys fel aelod o leiaf un aelod gweithredol uwch o'r prif gyngor.
- Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio ym maes twristiaeth, neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn ardal y prif gyngor; a/neu'n hyrwyddo neu'n hwyluso twristiaeth yn ardal y cyngor.
- Lle mae'r cynnig i gyflwyno'r ardoll, dylai'r ymgynghoriad gynnwys pob person a nodir yn yr adroddiad yn rhinwedd adran 47(5)(c) o'r Ddeddf (sy'n cyfeirio at aelodaeth arfaethedig y fforwm partneriaeth ardoll ymw elwyr) nad yw fel arall yn ymgynghorydd gorfodol.

Bydd y Cyngor yn gweithio trwy strwythurau Partneriaeth Gwynedd & Eryri 2035 yn ogystal er mwyn datblygu'r cynigion ac yngynghori yn lleol.

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Ymgynghoriad Cyhoeddus	Mai - Gorffennaf 2026	Os cymeradwyir ymgynghori gan y Cyngor Llawn bydd proses ymgynghori cyhoeddus ffurfiol gan ddilyn canllawiau Gunning yn cael ei weithredu i gyrchu barn.
Datblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035	2019 - 2023	Ymgynghorwyd yn helaeth wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal.
Ymgynghori anffurfiol	2023 - 2025	Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol ac fe holwyd barn trwy Holiadur Trigolion Gwynedd a Holiadur Busnes Gwynedd.

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Rydym wedi ystyried yr ymgynghoriadau a wnaethpwyd wrth ddatblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 yn ogystal â'r hyn a nodir uchod o ran holiaduron cychwynnol ac ymgysylltu gyda busnesau, unigolion a chymunedau. Wrth ddatblygu'r Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 defnyddiwyd llawer o waith ymchwil ac ystadegau lleol er mwyn llunio ein hegwyddorion a'n blaenoriaethau gweithredu. Mae'r ymchwil a'r ystadegau'n cynnwys: Adolygiad Llety Twristiaeth Lleol (2018/19, Cyngor Gwynedd)	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae'r Adroll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys sy'n cynnwys pobl sy'n byw yng Nghymru yn ogystal â ymwelwyr o wledydd eraill. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Byddwn yn ceisio ymgysylltu yn gynhwysol trwy ddarparu fersiwn hawdd i'w ddarllen. Gallwn ystyried cynnig cyfieithu i ieithoedd eraill nad yw'n Gymraeg neu'n Saesneg.

	• Adolygiad Ymwelwyr Croeso Cymru a Chyngor Gwynedd (2019, Beaufort Research) • Adolygiad Elwa o Dwristiaeth – ystyriaeth o'r opsiynau i ariannu blaenoriaethau yn y dyfodol (Mai 2019, Blue Chip Tourism a RJS Associates Cyf). • Adolygiad o'r Bartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan (Hydref 2019, Blue Chip Tourism a RJS Associates Cyf.) • Cynllun Eryri (2020, Parc Cenedlaethol Eryri) • Strategaeth Parcio a Theithio Cynaliadwy Yr Wyddfa ac Ogwen (2020, Parc Cenedlaethol Eryri) • Cynllun Cyngor Gwynedd (2018, Cyngor Gwynedd) • Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (Rhagfyr 2020, Cyngor Gwynedd) • Ymchwil i sefyllfa Cartrefi modur yng Ngwynedd (Medi 2021, Cyngor Gwynedd) Rydym hefyd wedi ystyried yr asesiadau effaith cenedlaethol sydd wedi eu llunio gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth. Mae arfer dda gan ardaloedd eraill hefyd wedi ei ystyried e.e. Caeredin. Mae asesiadau effaith integredig sydd wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar sail ymgynghoriad cyhoeddus, ystadegau a gwaith ymchwil a gomisiynwyd ganddynt. Mae'r asesiad yn nodi bod twristiaeth yn dod ag effeithiau cadarnhaol a negyddol i Gymru – er enghraifft trwy fuddion economaidd, cyflogaeth, cadwraeth safleoedd ayb, ond hefyd mae'n dod a heriau i gymunedau	
--	--	--

	oherwydd y pwysau ar wasanaethau lleol a seilwaith a rennir gyda preswylwyr a heriau ail-gartrefi ac effeithiau amgylcheddol. Rydym wedi comisiynu Asesiadau Effaith Economaidd a Chydraddoldeb gan ymgynghorydd profiadol.	
Anabledd	Gweler tystiolaeth blaenorol a nodwyd o ran Hil.	Mae darpariaeth yn y ddeddf i Awdurdod Cyllid Cymru roi ad-daliadau i bobl sy'n cael budd-dal anabledd sydd yng nghwmni rhywun sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth iddynt. Bydd yr ymgynghoriad yn defnyddio fersiwn hawdd i'w ddarllen a gallwn gynnig opsiwn print bras ar gais. Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll wella gwasanaethau a mynediad mewn safleoedd trwy e.e. osod rampiau, cyfleusterau cyhoeddus hygrych i bawb, gwella mynediad i draethau neu llwybr yr arfordir gydag cadeiriau olwyn pwrpasol er enghraifft.
Rhyw	Gweler tystiolaeth a gwybodaeth blaenorol.	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Gallai buddsoddiadau o incwm Ardoll gael eu blaenoriaethu i gynlluniau sgiliau neu i wella cyflogau yn y sector ac ymestyn y tymor yn lleol. Mae llawer o weithlu'r diwydiant yn fenywod a gallai hyn gael effaith bositif ar eu cyflogaeth.
Oedran	Gweler ymateb blaenorol o ran tystiolaeth.	Nid oes disgwyl i bobl ifanc o dan 18 oed dalu ar y raddfa is sy'n bositif ar gyfer ymweliadau

		addysgiadol neu ymweliadau i feysydd gwersylla neu hosteli. Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Gallwn ystyried darparu'r wybodaeth ymgysylltu mewn dull hygyrch yn ôl y gofyn. Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bob oedran e.e. prosiectau mynediad i bobl hyn, gofodau dementia gyfeillgar, digwyddiadau a gweithgareddau i blant a theuluoedd ayb.
Crefydd a Chred	Gweler ymateb blaenorol i dystiolaeth a gwybodaeth.	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Gweler dystiolaeth a gwybodaeth blaenorol.	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb.
Ail-bennu rhywedd	Gweler dystiolaeth a gwybodaeth blaenorol.	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol.

		Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb.
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Gweler tystiolaeth a gwybodaeth blaenorol.	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Gweler tystiolaeth blaenorol.	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb.
Iaith Gymraeg	Gweler ymateb blaenorol.	Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, gallai effeithiau ar y Gymraeg ymddangos os yw'r ardoll yn lleihau cystadleurwydd a phroffidioldeb y sector twristiaeth, sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys yr ymwelwyr hynny rhag cynnal ymweliadau addysgol â chyrchfannau yng Nghymru. Fe allai'r ardoll gefnogi'r diwydiant twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth neu fentrau mewn rhanbarthau Cymraeg eu hiaith. Mae'n debygol y bydd effaith fach iawn/dim effaith fesuradwy oherwydd yr ardoll ar y defnydd o'r Gymraeg heblaw sylweddoli efallai y byddai llai o

		gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg petai colled o ran y galw. Nid oes tystiolaeth yn dangos y byddai pobl yn gadael eu cymunedau oherwydd ardoll ymwelwyr.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Gweler ymateb blaenorol.	Yn ôl asesiad integredig Llywodraeth Cymru, fe allai trethi uwch atal teithwyr sydd ar gyllideb neu unigolion sydd ag incwm is rhag ymweld ag ardaloedd sy'n mabwysiadu ardoll, gan godi pryderon o bosibl am degwch a chynwysoldeb. Fodd bynnag, mae'r ardoll wedi'i chynllunio gyda dwy gyfradd a fydd yn cael eu cymhwyso fesul person y noson. Y gyfradd sylfaenol fydd £1.30 ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o lety a bydd cyfradd is ar gyfer hosteli a safleoedd gwersylla o £0.75. Mae ychwanegu cyfradd is yn cydnabod bod cost y mathau hyn o lety yn is o gymharu ag eraill. Yn ogystal, ni fydd pobl ifanc dan 18 mlwydd oed wedi eu cynnwys yn y tâl a gyfrifir ar gyfer yr ardoll ymwelwyr mewn arosiadau cyfradd is. Golyga hyn na fydd raid iddynt dalu'r ardoll pan gaiff ei throsglwyddo gan ddarparwr gan na fyddant wedi eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r ardoll (h.y. nid oes ardoll i'w throsglwyddo). Er mwyn lleihau'r risg i'r ardoll ddod yn rhwystr i bobl dan anfantais economaidd gymdeithasol sy'n mynd ar wyliau yng Nghymru, gall Gweinidogion Cymru hefyd asesu a newid y cyfraddau a nodir yn y ddeddfwriaeth. Y bwriad yw y bydd y refeniw o'r ardoll yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol drwy ddarparu buddion o welliannau i'r ardal leol, trwy

		ddefnyddio'r refeniw i helpu i gynnal ac adfywio'r gwasanaethau a'r seilwaith lleol.
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Gweler ymateb blaenorol.	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae darpariaeth yn y ddeddf i Awdurdod Cyllid Cymru roi ad-daliadau i bobl sy'n cael budd-dal anabledd sydd yng nghwmni rhywun sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth iddynt. Bydd yr ymgynghoriad yn defnyddio fersiwn hawdd i'w ddarllen a gallwn gynnig opsiwn print bras ar gais. Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll wella gwasanaethau a mynediad mewn safleoedd trwy e.e. osod rampiau, cyfleusterau cyhoeddus hygrych i bawb, gwella mynediad i draethau neu llwybr yr arfordir gydag cadeiriau olwyn pwrpasol er enghraifft.
Hawliau Dynol	Gweler ymatebion blaenorol.	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol.
Arall	Dim	Dim

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Mae bylchau o ran tystiolaeth yn bodoli ynghylch effaith cyflwyno Ardoll mewn ardal leol ac rydym wedi comisiynu cymorth i geisio ymateb i hynny gan ystyried yr ymchwil sydd wedi ei gynnal gan Lywodraeth Cymru – ond bydd rhai bylchau yn parhau oherwydd dibynadwyedd y data sydd ar gael.

Gobeithio y bydd modd ymateb i rai o'r bylchau hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus os bydd y Cyngor Llawn yn cymeradwyo cymryd y cam yma.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Ni chredir y bydd yna effaith gronnus ar unrhyw grwpiau.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Bydd yr Ardoll yn cefnogi gweithredu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 sy'n annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal. Gallai buddsoddiadau incwm yr Ardoll gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion er mwyn gweithredu prosiectau penodol i gael gwared a cham-wahaniaethu.

Trwy ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion penodol byddwn yn gallu adnabod yr hyn mae grwpiau o fewn ein cymunedau, a'r pobl sy'n ymweld, ei angen er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

Bydd y Fforwm Partneriaeth Ardoll Lleol a gweithredu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 yn sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu clywed. Gallai prosiectau a gefnogir gan yr incwm Ardoll yn lleol gefnogi gweithgareddau penodol i hyrwyddo cyfleodd cyfartal o fewn ein cymunedau ac ar gyfer y rhai sy'n ymweld.

Bydd sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll fel rhan o drefniadau gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 yn sicrhau bod gweithredu yn cael ei flaenoriaethu ar sail barn y Bartneriaeth a phartneriaid allweddol.

Mae strwythur Gwynedd ac Eryri 2035 yn bartneriaeth sy'n annog cydweithio ymysg sector twristiaeth Gwynedd ac Eryri, cymunedau a mentrau lleol ac awdurdodau cyhoeddus.

Bydd sefydlu cynllun cyfathrebu yn hanfodol er mwyn rheoli'r neges os yw Gwynedd yn mabwysiadu'r ardoll ac osgoi unrhyw ddrwg-deimlad neu gyhuddiadau ein bod yn hiliol.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Wrth ddatblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri

2035, ystyriwyd nifer o ffactorau oedd yn creu rhwystredigaeth l gymunedau yn sgil niferoedd yr ymwelwyr l rai ardaloedd ac effaith ail-gartrefi, amodau cyflogaeth yn y sector a'r angen l ymateb trwy gael cynllun economi ymweld cynaliadwy yn ei le.

Bydd gweithgareddau a gefnogir trwy weithredu'r Ardoll yng Ngwynedd yn ceisio cynorthwyo l wella'r darpariaethau lleol ac fe allai e.e. wella t rafnidiaeth cyhoeddus wella mynediad trigolion at gyfleon gwaith. Fe allai arwain at ymestyn y tymor fyddai yn ei dro yn gwella cyfleon cyflogaet h trwy'r flwyddyn yn y sector.

Bwriedir ymgysylltu efo cynrychiolwyr ar ran grwpiau gwarchodedig wrth ddatblygu a blaenoriaethu Cynllun Gweithredu blynyddol gan y Bartn eriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy a'r drefn o flaenoriaethu fydd yn cael ei fabwysiadu gan y Fforwm Partneriaeth Ardoll. Bydd hyn yn ein ca niataú i adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig o fewn y cymunedau ac ymwelwyr posib.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Pe mabwysiadir yr Ardoll yng Ngwynedd, bydd yn cefnogi gweithredu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035. Mae'r Cynllun yn hyrwyddo economi ymweld i bawb ac yn annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal gyda'r weledigaeth a'r egwyddorion canlynol:

“Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri”

Rydym wedi mabwysiadu egwyddorion pendant i hyrwyddo'r iaith:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, iaith, Diwylliant a Threftadaeth
1. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
1. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

O ganlyniad i fuddsoddi incwm yr Ardoll er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'r egwyddorion, disgwylir y bydd mwy a gwell ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg gan y sector economi ymweld, yn ogystal a chyfleon gyrfa mwy sefydlog o fewn y sector i bobl leol.

Gallai incwm yr Ardoll hefyd gefnogi gweithgareddau ymchwil a datblygu er mwyn cefnogi a datblygu'r Gymraeg yn ein cymunedau a'n busnesau. Byddai hefyd o gymorth i weithredu elfennau o Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023-2033, yn y meysydd blaenoriaeth gwaith a gwasanaeth, cymunedau ac ymchwil a thechnoleg

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
2. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.
3. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol y gallai'r Ardoll Ymwelwyr gefnogi pe byddai'n cael ei fabwysiadu:
 - GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
 - GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
 - GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
 - GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

I2. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan contractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Byddwn yn dilyn trefniadau caffael corfforaethol y Cyngor gan sicrhau bod cymalau a sgorio o ran yr iaith, dyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ran o'n prosesau.

Partneriaeth:

Pe bydd Ardoll yn cael ei fabwysiadu yng Ngwynedd, bydd disgwyl i ni weithio mewn partneriaeth wrth flaenoriaethu unrhyw fuddsoddiad incwm Ardoll yn yr ardal a byddwn yn defnyddio Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn gwneud hynny.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

I3. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

O ystyried y dystiolaeth bresennol gallai rhai effeithiau negyddol gael eu codi, ond mae ail-fuddsoddi'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll efo'r potensial o gefnogi deilliannau positif ar y diwydiant, ein cymunedau, yr amgylchedd a'r Gymraeg.

Gall mabwysiadu Ardoll yn ardal Gwynedd gefnogi gwireddu gweledigaeth ac egwyddrion Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035. O weithredu trwy strwythur y Partneriaeth, sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd a gweithredu'r cynllun yn effeithiol ac yn gynhwysol, monitro gweithrediad trwy fesuryddion newydd, bydd modd ystyried ac ymateb i unrhyw effeithiau negyddol mewn modd cadarnhaol.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Mae asesiad integredig Llywodraeth Cymru yn nodi:

- Newidiadau yng ngwariant ymwelwyr – er mwyn darparu ar gyfer cost ychwanegol yr ardoll, efallai y bydd rhai ymwelwyr yn gwario llai mewn meysydd eraill (er enghraifft, gwariant eilaidd ar brydau bwyd neu adloniant). Gall hyn effeithio ar refeniw busnesau ehangach yn yr ardal leol sy'n elwa o wariant ymwelwyr.
- Newidiadau yn nifer yr ymwelwyr - yn y sefyllfa fwyaf eithafol fe all rhai ymwelwyr ddewis ymweld ag ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol h.y. y rhai sydd ddim yn codi ardoll, neu wlad arall yn gyfan gwbl, er mwyn osgoi cost ychwanegol yr ardoll. Mae ymchwil yn awgrymu bod hyn yn fwy tebygol yn y cyfnod cyflwyno cychwynnol, ond y gallai'r effeithiau hyn leihau wrth i dderbyn yr ardoll gynyddu.
- Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau cymysg ar wahanol grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, yn dibynnu ar esemptiadau a sut mae'r refeniw yn cael ei ddefnyddio.
- Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar yr amgylchedd, yn dibynnu ar y newidiadau yn nifer yr ymwelwyr ac ail-fuddsoddiad y refeniw.

I4. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhai themâu allweddol drwy'r broses asesu effaith:

- Gallai'r ardoll ymwelwyr gynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.
- Newidiadau yng ngwariant ymwelwyr – er mwyn darparu ar gyfer cost ychwanegol yr ardoll, efallai y bydd rhai ymwelwyr yn gwario llai mewn meysydd eraill (er enghraifft, gwariant eilaidd ar brydau bwyd neu adloniant). Gall hyn effeithio ar refeniw busnesau ehangach yn yr ardal leol sy'n elwa o wariant ymwelwyr.

- Newidiadau yn nifer yr ymwelwyr - yn y sefyllfa fwyaf eithafol fe all rhai ymwelwyr ddewis ymweld ag ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol h.y. y rhai sydd ddim yn codi ardoll, neu wlad arall yn gyfan gwbl, er mwyn osgoi cost ychwanegol yr ardoll. Mae ymchwil yn awgrymu bod hyn yn fwy tebygol yn y cyfnod cyflwyno cychwynnol, ond y gallai'r effeithiau hyn leihau wrth i dderbyn yr ardoll gynyddu.
- Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau cymysg ar wahanol grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, yn dibynnu ar esemptiadau a sut mae'r refeniw yn cael ei ddefnyddio.
- Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar yr amgylchedd, yn dibynnu ar y newidiadau yn nifer yr ymwelwyr ac ail fuddsoddiad y refeniw.
- Fe allai mabwysiadu'r ardoll hefyd arwain at wella cyflogaeth o fewn y sector trwy ymestyn y tymor.

Er bod rhai effeithiau negyddol wedi'u codi a'u cofnodi, mae gan ail-fuddsoddi'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll gan awdurdodau lleol y potensial i gefnogi'r diwydiant hwn, er enghraifft drwy wella cynnig twristiaeth Cymru neu ansawdd ein hatyniadau presennol. Yn y tymor hwy, gall hyn gryfhau cynnig Cymru a chefnogi'r duedd barhaus o dwf cynaliadwy yn nifer yr ymwelwyr.

Mae mabwysiadu a gweithredu Ardoll yng Ngwynedd yn mynd i fod yn gerbyd i sicrhau economi ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri.

Bydd Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd yn cyfarfod oddi mewn i strwythur gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn mesur unrhyw effeithiau negyddol. Bydd y Fforwm Partneriaeth Ardoll yn cynnwys cynrychiolaeth gan bartneriaid allweddol, y sector a chymunedau.

I 5. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon.

I 6. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a

meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Bydd monitro parhaol o weithredu'r Ardoll gan Swyddogion Cyngor Gwynedd ac hefyd o fewn i Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd os oes penderfyniad i fwrw ymlaen.

Disgwylir y bydd adolygiad ffurfiol o'r Ardoll a'i gyfraniad i Gynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 yn flynyddol gan y Fforwm Partneriaeth Ardoll ac o fewn i strwythur rheoli Partneriaeth G&E2035.

Byddwn yn ail-ymweld â'r asesiad effaith yma yn flynyddol ond yn fwy aml na hynny os oes materion yn codi o ymgysylltiadau neu waith arall.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Bydd unrhyw adborth o'r broses ymgynghori yn cael ei ystyried wrth lunio'r asesiad effaith terfynol cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud yn y Cyngor Llawn.

Mae Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 yn cynnwys amrediad o fesurau newydd wedi eu hadnabod i'n galluogi i fesur effaith yr economi ymweld ar nifer o feysydd.

Bwriedir monitro gweithrediad yr Ardoll yng Ngwynedd pe byddai'n cael ei fabwysiadu ar sail faint o arian a gesglir yn lleol a sut y buddsoddir yr arian hwnnw yn yr ardal er lles ein cymunedau, ein busnesau a'r amgylchedd leol.

Trwy sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll byddwn yn trafod blaenoriaethau buddsoddi ac unrhyw faterion allai godi ynghylch yr ardoll ynghylch canlyniadau anghyfartal neu sgil-ffeithiau negyddol ac yn medru addasu a newid blaenoriaethau a thrywydd pe byddai angen.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mae blaenoriaethau buddsoddi'r Ardoll yn enwi'r Gymraeg a diwylliant Cymru fel meysydd blaenoriaeth. Gallai'r Ardoll gefnogi:

- Ymgyrchoedd i hybu diwylliant a'r Gymraeg
- Cefnogaeth naws am le a Chynnig Cymraeg i fusnesau trwy hyfforddiant
- Prosiectau i warchod treftadaeth ddiwylliannol adeiledig a byw
- Cefnogaeth i'r Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi a'i weithgareddau
- Cefnogi rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol
- Cefnogi cymunedau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer ond gydag addasiadau i wella neu i gael gwared o'r meysydd o effaith andwyol a nodwyd yng Ngham 4

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiâu/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus	Mai - Gorffennaf 2026	Un tro	Roland Evans	Ia
Addasu'r Asesiad Effaith	Medi 2026	parhaol	Roland Evans	Ia

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Asesiad blynyddol ym Mhartneriaeth Gwynedd & Eryri 2035	Blynyddol	Roland Evans	Ia

Asesiad Ardrowiad Amgylcheddol

Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr cymwys o fewn ffiniau'r sir, yn unol â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025. Bwriad yr ardoll yw cefnogi economi ymweld gynaliadwy, gan ddarparu ffynhonnell incwm bwrpasol i fuddsoddi mewn cymunedau llaw-drwm gan dwristiaeth, seilwaith lleol a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith amgylcheddol bosibl o gyflwyno'r ardoll, gan ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol, ynghyd â mesurau lliniaru ac atgyfnerthu.

2. Amcanion yr Asesiad

Prif amcanion yr Asesiad Ardrowiad Amgylcheddol yw:

- Nodi effeithiau posibl yr Ardoll Ymwelwyr ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yng Ngwynedd.
- Asesu i ba raddau y gallai'r ardoll gyfrannu at reoli pwysau ymwelwyr a gwella cynaliadwyedd cyrchfannau.
- Argymhell mesurau i liniaru unrhyw effaith negyddol ac i wneud y mwyaf o fanteision amgylcheddol posibl.

3. Disgrifiad o'r Ardoll Ymwelwyr

Cynigir y bydd yr ardoll yn cael ei godi fesul person, y noson, ar arosiadau dros nos mewn llety cofrestredig. Nodir cyfradd safonol a chyfradd is ar gyfer mathau penodol o lety megis gwersylloedd a hosteli, gyda rhai eithriadau, gan gynnwys pobl ifanc o dan 18 oed mewn llety cyfradd is.

Disgwylir i'r incwm a godir gael ei gadw bron yn gyfan gwbl yn lleol, a'i fuddsoddi er budd cymunedau, busnesau, ymwelwyr a'r amgylchedd.

4. Llinell Sylfaen Amgylcheddol

Mae Gwynedd yn cynnwys ystod eang o asedau amgylcheddol sensitif, gan gynnwys:

- Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a thirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Ecosystemau bregus sy'n destun pwysau tymhorol oherwydd niferoedd uchel o ymwelwyr.
- Trefi a phentrefi hanesyddol lle gall gor-dwristiaeth effeithio ar ansawdd yr amgylchedd byw a'r dreftadaeth adeiledig.

Mae dogfennau'r Cyngor eisoes yn cydnabod bod angen rheoli'r pwysau hyn er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor economi ymweld Gwynedd.

Bu i 997 o drigolion Gwynedd ymateb i Holiadur Trigolion Gwynedd: Barn ar Dwristiaeth yn 2025 gan nodi'r ymatebion canlynol sy'n berthnasol i'r Amgylchedd:

- 42.9% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar yr amgylchedd a natur
- 28.9% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad niwtral ar yr amgylchedd a natur
- 26.1% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar yr amgylchedd a natur
- 31.4% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar lendid mannau cyhoeddus
- 31.6% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar ysbwriel
- Pe byddai Ardoll yn cael ei sefydlu yng Ngwynedd rhoddwyd blaenoriaeth i Gynlluniau Amgylcheddol o'r dewis o feysydd buddsoddi posib (Amgylcheddol / Cymunedol / Diwylliant a Iaith / Isadeiledd / Rheolaeth Cyrchfan).

5. Effeithiau Amgylcheddol Posibl

5.1 Effeithiau Cadarnhaol

Gallai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr greu nifer o fanteision amgylcheddol, gan gynnwys:

- Gwell rheolaeth ar gyrchfannau poblogaidd, drwy fuddsoddi mewn seilwaith megis llwybrau, cyfleusterau gwastraff a chyfleusterau glanweithdra.
- Buddsoddi mewn cadwraeth tirweddau, bioamrywiaeth a threftadaeth naturiol, gan liniaru difrod sy'n deillio o or-dwristiaeth.
- Annog twristiaeth fwy cynaliadwy, drwy symud y ffocws o dwf mewn niferoedd at werth ac ansawdd profiad yr ymwelydd.
- Gwellar cynnig cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus i bobl leol ac ymwelwyr.

Mae'r defnydd arfaethedig o'r incwm i wella'r amgylchedd leol wedi'i amlygu yng nghyflwyniadau a phapurau'r Cyngor ar yr ardoll.

5.2 Effeithiau Negyddol Posibl

Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau negyddol neu risgiau anuniongyrchol, gan gynnwys:

- Newidiadau mewn patrwm ymwelwyr, a allai symud pwysau tuag at ardaloedd llai parod os yw ymwelwyr yn chwilio am opsiynau rhatach.
- Risg y gallai lleihau ychydig ar nifer yr ymwelwyr arwain at ganlyniadau economaidd anuniongyrchol, gyda goblygiadau posibl i fuddsoddi parhaus mewn rheolaeth amgylcheddol os na chaiff yr incwm ei neilltuo'n glir.

Yn ogystal â'r effeithiau a nodwyd uchod, mae perygl y gallai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar arosiadau dros nos atgyfnerthu rhai ymddygiadau twristiaeth amhriodol, os na chaiff ei weithredu ochr yn ochr â mesurau rheoli a gorfodaeth priodol. Yn benodol:

- Cynnydd posibl mewn gwersylla gwyllt heb awdurdod, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif yn amgylcheddol, a all arwain at:
 - Ddifrod i gynefinoedd naturiol a bioamrywiaeth.
 - Cynnydd mewn gwastraff, baw dynol a llygredd dŵr.
 - Pwysau ychwanegol ar lwybrau troed, tir comin a safleoedd gwarchodedig.
- Parcio anghyfreithlon cartrefi modur a cherbydau gwersylla dros nos, yn enwedig ar lonydd cul, mannau arfordirol a ger cyrchfannau poblogaidd, gyda'r canlyniadau canlynol:
 - Effaith weledig negyddol ar y dirwedd a threftadaeth naturiol.
 - Rhwystro mynediad i drigolion lleol, gwasanaethau brys a gweithgarwch amaethyddol.
 - Pwysau ychwanegol ar gyfleusterau lleol nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer aros dros nos.
- Risg y gallai rhai ymwelwyr, wrth geisio osgoi costau llety cofrestredig, symud tuag at fathau o aros nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, gan danseilio nodau'r ardoll o ran:
 - Creu economi ymweld fwy cynaliadwy.
 - Sicrhau bod ymwelwyr yn cyfrannu'n deg at gostau rheoli a chynnal yr amgylchedd.
- Mae'r problemau hyn eisoes wedi'u cydnabod fel rhan o'r drafodaeth ehangach ynghylch rheoli twristiaeth a phwysau ymwelwyr ar gymunedau Gwynedd, a heb ymyrraeth briodol gallent gynyddu yn sgil newidiadau ymddygiadol anfwriadol.

6. Mesurau Lliniaru a Gwella

Er mwyn lleihau effeithiau negyddol ac atgyfnerthu buddion amgylcheddol, argymhellir:

- Clustnodi cyfran benodol o incwm yr ardoll ar gyfer prosiectau amgylcheddol a rheoli cyrchfannau.
- Monitro rheolaidd o effeithiau'r ardoll ar lif ymwelwyr a phwysau amgylcheddol, gan addasu polisiau os oes angen.
- Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol, sefydliadau amgylcheddol a'r sector twristiaeth i sicrhau bod buddsoddiadau'n targedu'r meysydd o'r angen mwyaf.
- Defnydd o incwm yr ardoll ar gynlluniau parcio cartrefi modur dynodedig, gorfodaeth a rheolaeth gwell, a seilwaith gwersylla cynaliadwy lle bo'n briodol.

Mae'r bwriad i sefydlu trefniadau llywodraethu a phartneriaeth lleol wedi'i nodi eisoes yn y gwaith polisi cysylltiedig â'r ardoll.

7. Casgliad

Mae'r asesiad yn dangos bod gan Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd, ar yr amod bod yr incwm a gesglir yn cael ei fuddsoddi'n strategol ac yn dryloyw mewn rheoli cyrchfannau a gwarchod asedau naturiol.

Gyda mesurau lliniaru priodol, gellir sicrhau bod yr ardoll yn cyfrannu at economi ymweld gynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Bwriedir addasu'r asesiad hwn i adlewyrchu unrhyw faterion penodol a godir yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

Asesiad Effaith Cymdeithasol

Ardoll Ymwelwyr Gwynedd

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr cymwys yn unol â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, gyda'r bwriad o gefnogi economi ymweld gynaliadwy a sicrhau bod manteision twristiaeth yn cael eu rhannu'n decach rhwng ymwelwyr a chymunedau lleol.

Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar **yr effaith gymdeithasol** bosibl ar bobl, cymunedau a grwpiau gwarchodedig yng Ngwynedd, gan ystyried manteision, risgiau a mesurau lliniaru.

2. Amcanion yr Asesiad

Nod yr Asesiad Effaith Cymdeithasol yw:

- Asesu effaith bosibl yr Ardoll Ymwelwyr ar gymunedau lleol, llesiant cymdeithasol a mynediad teg at wasanaethau
- Nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol ar grwpiau gwahanol, gan gynnwys grwpiau gwarchodedig
- Argymhell mesurau lliniaru i leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl
- Sicrhau bod egwyddorion tegwch, cynhwysiant a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ganolog i'r penderfyniad

3. Disgrifiad o'r Ardoll Ymwelwyr

Cynigir y bydd yr Ardoll:

- Yn cael ei godi fesul person, y noson ar arosiadau dros nos mewn llety cofrestredig
- Gyda cyfraddau gwahanol ar gyfer mathau o lety (e.e. hosteli a meysydd gweryslla) a eithriadau penodol megis:
 - Arosiadau hirdymor
 - Llety argyfwng
 - Darpariaethau ad-daliad ar gyfer pobl anabl sy'n teithio gyda gofalwr

- Bydd yr incwm yn cael ei ail-fuddsoddi'n lleol ar sail blaenoriaethau a gytunir drwy Bartneriaeth Fforwm Ardoll Ymwelwyr Gwynedd.

4. Llinell Sylfaen Gymdeithasol

Mae Gwynedd yn sir:

- Gyda chymunedau cryf eu hunaniaeth, iaith a diwylliant Cymraeg
- Sy'n profi pwysau tymhorol sylweddol mewn rhai ardaloedd oherwydd lefelau uchel o ymweliadau
- Lle mae twristiaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflogaeth, ond hefyd yn gallu:
 - Gynyddu pwysau ar wasanaethau lleol
 - Effeithio ar fforddiadwyedd tai a chydlyniant cymunedol
 - Creu tensiynau rhwng anghenion ymwelwyr a trigolion
- Bu i 997 o drigolion Gwynedd ymateb i Holiadur Trigolion Gwynedd: Barn ar Dwristiaeth yn 2025 gan nodi'r ymatebion canlynol sy'n berthnasol i elfennau cymdeithasol:
 - 69.5% yn byw mewn cymuned ble mae twristiaid yn ymweld yn aml
 - 74.1% yn credu bod twristiaeth yn cael mwy o ganlyniadau cadarnhaol na negyddol ar eu cymuned
 - 85.7% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar yr economi leol
 - 83.2% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar gyflogaeth
 - 67.1% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar bywiogrwydd y gymuned
 - 59.9% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar ansawdd bywyd
 - 21.2% yn credu bod dylanwad niwtral ar ansawdd bywyd
 - 39.4% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig
 - 35% yn credu bod dylanwad niwtral ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig
- O'r 380 oedd yn credu bod dylanwad negyddol ar eu cymuned, rhain oedd y prif faterion:
 - 67.1% - Materion Traffig
 - 63.9% - Materion Parcio
 - 53.8% - Colli'r tai sydd ar gael mewn cymunedau er budd llety tymor byr
 - 50.5% - cynnydd ym mhrisiau tai

- 48.5% - tyrfaoedd o bobl
- 38.3% - colli dilysrwydd eich ardal, gan wanhau ei hunaniaeth leol, ei hiaith a'r ffordd o fyw
- 27.5% - cynnydd mewn costau byw
- 28.8% - materion diogelwch, ymddygiad amharchus
- 21.7% - sŵn
- 21.9% - llygredd golau

Fel rhan o waith datblygu Cynlluniau Ardal Ni fe nododd **10 allan o 13 Ardal** bod twristiaeth gynaliadwy yn flaenoriaeth yn eu hardaloedd.

5. Effeithiau Cymdeithasol Cadarnhaol Posibl

5.1 Budd i Gymunedau Lleol

- Creu ffynhonnell incwm pwrpasol i fuddsoddi mewn:
 - Seilwaith cymunedol
 - Mannau cyhoeddus, canol trefi a phentrefi
 - Gweithgareddau diwylliannol a chymunedol

5.2 Gwell Llesiant Cymunedol

- Gall ail-fuddsoddi'r incwm helpu:
 - Rheoli pwysau ymwelwyr
 - Gwella ansawdd bywyd trigolion mewn ardaloedd poblogaidd
 - Cefnogi mentrau lleol sy'n cryfhau cydlyniant cymdeithasol

5.3 Cefnogi'r Gymraeg a Diwylliant Lleol

- Potensial i dargedu buddsoddiad mewn:
 - Mentrau diwylliannol
 - Digwyddiadau cymunedol
 - Seilwaith sy'n cryfhau defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

6. Effeithiau Cymdeithasol Negyddol Posibl a Risgiau

6.1 Tegwch a Chynhwysiant

- Gallai'r Ardoll:
 - Effeithio'n anghymesur ar ymwelwyr incwm is neu deithwyr ar gyllideb

- Greu pryderon am fforddiadwyedd gwyliau, yn enwedig i deuluoedd neu grwpiau penodol (risg a nodwyd hefyd gan Lywodraeth Cymru)

6.2 Effaith ar Fusnesau Bach

- Busnesau llety bach neu gymunedol:
 - Gallent bryderu am effaith ar alw os ydi ymwelwyr yn dewis peidio ymweld â Gwynedd
 - Gallai fod angen cymorth cyfathrebu a chysondeb er mwyn egluro diben yr Ardoll

6.3 Canfyddiad Cymunedol

- Heb gyfathrebu clir, gallai fod risg:
 - I'r Ardoll gael ei weld fel "treth dwristiaeth" yn hytrach na mecanwaith buddsoddi cymunedol

7. Effaith ar Grwpiau Gwarchodedig

- **Pobl anabl:** Mae darpariaethau ad-daliad yn lleihau effaith negyddol bosibl
- **Pobl Ifanc:** Buddsoddi mewn gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn gallu creu budd anuniongyrchol
- **Pobl Hŷn:** Gwell seilwaith a mannau cyhoeddus yn gallu cefnogi llesiant
- **Grwpiau Incwm Isel:** Mae'r risg o effaith negyddol ar fforddiadwyedd yn gofyn am fonitro parhaus

8. Mesurau Lliniaru ac Atgyfnerthu

Cynigir y mesurau canlynol:

- Ymgynghori cymunedol trylwyr a pharhaus ar flaenoriaethau buddsoddi
- Cyfathrebu clir bod incwm yr Ardoll yn:
 - Cael ei gadw'n lleol
 - Cael ei fuddsoddi er budd cymunedau a llesiant
- Monitro effaith gymdeithasol yn rheolaidd wrth adolygu'r Ardoll
- Creu Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd i sicrhau cyfranogiad cymunedol

9. Casgliad

Yn gyffredinol, gall mabwysiadu Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd gael effaith gymdeithasol gadarnhaol sylweddol, ar yr amod:

- Bod egwyddorion tegwch a chynhwysiant yn ganolog
- Bod yr incwm yn cael ei dargedu'n glir tuag at fudd cymunedol
- Bod y Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid

Gyda'r mesurau lliniaru priodol, mae'r Ardoll yn cynnig cyfle i gryfhau cydlyniant cymunedol a sicrhau economi ymweld sy'n gweithio'n well i bobl Gwynedd.

Bydd yr Asesiad Effaith Cymdeithasol hwn yn cael ei ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol i adlewyrchu barn ac unrhyw bwyntiau perthnasol a godir.

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod: 14 Mai 2026

Teitl yr Eitem: Adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

Swyddog Cyswllt: Ian Jones,
Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a nodir yn **Atodiad A**, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a'r uwch gyflogau a nodir yn yr atodiad.
- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol
- mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Grŵp Plaid Cymru
Pwyllgor Craffu Cymunedau	Grŵp Annibynnol
Pwyllgor Craffu Gofal	Grŵp Annibynnol

2. CEFNDIR A RHESYMEG

2.1. CYFLWYNIAD

2.1.1 Yn unol â gofynion statudol, mae'n ofynol cynnal adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, a gwneir hyn yn y cyfarfod blynyddol.

2.1.2 Adroddwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor llawn ar **y 1af o Fai, 2025** fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

<u>Grŵp</u>	<u>Nifer</u>
Plaid Cymru	46
Annibynnol	21
Llafur Rhyddfrydol	2

Cyfanswm	69
-----------------	-----------

2.1.3 Ers hynny, mae newidiadau wedi bod fel a ganlyn:

- Etholwyd y Cynghorydd Wendy Cleaver, Grŵp Annibynnol i Ward Abermaw ym mis Awst 2025 yn sgil marwolaeth y Cynghorydd Rob Triggs.
- Etholwyd y Cynghorydd Gwion Emyr, Grŵp Plaid Cymru i Ward Bethel a'r Felinheli, ym mis Tachwedd 2025, yn sgil ymddiswyddiad Iwan Huws.
- Nid oedd unrhyw effaith ar y cydbwysedd gwleidyddol yn sgil y newidiadau uchod.
- Bu i'r Cynghorydd John Pughe adael Grŵp Plaid Cymru gan ddod yn aelod unigol ym mis Rhagfyr 2025. Nid oedd hyn yn arwain at adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor gan na fu cais am adolygiad gan nad oedd yn ymuno â grŵp gwleidyddol.
- Mae'r cyn-grŵp Llafur/Rhyddfrydol wedi newid enw: 'Gwynedd yn Gyntaf' yw enw'r grŵp ers mis Ionawr 2026.
- Bu i'r Cynghorydd Gareth Anthony Roberts adael Grŵp Plaid Cymru gan ddod yn aelod unigol ddechrau mis Mai, 2026.

2.1.4 Bellach, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

<u>Grŵp</u>	<u>Nifer</u>
Plaid Cymru	44
Annibynnol	21
Gwynedd yn Gyntaf	2
Aelod unigol	2
Cyfanswm	69

2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir isod y pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

(a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafriif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.2.2 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2.1 uchod hefyd.

2.3 NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.3.1 Mae'r tabl yn **Atodiad A** yn cadarnhau pa bwyllgorau sydd i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol.

2.3.2 Yn sgil yr adolygiad o'r cydbwysedd gwleidyddol, ac yn dilyn dyrannu i'r grwpiau gwleidyddol, mae'r newidiadau i seddau ar bwyllgorau fel a ganlyn:

- Mae'r aelodau unigol yn ennill sedd dwy sedd yr un. Bydd y seddau ar y Pwyllgorau canlynol, gyda Plaid Cymru yn colli'r seddau:
- Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
- Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol
- Pwyllgor Iaith
- CYSAG

2.3.3 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn **Atodiad A**.

2.4 CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

2.4.1 Yn unol â gofynion adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny, a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.

2.4.2 Mae rheoliadau yn golygu fod fformiwla penodol ar gyfer cyfrifo'r Cadeiryddiaethau Craffu. Dilyniir fformiwla "nifer aelodau'r grŵp / nifer aelodau'r Cyngor x nifer cadeiryddiaethau pwyllgorau craffu". Mae'r rheoliadau'n nodi ei bod yn ofynol 'rowndio i lawr' ar gyfer y grŵp sydd yn y weithrediaeth. Yn yr achos yma, gan fod gan grŵp Plaid Cymru 44 aelod, mae'n golygu fod ganddynt un gadair ($44/69 \times 3 = 1.91$, ac o orfod 'rowndio i lawr' = 1).

2.4.3 Yr unig bwyllgorau y mae eu cadeiryddiaethau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol yw'r Pwyllgorau Craffu. Mae'r adolygiad blynyddol yn nodi fod **Cadeiryddiaeth dau o'r pwyllgorau craffu i'w dynodi i'r Grŵp Annibynnol a Chadeiryddiaeth un pwyllgor craffu i'w dynodi i Grŵp Plaid Cymru.**

2.4.4 Yn unol â barn Grŵp Busnes y Cyngor, argymhellir y dylid dyrannu'r cadeiryddiaethau fel a ganlyn

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Pwyllgor Craffu Cymunedau
Pwyllgor Craffu Gofal

Grŵp Plaid Cymru
Grŵp Annibynnol
Grŵp Annibynnol

2.4.5 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau nac i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw na chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu na'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth).

2.4.6 Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor Cadeirydd i 2 flynedd.

3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Fel a nodwyd uchod, ymgynghorwyd â Grŵp Busnes y Cyngor ar y 14eg o Ebrill, 2026 gan ymgynghori ymhellach ar y newidiadau diweddaraf.

3.2 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Rwyf wedi cynghori ar y mater yma ac yn fodlon gyda phriodoldeb yr argymhelliad.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Gwynedd yn gyntaf	Aelod Unigol	Cyf
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	12	6	0	0	18
Pwyllgor Craffu Cymunedau	12	5	1	0	18
Pwyllgor Craffu Gofal	12	5	1	0	18
Llywodraethu ac Archwilio	8	4	0	0	12

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Gwynedd yn gyntaf	Aelod Unigol	Cyf
Gwasanaethau Democratiaeth	9	4	1	1	15
Cynllunio	10	4	1	0	15
Trwyddedu Canolog/cyffredinol	10	5	0	0	15
Iaith	9	5	0	1	15
Penodi Prif Swyddogion	10	5	0	0	15
Apelau Cyflogaeth	5	2	0	0	7
Nifer seddau bloc A & B	97	45	4	2	148

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Gwynedd yn gyntaf	Aelod Unigol	Cyf
Pensiynau	4	2	1	0	7
Cydbwyllgor Ymgynghorol lleol	6	4	0	1	11
CYSAG	4	2	0	1	7
Cyfanswm seddau A & B & C	111	53	5	4	173

Uwch Gyflogau

Yn unol â phenderfyniad blaenorol y Cyngor telir yr uwch gyflogau a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf
- Cadeiryddion Pwyllgorau
 - Pwyllgor Craffu (x3)
 - Pwyllgor Cynllunio
 - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
 - Pwyllgor Pensiynau
- Pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor)
 - Dirprwy Bennaeth dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor)

arfod	Y Cyngor Llawn
Dyddiad	14 Mai 2026
Pwnc	Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau, Argymhellion Panel Cyfweld
Awdur	Iwan Evans, Swyddog Monitro
Penderfyniad a Geisir	Cymeradwyo argymhelliad Panel Cyfweld i benodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau

Cefndir

1. Mae Pwyllgor Safonau Gwynedd yn cynnwys pum aelod annibynnol, tri chynghorydd Gwynedd ac un cynghorydd cymuned
2. Daeth ail gyfnod un aelod annibynnol i ben ym Mawrth a bu i aelod annibynnol arall gamu yn ôl o'r pwyllgor yn ystod yr Hydref
3. Mae penodiad aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal ymarfer recriwtio cyhoeddus fel y nodir yn y Rheoliadau a sefydlu panel penodi (yn cynnwys hyd at bum aelod panel, ac yn cynnwys un aelod lleig ac un cynghorydd cymuned), i asesu ceisiadau yn erbyn y meini prawf sydd wedi eu gosod gan y Cyngor ar gyfer y swydd, ac i wneud argymhelliad ynghylch penodi i'r Cyngor llawn.
4. Rhaid i'r penderfyniad i benodi gael ei wneud gan y Cyngor llawn, gan ystyried argymhelliad y Panel Penodiadau.
5. Hysbysebwyd y swyddi gweigion yn unol â'r darpariaethau statudol a derbyniwyd tri chais.
6. Yn unol a threfniadau y Cyngor sefydlwyd Panel Penodi, a oedd yn cynnwys Mr Eifion Jones , Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Cynghorydd Cymuned Richard Parry Hughes (Aelod Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau), Cynghorwyr Gwynedd Ioan Thomas , Cadeirydd y Cyngor a Cynghorydd Anne Lloyd Jones Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a Mr Griffith Jones fel aelod lleig statudol .
7. Bu'r Panel, gyda chefnogaeth a chynghor y Swyddog Monitro, yn cyfweld â'r ymgeiswyr ar 22ain Ebrill 2026 O ystyried y meini prawf a nodir yn y fanyleb person ar gyfer y rôl, argymhellodd y Panel benodi Mrs Carys Edwards a Mr Neil Hawkins fel aelodau annibynnol. Roedd y Panel o'r farn eu bod yn ymgeiswyr cryf oedd yn cyfarch y meini prawf ar gyfer penodi ac yn fodlon eu hargymell i'r rolau yma.
- 8.. Mae Carys sydd yn byw yn Parc , y Bala wedi bod mewn swyddi uwch-swyddog Yng Nghyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Mae eisoes yn gwasanaethau fel aelod lleig ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol

Wrecsam. Mae hefyd wedi treulio cyfnod ar fwrdd rheoli Grŵp Cynefin a Bwrdd Rheoli bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel cynghorydd annibynnol.

9. Mae Neil yn byw ym Mangor a gyda chefnidir ym maes addysg ac elusennol Hyd at 2021 roedd yn Bennaeth Coleg Concord, ysgol ryngwladol . Cadeiriodd yr Elusen “Humanists UK” hyd 2025 ac mae yn gwasanaethu fel Cadeirydd elusennau “Befrienders Worldwide” a “Tough to Talk” , elusennau atal hunanladdiad.

9. Mae’r Rheoliadau’n darparu bod yn rhaid i dymor swydd yr aelodau annibynnol gael ei bennu rhwng pedair a chwe blynedd.

Argymhelliad

Argymhellir bod y Cyngor yn penodi Carys Edwards a Neil Hawkins yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.

Sylwadau Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

Swyddog Cyfrifol

Prif Swyddog Cyllid

Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ASMawrth26
Ein cyf/Our ref FM -/00161/26

Y Cynghorydd Thomas
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

30 Mawrth 2026

Annwyl Iwan,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â'r cynnig a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan Gyngor Gwynedd, sef bod y Cyngor yn gwrthwynebu system Adnabod Digidol Llywodraeth y DU ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud yr un fath hefyd.

Mae hunaniaeth ddigidol bron yn gyfan gwbl yn fater nad yw wedi'i ddatganoli, a chyhoeddwyd y system hunaniaeth ddigidol genedlaethol newydd yn wreiddiol gan y Prif Weinidog ym mis Medi y llynedd.

Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y system ar 10 Mawrth - [Gwneud i wasanaethau cyhoeddus weithio i chi gyda'ch hunaniaeth ddigidol](#), a bydd yn dod i ben ar 5 Mai.

Bydd etholiadau i'r Senedd yn cael eu cynnal ar 7 Mai. Mater i Lywodraeth newydd Cymru felly fydd ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd angen i'r Llywodraeth newydd ystyried y goblygiadau o ran Cymru a sut y bydd y cynigion yn gweithio ar gyfer gwasanaethau'r DU a gwasanaethau sy'n benodol i Gymru. Bydd angen iddynt hefyd ystyried materion fel cynhwysiant digidol a sgiliau digidol isel, mynediad at wasanaethau cyhoeddus, cydraddoldeb, a'r effeithiau posibl ar breifatrwydd a rhyddid sifil.

Yn gywir,

Eluned Morgan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.